Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 7fed Tachwedd, 2023 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH ac yn rhithiol drwy ZOOM. |
| **PWYNT CYSWLLT** | Rhodri Jones<br><br>01286 679256 / cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfrig Siencyn | Arweinydd y Cyngor |
| Nia Wyn Jeffreys | Dirprwy Arweinydd |
| Craig ab Iago | Aelod Cabinet Tai |
| Beca Brown | Aelod Cabinet Addysg |
| Berwyn Parry Jones | Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg a YGC |
| Dafydd Meurig | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Elin Walker Jones | Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Cyllid |
| Menna Trenholme | Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWYD AR 10 HYDREF 2023 | | | 4 - 13 |
| 6 | YSGOL FELINWNDA | Cyng. Beca Brown | Gwern ap Rhisiart: Pennaeth Cynorthwyol Addysg | 14 - 88 |
| 7 | DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021 - ASESIAD PERFFORMIAD PANEL | Cyng. Dyfrig Siencyn | Dewi Jones: Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor | 89 - 93 |
| 8 | CYNLLUN DIGIDOL CYNGOR GWYNEDD, 2023-28 | Cyng. Ioan Thomas | Huw Ynyr: Pennaeth Cynorthwyol Cyllid a Techoleg Gwybodaeth | 94 - 138 |
| 9 | CAFFAEL GWERTH CYMDEITHASOL | Cyng. Menna Trenholme | Arwel Evans, Rheolwr Caffael | 139 - 151 |
| 10 | TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION | Cyng. Ioan Thomas | Ffion Madog Evans: Pennaeth Cynorthwyol Cyllid | 152 - 161 |
| 11 | CYLLIDEB REFENIW 2023/24 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST | Cyng. Ioan Thomas | Ffion Madog Evans: Pennaeth Cynorthwyol | 162 - 184 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Cyllid | |
| 12 | RHAGLEN GYFALAF 2023/24 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST (SEFYLLFA 31 AWST 2023) | Cyng. Ioan Thomas | Ffion Madog Evans: Pennaeth Cynorthwyol Cyllid | 185 - 194 |
| 13 | ADRODDIAD HERIO PERFFORMIAD AELODAU CABINET ECONOMI A CHYMUNED | Cyng. Dyfrig Siencyn a Cyng. Nia Jeffreys | Sioned Williams: Pennaeth Adran Economi a Chymuned | 195 - 203 |
| 14 | ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET CEFNOGAETH GORFFORAETHOL A CHYFREITHIOL | Cyng. Menna Trenholme | Ian Jones: Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol | 204 - 215 |
| 15 | ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET TAI AC EIDDO | Cyng. Craig ab Iago | Carys Fôn Williams: Pennaeth Adran Tai ac Eiddo | 216 - 224 |

**Y CABINET DYDD MAWRTH, 10 HYDREF 2023**

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig Siencyn, Nia Jeffreys, Beca Brown, Berwyn Parry Jones, Craig ab Iago, Dafydd Meurig, Elin Walker Jones, Dilwyn Morgan, Ioan Thomas a Menna Trenholme.

**Hefyd yn bresennol-**
Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Huw Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dewi Aeron Morgan (Pennaeth Cyllid) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

| | |
|---|---|
| Eitemau 6 a 7: | Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd). |
| Eitem 8: | Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu) a Gwenllian Mair Williams (Ymgynghorydd Iaith). |
| Eitem 9: | Catrin Love (Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol) ac Eurig Huw Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol). |
| Eitem 10: | Catrin Love (Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol) a Gail Warrington (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Iechyd, Diogelwch a Llesiant). |
| Eitem 11: | Debbie Anne Jones (Pennaeth Cynorthwyol Addysg: Gwasanaethau Corfforaethol, Gwyn Tudur (Pennaeth Cynorthwyol Addysg: Uwchradd) a Rhys Meredydd Glyn (Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd). |

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol).

Croesawyd yr Aelodau Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw fater brys.

**4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU**

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

**5. COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 19 Medi fel rhai cywir.

**6. ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL – CYNLLUN DATBLYGU LLEOL 2022-23**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dafydd Meurig

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd Adroddiad Monitro Blynyddol 5 (Atodiad 1) a chytunwyd i gyflwyno i'r Llywodraeth erbyn diwedd mis Hydref 2023.

**TRAFODAETH**

Atgoffwyd yr Aelodau mai dyma'r pumed adroddiad blynyddol sydd wedi ei gyflwyno fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol. Nodwyd bod y Cynllun cyfredol yn parhau nes 2025/26. Manylwyd bod gofyniad statudol i adrodd i'r Llywodraeth yn flynyddol ar gynnydd y Cynllun a bydd hynny'n digwydd erbyn diwedd mis Hydref os byddai'r adroddiad yn cael ei gymeradwyo gan y Cabinet.

Adroddwyd bod newidiadau mawr wedi bod i rediad y Cynllun ers yr adroddiad blynyddol diwethaf. Cadarnhawyd bod y trefniant o gydweithio ar y Cynllun gydag Ynys Môn wedi dirwyn i ben ac mae Cyngor Gwynedd wedi sefydlu Gweithgor Polisi Cynllunio o 15 Aelod i ymgymryd â'r gwaith erbyn hyn. Cadarnhawyd bod sylwadau'r Gweithgor wedi cael ei gynnwys yn yr adroddiad.

Eglurwyd bod dangosyddion lliwiau goleuadau traffig yn cael ei ddefnyddio i fonitro effeithiolrwydd polisïau a rhoi trosolwg o berfformiad y Cynllun. Cadarnhawyd bod:

- 33 o bolisïau yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau – dangosydd gwyrdd.
- 21 o bolisïau ddim yn cael eu cyflawni fel y rhagwelwyd (ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisïau) – dangosydd oren.
- 5 o bolisïau sydd ddim yn darparu canlyniad disgwyliedig (ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithredu'r polisïau) – dangosydd coch.

Sicrhawyd bod unrhyw bolisi sy'n syrthio i'r dangosydd coch yn derbyn ystyriaeth wrth symud ymlaen gyda'r Cynllun. Cadarnhawyd bod 11 o bolisïau wedi cael eu cyflawni ac ddim yn cael eu cynnwys mewn unrhyw ddangosydd.

Nodwyd y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 315 o unedau preswyl newydd yn ystod y flwyddyn 2022/23, gyda 298 ohonynt wedi eu cwblhau. Manylwyd bod 122 o'r rhain yn unedau fforddiadwy. Adroddwyd bod hyn yn 41% o'r holl unedau a gwblhawyd o fewn y flwyddyn sy'n uwch na'r targed disgwyliedig. Ystyriwyd bod unedau yn derbyn statws 'unedau fforddiadwy' oherwydd cyfyngiadau, maint a lleoliadau ac felly mae'n anorfod na fydd holl unedau a adeiladir gan y Cyngor yn mynd i dderbyn y statws hwn.

Eglurwyd bod Dangosydd D21 yn gosod targedau ar gyfer cyfarch yr adnoddau ynni adnewyddadwy posibl a gydnabuwyd yn y Cynllun. Atgoffwyd bod disgwyl y buasai 50% o hyn wedi ei gyfarch erbyn 2021. Cydnabuwyd nad yw'r targed yma wedi ei

gyfarch hyd yma oherwydd prinder niferoedd y ceisiadau a dderbyniwyd fel rhan o'r cynllun hyd yma. Ystyriwyd hefyd bod nifer o brosiectau ynni adnewyddadwy wedi eu lleoli ar Ynys Môn ac felly bydd angen diwygio'r targedau. Esboniwyd bod Gweithgor Polisi Cynllunio wedi adnabod y diffyg hwn fel gwendid ac yn dymuno adfer y sefyllfa.

Cydnabuwyd bod gan Cyngor Gwynedd gynlluniau cyffelyb gyda Pharc Cenedlaethol. Manylwyd bod y berthynas rhwng y ddau awdurdod yn gryf. Er hyn, nodwyd nad oes modd uno cynlluniau gyda'r Parc oherwydd ei fod yn awdurdod annibynnol, yn ogystal â'r ffaith bod rhan o 'i ardal wedi ei leoli o fewn tiriogaeth Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy.

**7. CYNLLUN CYFLAWNI DRAFFT – CYNLLUN DATBLYGU LLEOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dafydd Meurig.

**PENDERFYNIAD**

1. Derbyniwyd y Cytundeb Cyflawni a chynigwyd sylwadau ar y cynnwys.
2. Cytunwyd i'r Cytundeb Cyflawni fynd allan i ymgynghoriad cyhoeddus am 6 wythnos.
3. Dirprwywyd hawl i Bennaeth Adran Amgylchedd wneud addasiadau golygyddol er mwyn cywirdeb cyn i'r ddogfen fynd allan i ymgynghoriad cyhoeddus.

**TRAFODAETH**

Eglurwyd bod y Cytundeb Cyflawni yn rhan o gamau cychwynnol o greu Cynllun Datblygu Lleol newydd. Nodwyd fod y broses honno yn un hir a thechnegol oherwydd bod camau pendant i'w cyfarch ar amserlen statudol.

Esboniwyd byddai'r cytundeb cyflawni yn mynd i ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid allweddol os byddai'r Cabinet yn ei gymeradwyo. Manylwyd bydd y cytundeb yn mynd ger bron Gweithgor Polisi Cynllunio ym mis Ionawr, Y Cabinet ym mis Chwefror a'r Cyngor Llawn ym mis Mawrth cyn cael ei dderbyn yn swyddogol.

Adroddwyd bod Gweithgor Polisi Cynllunio wedi ystyried y Cytundeb Cyflawni eisoes ac bod eu sylwadau wedi eu nodi yn yr adroddiad. Cadarnhawyd bod Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi ystyried y Cytundeb. Nodwyd nad oedd yr amserlen yn caniatáu cynnwys eu sylwadau o fewn yr adroddiad i'r Cabinet. Rhoddwyd grynodeb o'u ystyriaethau:

- Cysidrwyd bod 'ymgynghoriaeth' yn risg o fewn y Cytundeb. Nodwyd hyn oherwydd pwysigrwydd ymgynghori o fewn y cynllun a'r risg o beidio ymgynghori yn ddigonol. Ystyriwyd byddai ei gynnwys fel risg yn sicrhau ei fod yn derbyn sylw cyson. Gofynnwyd a oes gwersi wedi eu dysgu o ymgynghoriadau blaenorol ac ystyriwyd os oes modd ymgorffi'r newidiadau hyn o fewn eu hymgynghoriad.
- Croesawyd bod y rhestr o gyrff y bwriedir ymgynghori â hwy yn cynnwys grwpiau sydd wedi eu tangynrychioli ac bod yr ymgynghoriad yn agored i bawb ymateb iddo.
- Pryderwyd y defnyddir dulliau arferol wrth ymgynghori a gofynnwyd i swyddogion sicrhau bod dulliau amgen o ymgynghori yn cael eu defnyddio.

- Derbyniwyd bod rôl i holl Aelodau gefnogi'r gwaith a chymryd perchnogaeth ohono.

Cydnabuwyd bod angen ymgynghori'n drwyadl a chlir gyda holl gyrff perthnasol. Nodwyd bod gofynion statudol i'r broses ymgynghori ond mae lle i'r Cyngor wella ar y gofynion hyn.

Pwysleisiwyd bod yr amserlen a osodwyd gan y Llywodraeth i greu Cynllun newydd yn dynn iawn. Er hyn, cadarnhawyd bod 'ymgynghoriaeth' yn cael ei ychwanegu fel risg o fewn y Cytundeb Cyflawni erbyn dechrau'r ymgynghoriaeth gyhoeddus. Sicrhawyd bod yr Adran yn cydweithio gyda'r gwasanaeth Cyfathrebu er mwyn gwneud pob ymdrech i ymgynghori'n effeithlon a thrylwyr.

Trafodwyd bod yr Adran wedi llwyddo i ddenu i benodi swyddogion yn dilyn pob hysbyseb swydd yn y misoedd diwethaf. Nodwyd nad yw capasiti swyddogion yn cael ei ystyried yn risg i gyflawni'r Cytundeb ar hyn o bryd ond cadarnhawyd bydd y sefyllfa yn cael ei monitro'n barhaus.

**8. STRATEGAETH IAITH GWYNEDD 2023-2033**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Menna Trenholme.

**PENDERFYNIAD**

Cefnogwyd addasiadau sydd wedi eu gwneud i'r Strategaeth Iaith yn sgil yr ymgynghoriad cyhoeddus ac argymhellwyd i'r Cyngor Llawn eu bod yn mabwysiadu'r strategaeth.

**TRAFODAETH**

Eglurwyd bod y strategaeth ddrafft yn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i hybu a hyrwyddo'r iaith ar draws y sir ac mae'n bodloni gofynion statudol Safonau'r Gymraeg. Rhannwyd y weledigaeth i greu strategaeth gynhwysol ar gyfer y 10 mlynedd nesaf sy'n cynyddu defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yng Ngwynedd.

Adroddwyd y cynhaliwyd ymgynghoriad yn ystod mis Ebrill a Mai 2023 ac bod ymateb cadarnhaol wedi ei dderbyn. Manylwyd bod sicrhau cyfleoedd digonol ac addas i bobl ddysgu Cymraeg a magu hyder wrth siarad yr iaith yn themâu cyson yn yr ymatebion hyn. Cydnabuwyd bod rhai ymatebion llai cadarnhaol wedi dod i law megis sylwadau yn nodi na ddylai'r Cyngor ddefnyddio'r Gymraeg fel ffordd o wahaniaethu ac na ddylid gwastraffu adnoddau prin ar yr iaith.

Cydnabuwyd ei fod yn siomedig mai dim ond 3 ymateb i'r holiadur a gyflwynwyd gan unigolion rhwng 25 a 34 oed. Yn sgil y canlyniad hwn, adroddwyd bod grwpiau ffocws wedi cael ei gynnal i unigolion rhwng 16 a 20 oed. Cadarnhawyd bod cynnal ymgynghoriadau gyda unigolion ifanc yn heriol ac mae'r uned yn gweithio i ganfod dulliau newydd o ymgysylltu er mwyn sicrhau nifer uwch o ymatebion yn y dyfodol.

Cadarnhawyd nad oedd awgrymiadau am newidiadau ymarferol i'r strategaeth yn deillio o'r ymgynghoriad. Pwysleisiwyd nad oes newidiadau mawr wedi cael eu gwneud i'r strategaeth, dim ond man addasiadau. Tynnwyd sylw at yr addasiadau canlynol;

- Diwygiwyd y strategaeth i gynnwys mwy o ffocws ar dechnoleg gan ei fod yn cael ei adnabod fel her ymhob maes gweithredu.
- Ystyriwyd os oes modd cynyddu presenoldeb y Gymraeg ar gyfryngau cymdeithasol wrth ddatblygu'r rhaglen waith, gan bod ymatebwyr yn ei nodi fel her.
- Newidiwyd y strategaeth i gyfarch pryderon am agweddau pobl a heriau economaidd a effeithir ar ddefnydd o'r iaith Gymraeg yn hytrach na heriau demograffig a Sylfaen Tystiolaeth.

Esboniwyd bod y rhaglen yn rhoi sylw i'r Gymraeg mewn cynlluniau strategol fel CYSGA, prosiectau megis prosiect enwau llefydd sy'n rhoi statws i enwau Cymraeg a phrosiect15 sy'n ceisio annog defnydd o'r Gymraeg gan blant a pobl ifanc yn ddigidol.

Pwysleisiwyd ei fod yn rhaglen waith byw sy'n cael ei haddasu fel bo'r angen yn codi. Eglurwyd nad oes cyllideb penodol ar gyfer gweithredu'r strategaeth iaith ac felly mae angen sicrhau bod cyllideb ddigonol ar gael i weithredu prosiectau'r rhaglen waith drwy gyflwyno bidiau am arian drwy system bidiau corfforaethol y Cyngor fel bo'r angen yn codi.

Cadarnhawyd bydd yr Uned Iaith a Chraffu yn diweddaru'r Cabinet ar gynnydd y rhaglen waith a gweithrediad y Strategaeth fel rhan o'u hadroddiad blynyddol am y maes iaith. Manylwyd hefyd bydd yr holl adrannau hefyd yn egluro eu cyfraniadau i weithredu'r strategaeth fel rhan o'u hadroddiadau blynyddol i'r Pwyllgor Iaith, yn ogystal â rhannu data gyda'r Uned Iaith a Chraffu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Cyfeiriwyd at Menter Iaith Gwynedd a nodwyd bod rhaglen waith yn cael ei gytuno gyda hwy er mwyn gweld sut gellir cydweithio ar wahanol rannau o'r strategaeth. Eglurwyd bydd y cydweithio hyn yn digwydd yn naturiol gan eu bod yn rhan o Fforwm Iaith Gwynedd.

## 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL - CYFLOGAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Menna Trenholme.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2022/23.

**TRAFODAETH**

Adroddwyd bod niferoedd gweithlu'r Cyngor ar gynnydd gan fod cyfanswm o 5,995 o bobl yn gweithio i'r Cyngor erbyn diwedd mis Mawrth eleni, o'i gymharu â 5,908 y llynedd. Nodwyd bod cynnydd mewn nifer o staff yn groes i'r hyn a ddisgwylir mewn cyfnod ble mae angen gwneud toriadau i gyfarch cyllideb y Cyngor. Eglurwyd mai staff yw prif asedau'r Cyngor ac felly mae pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau bod unrhyw doriant i wasanaethau'r Cyngor yn cael ei wneud heb leihau niferoedd y gweithlu. Manylwyd hefyd bod nifer o aelodau staff yn cael ei ariannu drwy grantiau sydd ddim yn deillio o gyllideb y Cyngor.

Tynnwyd sylw at yr ystadegyn bod 71.2% o weithlu'r Cyngor yn ferched ac bod y ffigwr hwn yn sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf. Nodwyd bod mwy o ferched yn gweithio yn rhan amser yn hytrach na llawn amser.

Nodwyd bod 65% o weithlu'r staff dros 50 oed a bod 40% yn hŷn na 50 oed. Cydnabuwyd bod hyn yn cael ei gysidro fel risg oherwydd y posibilrwydd o golli blynyddoedd o brofiad a gwybodaeth mewn cyfnod byr yn y dyfodol. Sicrhawyd bod pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau nad ydi'r golled hyn yn digwydd gan fod cynllunio'r gweithlu yn flaenoriaeth gorfforaethol i'r Cyngor hwn, drwy brentisiaethau, hyfforddai proffesiynol a rhaglenni eraill i foderneiddio prosesau recriwtio'r Cyngor. Manylwyd hefyd bod mesur trosiant staff a chael dealltwriaeth o'r rhesymau tu ôl i hynny yn allweddol a chymhleth ac felly mae trefniant mewn lle i gynnal holiaduron a chyfweliadau gadael i unigolion.

Ymfalchïwyd bod 38.4% o staff heb fod yn sâl o gwbl o fewn y cyfnod 2022/23. Cydnabuwyd bod y ffigwr hwn yn is na 43% yn 2021/22 sy'n achosi pryder bod niferoedd salwch ar gynnydd. Nodwyd bod canran o staff sydd i ffwrdd o'r gwaith yn sâl yn disgyn i mewn i gategori 'Arall', hynny yw, nid ydynt yn wael oherwydd rhesymau haint, cefn/gwddf, cyhyrysgerbydol, straen neu gategori penodol arall, ac felly mae'n anodd cefnogi'r aelodau staff hynny. Er hyn, pwysleisiwyd bod gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant yn darparu ystâd eang o wasanaethau i gefnogi unrhyw aelod o staff sy'n wael, gan nodi bod mwy o salwch i'w weld mewn rhai adrannau nac eraill.

Nodwyd bod gwaith yn cael ei wneud i hysbysu'r gweithlu o nodi y categori cywir fel y rheswm eu bod i ffwrdd o'r gwaith, er mwyn sicrhau bod y gefnogaeth gywir yn cael ei ddarparu iddynt. Cadarnhawyd y gobeithir bydd y broses o adrodd salwch yn cael ei symleiddio dros y flwyddyn nesaf gan gynnwys system syml fel rhan o adnodd Hunanwasanaeth Staff.

Sicrhawyd bod cynadleddau achos yn digwydd gydag adrannau a'r gwasanaethau adnoddau dynol er mwyn trafod achosion o absenoldebau tymor hir er mwyn canfod dulliau o gefnogi staff yn ôl i'r gwaith.

Cadarnhawyd y cyflawnwyd archwiliad annibynnol yn ystod 2022/23 ar strwythur tâl a chyflog y Cyngor. Casglwyd bod systemau tâl y Cyngor yn ymdrin â chyflogau'n gyfartal.

Tynnwyd sylw fod y materion a gynhwysir o fewn yr adroddiad yn heriau hir dymor ac o'r herwydd yn faterion sy'n cael eu trafod yn flynyddol. Manylwyd bod rhaid yn cynnwys prif heriau sy'n wynebu'r Cyngor fel cyflogwr sef

- Cynllunio'r gweithlu ar gyfer y dyfodol.
- Parhau i hyrwyddo a chefnogi llesiant corfforol a meddyliol ein gweithlu.
- Sefydlu cynllun gweithio i'r dyfodol.

## 10. ADRODDIAD BLYNYDDOL DIOGEL A LLES IECHYD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Menna Trenholme.

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd yr adroddiad a datganwyd bodlonrwydd y Cabinet gyda'r adroddiad.

**TRAFODAETH**

Adroddwyd bod effeithiau Covid-19 dal i'w gweld o fewn y maes hwn, gan bod gwaith dydd i ddydd arferol wedi cronni dros gyfnod y pandemig. Manylwyd bod swyddogion y gwasanaeth wedi bod yn canolbwyntio ar ganllawiau'r llywodraeth drwy gyfnod Covid yn ogystal â chefnogi rheolwyr wrth addasu i'r normal newydd gyda'u timoedd.

Ymhelaethwyd bod nifer o weithwyr y Cyngor yn parhau i weithio o adref, ac mae yna ddyletswydd gofal ar y Cyngor i sicrhau eu bod yn gwneud hyn yn ddiogel. Adroddwyd bod 2063 o holiaduron wedi eu gyrru i'r gweithlu i asesu ei gweithfan. Cadarnhawyd bod 73% o'r gweithlu wedi ymateb i'r holiaduron, gan arwain at 239 o asesiadau pellach gan y gwasanaeth.

Atgoffwyd bod gofyniad cyfreithiol i adrodd ar ddamweiniau sy'n cyfarch rheoliadau RIDDOR (Reporting of Injuries, Diseases and Dangerous Occurences Regulations 2013) i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (AGID).

Cadarnhawyd nad oes angen adrodd ar achosion Covid a nodwyd bod niferoedd sydd wedi eu hadrodd o dan drefn RIDDOR wedi gostwng ychydig yn is na'r hyn a welwyd yn 2019.

Datganwyd bod lefelau damweiniau yn gyffelyb i'r lefelau cyn y pandemig. Nodwyd bod tueddiadau o ran patrwm yn parhau yn fewnol o fewn y Cyngor ac yn genedlaethol oherwydd mai symud a thrin, a llithro a baglu yw'r ddau brif achos dros ddamweiniau. Manylwyd bod achosion eraill o ddamweinio yn amrywio o gyflyrau iechyd penodol sydd wedi eu  hachosi gan y gwaith, ymosodiadau a damweiniau cerbyd.

Adroddwyd bod AGID wedi cynnal ymweliadau arolygol gyda'r Cyngor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Nodwyd eu bod wedi ymweld â dwy ysgol yn y sir am reolaeth asbestos yn ogystal â ymweliad i safle Coed Ffridd Arw, Dolgellau ar faterion trin gwastraff. Cadarnhawyd mai canlyniad yr ymweliadau hyn oedd bod yr arolygwyr yn hapus ond bu i'r Cyngor dderbyn llythyr dilyniant ar fân faterion sydd wedi golygu ffi ymyrraeth o oddeutu £600. Sicrhawyd bod argymhellion yr AGID wedi cael ei rannu gyda'r gwasanaeth Eiddo er mwyn sicrhau bod ysgolion eraill y sir yn cydymffurfio ac i osgoi ffioedd cyffelyb.

Esboniwyd bod nifer o gyrsiau hyfforddiant wedi cael ei gynnal gan y gwasanaeth. Nodwyd bod y rhain yn cynnwys cwrs Arwain yn Ddiogel i'r Uwch Dim Rheoli er mwyn anelu i integreiddio diwydiant iechyd, diogelwch a lles i bob agwedd o'r Cyngor. Manylwyd bod hyfforddiant Iechyd, Diogelwch a Llesant wedi bod yn cael ei gynnal yn ogystal â chyrsiau IAct i gynorthwyo rheolwyr i ddelio gyda materion iechyd meddwl. Eglurwyd bod 93 o reolwyr wedi manteisio ar yr hyfforddiant hwn hyd yma, a bod yr adran wedi derbyn adborth cadarnhaol am ei gynnwys. Soniwyd bod yr adran yn casglu data i weld faint o reolwyr sydd eto i gwblhau'r hyfforddiant.

Cadarnhawyd bod rhaglen Gwyliadwriaeth Iechyd o fewn gwasanaethau iechyd galwedigaethol wedi cael ei ailgydio ynddo, yn unol â gofynion statudol.

Tynnwyd sylw at y nifer o gyfeiriadau sydd wedi cyrraedd y gwasanaeth dros y 5 mlynedd ddiwethaf. Adroddwyd bod niferoedd yr atgyfeiriadau wedi cynyddu ym mis Tachwedd 2022 a mis Mawrth 2023. Cadarnhawyd bod iechyd meddwl a chyhyrysgerbydol yn parhau i fod yn brif achosion absenoldebau salwch o fewn gweithlu'r Cyngor. Ystyriwyd mai dyma'r prif achosion oherwydd ymwybyddiaeth gyhoeddus am y materion, a'r hyn sydd gan y Cyngor ar gael i'w staff ddelio gyda'r materion hyn os ydynt yn delio â nhw. Nodwyd hefyd bod y ffaith fod y Bwrdd Iechyd yn delio gyda problemau ar hyn o bryd, bod posibilrwydd bod staff yn cyfeirio i'r Cyngor am gymorth gan ei fod yn gyflymach. Cadarnhawyd bod hyn yn creu heriau o fewn y gwasanaeth ac bod angen ymyrraeth ddwys.

**11. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET ADDYSG**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Beca Brown.

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Llongyfarchwyd myfyrwyr y sir ar eu canlyniadau arholiadau eleni yn dilyn cyfnod addysgol heriol iawn yng nghyfnod Covid. Mynegwyd diolchiadau i'r gwasanaeth ieuenctid am eu gwaith, yn enwedig i Andrew Owen, Gweithiwr Cymorth Ieuenctid, sydd wedi derbyn gwobr rhagoriaeth yn ddiweddar fel Gweithiwr Ieuenctid Eithriadol.

Cyfeiriwyd at adroddiad cadarnhaol a dderbyniwyd gan ESTYN yn ddiweddar yn dilyn arolygiad. Manylwyd bod sylwadau am y gyfundrefn drochi a'r iaith Gymraeg yn addawol iawn. Er hyn, nodwyd bod heriau yn parhau gyda presenoldeb disgyblion gan fod cyfraddau yn is na'r dymunir, ers y pandemig. Cadarnhawyd bod gan yr adran nifer o raglenni i gyfarch yr her hon. Nodwyd nad oes cynlluniau tymor hir wedi cael eu cyhoeddi gan Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd ond cydnabuwyd bod presenoldeb yn flaenoriaeth i'r awdurdod sy'n cael ei gefnogi drwy farchnata pwysigrwydd mynychu'r ysgol pob diwrnod a ymgeisio i beidio mynd ar wyliau yn ystod tymor addysgol.

Adroddwyd bod yr adran yn ffocysu ar faterion yn ymwneud â llesiant, oherwydd mae materion llesiant yn ffactor mawr i resymau pan nad yw disgyblion yn mynd i'r ysgol. Manylwyd bod gwaith yn cael ei wneud i ymchwilio i gostau mynd a plant i'r ysgol drwy holiaduron i weld gostau llawn a chuddiedig nad yw'r adran yn ymwybodol ohonynt, gan fod hyn yn effeithio ar lesiant teuluoedd.

Nodwyd bod gwaith yn cael ei gwblhau ym maes cydraddoldeb i sicrhau bod pawb yn hapus i fynd i'r ysgol, ac yn cael eu parchu am fod yn nhw eu hunain.

Tynnwyd sylw at nifer o faterion eraill sydd wedi cael eu cyflawni gan yr adran yn ddiweddar megis gwaith moderneiddio addysg a cynllun cinio ysgol am ddim.

Diolchwyd i'r  Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi sydd wedi bod yn cynnal ymchwiliad craffu Ysgolion Uwchradd Categori 3 Gwynedd a nodwyd bydd yr argymhellion sy'n deillio i'r ymchwiliad yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet pan yn amserol.

Rhannwyd dymuniadau gorau i Garem Jackson, sydd wedi ymddiswyddo o'i rôl fel Pennaeth Adran Addysg yn ddiweddar. Diolchwyd iddo am ei waith a'i ymroddiad i'r adran, a mynegwyd pob dymuniad da iddo i'r dyfodol.

## 12. ADRODDIAD HERIO PERFFORMIAD YR AELOD CABINET CYLLID

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Ioan Thomas.

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Eglurwyd bod yr adroddiad wedi dyddio ychydig gan fod y cyfarfod herio perfformiad wedi cael ei gynnal ers mis Gorffennaf.

Cadarnhawyd bod Cyngor Gwynedd wedi gwireddu dros £39.1m o gynlluniau arbedion ers 2015/16. Manylwyd bydd adolygiad ffurfiol o sefyllfa cyllidebol adrannau'r Cyngor yn 2023/24 wedi cael ei wneud ar ddiwedd Awst 2023 ac mae adroddiad o'r adolygiad hwnnw ar agenda Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 12 Hydref 2023.

Tynnwyd sylw i Gynllun Digidol 2023-28 gan fod nifer o ddatblygiadau wedi digwydd yn rhan o Gynllun Cyngor Gwynedd 2023-28.Cadarnhawyd bod adroddiad pellach ar y Cynllun Digidol yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 07 Tachwedd 2023, a fod y mater eisoes wedi cael ei flaen-graffu gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ym mis Medi. Bydd sylwadau'r pwyllgor hwnnw yn cael eu hymgorffori yn y fersiwn fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet.

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr Adran yn gyfrifol am weithredu'r drefn o dalu'r anfonebau a gyflwynir i'r Cyngor. Eglurwyd bod anfonebau yn cael eu trefnu i'w dalu mor fuan a phosibl, yn hytrach na defnyddio system 30 diwrnod. Perfformiad yr Adran yn y cyfnod hyd ddiwedd Mehefin oedd i dalu anfonebau lleol o fewn 16 diwrnod ac unrhyw anfoneb arall o fewn 26 diwrnod. Pwysleisiwyd bod y maes hwn yn derbyn sylwi'n rheolaidd fel rhan o gyfarfodydd herio perfformiad yr Adran ac mae'n fesur cyflawni allweddol.

Rhannwyd diweddariad ar berfformiad rhai o wasanaethau'r adran, gan gynnwys:

- Gwasanaeth Dysgu Digidol (sydd o dan reolaeth y Cyngor ers i gwmni Cynnal ddod i ben). Nodwyd bod capasiti'r tîm i gefnogi ysgolion wedi bod yn is na'r disgwyl yn y cyfnod dan sylw oherwydd absenoldebau staff ond disgwylir i hyn wella dros y misoedd nesaf. Cydnabuwyd bod yr adran wedi bod yn delio gyda heriau o ddenu ymgeiswyr i swyddi technoleg gwybodaeth y Cyngor, oherwydd natur arbenigol y swyddi, ond bod y sefyllfa yn cael ei adfer erbyn hyn.
- Buddsoddi a Rheoli Trysorlys: Cadarnhawyd bod perfformiad Cronfa Bensiwn Gwynedd o fewn y chwarter uchaf o gronfeydd pensiwn llywodraethau lleol y Deyrnas Unedig. Nodwyd ar sail perfformiad 3-bynedd roedd y Gronfa yn y 3ydd safle o bron i 100 o gronfeydd ac yn y 7fed safle dros 5 mlynedd. Cadarnhawyd bod hyn yn dangos bod perfformiad y Gronfa wedi bod yn gryf iawn.

- Gwasanaeth Pensiynau: Adroddwyd bod y gwasanaeth wedi ymweld â stondin y Gwasanaeth Pensiynau yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni ac roedd nifer fawr o bobl wedi manteisio ar y cyfle i ddeall eu pensiwn a derbyn cymorth.
- Gwasanaeth Cyflogau: Cydnabuwyd bod nifer o heriau, gan gynnwys ymdrin â thaliadau anghyfunol i athrawon. Yn sgil diffyg arweiniad gan Lywodraeth Cymru, roedd rhaid cyfrifo cyflogau yn unigol a'u bwydo i mewn i system gyflogau. Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith ac i sicrhau nad oedd oediad yn nhaliadau staff y Cyngor.
- Gwasanaeth Trethi: Cadarnhawyd bod llinellau ffôn bellach ar agor nes 5yh o'r gloch. Atgoffwyd bod y llinellau ffôn wedi bod yn cau am 2yh yn y gorffennol yn sgil capasiti staff. Hyderwyd bydd hyn yn cynyddu ansawdd y gwasanaeth.
- Gwasanaeth Yswiriant a Rheoli Risg: Pryderwyd bod adroddiadau gan adrannau'r Cyngor ddim yn cyrraedd y gwasanaeth yn amserol, heb ddigon o fanylion ynddyn nhw, sy'n atal y gwasanaeth rhag gweithredu'n effeithiol. Ystyriwyd bod angen diwygio'r broses hon er mwyn gwella'r sefyllfa.
- Gwasanaeth Cyllid a Chyfrifeg/Taliadau: Cadarnhawyd bod 6 set o gyfrifon llawn wedi cael eu paratoi a bydd Archwilio Cymru yn adrodd yn ôl ar rhain yn ystod mis Tachwedd. Diolchwyd i staff yr adran a gafwyd eu cyfweld yn rhan o archwiliad ESTYN.

Cadarnhawyd bod yr Adran wedi cyflawni ei holl gynlluniau arbed ar gyfer y cyfnod 2015/16 hyd 2022/23. Nodwyd bod un cynllun arbed yn parhau o fewn y rhaglen 2022/23 sef 'Denu Incwm ychwanegol drwy Asiantaeth Casglu Mewnol'. Cydnabuwyd na fydd y cynllun hwn am wireddu ei darged arbedion o £25,000 felly mae'r Adran yn parhau i edrych am gynllun amgen.

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00pm a daeth i ben am 2:50pm

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cabinet Cyngor Gwynedd** |
| **DYDDIAD** | **7 Tachwedd 2023** |
| **AELOD CABINET** | **Cynghorydd Beca Brown** |
| **SWYDDOG** | **Gwern ap Rhisiart** |
| **TEITL YR EITEM** | **Ysgol Felinwnda** |

## 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

a) Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo'n derfynol y cynnig o dan Adran 43 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, a roddwyd drwy rybudd statudol, i gau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023, , a'r disgyblion presennol i drosglwyddo i ysgol amgen cyfagos, sef Ysgol Bontnewydd neu Ysgol Llandwrog, yn unol â dewis rhieni, o 1 Ionawr 2024.

b) Cymeradwyo trefniadau cludiant ar gyfer y cyfnod trosiannol yn unig, fyddai'n cynnig cludiant am ddim i'r dysgwyr rheiny sydd wedi cofrestru yn Ysgol Felinwnda ar hyn o bryd, ac yn byw yn nalgylch Ysgol Felinwnda, i Ysgol Bontnewydd neu Ysgol Llandwrog, am weddill cyfnod y dysgwr yn un o'r ysgolion rheiny, yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd.

c) Caniatáu cynnal ymgynghoriad ar ddyfodol dalgylch presennol Ysgol Felinwnda er mwyn cytuno pa ysgol, neu ysgolion, fydd yn gwasanaethu fel ysgol dalgylch i blant dalgylch presennol Ysgol Felinwnda i'r dyfodol.

## 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1 Ar sail CYBLD (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddoedd ar Lefel Disgyblion) Ionawr 2023, Ysgol Felinwnda yw'r ysgol gyda'r nifer isaf o ddysgwyr yn y sir, gyda chyfanswm o 8 o ddysgwyr. O ganlyniad, cyflwynodd yr Adran Addysg adroddiad i'r Cabinet ar 11 Gorffennaf 2023 yn gofyn am ganiatâd i gynnal cyfnod gwrthwynebu statudol ar y cynnig i gau Ysgol Felinwnda yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a chod statudol Llywodraeth Cymru (Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018).

2.2 Mae adran 48(3) Deddf 2013 yn nodi nad yw'r gofyniad i ymgynghori yn gymwys i gynigion i gau 'ysgol fach' fel y diffinnir yn y Ddeddf, ac mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 yn nodi:

> *"Os oes gan ysgol lai na 10 disgybl cofrestredig (neu os nad oes unrhyw ddisgyblion ar ôl mewn ysgol) pan gynhelir y cyfrifiad ym mis Ionawr, mae Deddf 2013 yn caniatáu i gyrff llywodraethu/awdurdodau lleol ddilyn gweithdrefn symlach er mwyn cau'r ysgol yn swyddogol.*
>
> *Yr unig beth y byddai'n ofynnol iddynt ei wneud o dan y weithdrefn honno fyddai cyhoeddi'r hysbysiad cau – byddai'r gofyniad i ymgynghori'n gyffredinol yn cael ei hepgor, cyhyd â bod digon o leoedd mewn ysgolion cyfatebol wedi'u nodi a fyddai'n rhesymol hygyrch i'r disgyblion hynny sydd wedi'u dadleoli neu a allai gael eu dadleoli."*

Felly gan fod ond 8 o ddysgwyr cofrestredig yn Ysgol Felinwnda yn CYBLD Ionawr 2023, mae Cod Trefniadaeth Ysgolion yn caniatáu'r awdurdod i ddilyn gweithdrefn symlach er mwyn cau'r ysgol. Yn benodol, bu i'r gofyniad i ymgynghori'n gyffredinol yn cael ei hepgor. Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion, yr unig beth oedd yn ofynnol i'r awdurdod ei wneud oedd cyhoeddi hysbysiad statudol a cynnal cyfnod gwrthwynebu arferol, gan yna ystyried unrhyw wrthwynebiadau a dderbynnir cyn dod i benderfyniad terfynol.

Yn dilyn cyflwyno adroddiad i Gabinet ar 11 Gorffennaf bu iddynt:

a) Gymeradwyo cychwyn y broses i gau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023 o dan adran 43 Deddf Safonau a Threfniadaeth (Cymru) 2013.

b) Gymeradwyo cyhoeddi rhybudd statudol, ar y cynnig i gau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023, gan ganiatáu cyfnod gwrthwynebu statudol o 28 diwrnod yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, a'r dysgwyr presennol i drosglwyddo i ysgol amgen cyfagos, sef Ysgol Bontnewydd neu Ysgol Llandwrog, yn unol â dewis rhieni, o 1 Ionawr 2024.

c) Gymeradwyo trefniadau cludiant ar gyfer y cyfnod trosiannol yn unig, fyddai'n cynnig cludiant am ddim i'r dysgwyr rheiny sydd wedi cofrestru yn Ysgol Felinwnda ar hyn o bryd, ac yn byw yn nalgylch Ysgol Felinwnda, i Ysgol Bontnewydd neu Ysgol Llandwrog, am weddill cyfnod y dysgwr yn un o'r ysgolion hynny, yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd.

ch) Yn amodol ar benderfyniad y Cabinet ynglŷn â'r cynnig i gau Ysgol Felinwnda, caniatáu cynnal adolygiad o ffiniau dalgylch ysgolion sy'n ffinio dalgylch presennol Ysgol Felinwnda.

## 3. CYFNOD GWRTHWYNEBU STATUDOL

Yn unol â phenderfyniad Cabinet, cyhoeddwyd Rhybudd Statudol (**Atodiad A**) ar 5 Medi 2023, gan gychwyn cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod. Rhoddwyd y rhybuddion ar giatiau'r ysgol ac ar wefan y Cyngor gyda chefndir y cynnig, linc i adroddiad gyflwynwyd i'r Cabinet ar 11 Gorffennaf 2023, ynghyd ag eglurhad o sut i gyflwyno gwrthwynebiadau. Bu i'r holl ran-ddeiliaid perthnasol dderbyn e-bost gyda linc i'r wefan i'w hysbysu fod y cyfnod gwrthwynebu yn cychwyn ar 5 Medi 2023.

Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 yn nodi:
Y*n achos ysgolion lle mae rhai disgyblion ar ôl, rhaid i gynigwyr sicrhau y caiff yr hysbysiad cau ei ddwyn i sylw'r disgyblion, y caiff ei ystyr ei egluro iddynt, ac y caiff camau priodol eu cymryd i alluogi'r disgyblion hyn i ymateb i'r hysbysiad os dymunant wneud hynny. Mae'n hanfodol bod disgyblion yn cael y cyfle i gyfrannu at y broses benderfynu a rhaid i gynigwyr sicrhau yr ystyrir unrhyw farn a fynegir ganddynt yn llawn cyn y gwneir penderfyniad terfynol.*

Yn unol â gofynion y Cod cynhaliwyd sesiwn i drafod y cynnig i gau Ysgol Felinwnda gyda dysgwyr yr ysgol ar 26 Medi 2023. Gellir gweld adroddiad ar y sesiwn yn **Atodiad C.**

Daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar 4 Hydref 2023 ac fe dderbyniwyd 4 gwrthwynebiad.

Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu, mae'n ofynnol i'r Cabinet ystyried adroddiad ffurfiol ar y gwrthwynebiadau ynghyd ag ymateb y Cyngor iddynt cyn gwneud penderfyniad terfynol i weithredu'r

cynnig ai peidio. Mae **Atodiad B** yn cynnwys dadansoddiad o'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd ac ymateb y Cyngor i'r sylwadau gwrthwynebu hynny.

**4. GWRTHWYNEBIADAU**

Pwrpas y rhan hon o'r adroddiad yw cyflwyno crynodeb o'r prif sylwadau gwrthwynebu a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu ynghyd ag ymateb y Cyngor iddynt. Mae'r holl sylwadau gwrthwynebu gydag ymateb y Cyngor iddynt wedi eu nodi yn **Atodiad B** o'r adroddiad hwn.

4.1 **Ymatebion i'r cynnig gan ddysgwyr Ysgol Felinwnda**

Cynhaliwyd sesiwn i drafod y cynnig i gau Ysgol Felinwnda gyda holl ddysgwyr Ysgol Felinwnda ar 26 Medi 2023. Paratowyd dogfennau priodol ar gyfer y dysgwyr yn dilyn ymgynghori ar eu cynnwys gyda Phennaeth yr ysgol. Trefnwyd bod y Pennaeth yn arwain ar drafod y cynnig gyda'r dysgwyr, gyda chymorth gweinyddol gan swyddog o'r Tîm Moderneiddio Addysg, er mwyn sicrhau eu bod yn deall yr hyn oedd yn cael ei gynnig ac er mwyn rhoi cyfle iddynt ddatgan eu barn ar y cynnig.

Dyma'r prif bwyntiau a amlygwyd yn ystod yr ymgynghoriad gyda'r dysgwyr:

- Roedd y cynnig yn tristau'r holl ddysgwyr.
- Byddai colli cyfeillgarwch a'r teimlad o deulu Ysgol Felinwnda os yn mynychu ysgol newydd yn poeni pob un o'r dysgwyr.
- Roedd nifer yn poeni am ddyfodol adeilad yr ysgol a'i gynnwys, a ddim eisiau iddo gael ei ddymchwel pe byddai'n cau.
- Roedd rhai dysgwyr yn poeni ynglŷn a'r cymorth y byddent yn ei dderbyn mewn ysgol amgen.
- Cyfleodd pob un mai athrawon a ffrindiau cyfeillgar, creu atgofion, ynghyd ag adeilad ac amgylchedd diogel yw'r pethau pwysicaf iddynt mewn unrhyw ysgol.

Roedd sylwadau dysgwyr Ysgol Felinwnda yn ystod y sesiwn yn cyfleu tueddiad tuag at wrthwynebu y cynnig i gau'r ysgol.

Pe byddai'r cynnig i gau'r ysgol yn cael ei weithredu, bydd cynnig i ddysgwyr presennol yr ysgol drosglwyddo i unai Ysgol Llandwrog neu Ysgol Bontnewydd. Mae Ysgol Llandwrog yn gyfarwydd i'r dysgwyr oherwydd y cydweithio sydd yn bodoli rhwng y ddwy ysgol ers peth amser. Yn ogystal, mae nifer o ddysgwyr dalgylch Felinwnda eisoes yn mynychu Ysgol Bontnewydd.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod fod y cyfnod yma yn un o ansicrwydd a allai arwain at straen ac effaith ar ddysgwyr. Fodd bynnag, pe gweithredir y cynnig, byddai'r Awdurdod yn gwneud pob ymdrech i gynorthwyo'r dysgwyr i drosglwyddo ac ymgartrefu yn eu hysgol newydd.

4.2 **Effaith ar y gymuned**

**Roedd rhai sylwadau yn nodi pryder am ddyfodol Canolfan Bro Llanwnda a'r Cylch Meithrin sydd yno, os bydd yr Ysgol yn cau. Yn ogystal, derbyniwyd sylwadau oedd yn nodi y bydd ardal Llanwnda, Dinas a Saron yn colli adnodd cymunedol amhrisiadwy drwy gau'r ysgol a gofynnwyd pa gefnogaeth hir dymor fydd y Cyngor yn barod i fuddsoddi i sicrhau ffyniant y gymuned leol.**

Mae Cyngor Gwynedd wedi gweld gostyngiad sylweddol yn niferoedd dysgwyr yn Ysgol Felinwnda yn y 10 mlynedd diwethaf, o 31 yn 2012 i 8 yn 2022, gyda dim ond 3 o'r dysgwyr yma'n byw yn nalgylch Ysgol Felinwnda.

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), cynhaliwyd asesiad o effaith y cynnig arfaethedig ar y gymuned. Rhoddwyd ystyriaeth bellach i effaith y cynnig ar y gymuned yn dilyn derbyn y gwrthwynebiadau uchod. Nodir yn yr asesiad effaith cymunedol diweddaraf nad oes defnydd cymunedol o'r ysgol. Mae Canolfan Bro Llanwnda wedi ei lleoli drws nesaf ac yn cynnal nifer o weithgareddau gan gynnwys Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi. Oherwydd hyn, ni ragwelir y byddai cau'r ysgol yn cael effaith uniongyrchol arwyddocaol ar yr ysgol fel adnodd cymunedol i gymuned Felinwnda, ond cydnabyddir y gallai gael effaith rhannol ar y Cylch Meithrin a'r Cylch Ti a Fi o bosib.

O safbwynt y pryderon am ddyfodol Canolfan Bro Llanwnda pe byddai'r ysgol yn cau, fe nodir fod cefnogi cymunedau yn rhywbeth mae Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau'r Cyngor yn ei wneud ac byddwn yn cyfeirio eich ymholiad am gefnogaeth i'r ganolfan iddynt.

4.3 **Cylch Meithrin**

**Derbyniwyd sylw fod y Cylch Meithrin wedi bod yn gyswllt addysgol cychwynnol i nifer o ddysgwyr yr Ysgol, a byddai dyfodol ansicr i'r Cylch heb ysgol gerllaw.**

Mae niferoedd dysgwyr wedi bod yn weddol gyson yng Nghylch Meithrin Dinas a Llanwnda dros y blynyddoedd. Fodd bynnag o gymharu niferoedd dysgwyr y Cylch Meithrin gyda nifer y dysgwyr yn nosbarthiadau Meithrin a Derbyn Ysgol Felinwnda, gwelir nad ydi mwyafrif o blant y Cylch wedi bod yn trosglwyddo i Ysgol Felinwnda. Mae'n debygol felly mai effaith rannol fyddai cau Ysgol Felinwnda yn ei gael ar ddewis rhieni i ddanfon eu plant i'r Cylch.

Bydd Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar y Cyngor ar gael i gefnogi'r Cylch Meithrin gydag unrhyw faterion gofal plant pe bydda penderfyniad i gau'r ysgol.

4.4 **Y Broses Statudol**

**Derbyniwyd sylwadau yn mynegi siom na gynhaliwyd ymgynghoriad cyn cynnal cyfnod gwrthwynebu ar y cynnig i gau Ysgol Felinwnda**

Bu i swyddogion yr Adran Addysg egluro ar gychwyn y trafodaethau ar y cynnig i gau Ysgol Felinwnda bod unrhyw broses statudol yn cael ei gynnal yn unol â Cod Statudol Llywodraeth Cymru (Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018) sy'n nodi:

*"Os oes gan ysgol lai na 10 disgybl cofrestredig (neu os nad oes unrhyw ddisgyblion ar ôl mewn ysgol) pan gynhelir y cyfrifiad ym mis Ionawr, mae Deddf 2013 yn caniatáu i gyrff llywodraethu/awdurdodau lleol ddilyn gweithdrefn symlach er mwyn cau'r ysgol yn swyddogol.*

*Yr unig beth y byddai'n ofynnol iddynt ei wneud o dan y weithdrefn honno fyddai cyhoeddi'r hysbysiad cau – byddai'r gofyniad i ymgynghori'n gyffredinol yn cael ei hepgor, cyhyd â bod digon o leoedd mewn ysgolion cyfatebol wedi'u nodi a fyddai'n rhesymol hygyrch i'r disgyblion hynny sydd wedi'u dadleoli neu a allai gael eu dadleoli."*

Er hynny, yn dilyn gwrando ar bryderon lleol am y cynnig gwreiddiol o gynnal cyfnod gwrthwynebu ar y cynnig i gau Ysgol Felinwnda a chynnig lle i blant y dalgylch yn Ysgol Bontnewydd, bu i'r Aelod Cabinet Addysg benderfynu gohirio mynd â'r adroddiad ar y cynnig i Gabinet mis Mawrth 2023. Yn dilyn hynny, ac fel cam ychwanegol i ofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion ac mewn ymateb i ddyheadau'r gymuned, bu i swyddogion o'r Adran Addysg a'r Aelod Cabinet Addysg gynnal sesiynau ymgysylltu yn Felinwnda, Bontnewydd a Llandwrog er mwyn egluro fod y Cyngor bellach am gynnal cyfnod gwrthwynebu ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Felinwnda, gan yna, yn ddarostyngedig i benderfyniadau'r Cabinet,

gynnal ymgynghoriad ar wahân ar adolygiad o ffiniau dalgylch ysgolion sy'n ffinio dalgylch presennol Ysgol Felinwnda.

4.5 **Rhesymau am y cynnig i gau**

**Roedd sylwadau yn nodi mai niferoedd disgyblion a chyllideb, sef data ac arian, oedd sail y cynnig yn hytrach nag ar sail gweledigaeth ragweithiol i alluogi cymunedau gwledig Cymreig bregus i barhau a ffynnu.**

Mae'r Awdurdod yn cynnig cau Ysgol Felinwnda oherwydd bod nifer o heriau yn ei hwynebu, yn benodol:

- Mae nifer y dysgwyr yn yr ysgol yn peri pryder, gyda dim ond 8 dysgwr yn mynychu'r ysgol,
- Mae rhagamcanion niferoedd dysgwyr yn parhau i fod yn fregus,
- Mae maint y dosbarthiadau yn fychan – 2 dosbarth gyda 3 mewn un a 5 yn y llall (Ionawr 2023),
- Mae amrediad oedran o 3 mlynedd neu mwy yn y 2 ddosbarth.

Mae'r Cyngor o'r farn y byddai gweithredu'r cynnig i gau Ysgol Felinwnda yn cynnig gwell profiadau i ddisgyblion i gymdeithasu a chydweithio yn ddyddiol gyda chyfoedion ac yn golygu fod y plant yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy addas.

Does dim defnydd cymunedol yn cael ei wneud o Ysgol Felinwnda gyda Chanolfan Bro Llanwnda yn cael ei defnyddio ar gyfer digwyddiadau cymunedol. Gwneir defnydd achlysurol o'r Ganolfan gan yr ysgol. O ganlyniad, ni ragwelir y byddai cau'r ysgol yn cael effaith uniongyrchol arwyddocaol ar ddefnydd cymunedol o Ganolfan Bro Llanwnda.

**4.6 Effaith adeiladu ffordd osgoi Caernarfon a Bontnewydd**

**Roedd un sylw yn nodi nad oedd ystyriaeth wedi ei roi i effaith negyddol a gafwyd ar yr ysgol yn ystod y gwaith adeiladu'r ffordd osgoi Caernarfon a Bontnewydd a bod hyn wedi dylanwadu ar rieni newydd i fynd a'u plant am ysgolion eraill gerllaw.**

Roedd niferoedd dysgwyr dalgylch Ysgol Felinwnda oedd yn dewis mynychu ysgolion eraill yn uchel cyn cychwyn y gwaith o adeiladu ffordd osgoi Caernarfon a Bontnewydd. Yr oedd 50 o ddysgwyr er enghraifft yn mynychu ysgolion eraill yn 2019 a 46 o ddysgwyr yn mynychu ysgolion eraill yn 2017 a 2018. Gellir dod i'r casgliad felly nad oedd effaith negyddol ar nifer y dysgwyr yn sgil y gwaith o adeiladu'r ffordd osgoi.

**4.7 Cynlluniau Ysgol Bontnewydd**

**Roedd un sylw yn nodi ei fod yn amheus o'r cyd-ddigwyddiad ar gyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru i ariannu £12 miliwn i adeiladu Ysgol 'ardal' newydd i Bontnewydd ac ei fod yn edrych yn ymgais fwriadol i danseilio a pheryglu dyfodol ysgolion gwledig yr ardal er mwyn cyfiawnhau ysgol fawr newydd.**

Bu i'r Adran Addysg fod yn llwyddiannus mewn cystadleuaeth genedlaethol Her Ysgolion Cynaliadwy Llywodraeth Cymru er sicrhau buddsoddiad cyfalaf sylweddol yn Ysgol Bontnewydd. Nid oedd unrhyw sicrwydd o lwyddiant y cais gan ei fod yn broses gystadleuol. Mae'r buddsoddiad yn Ysgol Bontnewydd yn brosiect sy'n ymateb i anghenion dalgylch yr ysgol honno.

**4.8 Strategaeth Addysg**

**Derbyniwyd sylwadau yn gofyn a fydd y Strategaeth Addysg newydd yn cynnig strategaeth weithredol a chredadwy o ran ysgolion bach a gwledig y Sir yn y dyfodol.**

Mae'r Awdurdod yn y broses o lunio Strategaeth Addysg ac fel rhan o'r gwaith hwn, bwriedir cynnal ymgynghoriad cyhoeddus. Bydd cyfle i roi barn ar gynnwys y Strategaeth Addysg ddrafft fel rhan o'r ymgynghoriad arfaethedig.

## 5. ASESIADAU EFFAITH

Fel rhan o'r broses o ddatblygu'r cynnig, ystyriwyd a gwerthuswyd ystod o opsiynau ar gyfer yr ysgol, a chwblhawyd cyfres o asesiadau effaith ar y cynnig, gan gynnwys:

- Asesiad Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol
- Adroddiad Asesu Effaith Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol
- Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned
- Adroddiad Asesiad Effaith Ieithyddol
- Adroddiad Asesiad ar yr Effaith Debygol ar Drefniadau Teithio
- Adroddiad Asesu Ansawdd a Safonau Addysg

Rhoddwyd ystyriaeth bellach i'r asesiadau uchod, yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu. Ystyrir fod canfyddiadau'r asesiadau yn parhau'n gyfredol ac yn berthnasol i'r argymhelliad. Mae'r asesiadau diweddaraf wedi eu cynnwys yn **Atodiad Ch**.

## 6. FFACTORAU PENODOL WRTH YSTYRIED CAU YSGOL

Er bod proses i gau ysgol gyda llai na 10 o ddisgyblion yn hepgor y gofyn i ymgynghori'n gyffredinol, mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 yn nodi fod rhaid ystyried materion perthnasol sydd wedi eu cynnwys yn y Cod. Mae'n nodi y dylid rhoi sylw arbennig i'r opsiynau canlynol wrth ystyried os yw'n briodol cau ysgol:

a) A ellid ystyried sefydlu ysgolion â mwy nag un safle fel ffordd o gadw adeiladau, neu resymau dros beidio â dewis yr opsiwn hwn

Gan fod ond 8 dysgwr yn yr ysgol mae Ysgol Felinwnda yn wynebu her gynyddol i osod cyllideb gytbwys gan fod yr ysgol yn derbyn dyraniad ar sail niferoedd dysgwyr, a bydd hynny, ynghyd â swm gwarchodaeth a ddyrannir iddynt yn eu galluogi i gyflogi pennaeth a chymhorthydd yn unig. Oherwydd hyn mae Cyngor Gwynedd o'r farn ni ellid ystyried sefydlu ysgolion â mwy nag un safle fel ffordd o gadw yr ysgol ar agor.

b. A ellid ystyried posibiliadau amgen heblaw cau'r ysgol, megis clystyru, cydweithredu neu ffedereiddio ag ysgolion eraill, neu'r rhesymau dros beidio ag ystyried y rhain fel opsiwn amgen yn lle cau'r ysgol.

Gan y byddai clystyru, cydweithredu neu ffedereiddio ag ysgolion eraill, yn golygu parhau gyda'r ysgol bresennol, a felly bod tebygolrwydd uchel y bydd yr heriau presennol yn parhau ac yn dwysáu dros y blynyddoedd nesaf, mae'r Cyngor felly o'r farn nad ydi gwneud hyn yn opsiwn fyddai'n cyfarch yr heriau sy'n wynebu Ysgol Felinwnda nawr ac i'r dyfodol.

c. A ellid archwilio'r posibiliadau o wneud defnydd llawnach o'r adeiladau presennol fel adnodd cymunedol neu addysgol.

Gan fod Canolfan Bro Llanwnda wedi ei lleoli drws nesa i'r ysgol, ac yn cynnal nifer o weithgareddau gan gynnwys y Cylch Meithrin a'r Cylch Ti a Fi, ni ragwelir bod angen adnodd cymunedol arall yn yr ardal. Serch hynny, pe gweithredir y cynnig, mae gan Cyngor Gwynedd bolisi ôl-ddefnydd safleoedd ysgolion a byddai y polisi hwn yn cael ei ddilyn wrth ystyried dyfodol y safle.

ch. Effaith gyffredinol cau'r ysgol ar y gymuned leol (gan gynnwys colli cyfleusterau yn yr ysgol a ddefnyddir gan y gymuned leol)

Derbyniwyd sylwadau am effaith cau'r ysgol ar y gymuned a Canolfan Bro Llanwnda yn dilyn cynnal y cyfnod gwrthwynebu. Gellir weld yr ymatebion llawn yn **Atodiad B** a crynodeb yn **4.2** uchod.

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), cynhaliwyd asesiad o effaith y cynnig arfaethedig ar y gymuned. Rhoddwyd ystyriaeth bellach i effaith y cynnig ar y gymuned yn dilyn derbyn y gwrthwynebiadau uchod. Nodir yn yr asesiad effaith cymunedol diweddaraf nad oes defnydd cymunedol o'r ysgol. Mae Canolfan Bro Llanwnda wedi ei lleoli drws nesaf ac yn cynnal nifer o weithgareddau gan gynnwys Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi. Oherwydd hyn, ni ragwelir y byddai cau'r ysgol yn cael effaith uniongyrchol arwyddocaol ar yr ysgol fel adnodd cymunedol i gymuned Felinwnda, ond cydnabyddir y gallai gael effaith rhannol ar y Cylch Meithrin a'r Cylch Ti a Fi o bosib.

O safbwynt y pryderon am ddyfodol Canolfan Bro Llanwnda pe byddai'r ysgol yn cau, fe nodir fod cefnogi cymunedau yn rhywbeth mae Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau'r Cyngor yn ei wneud ac byddwn yn cyfeirio eich ymholiad am gefnogaeth i'r ganolfan iddynt.

d. Sut y gellid cefnogi'r rhieni a'r disgyblion i fanteisio ar yr ysgol amgen ac unrhyw gyfleusterau y gall eu cynnig

Er mwyn lliniaru unrhyw effaith negyddol posib ar y dysgwyr, byddwn yn annog trafodaethau rhwng yr ysgol neu ysgolion amgen â rhieni dysgwyr dalgylch Ysgol Felinwnda fel bod modd iddynt fanteisio ar eu cyfleusterau a gweithgareddau ar ôl ysgol, ac i annog cydweithio rhwng yr ysgol a chymuned Felinwnda.

## 7. CASGLIAD

Er i'r awdurdod dderbyn 4 o wrthwynebiadau i'r cynnig i gau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023, yn dilyn ystyried yr holl wrthwynebiadau a dderbyniwyd, mae'r Cyngor yn parhau i fod yn argyhoeddedig mai'r cynnig hwn yw'r ymateb mwyaf priodol i'r heriau y mae'r ysgol yn eu hwynebu.

Mae'r dadansoddiad o'r sylwadau a'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn cael sylw yn *Adran 4* o'r adroddiad yma ac mae'r sylwadau ac ymatebion ar gael yn llawn yn **Atodiad B.**

Rhagwelir y bydd cau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023, a chynnig i'r dysgwyr presennol i drosglwyddo i ysgol amgen cyfagos, sef Ysgol Bontnewydd neu Ysgol Llandwrog, yn unol â dewis rhieni, o 1 Ionawr 2024 yn datrys heriau niferoedd isel, dosbarthiadau bychan a chostau uchel drwy:

- gynnig addysg mewn dosbarthiadau o faint mwy addas
- gynnig addysg mewn dosbarthiadau gyda mwy o blant o'r un oedran
- lleihau cost y pen

Bydd gwell amgylchiadau addysgol i ddysgwyr y dyfodol yn yr ysgol / ysgolion fydd yn gwasanaethu dalgylch Ysgol Felinwnda yn dilyn cwblhau'r ymgynghoriad ar pa ysgol, neu ysgolion, fydd yn gwasanaethu fel ysgol dalgylch i blant dalgylch presennol Ysgol Felinwnda i'r dyfodol.

## 8. GOBLYGIADAU'R CYNNIG

### 8.1 Dysgwyr presennol

Os bydd y Cabinet yn penderfynu gweithredu'r cynnig bydd Ysgol Felinwnda yn cau ar 31 Rhagfyr 2023 a bydd y dysgwyr presennol yn trosglwyddo i ysgol amgen, yn unol â dewis rhieni, o 1 Ionawr 2024.

### 8.2 Cludiant

Os bydd y Cabinet yn penderfynu gweithredu'r cynnig bydd Ysgol Felinwnda yn cau ar 31 Rhagfyr 2023 a byddai darpariaeth cludiant trosiannol ar gael i ddysgwyr presennol Ysgol Felinwnda (sydd hefyd yn byw yn nalgylch yr ysgol) i unai Ysgol Bontnewydd neu Ysgol Llandwrog, yn unol â Pholisi Cludiant Ysgolion y Sir, ar gost blynyddol o rhwng £7,600 - £22,800, yn ddibynnol ar ddewis rhieni a chyfrwng y cludiant.

### 8.3 Ystyriaethau Staffio

Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu, rhagwelir y byddai goblygiadau staffio yn arwain at ddiswyddiadau. Mae Cyngor Gwynedd wedi datblygu polisi staffio manwl, ar y cyd ag Undebau Llafur a phenaethiaid. Bydd rhaid i unrhyw ddiswyddiadau fyddai'n deillio o'r cynnig hwn gyd-fynd â'r polisi hwnnw. Bydd cyfathrebu clir ac agored yn chwarae rhan greiddiol mewn gweithredu unrhyw gynigion.

Mae trafodaethau eisoes wedi cychwyn gyda staff ac Undebau i'w rhagrybuddio am y cyfnod gwrthwynebu ar yr opsiwn i gau Ysgol Felinwnda a byddwn yn cyfarfod gyda hwy yn dilyn penderfyniad y Cabinet i drafod y camau nesaf.

### 8.4 Canolfan Bro Llanwnda a'r Cylch Meithrin

Pe bydda'r cynnig i gau Ysgol Felinwnda yn cael ei weithredu, byddwn yn cyfeirio pryderon am gynaladwyedd y ganolfan a'r Cylch Meithrin i'r Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau a Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar y Cyngor i'w cynorthwyo gydag unrhyw faterion.

## 9. ARGYMHELLIAD

Yn dilyn rhoi ystyriaeth i'r gwrthwynebiadau, argymhellir fod y Cabinet yn:

a) Cymeradwyo penderfyniad a geisir, sef cadarnhau'n derfynol y cynnig o dan Adran 43 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a roddwyd drwy rybudd statudol, i gau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023 a chynnig lle i'r dysgwyr yn unai Ysgol Llandwrog neu Ysgol Bontnewydd o 1 Ionawr 2024, yn ddarostyngedig ar ddewis rhieni.

b) Cymeradwyo trefniadau cludiant ar gyfer y cyfnod trosiannol yn unig, fyddai'n cynnig cludiant am ddim i'r dysgwyr hynny sydd wedi cofrestru yn Ysgol Felinwnda ar hyn o bryd, ac yn byw yn nalgylch Ysgol Felinwnda, i Ysgol Bontnewydd neu Ysgol Llandwrog, am weddill cyfnod y dysgwr yn un o'r ysgolion rheiny, yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd.

c) Caniatáu cynnal ymgynghoriad ar ddyfodol dalgylch presennol Ysgol Felinwnda er mwyn cytuno pa ysgol, neu ysgolion, fydd yn gwasanaethu fel ysgol dalgylch i blant dalgylch presennol Ysgol Felinwnda i'r dyfodol.

Drwy gynnal yr ymgynghoriad ar ddyfodol dalgylch presennol Ysgol Felinwnda, bydd y Cyngor yn casglu barn rhanddeiliaid allweddol yn lleol cyn dod i benderfyniad ar pa ysgol, neu ysgolion, fydd yn gwasanaethu dalgylch Ysgol Felinwnda i'r dyfodol.

Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn fuan yn nhymor y Gwanwyn 2024 cyn dod ac adroddiad ar yr ymgynghoriad yn ôl i Gabinet am benderfyniad terfynol.

Yn dilyn hynny byddai'r ardal a wasanaethir gan Ysgol Felinwnda o Medi 2024 yn ffurfio rhan o ddalgylch ysgol neu ysgolion amgen, a byddai mynediad i'r ysgol, neu ysgolion hynny, yn cael ei gynnig yn unol â pholisi mynediad y sir, a byddai cludiant yn cael ei ddarparu i'r ysgol neu ysgolion yn unol â Pholisi Cludiant Ysgolion y Sir.

**10. CAMAU NESAF**

Yn ddarostyngedig i benderfyniad y Cabinet, dyma gamau nesaf y broses ynghyd ag amserlen amlinellol;

| | |
|---|---|
| **Tachwedd 2023** | Rhannu'r penderfyniad gyda'r holl fuddiolwyr perthnasol.<br><br>Cynnig lle i'r dysgwyr hynny sydd wedi cofrestru yn Ysgol Felinwnda ar hyn o bryd, ac yn byw yn nalgylch Ysgol Felinwnda, yn Ysgol Bontnewydd neu Ysgol Llandwrog, gan gynnig cludiant iddynt yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd am weddill cyfnod y dysgwr yn un o'r ysgolion rheiny.<br><br>Cynnig lle mewn ysgol amgen i'r dysgwyr hynny sydd wedi cofrestru yn Ysgol Felinwnda ar hyn o bryd ac yn byw mewn dalgylchoedd eraill.<br><br>Cynnal trafodaethau gyda staff Ysgol Felinwnda. |
| **31 Rhagfyr 2023** | Gweithredu'r cynnig o gau Ysgol Felinwnda. |
| **Ionawr – Chwefror 2024** | Cynnal ymgynghoriad ar ddyfodol dalgylch presennol Ysgol Felinwnda er mwyn cytuno pa ysgol, neu ysgolion, fydd yn gwasanaethu fel ysgol dalgylch i blant dalgylch presennol Ysgol Felinwnda i'r dyfodol |
| **Mawrth – Ebrill 2024** | Dychwelyd i'r Cabinet am gymeradwyaeth ar opsiwn ffafriedig ar pa ysgol, neu ysgolion, fydd yn gwasanaethu dalgylch Ysgol Felinwnda i'r dyfodol. |

**11. BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

Mae'r adroddiad yma wedi bod yn destun cyngor gan Gwasanaethau Cyfreithiol. Dim sylwadau i'w hychwanegu os safbwynt priodoldeb

**Y Pennaeth Cyllid:**
O safbwynt ariannol, ni welaf fod newid wedi bod yn y sefyllfa ers i'r Cabinet drafod y mater hwn ym mis Gorffennaf a cychwyn y broses o gau'r ysgol. Nid yw sefyllfa bresennol Ysgol Felinwnda yn gynaliadwy ac roedd yr adroddiad blaenorol yn dangos fod asesiad wedi ei gynnal o'r opsiynau sydd ar gael, ac roeddwn yn fodlon â chadernid yr amcangyfrifon ariannol oedd wedi eu nodi ynddo. Rwyf yn cefnogi'r penderfyniad a geisir.

**Yr Aelod Lleol:**
Nodaf yr argymhelliad sydd gerbron y Cabinet, sef i gymeradwyo cau Ysgol Felinwnda o 31 Rhagfyr 2023, yn dilyn cyhoeddi'r Rhybudd Statudol ar 5 Medi 2023.

Mae cau ysgol sydd wedi gwasanaethu'r gymdeithas leol ac wedi darparu addysg dda mewn awyrgylch gartrefol ers 1895 yn ddigwyddiad trist.

Fodd bynnag, mae niferoedd presennol yr ysgol yn isel iawn, a dim rhagolwg o gynnydd. Rhaid felly dderbyn fod penderfyniadau anodd yn gorfod cael eu gwneud gan Gabinet Cyngor Gwynedd.

Wrth symud ymlaen, yr hyn sy'n bwysig yw bod y sylwadau a dderbyniwyd fel rhan o'r gwrthwynebiad i'r Rhybudd Statudol, ac yn ystod y broses statudol, yn cael sylw.

Mae'r rhain yn cynnwys effaith cau Ysgol Felinwnda ar Ganolfan Bro Llanwnda ac ar Gylch Meithrin Dinas a Saron.

Croesawaf yr hyn a ddywed Cyngor Gwynedd wrth ymateb i'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd, sef y bydd cymorth gan Wasanaeth Cefnogi Cymunedau Cyngor Gwynedd a'r Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Canolfan Bro Llanwnda a'r Cylch Meithrin.

Mi fydd Cyngor Gwynedd yn cynnal ymgynghoriad ar ddyfodol dalgylch Ysgol Felinwnda, ac mae'n bwysig sicrhau y bydd y broses yma yn un sydd yn llwyddo i gasglu barn trigolion a'r gymuned leol drwy broses drylwyr a diffuant.

Rwyf i a llawer yn y gymuned yn gryf o'r farn y dylai dalgylch Felinwnda gael ei ail lunio fel bod disgyblion y dalgylch yn mynd i Ysgol Llandwrog, yn hytrach nag Ysgol Bontnewydd. Mae ysgolion Felinwnda a Llandwrog wedi cydweithio'n agos dros y blynyddoedd ac mae natur wledig y ddwy ysgol yn debyg iawn. Byddai hyn hefyd o gymorth i ddiogelu dyfodol Ysgol Llandwrog sy'n darparu addysg dda yn y gymuned leol.

Gwn fod Cyngor Gwynedd yn y broses o lunio strategaeth addysg ddrafft, fydd yn ddarostyngedig i ymgynghoriad. Gan fod demograffeg disgyblion Gwynedd ar gyfer y dyfodol yn fregus, hoffwn bwysleisio pa mor bwysig yw hi i'r strategaeth yma fod yn un gweithredol a chredadwy, yng nghyd-destun ysgolion bach a gwledig Gwynedd. Dylai gynnig trefn sydd yn egluro pa ran sydd i'r ysgolion yma o ran diogelu cymunedau gwledig a Chymreig Gwynedd ar gyfer y dyfodol. Dylai hefyd sicrhau cynllunio strategol fesul dalgylch yn hytrach na chau ysgolion pan fo'r niferoedd yn cyrraedd trothwy penodol, heb ystyriaeth o'r darlun ehangach.

**<u>Atodiadau</u>**

| | |
|---|---|
| **Atodiad A:** | Rhybudd Statudol |
| **Atodiad B:** | Dadansoddiad o sylwadau gwrthwynebu |
| **Atodiad C:** | Ymatebion dysgwyr Ysgol Felinwnda i'r cynnig |

**Atodiad CH:** Asesiadau Effaith

**DOGFENNAU CEFNDIR** - Mae holl ddogfennau cefndir perthnasol y cynnig ar gael ar wefan y Cyngor trwy ddilyn y ddolen Ysgol Felinwnda (llyw.cymru)

## CYNGOR GWYNEDD

### ADRAN 48 DEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU) 2013

## RHYBUDD O GYNNIG I GAU YSGOL FELINWNDA

### CYNGOR GWYNEDD, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON, GWYNEDD, LL55 1SH

Hysbysir drwy hyn yn unol ag adran 43 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Gwynedd yn cynnig cau YSGOL FELINWNDA, Dinas, Caernarfon, Gwynedd LL54 5UG. Cynhelir yr ysgol gan Gyngor Gwynedd.

Cynigir gweithredu'r cynnig ar **31 Rhagfyr 2023.**

Yn ddarostyngedig ar ddewis rhieni bydd disgyblion presennol Ysgol Felinwnda yn trosglwyddo i unai Ysgol Llandwrog, Llandwrog, Gwynedd LL54 5ST neu Ysgol Bontnewydd, Bontnewydd, Caernarfon, Gwynedd LL55 2UF ar 1 Ionawr 2024. Mae Ysgol Llandwrog yn ysgol cyfrwng Cymraeg, Gwirfoddol a Reolir (Eglwys yng Nghymru) ac Ysgol Bontnewydd yn Ysgol Gymuned Cyfrwng Cymraeg. Mae'r ddwy ysgol ar gyfer genethod a bechgyn 3 i 11 oed.

Yr awdurdod mynediad ar gyfer Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd, fydd Cyngor Gwynedd a bydd disgyblion yn cael eu derbyn i'r ysgolion gan Gyngor Gwynedd yn unol â'i bolisi mynediad. Bydd y trefniadau mynediad i'r ysgolion yn cael eu gwneud heb gyfraniad at allu na medr (bandio disgyblion).

Bydd cludiant yn cael ei ddarparu i'r ysgolion yn unol â Pholisi Cludiant Ysgolion Cyngor Gwynedd, a bydd darpariaeth cludiant trosiannol ar gyfer disgyblion sydd wedi eu cofrestru yn Ysgol Felinwnda ar ddyddiad y rhybudd yma, i Ysgol Llandwrog neu i Ysgol Bontnewydd.

Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod cynhaliol a Chyngor Gwynedd fydd yn gweithredu'r cynnig yma.

Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynnig hwn, hynny yw erbyn **4 Hydref 2023.**

Dylid anfon gwrthwynebiadau ysgrifenedig at sylw'r Pennaeth Addysg, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH neu drwy anfon neges e-bost at sylw'r Pennaeth Addysg i moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru .

Bydd dyfodol dalgylch Ysgol Felinwnda yn destun ymgynghoriad ar wahân ar y mater os bydd penderfyniad i gau yr ysgol yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu.

Llofnodwyd:



Garem Jackson
Y Pennaeth Addysg, ar ran Cyngor Gwynedd

Dyddiad Cyhoeddi: **5 Medi 2023**

**NODYN ESBONIADOL**

(Nid yw'r isod yn rhan o'r rhybudd ond mae'n cynnig esboniad o'i bwrpas)
Mae Cyngor Gwynedd yn cynnig cau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023, a bydd lle yn cael ei ddarparu i disgyblion presennol yn Ysgol Llandwrog neu Ysgol Bontnewydd.

Yn unol â pholisi mynediad yr Awdurdod, mae gan rieni hawl i wneud cais mynediad (neu gais i drosglwyddo) i unrhyw ysgol.

Bydd darpariaethau trosiannol cludiant ysgol am ddim mewn lle i'r disgyblion hynny sydd wedi eu cofrestru yn Ysgol Felinwnda ar ddyddiad y rhybudd yma, i Ysgol Llandwrog neu Ysgol Bontnewydd, os ydynt yn byw dros 2 filltir oddi wrth yr ysgol a ddewisir, neu yn gymwys i dderbyn cludiant am ddim oherwydd natur y ffordd i'r ysgol a ddewisir, yn unol â'r polisi cludiant cyfredol. Byddai hyn yn drefniant dros dro am weddill eu cyfnod yn yr ysgol.

Os gwithredir cau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023 mi fydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal er mwyn penderfynu ar ddyfodol dalgylch Ysgol Felinwnda.

# CYNGOR GWNEDD

## SECTION 48 SCHOOL STANDARDS AND ORGANISATION ACT (WALES) 2013

## NOTICE OF PROPOSAL TO DISCONTINUE YSGOL FELINWNDA

### CYNGOR GWYNEDD, COUNCIL OFFICES, CAERNARFON, GWYNEDD, LL55 1SH

Notice is hereby given in accordance with Section 43 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 and the School Organisation Code that Cyngor Gwynedd propose to discontinue YSGOL FELINWNDA, Dinas, Gwynedd LL54 5UG. The school is currently maintained by Cyngor Gwynedd.

It is proposed to implement the proposal on **31 December 2023**.

Subject to parental choice, current pupils at Ysgol Felinwnda will transfer to either Ysgol Llandwrog, Llandwrog, Gwynedd LL54 5ST or Ysgol Bontnewydd, Bontnewydd, Caernarfon, Gwynedd LL55 2UF on 1 January 2024. Ysgol Llandwrog is a Welsh-medium voluntary controlled Church in Wales school and Ysgol Bontnewydd is a Welsh medium Community School. Both schools are for girls and boys aged 3 to 11.

The admission authority for Ysgol Llandwrog and Ysgol Bontnewydd will be Cyngor Gwynedd and pupils will be admitted to the schools by Cyngor Gwynedd in accordance with its admissions policy. The admissions arrangements for the school will not make provision for selection by aptitude or ability (pupil banding).

Transport will be provided to the schools in accordance with Cyngor Gwynedd's School Transport Policy, and transitional transport provision arrangements will be provided for pupils who are registered at Ysgol Felinwnda on the date of this notice, to Ysgol Llandwrog or Ysgol Bontnewydd.

Cyngor Gwynedd is the maintaining authority and will implement the proposal.

Any persons may object to the proposal within a period of 28 days of the date on which the proposal was published, that is by **4 October 2023.**

Objections should be sent to the Head of Education, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, LL55 1SH or by sending an e-mail for the attention of the Head of Education to modernisingeducation@gwynedd.llyw.cymru.

The future of Ysgol Felinwnda's catchment area will be subject to a separate consultation on the matter if there is a decision to close the school following the objection period.

Signed:

Garem Jackson
Head of Education, on behalf of Cyngor Gwynedd
Publication Date: **5 September 2023**

**EXPLANATORY NOTE**

(The following is not part of the notice but is intended to explain its general purpose)
Cyngor Gwynedd is proposing to close Ysgol Felinwnda on 31 December 2023 and offer places for current pupils at Ysgol Llandwrog or Ysgol Bontnewydd.

In accordance with the Authorities admissions policy, parents are entitled to apply for admission (or transfer request) to any school.

Transitional provisions for free school transport will be in place for those pupils who are registered at Ysgol Felinwnda on the date of this notice, to Ysgol Llandwrog or Ysgol Bontnewydd, if they live more than 2 miles from the school of choice, or if they would be eligible for free transport due to the nature of the route to that school, in accordance with the current transport policy. This would be a temporary arrangement for the remainder of their time at the school.

If the closure of Ysgol Felinwnda is carried out on 31 December 2023, a consultation will be held to decide on the future of Ysgol Felinwnda's catchment area.

## Gwrthwynebiadau i'r rhybudd statudol ar y cynnig i gau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023, a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Llandwrog neu Ysgol Bontnewydd o 1 Ionawr 2024.

## (Cyfnod Gwrthwynebu 5 Medi – 4 Hydref 2023)

Derbyniwyd 4 o wrthwynebiadau a fe'u didolwyd o dan y penawdau canlynol:

**A) Effaith ar y gymuned**

**B) Cylch Meithrin**

**C) Sylwadau am y broses statudol**

**Ch) Rhesymau dros gynnig cau**

**D) Effaith negyddol adeiladu ffordd osgoi Caernarfon a Bontnewydd**

**Dd) Cynlluniau Ysgol Bontnewydd**

**E) Strategaeth Addysg**

| | Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| **A** | **Effaith ar y gymuned** | |
| 1 | Wedi ystyried a thrafod yr hysbysiad cytunwyd bod Cyngor Cymuned Llanwnda yn derbyn bod cyfanswm 8 disgybl yn addysgol amhosib.<br><br>Beth bynnag mae pryder am ddiogelwch y neuadd, bydd yr aelodau yn ddiolchgar i Cyngor Gwynedd gysidro cynaladwedd y ganolfon i'r dyfodol – defnydd rheolaidd. | Mae'r Cyngor yn nodi nad ydych yn gwrthwynebu cau Ysgol Felinwnda gan fod niferoedd isel o ddisgyblion yn ei gwneud yn addysgol amhosib.<br><br>Mae cefnogi Canolfannau Cymunedol yn rywbeth mae Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau'r Cyngor yn ei wneud ac mi fyddwn yn cyfeirio eich pryder am gynaladwyedd y ganolfan i'r dyfodol iddynt. |
| 2 | Rydym yn wir pryderu am ddyfodol Canolfan Bro Llanwnda a'r Cylch Meithrin sydd yno, os bydd yr Ysgol yn cau. Er nad yw'r Ysgol yn gwneud defnydd unionyrchol o'r Ganolfan yn y bôn, roedd yr Ysgol yn cyfrannu at weithgareddau cymunedol ynddi, fel Cyngerdd Nadolig. Yn ei sgil roedd y rhieni'n defnyddio'r Ganolfan, fel partïon pen-blwydd. | Mae cefnogi Canolfannau Cymunedol yn rywbeth mae Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau'r Cyngor yn ei wneud ac mi fyddwn yn cyfeirio eich pryder am effaith cau'r ysgol ar gynaladwyedd y ganolfan iddynt.<br><br>Bydd Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar y Cyngor ar gael i gefnogi gyda'r Cylch Meithrin gyda unrhyw faterion lleoliad gofal plant pe bydda penderfyniad i gau'r ysgol. |
| 3 | Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu cau Ysgol Felinwnda, nid yn unig y byddai yna effaith negyddol ar y disgyblion a'r teuluoedd hynny sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd, ond byddai hefyd yn cael effaith negyddol ar y gymuned. Nepell o'r ysgol mae Canolfan Bro Llanwnda. Er nad yw'r ysgol yn gwneud defnydd uniongyrchol o'r Ganolfan, mae presenoldeb yr ysgol yn gaffaeliad, ac yn hybu'r defnydd cymunedol sydd o'r Ganolfan. | Mae niferoedd Ysgol Felinwnda wedi gostwng yn sylweddol yn y 10 mlynedd diwethaf, o 31 yn 2012 i 8 yn 2023, gyda dim ond 3 o'r dysgwyr yma'n byw yn nalgylch Ysgol Felinwnda. Mae'r 45 dysgwr arall (94%) sy'n byw yn y dalgylch yn mynychu ysgolion eraill. |

| | | |
|---|---|---|
| | Er enghraifft mae Ysgol Felinwnda yn cyfrannu at amrywiol weithgareddau ynddi, a rhieni ac aelodau'r gymuned yn defnyddio'r Ganolfan, na fyddai'n gwneud hynny, oni bai am bresenoldeb yr ysgol gerllaw.<br><br>Yn ogystal, mae Cylch Meithrin Dinas a Llanwnda yn un o brif ddefnyddwyr Y Ganolfan, a bydd ansicrwydd am ei ddyfodol heb ddarpariaeth addysgol drws nesaf.<br><br>Er bod galw wedi bod yn y misoedd a fu i Gyngor Gwynedd gydweithio efo'r gymuned a'r partïon perthnasol, er mwyn sicrhau dyfodol Canolfan Bro Llanwnda a'r Cylch Meithrin, awgrymiadau anffurfiol sydd wedi bod gan Gyngor Gwynedd nid ymrwymiad i sicrhau eu dyfodol, pe byddai'r ddarpariaeth addysgol yn cael ei cholli yn yr ardal. Gofynnaf felly i Gyngor Gwynedd gadarnhau y byddant yn gweithredu'n rhagweithiol i sicrhau dyfodol Canolfan Bro Llanwnda a'r Cylch Meithrin os bydd penderfyniad i gau yn cael ei wneud. | Does dim defnydd cymunedol yn cael ei wneud o Ysgol Felinwnda ac mae Canolfan Bro Llanwnda yn cael ei defnyddio ar gyfer digwyddiadau cymunedol, gan gynnwys defnydd achlysurol o'r Ganolfan gan Ysgol Felinwnda. O ganlyniad, ni ragwelir y byddai cau'r ysgol yn cael effaith uniongyrchol arwyddocaol ar ddefnydd cymunedol o Ganolfan Bro Llanwnda.<br><br>Gan nad oes penderfyniad terfynol ar ddyfodol Ysgol Felinwnda wedi ei wneud byddai'n gynamserol i gychwyn cynllunio ar gyfer unrhyw effaith ar Ganolfan Bro Llanwnda a'r Cylch Meithrin ar hyn o bryd. Os bydd y Cabinet yn penderfynu cau Ysgol Felinwnda, yna mae Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau'r Cyngor ar gael i gefnogi Canolfan Bro Llanwnda a byddwn yn cyfeirio eich pryder am effaith cau'r ysgol ar gynaladwyedd y ganolfan iddynt.<br><br>Er bod y niferoedd wedi bod yn weddol gyson yn Cylch Meithrin Dinas a Llanwnda dros y blynyddoedd mae cymharu'r ffigyrau gyda niferoedd dysgwyr yn nosbarthiadau meithrin a derbyn Ysgol Felinwnda (gweler B isod) yn awgrymu nad ydi mwyafrif o blant y Cylch wedi bod yn trosglwyddo i Ysgol Felinwnda fel mater o drefn. Mae'r ffigyrau yma hefyd yn awgrymu bod y Cylch Meithrin, o bosib, yn gwasanaethu ardal ehangach na dalgylch Ysgol Felinwnda. O ganlyniad, mae'n debygol mai effaith rhannol fyddai cau Ysgol Felinwnda yn ei gael ar ddewis rhieni i ddanfon eu plant i'r Cylch.<br><br>Bydd Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar y Cyngor ar gael i gefnogi Cylch Meithrin gydag unrhyw faterion lleoliad gofal plant pe byddai penderfyniad i gau'r ysgol. |
| 4 | Beth fydd dyfodol y Ganolfan o safbwynt y cyfleusterau cyfrannol sy'n gysylltiedig â'r Ysgol, fel y system carthffosiaeth? | Mi fydd y Cyngor yn sicrhau bydd Canolfan Bro Llanwnda yn parhau i gael budd o'r cyfleusterau cyfrannol hyd nes fydd unrhyw newid yn nefnydd safle Ysgol Felinwnda fydd, o bosib, yn golygu yr angen i adolygu unrhyw wasanaethau sy'n cael ei rannu rhwng yr ysgol a'r ganolfan. |

| | | |
|---|---|---|
| 5 | Y prif, os nad yr unig, adnodd cymunedol sydd gan Gyngor Gwynedd ddylanwad uniongyrchol arnynt yw ein hysgolion. Mae ysgolion bach cefn gwlad yng Ngwynedd ac ar draws Cymru, yn tynnu teuluoedd a chymuned at ei gilydd, ac yn ei sgil yn gwarchod a hybu Cymreictod a'r iaith Gymraeg. | Mae Cyngor Gwynedd wedi gweld gostyngiad sylweddol yn niferoedd dysgwyr yn Ysgol Felinwnda yn y 10 mlynedd diwethaf, o 31 yn 2012 i 8 yn 2022, gyda dim ond 3 o'r dysgwyr yma'n byw yn nalgylch Ysgol Felinwnda. O gymharu â dalgylchoedd eraill yr ardal, mae nifer y dysgwyr dalgylch Ysgol Felinwnda sy'n dewis mynychu ysgol all-dalgylch yn uchel. Dengys y data diweddaraf fod 48 o ddysgwyr 3-11 oed (Medi 2022) yn byw yn nalgylch Felinwnda; gyda dim ond 3 ohonynt yn mynychu Ysgol Felinwnda. Golyga hyn fod 94% o'r dysgwyr sy'n byw yn nalgylch Ysgol Felinwnda yn mynychu ysgolion all-dalgylch.<br><br>At hyn, fe nodir yn yr asesiad effaith cymunedol, nad oes unrhyw ddefnydd cymunedol o'r ysgol. Mae Canolfan Bro Llanwnda wedi ei lleoli drws nesa i'r ysgol ac yn cynnal nifer o weithgareddau gan gynnwys Cylch Meithrin a Cylch ti a Fi. Oherwydd hyn, ni ragwelir byddai cau'r ysgol yn cael effaith uniongyrchol arwyddocaol ar gymuned Felinwnda.<br><br>Mae cefnogi cymunedau yn rhywbeth mae Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau'r Cyngor yn ei wneud ac mi fyddwn yn cyfeirio eich ymholiad am gefnogaeth iddynt. |
| 6 | Gwir bryderwn bydd ardal Llanwnda, Dinas a Saron yn colli adnodd cymunedol amhrisiadwy, ac ardal lle na fydd ganddi galon nag hunaniaeth. Beth fydd bwriadau'r Cyngor i leddfu'r effeithiau negyddol hyn ar ein cymuned; a pha gamau a chefnogaeth hir dymor fydd y Cyngor yn barod i fuddsoddi i sicrhau ffyniant y gymuned leol? | |
| **B** | **Cylch Meithrin** | |
| 7 | Mae'r Cylch Meithrin dros y blynyddoedd wedi bod yn gyswllt addysgol cychwynnol i nifer o ddisgyblion yr Ysgol, nawr rhagwelir dyfodol ansicr iddi heb Ysgol gerllaw. Mae'n amlwg nad yw'r Cyngor wedi ystyried yn ddigonol, neu ar waethaf yn anwybyddu dyfodol yr adnoddau cymunedol hyn. | Er bod y niferoedd wedi bod yn weddol gyson yng Nghylch Meithrin Dinas a Llanwnda dros y blynyddoedd mae cymharu'r ffigyrau gyda niferoedd dysgwyr yn nosbarthiadau Meithrin a Derbyn Ysgol Felinwnda'n awgrymu nad ydi mwyafrif o'r plant wedi bod yn trosglwyddo i Ysgol Felinwnda fel mater o drefn. O ganlyniad,mae'n debygol mai effaith rhannol fyddai cau Ysgol Felinwnda yn ei gael ar ddewis rhieni i ddanfon eu plant i'r Cylch. |

| Blwyddyn | Cylch Meithrin Dinas a Llanwnda | Ysgol Felinwnda | |
|---|---|---|---|
| | | Dosbarth Meithrin | Dosbarth Derbyn |
| 2018-19 | 11 | 1 | 4 |
| 2019-20 | 6 | 2 | 2 |
| 2020-21 | 9 | 2 | 2 |
| 2021-22 | 8 | 1 | 1 |
| 2022-23 | 16 | 0 | 0 |

Bydd Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar y Cyngor ar gael i gefnogi gyda'r Cylch Meithrin gyda unrhyw faterion lleoliad gofal plant pe bydda penderfyniad i gau'r ysgol.

| C | **Sylwadau am y broses statudol** | |
|---|---|---|
| 8 | Er i ni lwyddo cael y Cyngor i ohirio eu bwriad gwreiddiol nôl ym mis Mawrth gyda'r addewid o gael trafodaeth a gwrando ar lais y ddwy gymuned yn ardal Ysgol Felinwnda ac Ysgol Llandwrog, ni chafwyd unrhyw ymgynghoriad o werth. Be gafwyd oedd sesiynau "ymgysylltu", lle yn y bôn sesiynau rhannu gwybodaeth yn unig oeddynt. Er i'r Arweinydd Portffolio rhoi addewid i gasglu sylwadau er mwyn rhoi adborth i'r Cabinet, ni welwyd unrhyw gyflwyniad o'i fath.<br>Ar gychwyn hyn i gyd, cynhaliwyd cyfarfod anffurfiol rhwng swyddogion y Cyngor, y Pennaeth a'r ddau Gadeirydd Corff Llywodraethwyr ym mis Ionawr eleni. Cafwyd ein sicrhau nad oedd *"angen poeni"* ar y pryd, nad oedd angen rhannu dim gyda gweddill y Llywodraethwyr, ac y byddai yn *"diweddaru a rhannu gwybodaeth"* gyda ni, wedi trafod ymhellach gyda'r Adran Addysg.<br>Ar ddiwedd Chwefror derbyniodd Clerc Llywodraethwyr Ysgol Felinwnda gais i drefnu cyfarfod brys o'r Corff Llywodraethwyr. Cynhaliwyd y cyfarfod brys ar ddechrau mis Mawrth, lle cyflwynodd Swyddogion y Cyngor eu bwriad i gyflwyno adroddiad i'r Cabinet yn argymell cau'r Ysgol oherwydd y niferoedd | Bu i swyddogion yr Adran Addysg egluro ar gychwyn y trafodaethau ar y cynnig i gau Ysgol Felinwnda bod unrhyw broses statudol yn cael ei gynnal yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 sy'n darparu:<br><br>*"Nid yw'r gofyniad i ymgynghori yn gymwys i gynigion i derfynu ysgol sy'n ysgol fach …" (adran 48(3))*<br><br>Mae Cod Statudol Llywodraeth Cymru (Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018) yn nodi:<br><br>*"Os oes gan ysgol lai na 10 disgybl cofrestredig (neu os nad oes unrhyw ddisgyblion ar ôl mewn ysgol) pan gynhelir y cyfrifiad ym mis Ionawr, mae Deddf 2013 yn caniatáu i gyrff llywodraethu/awdurdodau lleol ddilyn gweithdrefn symlach er mwyn cau'r ysgol yn swyddogol.* |

| | | |
|---|---|---|
| | isel o ddisgyblion. Erbyn yr 20fed o Fawrth roedd yr adroddiad yn gyhoeddus ar wefan y Cyngor, a phryd hynny bu inni roi gwybod i’r rhieni plant yr Ysgol. Ni dderbyniwyd unrhyw gyswllt pellach gan yr Adran Addysg wedi’r cyfarfod anffurfiol ym mis Ionawr, nes y cyfarfod brys gyda’r Llywodraethwyr ar ddechrau mis Mawrth. Gwelir fod y broses asesu effaith wedi cychwyn ers dechrau mis Chwefror, tair wythnos wedi’r cyfarfod anffurfiol, ond ni ymgysylltwyd a’r Ysgol, Ysgol Llandwrog na’r gymuned yn ehangach wrth ei lunio. Gwelwyd fod yr asesiadau effaith hyn yn ffeithiol anghywir ar nifer o ddadansoddiadau. Er i ni dynnu sylw at hyn, nid oedd y dadansoddiadau yn yr adroddiad diweddaraf heb ei addasu. | *Yr unig beth y byddai’n ofynnol iddynt ei wneud o dan y weithdrefn honno fyddai cyhoeddi’r hysbysiad cau – byddai’r gofyniad i ymgynghori’n gyffredinol yn cael ei hepgor, cyhyd â bod digon o leoedd mewn ysgolion cyfatebol wedi'u nodi a fyddai'n rhesymol hygyrch i’r disgyblion hynny sydd wedi’u dadleoli neu a allai gael eu dadleoli.”*<br><br>Er hynny, yn dilyn gwrando ar bryderon lleol am y cynnig gwreiddiol o gynnal cyfnod gwrthwynebu ar y cynnig i gau Ysgol Felinwnda a chynnig lle i blant y dalgylch yn Ysgol Bontnewydd, bu i'r Aelod Cabinet Addysg benderfynu gohirio mynd â’r adroddiad ar y cynnig i Gabinet mis Mawrth. Yn dilyn hynny, ac fel cam ychwanegol i ofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion ac mewn ymateb i ddyheadau’r gymuned, bu i swyddogion o’r Adran Addysg a’r Aelod Cabinet Addysg gynnal sesiynau ymgysylltu yn Felinwnda, Bontnewydd a Llandwrog er mwyn egluro fod y Cyngor bellach am gynnal cyfnod gwrthwynebu ar gau Ysgol Felinwnda gan yna gynnal ymgynghoriad ar wahân ar adolygiad o ffiniau dalgylchol ysgolion sy’n ffinio dalgylch presennol Ysgol Felinwnda.<br><br>Mae’r asesiadau effaith yn cyfarch y gofynion statudol, ac mae’r Cyngor yn hyderus yng nghywirdeb y wybodaeth a gyflwynir yn y ddogfennaeth.<br><br>Ar wahân i ohebiaeth gan y Cylch Meithrin yn cwestiynu niferoedd y plant oedd wedi eu nodi yn yr asesiadau effaith, gan gynnig niferoedd cywir, nid yw’r Adran Addysg wedi derbyn unrhyw ohebiaeth arall ynglŷn â gwallau yn y dadansoddiadau yn yr asesiadau effaith. Yn sgil derbyn sylwadau am y Cylch Meithrin, addaswyd yr asesiadau effaith yn adroddiad Cabinet Gorffennaf 2023 i gynnwys yr wybodaeth gan y Cylch. |
| 9 | Siomedig fu’r cysylltiad rhwng Cyngor Gwynedd a’r ysgol a’r gymuned cyn cyhoeddi’r Rhybudd Statudol. Er y gohiriwyd y bwriad gwreiddiol i gyhoeddi Rhybudd ym mis Mawrth, ac y bu addewid i ymgynghori a chasglu sylwadau rhanddeiliaid, sesiynau ymgysylltu yn unig a fu. Yn y rhain roedd Cyngor Gwynedd yn egluro eu bwriadau, ond doedd dim cyfle i’r gymuned fynegi eu barn. Pe byddai’r gymuned wedi cael gwell cyfle i fynegi barn, mae’n bosibl na fyddai Cyngor Gwynedd wedi mynd ati i gyhoeddi Rhybudd Statudol ac y byddai opsiynau eraill wedi medru cael eu hystyried. | |
| 10 | Hoffwn, ar ran Pwyllgor Canolfan Bro Llanwnda i gyfleu ein siom am y bwriad a’r penderfyniad tebygol gan Gyngor Gwynedd i gau Ysgol Felinwnda.<br><br>Mynegwn ein hanfodlonrwydd ynglŷn â’r broses hyd yma a’r diffyg ymgynghoriad llawn a’r gymuned leol, ynghyd a’r gwallau yn y dadansoddiadau asesiad effaith o fewn eich adroddiad i Gabinet. | |
| **Ch** | **Rhesymau dros gynnig cau** | |
| 11 | Os y prif ddadleuon yw ar sail y data ac arian, nid oes gennym ni dystiolaeth i roi achos cryf i’r gwrthwyneb. Ond rhaid nodi’r ffaith bod yr Ysgol wedi | Mae’r Awdurdod yn cynnig cau Ysgol Felinwnda oherwydd bod nifer o heriau yn ei hwynebu, yn benodol: |

| | | |
|---|---|---|
| | wynebu'r fath ddadleuon yn y gorffennol, a bu i anghenion y gymuned newid lle cafwyd twf yn y niferoedd.<br><br>Ar sail hyn bydd ardal Llanwnda, Dinas a Saron yn colli adnodd cymunedol amhrisiadwy, ac ardal lle na fydd ganddi galon nag hunaniaeth. | • Mae nifer y dysgwyr yn yr ysgol yn peri pryder, gyda dim ond 8 dysgwr yn mynychu'r ysgol,<br>• Mae rhagamcanion niferoedd dysgwyr yn parhau i fod yn fregus,<br>• Mae maint y dosbarthiadau yn fychan – 2 dosbarth gyda 3 mewn un a 5 yn y llall (Ionawr 2023),<br>• Mae amrediad oedran o hyd at 3 blnedd yn y 2 ddosbarth<br><br>Mae'r Cyngor o'r farn y byddai gweihredu'r cynnig i gau Ysgol Felinwnda yn cynnig gwell profiadau i ddisgyblion i gymdeithasu a chydweithio yn ddyddiol gyda chyfoedion ac yn golygu fod y plant yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy addas.<br><br>Does dim defnydd cymunedol yn cael ei wneud o Ysgol Felinwnda gyda Canolfan Bro Llanwnda yn cael ei defnyddio ar gyfer digwyddiadau cymunedol. Gwneir defnydd achlysurol o'r Ganolfan gan yr ysgol. O ganlyniad, ni ragwelir y byddai cau'r ysgol yn cael effaith uniongyrchol arwyddocaol ar ddefnydd cymunedol o Ganolfan Bro Llanwnda. Os bydd y Cabinet yn penderfynu cau Ysgol Felinwnda, yna mae Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau'r Cyngor ar gael i gefnogi Canolfan Bro Llanwnda. |
| 12 | Rydym yn siomedig iawn bod Cyngor Gwynedd wedi dod i'r canlyniad eu bod eisiau cau Ysgol Felinwnda. Mae'r penderfyniad yn cael ei wneud ar sail niferoedd disgyblion a chyllideb, sef data ac arian, yn hytrach nag ar sail gweledigaeth ragweithiol i alluogi cymunedau gwledig Cymreig bregus i barhau a ffynnu. | |
| **D** | **Effaith negyddol adeiladu ffordd osgoi Caernarfon a Bontnewydd** | |
| 13 | Wrth gwrs wrth gau'r Ysgol yn derfynol ni fydd unrhyw gynnydd mewn niferoedd am ddod a'r Ysgol nôl i fodolaeth. Nid oes dim ystyriaeth i'r ffaith negyddol a gafwyd ar yr Ysgol yn ystod y gwaith adeiladu'r ffordd osgoi Caernarfon a Bontnewydd. Am gyfnod oddeutu 18 mis, gorfodwyd nifer o ddisgyblion gael trafnidiaeth amgen i'w cludo heibio'r gwaith ffordd. Roedd yn amlwg bod hyn hefyd wedi dylanwadu ar rieni newydd i fynd a'u plant am ysgolion eraill gerllaw. Nid yw hyn wedi ei ystyried o gwbl gan y Cyngor. | Roedd niferoedd dysgwyr dalgylch Ysgol Felinwnda oedd yn dewis mynychu ysgolion eraill yn uchel cyn cychwyn y gwaith o adeiladu ffordd osgoi Caernarfon a Bontnewydd. Yr oedd 50 o ddysgwyr er enghraifft yn mynychu ysgolion eraill yn 2019 a 46 o ddysgwyr yn mynychu ysgolion eraill yn 2017 a 2018. Gellir dod i'r casgliad felly nad oedd effaith negyddol ar nifer y dysgwyr yn sgil y gwaith o adeiladu'r ffordd osgoi. |
| **Dd** | **Cynlluniau ar gyfer Ysgol Bontnewydd** | |

| | | |
|---|---|---|
| 14 | Bellach mae’r holl broses wedi ei rannu, lle bydd trafodaeth ynglŷn ag ail-ffinio’r dalgylchoedd Ysgol yn cael ei drafod yn y cam nesaf ar ôl cau Ysgol Felinwnda.<br>Rydym dal yn amheus o’r cyd-ddigwyddiad ar gyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru ar yr un pryd i ariannu £12 miliwn i adeiladu Ysgol ‘ardal’ newydd i Bontnewydd. Mae’n edrych yn ymgais fwriadol i danseilio a pheryglu dyfodol ysgolion gwledig yr ardal er mwyn cyfiawnhau Ysgol fawr newydd. Dylai hyn fod yn rhybudd i ysgolion gwledig eraill yng Ngwynedd. Rydym yn parhau o’r farn gref os wrth gau Ysgol Felinwnda, dylai’r dalgylch cael ei ail-lunio at Ysgol Llandwrog yn hytrach nag Ysgol Bontnewydd, a hynny er lles gwarchod a chryfhau'r Ysgol wledig honno. | Yn dilyn gwrando ar bryderon lleol am y cynnig gwreiddiol o gynnal cyfnod gwrthwynebu ar y cynnig i gau Ysgol Felinwnda a chynnig lle i blant y dalgylch yn Ysgol Bontnewydd, penderfynwyd i ohirio cyflwyno adroddiad i Gabinet yn mis Mawrth. Yn dilyn hyn bu i swyddogion o’r Adran Addysg a’r Aelod Cabinet Addysg gynnal sesiynau ymgysylltu yn Felinwnda, Bontnewydd a Llandwrog i egluro fod y Cyngor bellach am gynnal cyfnod gwrthwynebu ar gau Ysgol Felinwnda gan yna gynnal ymgynghoriad ar wahân ar adolygiad o ffiniau dalgylchol ysgolion sy’n ffinio dalgylch presennol Ysgol Felinwnda.<br><br>Felly, os bydd y cynnig i gau Ysgol Felinwnda yn cael ei gymeradwyo byddwn yn cynnal yr ymgynghoriad yma er mwyn rhoi cyfle i'r rhai fydd yn cael ei effeithio gan y cynnig i leisio eu barn ar ddalgylch/ddalgylchoedd newydd posib cyn i Cabinet Cyngor Gwynedd wneud penderfyniad terfynol ar newid unrhyw ffiniau dalgylchol ysgolion sy’n ffinio dalgylch presennol Ysgol Felinwnda.<br><br>Bu i’r Adran Addysg fod yn llwyddiannus mewn cystadleuaeth genedlaethol Her Ysgolion Cynaliadwy Llywodraeth Cymru er sicrhau buddsoddiad cyfalaf sylweddol yn Ysgol Bontnewydd. Nid oedd unrhyw sicrwydd o lwyddiant y cais gan ei fod yn broses gystadleuol. Mae’r buddsoddiad yn Ysgol Bontnewydd yn brosiect sy’n ymateb i anghenion dalgylch yr ysgol honno. Serch hynny, pe byddai canlyniad yr ymgynghoriad yn dangos bod angen lle ar gyfer unrhyw ddysgwyr ychwanegol o ddalgylch presennol Ysgol Felinwnda, yna bydd angen sicrhau lle digonol ar eu cyfer wrth gynllunio’r ysgol newydd. |
| **E** | **Strategaeth Addysg** | |
| 15 | Hoffwn hefyd amlygu’r angen i Gyngor Gwynedd sicrhau fod strategaeth weithredol a chredadwy ganddynt o ran ysgolion bach a gwledig y Sir yn y dyfodol. Byddai hyn yn rhoi cyfle ychwanegol i ddileu bregusrwydd ysgolion bach a gwledig Gwynedd, a rhoi cyfle iddynt ffynnu. | Cyfnod gwrthwynebu ar y cynnig i gau Ysgol Felinwnda sydd newydd ei gynnal ac ymateb i sylwadau ar y cynnig hwnnw yn unig ydi pwrpas yr adroddiad hwn. Mae'r Awdurdod yn y broses o lunio Strategaeth Addysg ddrafft ac fel rhan o'r gwaith hwn, bwriedir cynnal ymgynghoriad |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhaid cwestiynu os ydy'r Strategaeth Addysg newydd drafft sydd gan Gyngor Gwynedd yn mynegi gweledigaeth digon eang o ran ysgolion bychan a gwledig y Sir.  A ydyw'n ymateb yn ddigonol i'r cwymp yn niferoedd disgyblion fydd yn mynychu ysgolion fel hyn dros y ddeng mlynedd nesaf?<br><br>Er yn cydnabod nad yw'r strategaeth yn ei ffurf derfynol, amwys ac arwynebol yw ar hyn o bryd.  Ni welaf ei fod yn egluro pa ran fydd ysgolion bach a gwledig yn eu chwarae yng nghymunedau Gwynedd yn y dyfodol. Buaswn yn ddiolchgar pe byddech yn ystyried fy sylwadau uchod. | cyhoeddus. Bydd cyfle i roi barn ar gynnwys y Strategaeth Addysg ddrafft fel rhan o'r ymgynghoriad arfaethedig. |
| 16 | Er oedd son am Strategaeth Addysg newydd gan y Cyngor, nid yw dal heb i gyhoeddi. A fydd y Strategaeth Addysg newydd am fod yn arloesol gan osod cyfeiriad mwy rhagweithiol ar gynnal ein cymunedau Cymraeg? Bydd y Strategaeth yn gosod gwell trefn ar gynnal trafodaeth a chonsensws ar ddyfodol y ddarpariaeth addysg o fewn pob cymuned, yn hytrach na disgwyl i'r data ac arian orfodi mwy o gau ysgolion bach cefn gwlad? Yn hytrach nag dim ond dilyn rhyw god trefniadaeth, disgwylir i Gyngor sy'n cael ei arwain gan blaid wleidyddol oedd a maniffesto gwledig penodol sy'n datgan mai nhw yw'r unig blaid sy'n addo *"diogelu, amddiffyn a hyrwyddo'r Gymru wledig"* rhoi gwell arweiniad ar achub ysgolion gwledig Cymraeg. Rydym yn parhau i fyw mewn gobaith am droad ar fyd. | |

Mae unrhyw wybodaeth bersonol ar y gwrthwynebiadau wedi eu ddileu er mwyn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2008 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

# Atodiad C

# Cynnig i gau Ysgol Felinwnda

## Sesiwn gyda dysgwyr Ysgol Felinwnda fel rhan o'r Cyfnod Gwrthwynebu

Mewn cyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd ar 11 Gorffennaf 2023, penderfynodd y Cabinet i gymeradwyo gyhoeddi rhybudd statudol, ar y cynnig i gau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023 yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, a'r disgyblion presennol i drosglwyddo i ysgol amgen cyfagos, sef Ysgol Bontnewydd neu Ysgol Llandwrog, yn unol â dewis rhieni o 1 Ionawr 2024.

Cynhaliwyd cyfnod gwrthwynebu statudol rhwng 5 Medi a 4 Hydref 2023, ar y cynnig.

Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 yn nodi:

> Y*n achos ysgolion lle mae rhai disgyblion ar ôl, rhaid i gynigwyr sicrhau y caiff yr hysbysiad cau ei ddwyn i sylw'r disgyblion, y caiff ei ystyr ei egluro iddynt, ac y caiff camau priodol eu cymryd i alluogi'r disgyblion hyn i ymateb i'r hysbysiad os dymunant wneud hynny. Mae'n hanfodol bod disgyblion yn cael y cyfle i gyfrannu at y broses benderfynu a rhaid i gynigwyr sicrhau yr ystyrir unrhyw farn a fynegir ganddynt yn llawn cyn y gwneir penderfyniad terfynol.*

Er mwyn gwneud hyn paratowyd dogfennau priodol ar gyfer holl ddysgwyr Ysgol Felinwnda, a trefnwyd bod Pennaeth Ysgol Felinwnda yn arwain ar drafod y cynnig gyda'r plant, gyda chymorth gan swyddog o'r Tim Moderneiddio Addysg, er mwyn sicrhau eu bod yn deall yr hyn oedd yn cael ei gynnig ac er mwyn rhoi cyfle i'r plant ddatgan barn ar y cynnig.

Esboniwyd bydda'r newid yn golygu:

- Y bydda Ysgol Felinwnda yn cau ar 31 Rhagfyr 2023;
- Y bydda dysgwyr Ysgol Felinwnda yn gallu trosglwyddo i Ysgol Bontnewydd neu Ysgol Llandwrog neu ysgol arall o'i dewis ar 1 Ionawr 2024.

Cynhaliwyd y sesiwn yn Ysgol Felinwnda am 11:00 ar ddydd Mawrth, 26 Medi 2023. Roedd yn cynnwys esbonio'r cynnig a chynnal trafodaeth ynglyn a'r cwestiynau o fewn yr holiadur, gyda Swyddog yn cofnodi sylwadau'r dysgwyr.

Bu i pob dysgwr sydd yn Ysgol Felinwnda fynychu y sesiwn, sef 8 o blant.

**Gweler isod yr ymatebion a dderbyniwyd gan y dysgwyr**

NODER - Mae sylwadau'r dysgwyr wedi eu dyfynnu'n uniongyrchol o'u hymatebion.

| **1. Sut wyt ti'n teimlo am hyn?** | | | |
|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **Hapus** | **Ddim yn Sicr** | **Trist** |
| **Ysgol Felinwnda** | 0 | 0 | 8 |
| **Cyfanswm** | 0 | 0 | 8 |

**Cwestiwn 1 – Sut wyt ti yn teimlo am hyn?**

- *Trist - dwi'n licio'r ysgol yma lot*
- *Trist- dw i wedi bod yma yn hir*
- *Rili drist – mae'r gwaith yn haws yn fan hyn ac mae llai o bobl yma yn gwneud hi'n haws*
- *Trist – dw i rili eisiau aros yma yn hirach*
- *Trist – achos bod yr ysgol yn cau*
- *Trist – cos dwi rili isio ffrindiau yr un peth, ond dw i dal eisiau ychydig mwy o ffrindiau*
- *Trist – fydda i methu gweld ffrindiau fi*
- *Dw i'n poeni am yr adeilad – trist na fydd yr adeilad yn ysgol dim mwy*
- *Fydda i yn colli'r athrawon*
- *Dw i'n poeni am y pethau (adnoddau) bydda ar ol yma*

**Cwestiwn 2 – Beth hoffet ti weld yn digwydd nesaf?**

- *Gwneud yr un gwaith yn yr ysgol nesaf*
- *Os yda ni'n mynd am dro, dod i weld yr ysgol yma i weld o (eisiau cadw cyswllt)*
- *Gwerthu pethau yr ysgol*
- *Dw i eisiau gweld y goeden yn aros yma – dim ei torri lawr*
- *I'r ysgol troi mewn i rhywle i helpu pobl fel hospital bach neu catref hen pobl efo carers*
- *Dwi eisiau gwybod beth fydd yn yr ysgol nesaf*
- *Gwneud ffrindiau newydd yn yr ysgol nesaf*

**Cwestiwn 3 – Be sy'n dy boeni am hyn?**

- *Ddim yn siwr be fydd yn digwydd yn yr ysgol nesaf*
- *Poeni am orfod symud rhag ofn bod yna pobl gas neu bwlis yn yr ysgol newydd*
- *Rhagofn di'r teachers methu cael job newydd*
- *Fyddai'n colli'r athrawon a ffrindiau fi*
- *Ydwi'n mynd i allu wneud y gwaith mor cystal*
- *Os fysa'r ysgol ddim yn cau fysa ni gyd yn hapus*
- *Os bydd yr ysgol yma yn cael ei dorri lawr a cael ei abandio*
- *Poeni efo be fydd yn digwydd i'r iard*

**Cwesitwn 4 – Beth yw'r pethau pwysicaf i chdi yn yr ysgol?**

- Athrawon neis
- Ffrindiau
- Dim bwlis
- Dim teachers cas
- Y memories mewn ysgol (creu atgofion)
- Lluniau o blant sydd wedi bod yn yr ysgol
- Mae'n bwysig i'r adeilad fod yn gryf
- Ysgol saff – ddim yn mynd ar dan
- Gwneud ffrindiau yn sydyn

Roedd sylwadau dysgywr Ysgol Felinwnda yn ystod y sesiwn yn cyfleu tueddiad tuag at wrthwynebu y cynnig i gau Ysgol Felinwnda, wrth iddynt mynegi yr oedden nhw'n poeni am fynd i ysgol arall ac mae'r cynnig yn eu tristau. Dangosodd dysgwyr Ysgol Felinwnda ddealltwriaeth aeddfed o'r amgylchiadau anodd gan gyfrannu i'r drafodaeth gyda nifer o rhesymau dros yr hyn oedden nhw'n teimlo ac yn poeni amdanynt.

**Prif bwyntiau'r ymgynghori:**

| |
|---|
| Roedd y cynnig yn tristau pob dysgwr. |
| Bydda colli cyfeillgarwch a'r teimlad o deulu Ysgol Felinwnda os fynychu ysgol newydd yn poeni pob un o'r disgyblion. |
| Roedd nifer o ddysgwyr yn poeni am ddyfodol adeilad yr ysgol a'i gynnwys, a ddim eisiau iddo gael ei dymchwel pe byddai Ysgol Felinwnda yn cau. |
| Roedd rhai dysgwyr yn poeni ynglyn a'r cymorth byddent yn derbyn mewn ysgol newydd pe byddai Ysgol Felinwnda yn cau. |
| Cyfleuodd holl ddysgywr Ysgol Felinwnda mai athrawon a ffrindiau cyfeillgar, creu atgofion ynghyd ag adeilad ac amylchedd diogel yw'r pethau pwysicaf iddynt mewn unrhyw ysgol. |

# Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

## 1) Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Cynnig i gau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023, a'r disgyblion presennol i drosglwyddo i ysgol amgen cyfagos, yn unol â dewis rhieni, o 1 Ionawr 2024.

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Mae Ysgol Gynradd Felinwnda wedi ei lleoli ger pentref Saron a Dinas ar gyrion Caernarfon ac yn gwasanaethu'r pentrefi a'r ardal gyfagos. Mae sefyllfa Ysgol Felinwnda wedi dod i sylw'r Adran Addysg yn ôl Cyfrifiad ysgolion Medi 2022, gan mai hon yw'r ysgol gyda'r nifer lleiaf o ddysgwyr yng Ngwynedd. Mae gostyngiad sylweddol wedi bod yn niferoedd dysgwyr Ysgol Felinwnda dros y 10 mlynedd diwethaf, o 31 disgybl yn 2012 i lawr i 8 disgybl erbyn heddiw, sydd yn arwain at ansicrwydd ynglŷn â dyfodol yr ysgol.

Gan fod llai na 10 o ddysgwyr cofrestredig yn yr ysgol yn CYBLD (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddoedd ar Lefel Disgyblion) Ionawr 2023, ystyrir hi'n "ysgol fach" o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth (Cymru) 2013. Mae hyn yn caniatáu'r awdurdod i ddilyn gweithdrefn symlach er mwyn cau'r ysgol. Yn benodol, mae'r gofyniad i ymgynghori'n gyffredinol yn cael ei hepgor, a'r unig beth sy'n ofynnol i'w wneud yw cynnal cyfnod gwrthwynebu yn dilyn cyhoeddi'r hysbysiad statudol, mi fydd hyn yn rhoi 28 diwrnod i unrhyw un wrthwynebu'r cynnig. Mi fyddwn yna'n llunio adroddiad gwrthwynebu er mwyn i'r Cabinet ystyried unrhyw wrthwynebiadau cyn dod i benderfyniad terfynol.

Fel rhan o'r broses o ddatblygu cynnig/cynigion ar gyfer ad-drefnu ysgol/ysgolion, mae'n ofynnol i'r awdurdod gynnal asesiad o'r effaith tebygol ar gydraddoldeb, y Gymraeg ac anfantais economaidd-gymdeithasol.

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Gareth Richard Jones (Swyddog Moderneiddio Addysg)

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Fersiwn 1: 8 Chwefror 2023
Fersiwn 2: 6 Mawrth 2023
Fersiwn 3: 9 Mawrth 2023
Fersiwn 4: 14 Mehefin 2023
Fersiwn 5: 12 Hydref 2023

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Adran Addysg a Swyddogion adrannau eraill Cyngor Gwynedd
Llywodraethwyr a Phennaeth Ysgol Felinwnda

### 2.2 Pa gamau ydych chi wedi eu cymryd i ymgysylltu gyda phobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?

Mae sgwrs wedi ei chynnal gydag Aelod Lleol, Pennaeth a Chorff Llywodraethol Ysgol Felinwnda.
Mae sesiynau ymgysylltu i rannu gwybodaeth am y cynnig dan ystyriaeth wedi eu cynnal yng Nghanolfan Dinas Llanwnda, Ysgol Felinwnda, Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd.

Gan fod llai na 10 o ddysgwyr cofrestredig yn Ysgol Felinwnda yng nghyfrifiad Ionawr 2023, ystyrir hi'n "ysgol fach" o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth (Cymru) 2013. Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion mae hyn yn caniatáu'r awdurdod i ddilyn gweithdrefn symlach er mwyn cau'r ysgol. Yn benodol, mae'r gofyniad i ymgynghori'n gyffredinol yn cael ei hepgor, a'r unig beth fyddai'n ofynnol ei wneud fyddai cynnal cyfnod gwrthwynebu. Gwnaed hyn drwy gyhoeddi hysbysiad statudol ar y cynnig a chaniatáu 28 diwrnod i rieni, dysgwyr, staff a rhanddeiliaid eraill ymateb i'r cynnig ac yna cyflwyno adroddiad gwrthwynebu i Cabinet y Cyngor i benderfynu ar y camau nesaf.

### 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Yn dilyn yr ymgysylltu uchod cyflwynwyd adroddiad ar y cynnig o gau Ysgol Felinwnda gerbron Cabinet Cyngor Gwynedd ar 11 Gorffennaf 2023, a derbyniwyd gymeradwyaeth i gynnal cyfnod gwrthwynebu ar y cynnig yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion.

### 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

- **Niferoedd dysgwyr** – Yng nghyfrifiad CYBLD Ionawr 2023, dim ond 8 disgybl llawn amser oedd ar gofrestr yr ysgol gyda 3 o dalgylch Felinwnda a 5 o ddalgylchoedd Bro Lleu a Bro Llifon.
- **Plant yn mynd all-dalgylch** – 45 yn mynd all-dalgylch gan gynnwys 31 i Ysgol Bontnewydd a 5 i Ysgol Llandwrog gyda gweddill y dysgwyr yn teithio i ysgolion eraill sy'n bellach i ffwrdd.
- **Rhagamcanion niferoedd** – Mae rhagamcanion niferoedd yn argymell fydd niferoedd yn parhau i leihau: Medi 2024= 5; Medi 2025 = 3; Medi 2026= 2
- **Canran uchel o lefydd gweigion** – Yn seiliedig ar ffigyrau Ionawr 2023, mae o ddeutu 87% o lefydd gweigion yn yr ysgol (53 mewn nifer)
- **Maint dosbarthiadau bychain** – mae 2 ddosbarth gyda 3 mewn un a 5 yn y llall (Ionawr 2023)
- **Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau** – mae un dosbarth ar gyfer dysgwyr blwyddyn 1–3 a'r llall ar gyfer blwyddyn 4-5. Does dim un plentyn oed meithrin, dosbarth derbyn na blwyddyn 6 yn yr ysgol.
- **Cyllid ychwanegol i'r dyraniad -** mae Ysgol Felinwnda yn derbyn swm o £62,717 ar gyfer 2023-24 drwy'r polisi lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddisgyblion).
- **Cost fesul dysgwr -** cyfanswm y dyraniad ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023-24 (seiliedig ar niferoedd Medi 2022) ydi £114,000 sy'n golygu fod cost y pen Ysgol Felinwnda yn £14,211 (2023-24). Y cyfartaledd sirol ar gyfer cost fesul disgybl yn yr un flwyddyn ydi £4,773.
- **Heriau i'r dyfodol -** Mae Ysgol Felinwnda yn wynebu her i osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2023-24 gan y bydd yr ysgol yn derbyn dyraniad ar sail niferoedd dysgwyr a bydd hynny ynghyd â swm gwarchodaeth a ddyrannir iddynt yn eu galluogi i gyflogi pennaeth a chymhorthydd yn unig.

**2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?**

| |
|---|
| Dim |

## 3) Adnabod yr Effaith

**3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.**

| **Nodweddion** | **Sut fath o effaith?*** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Dim | Mae gan ysgolion Gwynedd bolisïau perthnasol ar waith i amddiffyn unigolion rhag unrhyw wahaniaethu yn seiliedig ar hil, megis Polisïau Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Gwrth-fwlio. Mae'r Polisi Gwrth-fwlio a ddarperir gan Gyngor Gwynedd yn nodi canllawiau a gweithdrefnau gwrth-fwlio yn seiliedig ar ffactorau megis hil yn yr ysgol. Yn ogystal, fe nodir ym mholisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei weithredu gan ysgolion cynradd Gwynedd fod yr ysgolion yn *"...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."*<br><br>Ni ragwelir felly y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar y nodwedd yma. |
| **Anabledd** | Dim | Ni rhagwelir y byddai'r newid yn cael effaith negyddol ar y nodwedd yma. Byddai asesiad o unrhyw ysgolion amgen perthnasol ar sail hygyrchedd yn cael ei gynnal a byddwn yn sicrhau y bydd unrhyw gludiant fydd ei angen yn addas ar gyfer anghenion yr unigolyn. Bydd anghenion unrhyw blentyn anabl yn cael eu hystyried yn unol â pholisïau Hygyrchedd a Chydraddoldeb yr Adran Addysg. |
| **Rhyw** | Dim | Ni fyddai gweithredu y cynnig yn effeithio ar y nodwedd yma. Bydd gweithredu y cynnig yn golygu fydd pawb yn cael eu trin yn ôl eu hangen beth bynnag yw eu rhyw. Mae Ysgol Felinwnda ac yr ysgolion amgen cyfagos yn gweithredu Polisi Cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn:<br><br>*"...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* |
| **Oedran** | Positif | Mae Ysgol Felinwnda yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3-11 oed. Bydd plant Ysgol Felinwnda yn elwa o gael rhagor o gyfoedion oed-berthnasol mewn ysgol gan fod mwy o ddysgwyr yn yr ysgolion amgen cyfagos, fydd yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | fodd o sicrhau profiadau addysgol ac allgyrsiol addas i'w hoedran ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol.<br><br>Credwn y bydd dysgwyr yn derbyn cyfleoedd fwy addas i'w oedran yn yr ysgol amgen cyfagos oherwydd bydd y dysgwyr yn derbyn profiadau dysgu mewn grwpiau torfol, grwpiau llai, gwaith partner ac yn unigol o fewn eu hystod oedran penodol ynghyd a gwersi wedi'u gwahaniaethu yn briodol ar gyfer yr ystod oedran. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Positif | Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh) yn ofyniad statudol yn fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a chaiff ei chyhoeddi o dan adran 71 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ac yn fandadol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae gan ACRh rôl gadarnhaol a grymusol i'w chwarae yn addysg dysgwyr ac mae'n hanfodol i ffurfio a chynnal ystod o gydberthnasau, sydd i gyd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr, yn greiddiol i addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae'r cydberthnasau hyn yn hollbwysig er mwyn datblygu lles emosiynol, gwydnwch ac empathi. Mae dealltwriaeth o rywioldeb gyda phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a thegwch yn grymuso dysgwyr i ddeall eu hunain, cymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau a'u hymddygiadau eu hunain a ffurfio cydberthnasau. Credwn y bydd dysgwyr yn derbyn mwy o gyfleoedd i ddatblygu perthnasoedd a dysgu yn gydweithredol fel rhan o ddosbarth mwy mewn ysgol amgen.<br><br>Fe nodir yn y Polisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei weithredu gan ysgolion cynradd Gwynedd fod yr ysgolion yn *"...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Dim | Mae gan bob ysgol Bolisi Cynhwysiad a fyddai'n delio ag unrhyw ddigwyddiad gwahaniaethol a allai godi yn yr ysgol, sy'n gysylltiedig â chrefydd neu gred. |
| **Ailbennu rhywedd** | Dim | Fe nodir ym mholisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei weithredu gan ysgolion cynradd Gwynedd fod yr ysgolion yn *"...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Dim | Ddim yn berthnasol. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Dim | Ddim yn berthnasol. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Dim | Yr un yw nod Polisi Iaith Addysg Gwynedd ar gyfer holl ysgolion cynradd y sir, ac mae pob ysgol gynradd (namyn un |

| | | |
|---|---|---|
| | | ysgol) yn disgyn i gategori 3 yn unol â chanllaw categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, Llywodraeth Cymru. Golyga hyn y bydd dysgwyr Ysgol Felinwnda, yn gallu parhau i dderbyn eu haddysg yn Gymraeg a dwyieithog yn unol â'r Polisi Iaith Addysg yn yr ysgol amgen.<br><br>Ni ragwelir y byddai effaith negyddol pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, a mae'n debygol y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg wrth i ddysgwyr Ysgol Felinwnda elwa o ragor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gydag ystod ehangach o gyfoedion yn y dosbarth ac yn gymdeithasol. Mae'r ddwy ysgol amgen cyfagos, sef Ysgol Bontnewydd ac Ysgol Llandwrog yn gwasanaethu ardaloedd sydd yn gadarnle i'r iaith Gymraeg.<br><br>Pe byddai'r cynnig i gau Ysgol Felinwnda yn cael ei wireddu, yna rhagwelir y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio, ac o ganlyniad, y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned. Rhagwelir y gall fod peth effaith negyddol yn deillio o wireddu'r cynnig, gan na fydd rhieni/gwarchodwyr/teuluoedd yn cyfarfod yn ddyddiol yn nghymuned Llanwnda wrth ollwng/casglu plant o'r ysgol. Pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei wireddu, yna gellid hybu'r ysgolion cyfagos i wneud defnydd o gyfleusterau Llanwnda. Bydd yn hanfodol fel rhan o'r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgolion amgen cyfagos a rhieni dysgwyr Ysgol Felinwnda, a'r gymuned ehangach, er mwyn annog yr ysgolion cyfagos i fanteisio ar gyfleusterau cymuned Llanwnda yn ogystal. |
| **Anfantais Economaidd-Gymdeithasol** | Dim | Ni rhagwelir y bydd yr ysgolion amgen cyfagos, sydd wedi eu lleoli llai na 2.5 filltir i Ysgol Felinwnda yn creu anfantais economaidd-gymdeithasol. Bydd y cynnig yn lleihau anfantais cymdeithasol drwy sicrhau mwy o brofiadau ac amrywiaeth dysgu, mwy o adnoddau a mynediad at mwy o wasanaethau a gweithgareddau. |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **A yw'n cael effaith?*** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Nac ydi | Ni rhagwelir y bydd y cynnig yn cael effaith ar y ddyletswydd statudol yr ysgol i amddiffyn dysgwyr rhag unrhyw wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Ydi | Anelir i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a hybu yr ysgolion amgen i barhau i ddilyn polisïau a gweithdrefnau cydraddoldeb.<br><br>Pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, rhagwelir y byddai dysgwyr yn derbyn mwy o gyfleoedd cyfartal wrth gael eu lleoli mewn ysgol amgen gan y byddai'r dysgwyr yn derbyn profiadau dysgu sy'n seiliedig ar egwyddorion dysgu cenedlaethol, gydag amrywiaeth o arddulliau gan gynnwys gweithio mewn grwpiau torfol, grwpiau llai, gwaith partner ac yn unigol o fewn eu hystod oedran penodol ynghyd a gwersi wedi'u gwahaniaethu yn briodol ar gyfer yr ystod oedran. |
| **Meithrin perthnasau da** | Ydi | Gan fod nifer o'r dysgwyr sy'n byw yn nalgylch Ysgol Felinwnda eisoes yn mynychu Ysgol Bontnewydd ac Ysgol Llandwrog, mae cysylltiad rhwng yr ysgolion a chymuned Felinwnda yn bodoli eisoes. Er hynny, pe gweithredir y cynnig, fe hyrwyddir cyfleon i'r ysgol adeiladu ar ei chysylltiadau presennol gyda chymuned Felinwnda.<br><br>Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh) yn ofyniad statudol yn fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a chaiff ei chyhoeddi o dan adran 71 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ac yn fandadol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae gan ACRh rôl gadarnhaol a grymusol i'w chwarae yn addysg dysgwyr ac mae'n hanfodol i ffurfio a chynnal ystod o gydberthnasau, sydd i gyd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr, yn greiddiol i addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae'r cydberthnasau hyn yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | hollbwysig er mwyn datblygu lles emosiynol, gwydnwch ac empathi. Mae dealltwriaeth o rywioldeb gyda phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a thegwch yn grymuso dysgwyr i ddeall eu hunain, cymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau a'u hymddygiadau eu hunain a ffurfio cydberthnasau. O weithredu'r cynnig, rhagwelir y byddai dysgwyr yn derbyn mwy o gyfleoedd i ddatblygu perthnasoedd a dysgu yn gydweithredol fel rhan o ddosbarth fwy. |

**3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

Ein disgwyliadau yw bod holl ddysgwyr y Sir yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys a gallu perthnasol er mwyn iddynt fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Bydd angen i'r cynigion ar gyfer newid trefniadau lleol gymryd ystyriaeth lawn o'r holl effeithiau ieithyddol. Bydd cynnal a chynyddu defnydd o'r Gymraeg fel iaith addysgol a chymdeithasol ymhlith y dysgwyr yn ystyriaeth allweddol wrth lunio'r cynnig.

Yr un yw nod Polisi Iaith Addysg Gwynedd ar gyfer holl ysgolion cynradd y Sir, ac mae pob ysgol gynradd (namyn un ysgol) yn disgyn i gategori 3 yn unol â chanllaw categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, Llywodraeth Cymru. Golyga hyn y bydd dysgwyr Ysgol Felinwnda yn gallu parhau i dderbyn eu haddysg yn Gymraeg a dwyieithog yn unol â'r Polisi Iaith Addysg yn yr ysgolion amgen.

Ni ragwelir y byddai effaith negyddol pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, a mae'n debygol y bydd y cynnig yn cael effaith bositif ar y Gymraeg wrth i ddysgwyr Ysgol Felinwnda elwa o ragor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gydag ystod ehangach o gyfoedion yn y dosbarth ac yn gymdeithasol.

O safbwynt y gymuned mae 1,145 (83%) o siaradwyr Cymraeg yn byw yn ward Llanwnda tra fod 1,015 (82%) o siaradwyr Cymraeg yn byw yn ward Bontnewydd (Ffynhonnell Cyfrifiad 2021) a 1,247 (75%) o siaradwyr Cymraeg yn byw yn ward Llandwrog.

Fel y gwelir o'r tabl isod mae canran uchel o ddysgwyr y 3 ysgol yn siarad Cymraeg gartref:

| Ysgol | Siarad Cymraeg yn rhugl gartref | Canran | Ddim yn siarad Cymraeg gartref ond yn rhugl | Siarad Cymraeg gartref ond nid yn rhugl | Ddim yn siarad Cymraeg gartref a nid yn rhugl | Ddim yn gallu siarad Cymraeg o gwbl | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Felinwnda** | 6 | 75% | 1 | 0 | 1 | 0 | 8 |
| **Bontnewydd** | 167 | 84% | 5 | 17 | 6 | 4 | 199 |
| **Llandwrog** | 28 | 88% | 0 | 1 | 1 | 2 | 32 |
| | **Cymraeg Rhugl** | | | **Ychydig o Gymraeg** | | **Dim Cymraeg** | |

Yn y cyfnod rhwng 2011 i 2022 mae 29 o unedau preswyl wedi cael ei cwblhau yn nalgylch Felinwnda a mae plant o'r tai eisoes yn mynychu ysgolion cynradd ac uwchradd o ddewis eu rhieni. Pe gweithredir y cynnig rydym yn hyderus bydd digon o le yn Ysgol Bontnewydd ac Ysgol Llandwrog i unrhyw ddysgwyr ychwanegol i'r dyfodol.

Ni ragwelir byddai gweithredu'r cynnig i gau Ysgol Felinwnda yn cael effaith negyddol ar y gymuned na'r iaith Gymraeg gan mai ond 8 plentyn sy'n mynychu'r ysgol gyda 3 ohonynt o dalgylch Felinwnda. Mae 45 o blant cynradd y dalgylch eisoes yn mynychu ysgolion eraill am eu haddysg gyda 31 ohonynt yn mynychu Ysgol Bontnewydd a 5 yn mynychu Ysgol Llandwrog.

Mae Canolfan Bro Llanwnda wedi ei lleoli drws nesa i'r ysgol ac yn cynnal nifer o weithgareddau gan gynnwys y Cylch Meithrin a'r Cylch Ti a Fi. Gan fod y Ganolfan yn annibynnol o'r ysgol ni ragwelir fydd cau yr ysgol yn cael effaith uniongyrchol arwyddocaol ar allu'r cylchoedd na digwyddiadau eraill rhag parhau. Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, mi fydd cefnogaeth ar gael gan Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau Cyngor Gwynedd er mwyn lliniaru unrhyw effaith negyddol.

Niferoedd y Cylch Meithrin dros y 6 mlynedd diwethaf:

| | |
|---|---|
| 2017-18 | 12 |
| 2018-19 | 11 |
| 2019-20 | 6 |
| 2020-21 | 9 |
| 2021-22 | 8 |
| 2022-23 | 16 |

***Ffynhonnell: Cylch Meithrin Dinas a Llanwnda***

Fel y gwelir uchod, mae niferoedd y Cylch Meithrin wedi bod yn gyson ers nifer o flynyddoedd. Yn anffodus, nid yw yn bosib rhagweld a fydd effaith ar niferoedd sy'n mynychu'r Cylch pe byddai Ysgol Felinwnda yn cau. Mi fydd cefnogaeth ar gael gan Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar y Cyngor i gefnogi gyda unrhyw faterion yn ymwneud â'r lleoliad gofal plant.

### 3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?

| |
|---|
| Rhagwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith bositif ar y Gymraeg gan y byddai dysgwyr Ysgol Felinwnda yn elwa o ragor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gydag ystod ehangach o gyfoedion yn y dosbarth ac yn gymdeithasol.<br><br>Pe byddai'r ysgol yn cau, gallai'r Awdurdod Lleol a Chyrff Llywodraethol yr ysgolion amgen ystyried dulliau i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn gymdeithasol trwy gyfrwng gweithgareddau allgyrsiol a chymunedol. |

### 3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).

| |
|---|
| Rhagwelir y byddai gweithredu'r cynnig yn lleihau yr anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol drwy sicrhau fod y dysgwyr yn cael mwy o brofiadau a mynediad at mwy o wasanaethau a gweithgareddau yn yr ysgolion amgen. Byddai dysgwyr yn derbyn cyfleoedd fwy cyfartal gan y byddai y dysgwyr yn derbyn profiadau dysgu sy'n seiliedig ar egwyddorion dysgu cenedlaethol, gydag amrywiaeth o arddulliau gan gynnwys gweithio mewn grwpiau torfol, grwpiau llai, gwaith partner ac yn unigol o fewn eu hystod oedran penodol ynghyd â gwersi sydd wedi'u gwahaniaethu'n briodol ar gyfer yr ystod oedran dan sylw.<br><br>Drwy weithredu'r cynnig, byddai dysgwyr Ysgol Felinwnda yn cael gwell amgylchfyd dysgu mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr yr un oedran, a byddai'n sicrhau eu bod yn gwneud y mwyaf o'u haddysg. Byddai'r dysgwyr yn elwa o gael rhagor o gyfoedion oed-berthnasol mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr, fydd yn fodd o sicrhau profiadau addysgol ac allgyrsiol addas iddynt ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol. |

### 3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?

| |
|---|
| Pe byddai Ysgol Felinwnda yn cau, mi fydd y gymuned yn gallu galw ar wasanaethau Cyngor Gwynedd i gefnogi gyda unrhyw effaith negyddol yn dilyn cau yr ysgol. |

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

### 4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

| |
|---|
| Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, rhagwelir y byddai dysgwyr yn derbyn cyfleoedd fwy cyfartal wrth gael eu lleoli mewn ysgol amgen oherwydd bydd y dysgwyr yn derbyn profiadau |

| |
|---|
| dysgu sydd yn seiliedig ar egwyddorion dysgu cenedlaethol, gydag amrywiaeth o arddulliau gan gynnwys gweithio mewn grwpiau torfol, grwpiau llai, gwaith partner ac yn unigol o fewn eu hystod oedran penodol ynghyd â gwersi sydd wedi'u gwahaniaethu'n briodol ar gyfer yr ystod oedran dan sylw.<br><br>Drwy weithredu'r cynnig, byddai dysgwyr Ysgol Felinwnda yn cael gwell amgylchfyd dysgu mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr yr un oedran, bydd yn sicrhau eu bod yn gwneud y mwyaf o'u haddysg, ac yn caniatáu mynediad at fwy o weithgareddau berthnasol i'w lefel gallu. Byddai'r dysgwyr yn elwa o gael rhagor o gyfoedion oed-berthnasol mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr, fydd yn fodd o sicrhau profiadau addysgol ac allgyrsiol addas iddynt ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol. |

**4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Nid yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol. Mae gan holl ysgolion Gwynedd bolisïau cydraddoldeb a gwrth-fwlio, fel sydd gan Ysgol Felinwnda yn bresennol.<br><br>Fel Ysgol Felinwnda, mae'r ysgolion amgen yn gwasanaethu ardal o arwyddocâd ieithyddol, felly o weithredu'r cynnig, byddai'r dysgwyr yn ymuno ag ysgol Gymraeg ei naws. Gan nad oes gweithgareddau cymunedol yn cael eu cynnal yn Ysgol Felinwnda, a bod Canolfan Bro Llanwnda wedi ei lleoli drws nesa, ni ragwelir y byddai cau'r ysgol yn effeithio ar allu'r gymuned i barhau i gynnal gweithgareddau cymunedol, gan gynnwys rhai Cymraeg, yn yr ardal. |

**4.3 Beth ddylid ei wneud?**

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | ✓ |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |
| Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth | |

**4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

| |
|---|
| Cydnabyddir y gall colli ysgol fel sefydliad o fewn y gymuned gael effaith ar gydlyniant cymunedol, a rhagwelir yr angen i liniaru hyn drwy feithrin cysylltiadau rhwng yr ysgolion amgen perthnasol a chymuned Felinwnda. Mi fyddwn yn cynnig cymorth i Canolfan Bro Llanwnda a'r Cylch Meithrin drwy wasanaethau perthnasol y Cyngor, pe byddai penderfyniad i gau'r ysgol. |

Mae gan Felinwnda Ganolfan Gymunedol, felly mae'n annhebygol y bydd ar y gymuned angen adnodd cymunedol arall. Serch hynny mae gan Gyngor Gwynedd bolisi ôl-ddefnydd ysgolion sy'n rhoi cyfle i gymunedau ysgolion sy'n cau gyflwyno cynnig am berchnogaeth safleoedd ar gyfer defnydd cymunedol.

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**


Yr ysgol (a'u Corff Llywodraethu) sydd yn gyfrifol am weithredu ei pholisi cydraddoldeb a bydd yr Awdurdod, drwy ei weithdrefnau cefnogi a monitro arferol, yn sicrhau cydymffurfiaeth.

Mae gan addysg cydberthynas a rhywioldeb rôl gadarnhaol a grymusol i'w chwarae yn addysg dysgwyr ac mae'n hanfodol i ffurfio a chynnal ystod o gydberthnasau, sydd oll yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr, yn greiddiol i addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae'r cydberthnasau hyn yn hollbwysig er mwyn datblygu lles emosiynol, gwydnwch ac empathi. Mae dealltwriaeth o rywioldeb gyda phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a thegwch yn grymuso dysgwyr i ddeall eu hunain, cymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau a'u hymddygiadau eu hunain a ffurfio cydberthnasau.

## 5) Monitro

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

Pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, mi fyddwn yn monitro effaith cau'r ysgol ac yn ymdrechu i gynorthwyo gyda unrhyw effaith negyddol all deillio o ganlyniad i gau yr ysgol.




# Adroddiad Asesu Effaith Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol – cynnig i gau Ysgol Felinwnda

- Hydref 2023

## CYNNWYS


1. CYFLWYNIAD

2. SUT MAE’R CYNNIG YN CWRDD AG AMCANION LLES CYNGOR GWYNEDD?

3. A YW’R CYNNIG YN CWRDD Â NODAU LLESIANT Y DDEDDF?

4. EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY

5. CASGLIAD

# 1. CYFLWYNIAD

Rydym fel Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau Gwynedd. Gweledigaeth y Cyngor yw:

*Ein gweledigaeth fel Cyngor yw cefnogi holl bobl Gwynedd i ffynnu ac i fyw bywyd cyflawn yn eu cymuned mewn sir sy'n un o'r siroedd gorau i fyw ynddi.*

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu amcanion llesiant sydd yn ategu'r nodau llesiant cenedlaethol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc
- Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng
- Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau
- Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau
- Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned
- Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd
- Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r cyswllt rhwng ein hamcanion llesiant a'r nodau llesiant cenedlaethol.

| | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant bywiog lle mae' r iaith Gymraeg yn ffynnu | Yn gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| GWYNEDD YFORY<br>Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc | ■ | | ■ | ■ | | ■ | |
| GWYNEDD LEWYRCHUS<br>Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng | ■ | ■ | | ■ | ■ | ■ | |
| GWYNEDD GLYD<br>Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau | | ■ | ■ | ■ | ■ | | |
| GWYNEDD OFALGAR<br>Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau | ■ | | ■ | ■ | ■ | | |
| GWYNEDD GYMRAEG<br>Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. | | | | | ■ | ■ | |
| GWYNEDD WERDD<br>Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd | ■ | ■ | | | ■ | | ■ |
| GWYNEDD EFFEITHLON<br>Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon | ■ | | | ■ | | | |

Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant y Ddeddf ymysg dysgwyr drwy eu gweithgareddau a'u prosiectau. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y bydd yn gwella yn "Cynllun Gwynedd 2023-2028".

### 1.1 Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Felinwnda wedi ei lleoli ger pentref Saron a Dinas ar gyrion Caernarfon ac yn gwasanaethu'r pentrefi a'r ardal gyfagos. Mae sefyllfa Ysgol Felinwnda wedi dod i sylw'r Adran Addysg oherwydd, yn ôl Cyfrifiad Medi 2022, hon yw'r ysgol gyda'r nifer lleiaf o ddysgwyr yng Ngwynedd. Mae gostyngiad sylweddol wedi bod yn niferoedd dysgwyr Ysgol Felinwnda dros y 10 mlynedd diwethaf, o 31 disgybl yn 2012 i lawr i 8 disgybl erbyn heddiw, sydd yn arwain at pryderon ynglŷn â dyfodol yr ysgol.

### 1.2 Y cynnig dan sylw

Y cynnig dan sylw yw:

***Cynnig i gau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023, a'r disgyblion presennol i drosglwyddo i ysgol amgen cyfagos, yn unol â dewis rhieni, o 1 Ionawr 2024***

## 2. SUT MAE'R CYNNIG YN CWRDD AG AMCANION LLES CYNGOR GWYNEDD?

| Amcanion | Manylion: |
|---|---|
| **Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc** | Byddai'r cynnig yn sicrhau fod plant yr ardal yn meithrin profiadau drwy gymdeithasu gydag ystod ehangach o gyfoedion, oed-berthnasol gan dderbyn addysg o ansawdd mewn ysgol sydd yn gallu cynnig amgylchedd ddysgu a phrofiadau i ystod ehangach o ddysgwyr. |
| **Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng** | Rhagwelir y byddai gweithredu'r opsiwn yma'n arwain at ddiswyddiadau staff. Datblygwyd polisi staffio manwl gan Gyngor Gwynedd mewn cydweithrediad ag Undebau Llafur a phenaethiaid. Bydd y polisi yn sail i unrhyw newid i gyflogaeth staff sy'n deillio o unrhyw gynnig. Bydd cyfathrebu eglur ac agored yn greiddiol i weithrediad llwyddiannus unrhyw gynigion. |
| **Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau** | Dim effaith. |
| **Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau** | Bydd sicrhau fod y dysgwyr yn derbyn addysg o'r radd flaenaf yn greiddiol i'r cynnig, gan sicrhau y byddant yn derbyn addysg o'r un ansawdd a safon yn yr ysgolion amgen. |
| **Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned** | Mae dysgwyr Ysgol Felinwnda yn byw mewn cymdeithas Gymraeg ac yn cael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, fel Ysgol Bontnewydd ac Ysgol Llandwrog. Mae'n debygol y byddai'r cynnig yn cael effaith cadarnhaol ar y Gymraeg wrth i ddysgwyr Ysgol Felinwnda elwa o ragor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gydag ystod ehangach o gyfoedion yn y dosbarth ac yn gymdeithasol. Mae Ysgol Bontnewydd ac Ysgol Llandwrog yn gwasanaethu ardaloedd sydd yn gadarnle i'r iaith Gymraeg gyda nifer uchel o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg. |
| **Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd** | Dim effaith. |
| **Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon** | Dim effaith. |

## 3. A YW’R CYNNIG YN CWRDD Â NODAU LLESIANT Y DDEDDF?

| Nod | Yw’r cynnig yn cyfrannu at y nod yma? | Mesurau lliniaru effeithiau negyddol ar y nod yma: |
|---|---|---|
| **Cymru lewyrchus**<br>Cymdeithas arloesol sy’n defnyddio adnoddau’n ddarbodus, pobl addysgedig, sy’n creu cyfoeth a gwaith. | Bydda gweithredu’r cynnig i gau Ysgol Felinwnda ac addysgu’r plant mewn ysgol amgen cyfagos yn golygu fod y dysgwyr yn meithrin profiadau drwy gymdeithasu gydag ystod ehangach o gyfoedion, oed-berthnasol gan dderbyn addysg o ansawdd mewn ysgol sydd yn gallu cynnig amgylchedd ddysgu a phrofiadau i ystod ehangach o ddysgwyr.<br><br>Gall cyflwyno’r opsiwn yma arwain at staff yn colli eu swyddi. | Mae Cyngor Gwynedd wedi datblygu polisi staffio manwl, ar y cyd ac Undebau Llafur a phenaethiaid. Bydd rhaid i unrhyw ddiswyddiadau o ganlyniad i’r cynnig hwn gyd-fynd â’r polisi hwnnw. Bydd cyfathrebu clir ac agored yn chwarae rhan greiddiol mewn gweithredu unrhyw gynigion. |
| **Cymru gydnerth**<br>Cenedl sy’n cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau iach sy’n cefnogi gwydnwch a gyda’r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). | Ni ragwelir y byddai’r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn. | Dim effaith |
| **Cymru iachach**<br>Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl ac mae pobl yn deall beth sy’n effeithio ar eu hiechyd. | Ni ragwelir y byddai’r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn. | Dim effaith |
| **Cymru sy’n fwy cyfartal**<br>Cymdeithas sy’n galluogi pobl i gyflawni eu potensial gwaeth beth fo’u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a’u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). | Bydd y cynnig yn gwella gallu'r Awdurdod i *“gynnig addysg o’r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi’r profiadau, y sgiliau a’r hyder i blant y Sir a’u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn”* yn unol â gweledigaeth Strategaeth Addysg Gynradd o’r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd. | Nodai’r Asesiad Cydraddoldeb na ragwelir y byddai’r cynnig yn cael effaith negyddol ar gydraddoldeb. Yn ogystal, nodwyd fod polisïau a threfniadau cadarn mewn lle a fyddai’n sicrhau fod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd â hawliau cyfartal. Nodir fod mesurau eisoes mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithiol nac aflonyddu. |

| | | |
|---|---|---|
| **Cymru o gymunedau gydlynus**<br>Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. | Mae cymuned Llanwnda yn gryf a gweithgar a chydnabyddir y byddai cau’r ysgol yn cael peth effaith negyddol ar y gymuned. | Cynhaliwyd asesiad o’r effaith tebygol ar y gymuned ble nodir bod peth effaith negyddol ar y gymuned, ond bod 31 o ddysgwyr sydd yn byw yn nalgylch Felinwnda eisoes yn dewis mynychu Ysgol Bontnewydd a 5 yn mynychu Ysgol Llandwrog, ac felly mae cyswllt eisoes rhwng yr ysgolion amgen a’r ardal ehangach. Nodir yn yr asesiad yn ogystal y byddai trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn trafod y posibilrwydd fod unrhyw weithgarwch cymunedol yn yr ysgolion amgen yn cynnwys cymuned Felinwnda.<br><br>Mae Canolfan Bro Llanwnda wedi ei lleoli drws nesa i'r ysgol ac yn cynnal nifer o weithgareddau gan gynnwys y Cylch Meithrin a’r Cylch Ti a Fi. Gan fod y Ganolfan yn annibynnol o'r ysgol ni ragwelir fydd cau yr ysgol yn effeithio ar allu’r cylchoedd na digwyddiadau eraill rhag parhau. |
| **Cymru a diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu**<br>Cymdeithas sy’n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a’r Gymraeg ac sy’n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. | Bydd gwireddu’r cynnig yn golygu y bydd dysgwyr Ysgol Felinwnda yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg. | Mae Canolfan Bro Llanwnda wedi ei lleoli drws nesa i'r ysgol ac yn cynnal nifer o weithgareddau gan gynnwys y Cylch Meithrin a’r Cylch Ti a Fi. Gan fod y Ganolfan yn annibynnol o'r ysgol ni ragwelir fydd cau yr ysgol yn effeithio ar allu’r cylchoedd na digwyddiadau eraill rhag parhau. |
| **Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang**<br>Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o’r fath gyfrannu’n gadarnhaol at lesiant byd-eang. | Ni ragwelir y byddai’r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn. | Dim effaith |

## 4. EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY


| Egwyddorion Datblygu cynaliadwy | A yw'r cynnig yn ystyried yr egwyddor? |
|---|---|
| **Tymor Hir**<br>Cydbwyso anghenion tymor byr gyda rhai hirdymor a chynllunio ar gyfer y dyfodol. | Mae'r patrwm o niferoedd dysgwyr yn gostwng wedi bod yn gyson ers 2012, gyda rhagamcanion yn dangos y bydd niferoedd dysgwyr Ysgol Felinwnda yn lleihau ymhellach dros y blynyddoedd nesaf, ac felly dengys y bydd yr heriau presennol sydd yn wynebu'r ysgol yn rhai hir dymor a bod angen ymateb i'r mater cyn gynted â phosib. |
| **Atal**<br>Neilltuo adnoddau ar gyfer atal problemau rhag digwydd neu waethygu. Byddwn yn rhoi sylw i broblemau drwy atal ac ymyrryd yn fuan yn hytrach na thrwy ymateb. | Anghenion y disgyblion fydd yn cael ei flaenoriaethu yn ystod pob cam o'r broses. |
| **Integreiddio**<br>Cael effaith gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a diwylliant. | Bu i'r awdurdod benderfynu edrych ar ddyfodol Ysgol Felinwnda yn sgil sefyllfa argyfyngus sy'n wynebu'r ysgol. |
| **Cydweithredu**<br>Gweithio gyda phartneriaid eraill i ddarparu gwasanaethau. | Bydd cydweithio gydag adrannau perthnasol eraill a'r ysgolion amgen yn rhan bwysig o gyflawni'r amcanion er lles yr ysgol a phlant y dalgylch. |
| **Cynnwys (Cyfathrebu ac Ymgysylltu)**<br>Cynnwys pobl Gwynedd wrth geisio gwireddu ein cynllun a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal. | Mae'r broses hyd yma wedi cynnwys sesiynau cyhoeddus lleol er mwyn ymgysylltu â budd-ddeiliaid perthnasol yr ysgolion a effeithir gan y cynnig, yn ogystal â chyfnod gwrthwynebu cyhoeddus, ac ymgysylltu hefo dysgwyr Ysgol Felinwnda. |

## 5. CASGLIAD

Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf llesiant ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir i'r casgliad fod y cynnig yn cwrdd â'r gofynion.

Cydnabyddir fod y cynnig hwn yn arwain at golli ysgol yng nghymuned Felinwnda, fodd bynnag mae nifer helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu yr ysgolion amgen cyfagos, ac felly mae cyswllt rhwng yr ysgolion a chymuned Felinwnda eisoes. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau. Pe byddai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, bydd trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn trafod y posibilrwydd fod gweithgarwch cymunedol yr ysgol amgen yn cynnwys cymuned Felinwnda lle'n briodol.

Bydd y cynnig arfaethedig yn sicrhau fod plant yr ardal yn cael eu haddysgu ar safle sy'n addas ac mewn cymdeithas naturiol Gymraeg, gan gynyddu cyfleoedd o gymdeithasu a chydweithio gydag eraill a rhoi cyfle teg iddynt ffynnu ymysg eu cyfoedion.




# Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned – cynnig i gau Ysgol Felinwnda

- Hydref 2023

## Cynnwys


1. CYFLWYNIAD
2. Y CYNNIG
3. CRYNODEB O'R DALGYLCH
4. YSGOLION Y DALGYLCH
5. ASESIAD O'R EFFAITH TEBYGOL AR Y GYMUNED
6. CASGLIAD

## 1. CYFLWYNIAD

Fel rhan o'r broses statudol, wrth ddatblygu cynnig ar gyfer ad-drefnu ysgol, mae rhaid i'r Awdurdod gynnal asesiad o effaith debygol ar y gymuned, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Mae'r asesiad hwn yn deillio o ganllawiau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer ad-drefnu ysgolion, yn cynnwys ystyriaethau ynglŷn ag anghenion unigryw ardaloedd gwledig. Fe nodir yn y Cod:

*"Mewn rhai ardaloedd, efallai mai ysgol fydd y prif ganolbwynt ar gyfer gweithgarwch cymunedol hefyd, a gallai ei chau arwain at oblygiadau y tu hwnt i ddarparu addysg. Gall hyn fod yn nodwedd benodol mewn ardaloedd gwledig os defnyddir adeiladau ysgolion fel man i ddarparu gwasanaethau i'r gymuned leol."*

*"Dylai'r achos a gaiff ei baratoi gan y rhai sy'n cyflwyno'r cynigion ddangos bod effaith cau'r ysgol ar y gymuned wedi'i hasesu drwy lunio Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned, a dangos sut y gellid cynnal unrhyw gyfleusterau cymunedol a ddarperir gan yr ysgol ar hyn o bryd."*

Ffynhonnell: Cod Trefniadaeth Ysgolion 011 /2018

### 1.1 Cefndir

Mae Ysgol Gynradd Felinwnda wedi ei lleoli ger pentref Saron a Dinas ar gyrion Caernarfon ac yn gwasanaethu'r pentrefi a'r ardal gyfagos. Mae sefyllfa Ysgol Felinwnda wedi dod i sylw'r Adran Addysg yn ôl Cyfrifiad Medi 2022, hon yw'r ysgol gyda'r nifer lleiaf o ddysgwyr yng Ngwynedd. Mae gostyngiad sylweddol wedi bod yn niferoedd dysgwyr Ysgol Felinwnda dros y 10 mlynedd diwethaf, o 31 disgybl yn 2012 i lawr i 8 disgybl erbyn heddiw, sydd yn arwain at ansicrwydd ynglŷn â dyfodol yr ysgol.

## 2. Y CYNNIG

Yn dilyn cynnal gwerthusiad o wahanol opsiynau yn erbyn ffactorau'r Strategaeth, daethpwyd i'r casgliad mai'r opsiwn ffafriedig ydi:

**Cau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023, a'r disgyblion presennol i drosglwyddo i ysgol amgen cyfagos, yn unol â dewis rhieni, o 1 Ionawr 2024.**

## 3. CRYNODEB O'R DALGYLCH

### 3.1 Yr Ardal

Mae Ysgol Gynradd Felinwnda wedi ei lleoli ym mhentref gwledig Llanwnda ger pentref Saron a Dinas ar gyrion Caernarfon yng Ngwynedd, gyda thua 2000 o drigolion. Mae wedi ei leoli 3.9 milltir o Gaernarfon. Yn ôl cyfrifiad 2011, mae 1,994 o bobl yn byw yn ward Llanwnda.

### 3.2 Yr Economi

Mae 72.4% o bobl rhwng 16 a 74 mlwydd oed o fewn ward Llanwnda yn weithgar yn economaidd, a 2.9% o'r rhain yn ddi-waith. Mae 27.6% o bobl yn yr un grŵp oedran yn anweithgar yn economaidd gyda 13.8% o'r rhain yn sâl neu'n anabl am gyfnod hir.

Mae'r math o ddiwydiant y mae'r boblogaeth yn weithgar ynddo yn amrywiol yn yr ardal, gyda'r gyfradd uchaf (18.5%) yn gweithio yn y maes iechyd a gwaith cymdeithasol.

Yn ôl data 'Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2014)' mae cyfradd cyflogaeth ward Llanwnda o gymharu â wardiau eraill yng Nghymru yn rhoi ranc o 1254 allan o 1909 o wardiau. Nid yw ward Felinwnda felly o fewn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

## 3.3 Amddifadedd

Mae Ward Llanwnda wedi 'w raddio o fewn y 50% lleiaf difreintiedig yng Nghymru (ranc 1046 allan o 1909 o wardiau).

Mae nifer o feysydd yn llunio'r mynegai cyffredinol yma, gan gynnwys incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad i wasanaethau, diogelwch cymunedol, amgylchedd ffisegol a thai.

Nodir fod ward Llanwnda o fewn y 20-30% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y maes 'Tai'. Dangosyddion y maes hwn yw'r gyfran o bobl yn byw mewn cartrefi gorlawn (defnydd ystafelloedd gwely), a'r gyfran o bobl yn byw mewn cartrefi heb wres canolog.

Yn ogystal, mae ward Llanwnda o fewn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y maes 'mynediad i wasanaethau', h.y. amddifadedd am nad yw pobl yn gallu cael gafael ar amrywiaeth o wasanaethau sy'n cael eu hystyried yn hanfodol ar gyfer byw o ddydd i ddydd. Mae'r dangosyddion yn cynnwys cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i nifer o wasanaethau megis siopau bwyd, meddygfa, ysgolion cynradd ac uwchradd, swyddfa bost, llyfrgell gyhoeddus, fferyllfa, canolfan hamdden ac amser teithio preifat i orsaf betrol.

Mae crynodeb isod o sut y mae ardal Llanwnda wedi ei lleoli yng nghyd-destun ardaloedd eraill yng Nghymru yn ôl y Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2014):

| **Maes** | **Ranc yng Nghymru, allan o 1909 o ardaloedd. (1 = mwyaf difreintiedig a 1909 = lleiaf difreintiedig)** | **Mwyaf difreintiedig % yng Nghymru** |
|---|---|---|
| Cyflogaeth | 1254 | |
| Incwm | 1092 | |
| Iechyd | 1435 | |
| Addysg | 1437 | |
| Tai | 388 | O fewn y 20-30% mwyaf difreintiedig |
| Amgylchedd ffisegol | 1020 | |
| Mynediad i wasanaethau | 116 | O fewn y 10% mwyaf difreintiedig |
| Diogelwch cymunedol | 1513 | |

## 3.4 Y Gymuned

Mae nifer o weithgareddau yn cael eu cynnal yn Ward Llanwnda, gan gynnwys;

- Sensori Sara
- Clwb darllen
- Ras Rhostryfan
- Bore goffi
- Cylch Ti a Fi

- Cylch Meithrin
- Merched y Wawr
- Zumba
- Y Gymdeithas

Yn ogystal, mae nifer o gyfleusterau yn y dalgylch, gan gynnwys canolfan gymunedol, siopau, garej, trafnidiaeth gyhoeddus, gorsaf drên bach a chae chwarae plant.

## 4. YSGOLION Y DALGYLCH

### 4.1 Cyd-destun yr ysgolion yn ôl Adroddiadau Arolygon Estyn

Fel rhan o adroddiadau Estyn, gosodir yr ysgolion o fewn cyd-destun, a manylir ar eu cysylltiadau cymunedol. Dyma'r cyd-destun a roddwyd i Ysgol Felinwnda gan arolygwyr Estyn.

**Ysgol Felinwnda**

*"Mae Ysgol Gynradd Felinwnda wedi ei lleoli ger pentref Saron a Dinas ar gyrion Caernarfon ac yn gwasanaethu'r pentrefi a'r ardal gyfagos."*

Ffynhonnell: Adroddiad Estyn, Mehefin 2017

### 4.2 Gwybodaeth ystadegol yr ysgolion

Dengys y tabl isod niferoedd Ysgol Felinwnda a'r ddwy ysgol cyfagos, sef Ysgol Bontnewydd ac Ysgol Llandwrog. Gwelir yn ogystal yn y tabl hwn beth yw capasiti'r ysgolion a nifer ar y gofrestr yn Ionawr 2023. Mae'r tair ysgol yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

| Ysgol | **Capasiti Llawn** (M – Bl6) | **Nifer ar y gofrestr** Ionawr 2023 (M – Bl6) | Categori Cyfreithiol |
|---|---|---|---|
| **Felinwnda** | 61 | 8 | Ysgol Gymunedol |
| **Bontnewydd** | 208 | 204 | Ysgol Gymunedol |
| **Llandwrog** | 75 | 32 | Eglwysig, Yr Eglwys yng Nghymru |

***Ffynhonnell: CYBLD Ionawr 2023***

### 4.3 Gwybodaeth lleoliad annedd a dewis ysgolion dysgwyr

Mae gan bob ysgol ddalgylch penodol y mae'n gwasanaethu ac sydd yn bwysig o ran polisi mynediad a chludiant y Cyngor. Nid oes rhaid i ddysgwyr fynychu eu hysgol dalgylch, mae'r dewis i fyny i rieni (yn unol â'r polisi mynediad).

O gymharu â dalgylchoedd eraill yr ardal, mae nifer dysgwyr dalgylch Ysgol Felinwnda sy'n dewis mynychu ysgol all-dalgylch yn uchel. Dengys y data diweddaraf fod 48 o blant 3-11 oed (data Medi 2022) yn byw yn nalgylch Felinwnda; gyda dim ond 3 ohonynt yn mynychu Ysgol Felinwnda. Golyga hyn

fod 94% o blant sy'n byw yn nalgylch Ysgol Felinwnda yn mynychu ysgolion all-dalgylch gan gynnwys 31 sydd yn mynychu Ysgol Bontnewydd a 5 yn mynychu Ysgol Llandwrog.

Mae'r tabl isod yn dangos y wybodaeth gyflawn o ran lleoliadau byw dysgwyr a'u dewis o ran ysgol.

| | | Byw yn Dalgylch (Medi 2022) | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Bontnewydd** | **Felinwnda** | **Llandwrog** | **Maesincla** | **Rhosgadfan** | **Rhostryfan** | **Y Gelli** | **Yr Hendre** | **Arall** | **Cyfanswm Ysgol *(M-Bl6)*** |
| **Mynychu Ysgol (Medi 2022)** | **Bontnewydd** | 94 | 31 | 1 | 10 | 6 | 12 | 3 | 26 | 26 | **209** |
| | **Felinwnda** | 0 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 6 | **9** |
| | **Llandwrog** | 0 | 5 | 20 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 8 | **33** |
| | **Maesincla** | 0 | 1 | 0 | 212 | 1 | 1 | 5 | 44 | 9 | **273** |
| | **Rhosgadfan** | 0 | 0 | 0 | 0 | 38 | 0 | 0 | 0 | 7 | **45** |
| | **Rhostryfan** | 4 | 0 | 1 | 0 | 20 | 50 | 0 | 0 | 1 | **76** |
| | **Santes Helen** | 0 | 0 | 0 | 14 | 0 | 0 | 7 | 6 | 8 | **35** |
| | **Y Gelli** | 0 | 0 | 0 | 55 | 1 | 0 | 132 | 36 | 5 | **229** |
| | **Yr Hendre** | 3 | 5 | 2 | 131 | 2 | 0 | 18 | 232 | 4 | **397** |
| | Arall | 11 | 3 | 7 | 20 | 16 | 12 | 9 | 19 | | |
| **Cyfanswm** | | **112** | **48** | **31** | **442** | **84** | **75** | **174** | **363** | | |

***Ffynhonnell: Cyfrifiad Medi 2022***

## 4.4 Crynodeb o'r amrywiol gyfleusterau sydd yng nghymuned Felinwnda (Mawrth 2023)

| | **Felinwnda** |
|---|---|
| **Canolfan Gymuned / Neuadd Bentref** | ✓ |
| **Capel/Eglwys** | ✓ |
| **Trafnidiaeth Gyhoeddus** | ✓ |
| **Siop** | ✓ |
| **Caffi/Tafarn** | |
| **Swyddfa Bost** | |
| **Fferyllfa** | |
| **Llyfrgell** | |
| **Cae Chwarae Plant** | ✓ |
| **Banc** | |
| **Cartref Henoed** | |
| **Canolfan Hamdden** | |
| **Garej** | ✓ |
| **Atyniad Twristaidd** | ✓ |
| **Cylch Ti a Fi + Meithrin** | ✓ |

**Canolfan Gymunedol**

Mae Canolfan Bro Llanwnda wedi ei lleoli drws nesaf i Ysgol Felinwnda ac yn cynnal nifer o weithgareddau cymunedol gan gynnwys:

- Sensori Sara
- Cymdeithas Hanes y Tair Llan
- Zumba
- Merched y Wawr
- Cylch Meithrin
- Cylch Ti a Fi

Mae gwefan Mudiad Meithrin yn dangos fod y Cylch Meithrin yn cwrdd dydd Llun i Gwener rhwng 9:00-12:50 a'r Cylch Ti a Fi bod pnawn dydd Mercher (13:15 – 15:30). Gan fod y Ganolfan yn annibynnol i'r ysgol ni ragwelir fydd cau yr ysgol yn cael unrhyw effaith ar allu'r cylchoedd i barhau.

Yn ôl y Pennaeth, does dim defnydd cymunedol o Ysgol Felinwnda tu allan i oriau ysgol.

## 4.5 Crynodeb o weithgareddau neu grwpiau y mae'r ysgol yn ymwneud yn rheolaidd â nhw:

| | Felinwnda |
|---|---|
| **Cylch Meithrin/Ti a Fi** | |
| **Eisteddfodau (Lleol/Sirol/Cenedlaethol)** | ✓ |
| **Adrannau'r Urdd** | ✓ |
| **Gweithgareddau eraill (chwaraeon, clybiau)** | ✓ |

4.6 Os darperir adeiladau, ystafelloedd, cyfleusterau neu wasanaethau gan ysgol ar ran y gymuned, ble y byddent yn cael eu darparu os caiff yr ysgol ei chau?

| Ysgol | Ble darparir cyfleusterau pe bai'n cau |
|---|---|
| **Felinwnda** | Does dim defnydd cymunedol yn cael ei wneud o'r ysgol a mae Canolfan Bro Llanwnda ar gael ar gyfer cynnal gweithgareddau yn yr ardal. |

## 4.7 Gwybodaeth am bellter ac amser teithio i ysgolion eraill y dalgylch

Mae'r tabl isod yn nodi pellter ac amser teithio rhwng ysgolion yr ardal. Gwelwn mai Ysgol Bontnewydd yw'r agosaf at Ysgol Felinwnda. Mae'r amseroedd teithio isod yn ystyried natur y lonydd a'r effaith y gall hynny ei gael ar amser teithio mewn ardal wledig.

| Ysgol | | Felinwnda |
|---|---|---|
| **Felinwnda** | **Milltir** | |
| | **Munudau** | |
| **Bontnewydd** | **Milltir** | **1.8 milltir** |
| | **Munudau** | **4 munud** |
| **Llandwrog** | **Milltir** | **2 milltir** |
| | **Munudau** | **8 munud** |

***Ffynhonnell: Mapiau Google 2023***

## 5. ASESIAD O'R EFFAITH TEBYGOL AR Y GYMUNED

Er mwyn asesu effaith cymunedol y modelau posib, penderfynwyd creu meini prawf yn unol ag argymhellion ystyriaethau asesiad cymunedol y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.

**CYNNIG I GAU YSGOL FELINWNDA GAN DROSGLWYDDO'R DYSGWYR I YSGOL AMGEN CYFAGOS**

| Positif | Niwtral | Negyddol |
|---|---|---|

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Effaith ar Iechyd a llesiant | Gan fod dros 50% o'r dysgwyr o dalgylch Felinwnda yn byw o fewn 2 filltir i Ysgol Bontnewydd ac Ysgol Llandwrog a bod rhai llwybrau saff i'r ysgolion bydd cyfle i rai gerdded i'r ysgol.<br><br>Mi fydd bod mewn ysgol mwy yn cynnig mwy o gyfleoedd chwarae a chymryd rhan mewn chwaraeon tîm a felly yn gyfrannu at iechyd a llesiant dysgwyr. | Niwtral |
| Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus | Ni ragwelir bydd unrhyw effaith ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus gan y bydd unrhyw gludiant i ysgol amgen yn sgil y newid yn cael ei drefnu yn benodol ar gyfer dysgwyr y dalgylch sy'n gymwys yn unol a Polisi Cludiant y Sir. | Niwtral |
| Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol | Does dim defnydd cymunedol o Ysgol Felinwnda felly ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf hwn.<br><br>Lleolir Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi yng Nghanolfan Bro Llanwnda sydd wedi ei leoli drws nesa i Ysgol Felinwnda. Gan fod y Ganolfan yn annibynnol o'r ysgol ni ragwelir y byddai cau yr ysgol yn effeithio ar allu'r cylchoedd i barhau. | Niwtral |
| Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach | Ni ragwelir effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach. | Niwtral |
| A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned | Gan fod nifer uchel o blant y dalgylch yn mynychu ysgolion amgen eisoes ni ragwelir y byddai teuluoedd a phlant ifanc yn gadael y gymuned pe byddai'r ysgol yn cau. Gan fod 2 ysgol amgen rhyw 2 filltir o Ysgol Felinwnda, ni rhagwelir y byddai'n cael effaith ar deuluoedd a phant oedran ysgol yn gadael y gymuned. | Niwtral |
| Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol | Lleolir Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi yng Nghanolfan Bro Llanwnda. Mae nifer o ddigwyddiadau eraill hefyd yn cael eu cynnal yn y Ganolfan. Gan fod y Ganolfan yn annibynnol o'r ysgol ni ragwelir y byddai cau'r ysgol yn cael effaith uniongyrchol arwyddocaol ar ddefnydd cymunedol o Ganolfan Bro Llanwnda. | Niwtral |
| Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned | Gan fod y rhan fwyaf o blant y dalgylch yn mynychu ysgolion eraill, ni ragwelir y byddai cau Ysgol Felinwnda yn cael effaith ar economi ehangach y gymuned. | Niwtral |
| Effaith gyffredinol ar y gymuned leol | O weithredu'r cynnig byddai'r ysgol leol yn bellach o gartrefi o fewn dalgylch presennol ysgol Felinwnda, ac o safbwynt amddifadedd – golyga fod un o ddangosyddion 'mynediad i wasanaethau' yn pellhau oddi wrth drigolion y pentref.<br><br>Gan fod canran uchel o blant y dalgylch yn mynychu ysgolion eraill eisoes, ni allwn fynegi yn gadarnhaol y byddai cau'r ysgol yn cael effaith negyddol na phositif ar y gymuned leol. | Negyddol |


## 6. CASGLIAD

Pe byddai cyflwyno'r cynnig i gau Ysgol Felinwnda a throsglwyddo'r dysgwyr i ysgol/ysgolion amgen cyfagos, rhagwelir y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio.

Er nad oes defnydd cymunedol o adeilad yr ysgol, gwelir yn yr asesiad hwn fod yr ysgol yn ymwneud a'i chymuned ac yn defnyddio cyfleusterau y gymuned, megis Canolfan Bro Llanwnda yn achlysurol. Pe byddai gwireddu y cynnig yma, yna gellid hybu'r ysgolion cyfagos i wneud defnydd o gyfleusterau bro Llanwnda yn ogystal, yn achlysurol.

Bydd yn hanfodol fel rhan o'r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgolion amgen a rhieni dysgwyr Ysgol Felinwnda fel bod modd i rieni a dysgwyr fanteisio ar eu cyfleusterau a gweithgareddau ar ôl ysgol, ac i annog yr ysgolion amgen cyfagos i fanteisio ar gyfleusterau cymuned Llanwnda yn ogystal.

Dengys yr asesiad hwn y rhagwelir peth effaith negyddol ar y gymuned pe gweithredir y cynnig i gau'r ysgol. I liniaru'r effaith ar y gymuned nodir cyfleon i sicrhau fod cymuned Llanwnda yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgolion amgen cyfagos, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng yr ysgolion amgen cyfagos a chymuned Llanwnda, lle'n briodol.




# Adroddiad Asesiad Effaith Ieithyddol

# Ysgol Felinwnda

- Hydref 2023

## Cynnwys


**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Y Sefyllfa yng Ngwynedd

1.2 Polisi Iaith

1.3 Cefndir Addysgol

**2. PROFFIL IEITHYDDOL DALGYLCH FELINWNDA**

2.1 Cefndir Proffil Iaith Gwynedd

2.2 Wardiau

2.3 Ysgol Felinwnda

2.4 Ysgolion Cyfagos

2.5 Gweithgareddau ar ôl ysgol

2.6 Gweithgareddau Cymunedol

2.7 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032

2.8 Tystiolaeth Ychwanegol

**3. EFFAITH AR YR IAITH GYMRAEG**

3.1 Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith

**4. CASGLIAD**

# 1. CYFLWYNIAD

Mae cefnogi a datblygu gallu plant Gwynedd i ddysgu a defnyddio eu sgiliau iaith yn allweddol bwysig i strategaethau addysg y Sir.

## 1.1 Y Sefyllfa yng Ngwynedd

Mae ffigyrau yng Nghyfrifiad 2021 yn nodi fod 66% o bobl dros dair oed yn gallu siarad, darllen neu ysgrifennu yn y Gymraeg. Mae Cyfrifiad 2021 hefyd yn nodi bod 64% yn siarad Cymraeg sydd yn ostyngiad ers y cyfrifiad blaenorol, pan oedd y ffigwr yn 65%.

Yng Ngwynedd, fel mewn sawl Awdurdod Lleol eraill yng Nghymru, mae cryn wahaniaeth yng nghanran y siaradwyr Cymraeg o fewn gwahanol wardiau. Ar un eithaf, mewn wardiau megis Aberdyfi, Tywyn a Canol Bangor mae rhwng 26% a 44% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, tra bod cymaint â 86% yn siarad Cymraeg yn yr ardaloedd mwyaf Cymreig e.e. Hendre a Llanrug.

## 1.2 Polisi Iaith

**Cynradd**

Yr un yw nod y Polisi Iaith ar draws holl ysgolion cynradd y Sir, sef datblygu gallu pob disgybl i fod yn hyfedr yn y ddwy iaith erbyn diwedd CA2. Y Gymraeg yw iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd Cyfnod Sylfaen. Yn CA2, parheir i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith.

**Uwchradd**

Yn yr uwchradd, disgwylir i bob disgybl sydd wedi cyrraedd y lefel angenrheidiol, sef lefel 3+ ar ddiwedd y CA2 ddilyn Cymraeg Iaith Gyntaf yn CA3 er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol. Y gobaith yw y gall y disgyblion hyn astudio'r Gymraeg a'r Saesneg fel pynciau hyd at ddiwedd blwyddyn 11.

Mae'r ysgolion uwchradd yn adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cynradd trwy sicrhau fod pob disgybl yn parhau i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Nid yw'r Sir yn diffinio ysgolion uwchradd yn ôl categorïau ieithyddol gan fod yr un disgwyliad mewn perthynas â'r Polisi Iaith, sef rhoi cyfle i holl ddisgyblion y Sir fod yn hyfedr ddwyieithog.

## 1.3 Miliwn o siaradwyr erbyn 2050

"Mae'r Gymraeg yn un o drysorau Cymru. Mae'n rhan o'r hyn sy'n ein diffinio fel pobl ac fel cenedl. Ein huchelgais ni fel Llywodraeth Cymru yw gweld miliwn o bobl yn gallu mwynhau siarad a defnyddio'r Gymraeg erbyn 2050."

"Mae ymateb i'r her o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn galw am newidiadau pellgyrhaeddol... Mae angen gwthio'r ffiniau a chymryd camau uchelgeisiol fel bod mwy o bobl yn dysgu a defnyddio'r Gymraeg. Mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar y sylfeini sydd eisoes yn eu lle ac yn ein symud ymlaen i'r cam nesaf yn ein taith ieithyddol. Rydym wedi nodi tair thema strategol ar gyfer gwireddu'r weledigaeth hon. 1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg 2. Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg 3. Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun"

"Mae hon yn strategaeth i Gymru gyfan, ac rydym am i bob rhan o'r wlad rannu'r weledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg. Mae yna botensial am dwf yn y niferoedd o siaradwyr Cymraeg, yn enwedig yn yr ardaloedd hynny o Gymru sydd â dwysedd poblogaeth uchel ond canrannau is o siaradwyr Cymraeg. Ond mae angen sicrhau hefyd hyfywedd cymunedau Cymraeg fel lleoedd sy'n hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd. Ein gweledigaeth ym mhob rhan o'r wlad yw creu amodau ffafriol sy'n cefnogi'r broses o gaffael yr iaith a'r arfer o ddefnyddio sgiliau Cymraeg. Rydym am weld cynnydd yn yr arfer o

drosglwyddo'r iaith o fewn y teulu, yr arfer o gyflwyno'r Gymraeg yn gynnar i bob plentyn, system addysg sy'n rhoi sgiliau Cymraeg i bawb, a mwy o werthfawrogiad o sgiliau iaith yn y gweithle. Ar yr un pryd, rydym wedi ymrwymo i gefnogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol, yn y gweithle, ac wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus."

"Mae'r nod o sicrhau miliwn o siaradwyr yn golygu datblygu ymhellach y dulliau sydd fwyaf tebygol o arwain at y cynnydd sydd ei angen. Mae yna ddau brif ddull: trosglwyddo'r Gymraeg o un genhedlaeth i'r llall, a datblygu a chynnal sgiliau Cymraeg drwy addysg a hyfforddiant."

### 1.3 Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-23

*"Mae Safon 145 o Safonau'r Gymraeg, a osodwyd ar y Gyngor Gwynedd yn unol ag Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod disgwyliad ar y Cyngor i lunio strategaeth 5 mlynedd fydd yn dangos sut yr ydym yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg ar draws y sir. Mae gan Gyngor Gwynedd hanes hir o hybu a gwarchod yr iaith fel cyfrwng cyfathrebu naturiol ei wasanaethau. Rhoir lle amlwg i'r Gymraeg yng nghynlluniau strategol y Cyngor, ac mae Polisi Iaith y Cyngor hefyd yn nodi ein hymrwymiad drwy ddatgan y rhoir cyfrifoldeb ar holl Swyddogion ac Aelodau'r Cyngor i hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob rhan o'u gwaith.*

*<u>3.2 Maes Blaenoriaeth 2 – Iaith Dysgu</u>*

*Y weledigaeth:*

- *Ysgolion sydd yn rhoi bri a gwerth i'r Gymraeg ac yn annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu a chymdeithasu drwy barhau i weithredu'r Siarter Iaith a Strategaeth Iaith Uwchradd.*
- *Cynnydd yn nifer y bobl ifanc sydd yn dewis astudio ac yn derbyn cymwysterau neu achrediadau cydnabyddedig drwy gyfrwng y Gymraeg.*
- *Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd ac i addysg ôl-orfodol.*
- *Mwy o gyfleoedd dysgu estynedig yn cael eu cynnig i bobl ifanc - ar ffurf profiad gwaith a phrentisiaethau gyda chyflogwyr sydd yn rhoi statws amlwg i'r Gymraeg - fydd yn datblygu dealltwriaeth pobl ifanc o'r angen am sgiliau Cymraeg ar gyfer y gweithle"*

### 1.5 Cefndir Addysgol

Mabwysiadwyd strategaeth "Addysg Gynradd o Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd" gan y Cyngor yn Ebrill 2009. Datblygwyd a chefnogwyd uwch strategaeth "Rhaglen Strategol - Tuag at 2025" gan y Cyngor yn Hydref 2010. Darparwyd y ddogfen fel sylfaen strategol i osod cyfeiriad i ddatblygiadau ym maes addysg a hyfforddiant yng Ngwynedd am y 15 mlynedd nesaf. Cyflwynwyd y rhaglen yng nghyd-destun y polisïau a chynlluniau sydd ar y gweill, yn lleol a chenedlaethol i drawsnewid gwasanaethau a ddarperir ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Cyhoeddwyd "Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer 2017-2020" yn Rhagfyr 2017 sydd yn gosod gweledigaeth, ymrwymiad a chyfeiriad ar gyfer sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyflawni'r safonau uchaf er mwyn cynnal yr iaith, diwylliant a'r economi yn lleol.

## 2. PROFFIL IAITH DALGYLCH FELINWNDA

### 2.1 Cefndir Proffil Iaith Gwynedd

Mae 64.4% o boblogaeth y Sir sydd dros dair oed yn siaradwyr Cymraeg – sylweddol uwch na'r ffigwr trwy Gymru gyfan o 17.8%. Yng Ngwynedd, mae'r gallu i siarad Cymraeg uchaf yn ward Hendre (mae 86% yn siarad Cymraeg), ac ar ei isaf yn ardal Canol Bangor (25.6%).

## 2.2 Wardiau

### 2.2.1 Wardiau Llanwnda, Y Groeslon a Bontnewydd

Mae dalgylch presennol Ysgol Felinwnda, o fewn ward Llanwnda gyda dalgylch Ysgol Llandwrog o fewn ward Y Groeslon ac Ysgol Bontnewydd o fewn ward Bontnewydd (Swyddfa Ystadegol Gwladol). Mae proffil ieithyddol wardiau'r ysgolion hyn wedi ei grynhoi yn y tabl isod:

| | **Llanwnda** | **Y Groeslon** | **Bontnewydd** | **Gwynedd** | **Cymru** |
|---|---|---|---|---|---|
| Hunaniaeth Gymreig yn unig | 1,082 (76.1%) | 1,200 (72.2%) | 917 (73.5%) | 69,560 (59.3%) | 1,715,975 (55.2%) |
| Dim hunaniaeth Gymreig | 19.9% | 23.7% | 19% | 36.3% | 36.7% |
| Poblogaeth 3+ mlwydd oed | 1,370 (100%) | 1,621 (100%) | 1,233 (100%) | 114,308 (100%) | 3,018,172 (100%) |
| Gallu siarad Cymraeg | 1,145 (83.5%) | 1,247 (77%) | 1,015 (82.5%) | 73,560 (64.4%) | 538,296 (17.8%) |
| Dim sgiliau Cymraeg | 142 (10.4%) | 237 (14.6%) | 129 (10.5%) | 29, 977 (26.2%) | 2,259,017 (74.8%) |
| Gallu deall Cymraeg ar lafar yn unig | 62 (4.5%) | 98 (6.0%) | 57 (4.6%) | 8,166 (7.1%) | 156,762 (5.2%) |
| Gallu siarad Cymraeg ond ddim yn gallu darllen nac ysgrifennu Cymraeg | 70 (5.1%) | 58 (3.6%) | 68 (5.5%) | 6,142 (5.4%) | 68,391 (2.3%) |
| Gallu siarad a darllen Cymraeg ond ddim yn gallu ysgrifennu Cymraeg | 44 (3.2%) | 43 (2.7%) | 42 (3.4%) | 3,170 (2.8%) | 33,971 (1.1%) |
| Gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg | 1,013 (73.9%) | 1,128 (69.6%) | 894 (72.5%) | 63, 256 (55.3%) | 429,313 (14.2%) |
| Cyfuniad arall o sgiliau Cymraeg | 18 (1.3%) | 18 (1.1%) | 13 (1.1%) | 993 (0.9%) | 6,621 (0.2%) |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021, Swyddfa Ystadegol Gwladol*

## 2.3 Ysgol Felinwnda

Mae’r wybodaeth a geir yn y tabl isod yn amlinellu cefndir ieithyddol disgyblion Ysgol Felinwnda.

| **Ysgol** | **Siarad Cymraeg yn rhugl gartref** | **Siarad Cymraeg gartref ond nid yn rhugl** | **Dim yn siarad Cymraeg gartref ond yn rhugl** | **Dim yn siarad Cymraeg gartref a dim yn rhugl** | **Dim yn siarad Cymraeg o gwbl** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Felinwnda** | 6 (75%) | 0 (0%) | 1 (12%) | 1 (12%) | 0 (0%) | **8** |

Ffynhonnell: Data gan Benaethiaid CYBLD Ionawr 2023

## 2.4 Ysgolion cyfagos

Mae data ieithyddol ar gyfer Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd i’w gweld isod:

| Ysgol | Siarad Cymraeg yn rhugl gartref | Siarad Cymraeg gartref ond nid yn rhugl | Dim yn siarad Cymraeg gartref ond yn rhugl | Dim yn siarad Cymraeg gartref a dim yn rhugl | Dim yn siarad Cymraeg o gwbl | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llandwrog** | 28 (87%) | 1 (3%) | 0 (0%) | 1 (3%) | 2 (6%) | **32** |
| **Bontnewydd** | 167 (84%) | 17 (8%) | 5 (2%) | 6 (3%) | 4 (2%) | **199** |

Ffynhonnell: Data gan Benaethiaid CYBLD Ionawr 2023

## 2.5 Gweithgareddau ar ôl ysgol

Cynhelir gweithgareddau ar ôl ysgol yn adeilad Ysgol Felinwnda megis Aelwyd yr Urdd. Mae llawer o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal yn neuadd bentref Llanwnda yn ogystal.

Dyma grynodeb o'r hyn mae Ysgol Felinwnda a'r ysgolion eraill cyfagos yn eu cynnig ar ôl ysgol:

| | Felinwnda | | Llandwrog | | Bontnewydd | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Adeilad yr Ysgol | Neuadd Bentref | Adeilad yr ysgol | Neuadd Bentref | Adeilad yr ysgol | Neuadd Bentref |
| **Grwpiau Chwarae (Gwyliau'r ysgol)** | | ✓ | | | ✓ | |
| **Aelwyd yr Urdd** | ✓ | | ✓ | | ✓ | |
| **Bore/Noson Goffi** | | ✓ | ✓ | | ✓ | |
| **Cylch/Ysgol Feithrin** | | ✓ | | | ✓ | |
| **Clwb/Clwb ar ôl ysgol / Gweithgaredd Chwaraeon** | ✓ | | ✓ | | ✓ | |

Gwelir yn y tabl uchod fod nifer o ysgolion yr ardal, gan gynnwys Ysgol Felinwnda yn cynnig clybiau gyda'r Urdd ar ôl ysgol. Golygai hyn gallai'r disgyblion barhau i fanteisio ar y gweithgareddau hyn fel cyfle ychwanegol i ddefnyddio a datblygu'r Gymraeg pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.

## 2.6 Gweithgareddau Cymunedol

Mae Canolfan Bro Llanwnda wedi ei lleoli drws nesaf i Ysgol Felinwnda ac yn cynnal nifer o weithgareddau cymunedol gan gynnwys:

- Sensori Sara
- Cymdeithas Hanes a Tair Llan
- Zumba
- Merched y Wawr
- Cylch Meithrin
- Cylch Ti a Fi

Gan fod y ganolfan yn annibynnol i'r ysgol, ni ragwelir y byddai cau'r ysgol yn effeithio ar allu'r gweithgareddau cymunedol hyn yng Nghanolfan Bro Llanwnda i barhau.

## 2.7 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032

Mae'r dair ysgol, Ysgol Felinwnda, Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd, yn gweithredu amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032 Cyngor Gwynedd. Mae hyn yn cynnwys:

- Bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg, a bod y disgwyliad hwnnw yn gyson ar draws pob un o'r ysgolion.
- Bod darpariaeth addas i alluogi pob disgybl i ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog. Yn y cyd-destun hwn, disgwylir i ysgolion barhau i feithrin sgiliau'r disgyblion hynny sy'n Gymry Cymraeg, a chyflwyno'r Gymraeg i'r rhai hynny sy'n ddysgwyr.
- Bod holl sefydliadau addysg y sir yn adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol, yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd.

Fe fyddai gweithredu'r cynnig arfaethedig yn cyd-fynd ag amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32.

## 2.8 Tystiolaeth Ychwanegol

**Ysgol Felinwnda**

Mae adroddiad Estyn yn 2017 yn dweud:

*"*Cymraeg yw iaith bob dydd yr ysgol a phrif gyfrwng y dysgu a'r addysgu. Fe addysgir Saesneg yn ffurfiol yng nghyfnod allweddol 2. Daw oddeutu 80% o ddisgyblion o gartrefi ble siaredir Cymraeg. Nid oes yr un plentyn o gefndir ethnig lleiafrifol"

Adroddiad arolygiad Estyn Ysgol Felinwnda 2017

**Ysgol Llandwrog**

Mae adroddiad Estyn 2019 yn dweud:

"Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr Ysgol. Mae tua 90% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref."

Adroddiad arolygiad Estyn Ysgol Llandwrog 2019



**Ysgol Bontnewydd**

Mae adroddiad Estyn 2017 yn dweud:

"Cymraeg yw iaith bob dydd yr ysgol a phrif gyfrwng y dysgu a'r addysgu. Fe addysgir Saesneg yn ffurfiol yng nghyfnod allweddol 2. Daw oddeutu 75% o'r disgyblion o gartrefi ble siaredir Cymraeg, ac ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir ethnig lleiafrifol."

Adroddiad arolygiad Estyn Ysgol Bontnewydd 2017

## 3. ASESIAD O'R EFFAITH AR YR IAITH GYMRAEG

Pwrpas yr asesiad isod yw ystyried effaith posibl y *cynnig i gau Ysgol Felinwnda a throsglwyddo'r dysgwyr i ysgol amgen cyfagos* ar yr iaith Gymraeg.


| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith | Oes unrhyw fesurau wedi'u hadnabod i liniaru unrhyw effaith negyddol neu i greu mwy o gyfleoedd positif | Effaith derfynol (yn dilyn dulliau lliniaru) |
|---|---|---|---|---|
| **Iaith yr ysgol (ffurfiol)** | Gan fod yr ysgolion amgen cyfagos fel Ysgol Felinwnda yn ysgol Gymraeg eu cyfrwng, deuir i'r casgliad na fyddai'r cynnig yn cael effaith ar iaith addysg y plant.<br>Gan y byddai'r disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran, gallasai'r cynnig gryfhau'r cyfleodd i ddisgyblion gymdeithasu yn y Gymraeg gyda'u cyfoedion. | Niwtral Dim effaith ar sefyllfa iaith yr ysgol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Iaith yr ysgol (anffurfiol)** | Nodir fod canran uwch o ddisgyblion yn dod o gartrefi sydd yn gallu siarad Cymraeg yn Ysgol Bontnewydd (92%) ac Ysgol Llandwrog (90%), o'i gymharu ag Ysgol Felinwnda (75%). Gan y byddai'r disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran, gallasai'r cynnig gryfhau'r cyfleodd i ddisgyblion gymdeithasu yn y Gymraeg gyda'u cyfoedion. Ar sail hynny, o wireddu'r cynnig, rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddisgyblion Felinwnda ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach. | Positif | Cynllunio ieithyddol bwriadus gan yr ysgolion amgen i sicrhau effaith cadarnhaol ar yr iaith. | Positif |
| **Mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg** | Mae'r ysgolion amgen yn ysgol Cymraeg eu cyfrwng, fel Ysgol Felinwnda. Ni ragwelir felly y byddai'r cynnig yn effeithio ar y meini prawf hwn. | Niwtral Dim effaith ar sefyllfa'r iaith | Amherthnasol | Amherthnasol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Darpariaeth anstatudol** | Byddai gan ddisgyblion fynediad at gyflenwad uwch yn nhermau staffio, a byddent yn rhan o grŵp mwy o gyfoedion o'r un oedran. | Positif | Gallai'r awdurdod lleol a Chyrff Llywodraethol yr ysgolion amgen drafod dulliau i sicrhau bod disgyblion yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol. | Positif |
| **Gweithgareddau cyn / ar ôl ysgol** | Mae'r ysgolion amgen yn ysgol fwy o ran niferoedd o ddisgyblion felly bydd y grwpiau cyfoedion yn fwy.<br><br>Fel Ysgol Felinwnda, mae'r ysgolion amgen yn cynnig gweithgareddau cyn ac ar ôl ysgol, o ganlyniad ni ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith ar y meini prawf hwn. | Niwtral | Gallai'r Awdurdod Lleol a Chorff Llywodraethol yr Ysgol amgen ystyried unrhyw gyfleodd ychwanegol ar gyfer cynnal gweithgareddau ar ôl ysgol, gan sicrhau fod trefniadau mor hygyrch a bo modd i'r holl ddisgyblion. | Positif |
| **Defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned** | Yn ôl cyfrifiad 2021, roedd 83% o boblogaeth ward Llanwnda yn siaradwyr Cymraeg.<br><br>Pe byddai'r cynnig i gau Ysgol Felinwnda yn cael ei wireddu, yna rhagwelir y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio. Rhagwelir y gall fod peth effaith negyddol yn deillio o wireddu'r cynnig, gan na fydd rhieni/gwarchodwyr/teuluoedd yn cyfarfod yn ddyddiol yn nghymuned Llanwnda wrth ollwng/casglu plant o'r ysgol. Mae Canolfan Bro Llanwnda wedi ei lleoli drws nesaf i Ysgol Felinwnda ac yn cynnal nifer o weithgareddau. Gan fod y ganolfan yn annibynnol i'r ysgol, ni ragwelir y byddai cau'r ysgol yn effeithio ar allu'r gweithgareddau cymunedol hyn yng Nghanolfan Bro Llanwnda i barhau. | Niwtral | Gall yr Awdurdod Lleol a Chorff Llywodraethol yr ysgol amgen ystyried dulliau o hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg yng nghymuned Felinwnda trwy gyfrwng gweithgareddau ar ôl ysgol, a chymunedol.<br>Gwelir yn y tabl sy'n nodi'r gweithgareddau ar ôl ysgol (2.5 uchod), fod yr ysgolion cyfagos (Ysgol Bontnewydd ac Ysgol Llandwrog), fel Ysgol Felinwnda, yn cynnig clybiau gyda'r Urdd ar ôl ysgol. Golygai hyn gallai'r disgyblion barhau i fanteisio ar y gweithgareddau hyn fel cyfle ychwanegol i ddefnyddio a datblygu'r Gymraeg pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.<br><br>Pe byddai'r cynnig i gau Ysgol Felinwnda yn cael ei wireddu, yna rhagwelir y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio. Pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei wireddu, yna gellid hybu'r ysgolion cyfagos i wneud defnydd o gyfleusterau Llanwnda. Bydd yn hanfodol fel rhan o'r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgolion amgen cyfagos a rhieni dysgwyr Ysgol Felinwnda, a'r gymuned ehangach, er mwyn annog yr ysgolion cyfagos i fanteisio ar gyfleusterau cymuned Llanwnda yn ogystal. | Niwtral |

## 4. CASGLIAD

Ein disgwyliadau yw bod holl ddisgyblion y Sir yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys, oed perthnasol er mwyn iddynt fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog maent yn rhan ohoni. Bydd angen i'r cynigion ar gyfer newid trefniadau lleol gymryd ystyriaeth lawn o'r holl effeithiau ieithyddol. Bydd cynnal a gwell defnydd o'r Gymraeg fel iaith addysgol a chymdeithasol ymhlith plant yn ystyriaeth allweddol wrth lunio cynigion o fewn yr ardal.

O safbwynt y cynnig i gau Ysgol Felinwnda a'r disgyblion presennol i drosglwyddo i ysgol amgen cyfagos, ni ragwelir y bydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar allu ieithyddol y plant. Byddai'r opsiwn yn golygu fod disgyblion Ysgol Felinwnda yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg. Nodir fod canran uwch o ddisgyblion yn dod o gartrefi sydd yn gallu siarad Cymraeg yn Ysgol Bontnewydd (92%) ac Ysgol Llandwrog (90%), o'i gymharu ag Ysgol Felinwnda (75%). Gan y byddai'r disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran, gallasai'r cynnig gryfhau'r cyfleodd i ddisgyblion gymdeithasu yn y Gymraeg gyda'u cyfoedion. Ar sail hynny, o wireddu'r cynnig, rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddisgyblion Felinwnda ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach. Ar sail hynny, rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddisgyblion Felinwnda ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach.




# Adroddiad Asesiad ar yr Effaith Debygol ar Drefniadau Teithio – cynnig i gau Ysgol Felinwnda

- Hydref 2023

## Cynnwys

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Polisi Cludiant Cyngor Gwynedd

1.2 Cyd-destun Ysgol Felinwnda

**2. YR OPSIYNAU DAN SYLW**

**3. ASESIAD O'R EFFAITH AR DREFNIADAU TEITHIO**

3.1 Lleoliad yr ysgol amgen

3.2 Opsiwn cludiant di-dâl

3.3. Effaith ariannol

**4. CASGLIAD**

# 1. CYFLWYNIAD

Mae Ysgol Gynradd Felinwnda wedi ei lleoli ger pentref Saron a Dinas ar gyrion Caernarfon ac yn gwasanaethu'r pentrefi a'r ardal gyfagos. Mae sefyllfa Ysgol Felinwnda wedi dod i sylw'r Adran Addysg yn ôl Cyfrifiad Medi 2022, hon yw'r ysgol gyda'r nifer lleiaf o ddysgwyr yng Ngwynedd. Mae gostyngiad sylweddol wedi bod yn niferoedd dysgwyr Ysgol Felinwnda dros y 10 mlynedd diwethaf, o 31 disgybl yn 2012 i lawr i 8 disgybl erbyn heddiw, sydd yn arwain at ansicrwydd ynglŷn â dyfodol yr ysgol.

Fel rhan o'r broses o ddatblygu cynnig/cynigion ar gyfer ad-drefnu ysgol/ysgolion, mae'n ofynnol i'r awdurdod gynnal asesiad o'r effaith tebygol ar wahanol drefniadau teithio, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).

### 1.1 Polisi Cludiant Cyngor Gwynedd

Mae strategaeth '*Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd'* yn anelu at gyfyngu teithio o'r cartref i'r ysgol i daith un ffordd sydd heb fod yn fwy na 30 munud.

Mae Cyngor Gwynedd yn darparu cludiant di-dâl i ddysgwyr sy'n byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol yn eu dalgylch, neu'r ysgol agosaf (nid yw'n cynnwys dysgwyr meithrin). Disgwylir i ddysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd (ac eithrio dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau), gerdded hyd at 2 filltir i gwrdd ag unrhyw gludiant a ddarperir gan Gyngor Gwynedd. Mae'r polisi cludiant i'w weld yn y llawlyfr i rieni:
(https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Dogfennau-trigolion/Ysgolion-a-dysgu---dogfennau/Gwybodaeth-i-Rieni.pdf)

### 1.2 Cyd-destun Ysgol Felinwnda

Mae Ysgol Gynradd Felinwnda wedi ei lleoli ger pentref Saron a Dinas ar gyrion Caernarfon ac yn gwasanaethu'r pentrefi a'r ardal gyfagos. Mae'n darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed ac mae ganddi gapasiti o 61 (M-Bl6).

Yn Medi 2022, roedd 48 o ddysgwyr rhwng 3-11 oed yn byw yn nalgylch Ysgol Felinwnda gyda 3 o'r disgyblion rheiny yn mynychu Ysgol Felinwnda. Golyga hynny fod 45 o ddysgwyr y dalgylch (rhwng 3-11 oed) yn mynychu ysgolion all-dalgylch, gyda 31 ohonynt yn mynychu Ysgol Bontnewydd a 5 yn mynychu Ysgol Llandwrog.

# 2. Y CYNNIG DAN SYLW

Y cynnig dan sylw yw:

*Cau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023, a'r dysgwyr presennol i drosglwyddo i ysgol amgen cyfagos, yn unol â dewis rhieni, o 1 Ionawr 2024.*

Mae'r ysgolion amgen cyfagos wedi ei lleoli rhyw 2 filltir o Ysgol Felinwnda. Pe gweithredir y cynnig, yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd byddai'r awdurdod yn cynnig cludiant i ddysgwyr dalgylch presennol Ysgol Felinwnda fyddai'n dewis mynychu ysgol amgen ac yn byw mwy na 2 filltir o'r ysgol.

Yn ogystal, o ran y dysgwyr fyddai'n dewis mynychu ysgol amgen ond yn byw llai na 2 filltir i ffwrdd o'r ysgol, ni fyddant yn gymwys i gludiant di-dâl oni bai y byddent yn teithio i'r ysgol ar hyd ffordd y mae'r Cyngor yn ei hystyried yn beryglus iawn. Yn yr achos yma darperir cludiant i'r dysgwyr rheiny yn ddi-dâl.

## 3. ASESIAD O'R EFFAITH AR DREFNIADAU TEITHIO

### 3.1. Lleoliad yr ysgolion cyfagos

Mae dwy ysgol amgen cyfagos wedi eu lleoli rhyw 2 filltir o Ysgol Felinwnda.

### 3.2. Opsiynau cludiant di-dâl

Yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd, disgwylir i ddysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd (ac eithrio dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau), gerdded hyd at 2 filltir i gwrdd ag unrhyw gludiant a ddarperir gan Gyngor Gwynedd ar hyd y llwybr byrraf.

Y llwybr byrraf sydd ar gael yw'r un nad yw'r Cyngor yn ei ystyried yn arbennig o beryglus, ar ôl asesu'r llwybrau eraill y gellid eu defnyddio, a byddai'r llwybrau hyn yn cael eu hasesu yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd.

Gan fod y llwybr i Ysgol Felinwnda yn cael ei ystyried fel un peryglus i rai o'r dysgwyr, mae'r awdurdod eisoes yn darparu tacsi di-dâl i 2 o'r 3 dysgwr o'r dalgylch sy'n mynychu Ysgol Felinwnda a rhagwelir bydd angen parhau a'r trefniant yma i'r ysgol amgen os bydd y cynnig i gau Ysgol Felinwnda yn cael ei weithredu ar 31 Rhagfyr 2023.

Pe gweithredir y cynnig i gau'r ysgol, yna mi fyddai'r niferoedd y bydd angen trefnu cludiant di-dal ar eu cyfer yn y tymor hir yn ddibynnol ar ganlyniad adolygu ffiniau dalgylchoedd ysgolion yn yr ardal.


### 3.3. Effaith ariannol

Bydd cost cludiant os yn cymeradwyo **cau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023 a'r disgyblion presennol i drosglwyddo i ysgol amgen cyfagos, yn unol â dewis rhieni, o 1 Ionawr 2024** yn ddibynnol ar ddewis ysgol amgen rhieni'r 3 plentyn sy'n byw yn nalgylch Ysgol Felinwnda.

Ar sail prisiau Medi 2022, rhagwelir y byddai tacsi 3 sedd yn costio £40-£60 y dydd, felly'n costio oddeutu £7,600 - £11,400 y flwyddyn i un ysgol. Os fydd y 3 plentyn angen tacsis i 2 ysgol wahanol yna rhagwelir costau oddeutu £15,200 - £22,800 y flwyddyn.

## 4. CASGLIAD

Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu, byddai dysgwyr sy'n mynychu Ysgol Felinwnda ar hyn o bryd, ac yn byw o fewn y dalgylch, yn cael cynnig cludiant di-dal i ysgol amgen o 1 Ionawr 2024, yn unol â Pholisi Cludiant Ysgolion y Sir. Byddai'r opsiwn yn golygu costau ychwanegol i'r Awdurdod. Amcangyfrifir i'r costau hyn fod oddeutu £7,600 - £22,800 y flwyddyn.




# Adroddiad Asesu Ansawdd a Safonau Addysg – Cynnig i gau Ysgol Felinwnda

- Hydref 2023

## Cynnwys


1. CYFLWYNIAD
2. CRYNODEB
3. ASESIAD O EFFAITH AR SAFONAU AC ANSAWDD ADDYSG
4. CASGLIAD

## 1. CYFLWYNIAD

Mae Ysgol Gynradd Felinwnda wedi ei lleoli ger pentref Saron a Dinas ar gyrion Caernarfon ac yn gwasanaethu'r pentrefi a'r ardal gyfagos. Mae sefyllfa Ysgol Felinwnda wedi dod i sylw'r Adran Addysg oherwydd, yn ôl Cyfrifiad Medi 2022, hon yw'r ysgol gyda'r nifer lleiaf o ddysgwyr yng Ngwynedd. Mae gostyngiad sylweddol wedi bod yn niferoedd dysgwyr Ysgol Felinwnda dros y 10 mlynedd diwethaf, o 31 disgybl yn 2012 i lawr i 8 disgybl erbyn heddiw, sydd yn arwain at bryderon ynglŷn â dyfodol yr ysgol.

Fel rhan o'r broses o ddatblygu cynnig/cynigion ar gyfer ad-drefnu ysgol/ysgolion, mae'n ofynnol i'r awdurdod gynnal asesiad o'r effaith tebygol ar ansawdd a safonau addysg, yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).

Oherwydd niferoedd isel yr ysgol a materion pryderus eraill yn ei chylch, cynhaliwyd gwerthusiad o nifer o opsiynau fyddai'n ymateb iddynt gan ddod i'r penderfyniad mai'r opsiwn ffafriedig fyddai i **gau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023, a'r disgyblion presennol i drosglwyddo i ysgol amgen cyfagos, yn unol â dewis rhieni, o 1 Ionawr 2024.**

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu addysg o'r ansawdd gorau posibl a fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn.

Mae'n parhau i fod yn flaenoriaeth uchel i ddarparu'r profiadau dysgu gorau posibl - ar gyfer pob dysgwr o fewn y Sir, gan sicrhau cwricwlwm cyffrous ac eang, yn ogystal â gweithgareddau allgyrsiol sy'n eu hysgogi i ddysgu a deall, a fydd yn arwain at wella safonau.

## 2. CRYNODEB

Yn dilyn arolygiad Estyn diwethaf yn 2017 daethpwyd i'r casgliad fod perfformiad presennol Ysgol Felinwnda yn 'Dda'.

Gweler isod grynodeb o arolygon diweddaraf Ysgol Felinwnda.

Mae Ysgol Gynradd Felinwnda wedi ei lleoli ger pentref Saron a Dinas ar gyrion Caernarfon ac yn gwasanaethu'r pentrefi a'r ardal gyfagos. Mae'n darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed a mae ganddi gapasiti o 61 (M-Bl6).

| Ysgol | Blwyddyn yr archwiliad | Pa mor dda yw'r deilliannau? | Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? |
|---|---|---|---|---|
| **Felinwnda** | Mehefin 2017 | Da | Da | Da |

## 3. YR OPSIWN DAN SYLW

**Cau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023, a'r disgyblion presennol i drosglwyddo i ysgol amgen cyfagos, yn unol â dewis rhieni, o 1 Ionawr 2024.**

Golyga'r opsiwn yma y byddai Ysgol Felinwnda yn cau, ac y byddai'r dysgwyr presennol yn cael cynnig lle mewn ysgol amgen cyfagos. Byddai darpariaeth cludiant trosiannol ar gael i ddisgyblion presennol Ysgol Felinwnda (sydd hefyd yn byw yn nalgylch yr ysgol) i naill ai Ysgol Bontnewydd neu Ysgol Llandwrog, yn unol â Pholisi Cludiant y Sir.

**CAU YSGOL FELINWNDA A CHYNNIG LLE I'R DYSGWYR MEWN YSGOL AMGEN CYFAGOS**

**ASESIAD O'R EFFAITH AR ANSAWDD A SAFONAU ADDYSG**

| Positif | Niwtral | Negyddol |
|---|---|---|

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau | Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer y dangosyddion safonau Ysgol Felinwnda yn 'Dda', tra roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer Ysgol Bontnewydd yn 'Ardderchog' ac Ysgol Llandwrog yn 'Dda'. Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith positif neu o leiaf niwtral ar y meini prawf hwn drwy addysgu'r dysgwyr mewn ysgolion amgen cyfagos. | Positif / Niwtral |
| Llesiant ac agweddau at ddysgu | 'Da' oedd canlyniad y dangosydd 'Lles' ar gyfer Ysgol Felinwnda, Ysgol Bontnewydd ac Ysgol Llandwrog yn eu harolygon diwethaf yn 2017. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolygon hyn, deuir i'r casgliad na ragwelir effaith niwtral ar y maes yma trwy addysgu'r dysgwyr mewn ysgolion amgen cyfagos. | Niwtral |
| Profiadau addysgu a dysgu | 'Da' oedd canlyniad y dangosydd 'Profiadau dysgu' ar gyfer Ysgol Felinwnda, Ysgol Bontnewydd ac Ysgol Llandwrog yn eu harolygon diwethaf yn 2017. Er hynny, gan fod mwy o ddysgwyr yn Ysgol Bontnewydd ac Ysgol Llandwrog rhagwelir bydd cyfle i addysgu plant mewn grwpiau mwy a chyda cyfoedion oed-berthnasol i ehangu ar eu profiadau. Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith cadarnhaol ar brofiadau addysgu a dysgu o addysgu dysgwyr Ysgol Felinwnda i mewn ysgolion amgen cyfagos. | Positif |
| Arweiniad a chymorth gofal | 'Da' oedd canlyniad y dangosydd 'Gofal, cymorth ac arweiniad' yn Ysgol Felinwnda yn eu harolwg diwethaf yn 2017, tra bod y canlyniad ar gyfer Ysgol Bontnewydd yn 'Rhagorol' ac Ysgol Llandwrog yn 'Dda'. O ganlyniad, bernir y byddai'r opsiwn yn cael effaith bositif neu o leiaf niwtral ar arweiniad a chymorth gofal o drosglwyddo dysgwyr Ysgol Felinwnda i ysgolion amgen cyfagos. | Positif / Niwtral |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Nodwyd yn adroddiad Estyn diwethaf Ysgol Felinwnda fod yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn yr ysgol yn 'Dda' tra barnwyd bod arweinyddiaeth a rheolaeth Ysgol Bontnewydd yn 'Rhagorol' ac Ysgol Llandwrog yn 'Dda'. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolygon hyn, deuir i'r casgliad y byddai arweinyddiaeth a rheolaeth yn cael effaith bositif neu o leiaf niwtral o addysgu dysgwyr Ysgol Felinwnda mewn ysgolion amgen cyfagos. | Positif / Niwtral |
| Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | Darperir cefnogaeth i grwpiau agored i niwed gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn unol â pholisi'r Awdurdod, a gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2018 fel ym mhob ysgol yng Ngwynedd. | Niwtral |
| Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY) | Roedd canlyniad arolwg Estyn ar gyfer 'Safonau' Ysgol Felinwnda yn 'Dda', fel ag yr oedd canlyniad arolwg Ysgol Bontnewydd ac Ysgol Llandwrog. Yn seiliedig ar wybodaeth yr arolygon yma, ni ragwelir unrhyw effaith ar safonau dysgwyr o addysgu dysgwyr Ysgol Felinwnda mewn ysgolion amgen cyfagos. | Niwtral |

*Mae'r asesiad uchod wedi'i wneud yn seiliedig ar wybodaeth adroddiad Estyn Ysgol Felinwnda Mehefin 2017, Ysgol Bontnewydd Chwefror 2017 ac Ysgol Llandwrog Gorffennaf 2019.*

## 4. CASGLIAD

Yn seiliedig ar ganlyniad yr asesiad uchod a chymharu adroddiadau Estyn, deuir i'r casgliad fod safon yr addysg a ddarperir yn y 2 ysgol amgen cyfagos yn uwch (Ardderchog), ac o leiaf gystal (Da), i gymharu a safon yr addysg yn Ysgol Felinwnda (Da). O ganlyniad, rhagwelir y byddai effaith positif tebygol o safbwynt ansawdd a safonau addysg yn deillio o'r cynnig i gau Ysgol Felinwnda a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol neu ysgolion amgen cyfagos.

# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 – Asesiad Perfformiad Panel |
| **Aelod Cabinet:** | Cyng. Dyfrig Siencyn |
| **Swyddog perthnasol:** | Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 7fed Tachwedd 2023 |

1. **Penderfyniad a Geisir:**

Cytuno ar amserlen ar gyfer cynnal Asesiad Perfformiad Panel yn ystod tymor yr Hydref 2024 gan gomisiynu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gefnogi y gwaith.

2. **Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod cyfrifoldeb ar Gynghorau i gynnal Asesiad Perfformiad Panel **unwaith** o fewn cylch etholiadol. Daeth y ddyletswydd i rym ym mis Mai 2022.

Nodir fod rhyddid i'r Cyngor benderfynu ar bwy ddylai gynnal a chydlynu'r asesiad panel ac ar ei amseriad felly mae angen arweiniad ar hynny. Mae'n angenrheidiol dilyn tair dyletswydd statudol wrth gynnal asesiad panel:

- Paratoi (pennu'r cwmpas, cylch gorchwyl, aelodaeth ayyb)
- Asesu (cynnal yr asesiad, cyflwyno canfyddiadau)
- Cam dilynol (llunio'r adroddiad terfynol, ymateb y cyngor)

Yn dilyn mabwysiadu newidiadau i'r Cyfansoddiad ynglŷn ag Asesiad Perfformiad Panel gan y Cyngor Llawn ar y 28ain o Fedi 2023 gosodwyd y swyddogaeth i drefnu a phenodi panel gyda'r Cabinet ond fod yr ymateb i'r adroddiad a'r argymhellion yn cael eu cadw i'r Cyngor Llawn.

Bydd cynnal yr asesiad gan gomisiynu corff allanol i wneud y gwaith yn debygol o gostio hyd at £25k.

3. **Cyflwyniad a Rhesymeg**

**3.1 Cefndir/ Cyflwyniad**

Fel y nodir uchod mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod cyfrifoldeb ar Gynghorau i gynnal Asesiad Perfformiad gan Banel unwaith o fewn cylch etholiadol.

Mae'r ddyletswydd hon yn gysylltiedig gyda'r ddyletswydd i fod yn cynnal hunanasesiadau blynyddol ar berfformiad. Yn yr un modd bydd yr asesiad gan banel yn edrych yn benodol ar y graddau y mae'r Cyngor:

- yn gweithredu ei swyddogaethau'n effeithiol:
- yn defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, effeithlon ac effeithiol: ac
- â threfniadau llywodraethu effeithiol ar waith i sicrhau'r uchod.

**3.2 Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad**

**Beth fydd yr asesiad yn edrych arno?**

Mater i'r Cyngor fydd penderfynu ar gwmpas y gwaith gan ystyried unrhyw heriau sydd wedi eu hamlygu mewn hunanasesiadau, archwiliadau gan archwilwyr allanol a materion sydd ar ein cofrestr risg.

Bydd yr asesiad yn edrych ar dystiolaeth er mwyn galluogi aelodau'r panel i ddod i gasgliad ynghylch y graddau y mae'r Cyngor yn cyfarch y 3 gofyn perfformiad a nodir yn 3.1 uchod. Mae'r tabl isod yn nodi'r gofynion perfformiad ynghyd a'r egwyddorion arweiniol ar gyfer y gofynion a nodir yn y Fethodoleg Drafft sydd wedi ei chyhoeddi gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn ddiweddar. Bydd cyfres o gwestiynau wedyn o dan wahanol themâu y bydd angen i'r Panel roi ystyriaeth iddynt.

| |
|---|
| **Gofyniad Perfformiad Un: Y graddau y mae'r cyngor yn gweithredu ei swyddogaethau'n effeithiol.** |
| **Egwyddor Arweiniol: Mae'r cyngor yn hunanymwybodol ac yn gallu dangos ei fod yn cyflawni ei swyddogaethau yn unol â'r cyd-destun lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Lle mae angen gwella, mae ymyraethau addas wedi'u dynodi heb oedi, a dylent gyflawni'r canlyniadau a ddymunir.** |
| **Ystyriaethau i'r Panel**<br>Cwestiynau ar y themâu:<br>• Arweinyddiaeth<br>• Cynllunio Corfforaethol a Chynllunio Gwasanaeth<br>• Rheoli Perfformiad |
| **Gofyniad Perfformiad Dau: Y graddau y mae'r cyngor yn defnyddio'i adnoddau'n ddarbodus, yn effeithiol ac yn effeithlon.** |
| **Egwyddor Arweiniol: Mae adnoddau'n cael eu halinio'n effeithiol i gynorthwyo'r cyngor i gyflawni ei amcanion a'i swyddogaethau statudol ac mae'r cyngor yn gallu dangos ei fod yn sicrhau gwerth am arian.** |
| **Ystyriaethau i'r Panel**<br>Cwestiynau ar y themâu:<br>• Cynllunio Corfforaethol a Chynllunio Gwasanaeth<br>• Digidol a data.<br>• Cynllunio Ariannol<br>• Y Gweithlu<br>• Caffael<br>• Risg a Sicrwydd<br>• Asedau |

| **Gofyniad Perfformiad Tri: Y graddau y mae gan y cyngor drefniadau llywodraethu effeithiol ar waith i sicrhau gofynion perfformiad un a dau.** |
|---|
| **Egwyddor Arweiniol: Mae trefniadau llywodraethu clir a chadarn, sy'n annog diwylliant agored a thryloyw sy'n croesawu prosesau craffu a herio adeiladol.** |
| **Ystyriaethau i'r Panel**<br>Cwestiynau ar y themâu:<br>• Gwerthuso<br>• Arweinyddiaeth<br>• Diwylliant sefydliadol<br>• Llywodraethu Ariannol<br>• Y Gallu i Wella |

Bydd yr asesiad yn gyfuniad o waith pen desg ynghyd â chyfweliadau a gwaith ar safle. Fel rhan o'r asesiad mae'n bosibl y bydd y Panel yn awyddus i gwrdd ag ystod eang o aelodau, swyddogion a rhanddeiliaid megis yr Arweinydd, Holl Aelodau Cabinet, Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr, Penaethiaid, Grwpiau Ffocws amrywiol a swyddogion o sefydliadau partner.

Nodir nad oes disgwyliad i'r Cyngor baratoi unrhyw ddeunydd ychwanegol ar gyfer yr asesiad ond bydd y panel angen mynediad i nifer o ffynonellau gwybodaeth a dogfennau sydd eisoes yn bodoli. Ceir rhestr o ddogfennau sy'n debygol o gynnwys megis Cynllun y Cyngor (cyfredol a blaenorol), adroddiadau statudol blynyddol a luniwyd gan y Cyngor ar gyfer y tair blynedd ddiwethaf, yn cynnwys Adroddiadau Perfformiad Blynyddol, Adroddiad Hunanasesiad, Datganiad Llywodraethu Blynyddol, Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol, Adroddiadau arolygu a rheoleiddio allanol (ar gyfer y tair blynedd ddiwethaf) a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Yn ystod cyfnod yr asesiad bydd adborth dyddiol yn cael ei roi i'r Prif Weithredwr a'r Arweinydd ar gynnydd y gwaith.

Ar ddiwedd yr asesiad bydd cyflwyniad ar y prif ganfyddiadau a'r argymhellion yn cael ei gyflwyno. Yn ogystal, bydd adroddiad ysgrifenedig yn cael ei chyflwyno (lle bydd cyfle i'r Cyngor wirio ei gywirdeb ffeithiol) a'r Cyngor sy'n gyfrifol am gyhoeddi'r adroddiad terfynol.

Bydd angen i'r Cyngor hefyd baratoi ymateb i'r adroddiad a'r argymhellion fel y nodir yn y canllawiau statudol.

**Y Panel ac amseriad yr adolygiad**

Mae'r nifer fydd ar y panel i'w benderfynu gan y Cyngor ond yn debygol o gynnwys 4-6 person. Bydd angen cynnwys Cadeirydd annibynnol, cymar o'r sectorau cyhoeddus, preifat neu wirfoddol ehangach, uwch swyddog llywodraeth leol sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd (lefel PW neu Gyfarwyddwr) ac uwch aelod etholedig (o'r tu allan i'r Cyngor).

Rhagwelir y bydd angen ymrwymiad amser o hyd at 8 diwrnod gwaith i Gadeirydd y Panel a 6 diwrnod gwaith i weddill yr aelodau.

Y Cabinet fydd yn gyfrifol am sefydlu'r cylch gorchwyl ar gyfer yr asesiad a phenderfynu ar yr enwebiadau ar gyfer y Panel. Mae opsiwn i gomisiynu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) i gefnogi'r gwaith hyn trwy helpu i ddod o hyd i banel addas o gymheiriaid a hefyd darparu Swyddog Gwella i gefnogi a hwyluso gwaith y panel yn ystod proses yr Asesiad Perfformiad Panel ar ei hyd. Rhagwelir y bydd cost oddeutu **£22,000 i £24,000** (Ffigwr ar gyfer 2023/24) yn gysylltiedig (Panel o 4-6 wedi eu cefnogi gan Swyddog Gwelliant). Bydd angen enwebu 1 swyddog o fewn y Cyngor fel pwynt cyswllt.

Yr opsiwn arall fyddai i drefnu a chydlynu'r asesiad ein hunain gan adnabod aelodau addas i'r Panel. Byddai oblygiadau adnoddau ynghlwm a hyn o ran amser swyddogion i baratoi, cydlynu a chynnal yr asesiad ynghyd â chostau ar gyfer aelodau o'r panel.

Credir fod y gefnogaeth a gynigir gan CLlLC yn cynnig gwerth am arian gan sicrhau ein bod hefyd yn cynnal asesiad fydd yn gyson hefo awdurdodau eraill. Ar hyn o bryd noda mwyafrif awdurdodau Cymru eu bwriad i ddefnyddio'r gefnogaeth a gynigir. Byddant hefyd hefo mynediad i bŵl o bobl addas i fod yn aelod o'r panel.

Rydym wedi derbyn sicrwydd gan CLlLC y bydd aelodau o'r Panel ar ein cyfer ni yn medru'r Gymraeg (er mae'n debyg y bydd dipyn yn llai o aelodau posibl). Bydd y Swyddog Gwelliant yn medru'r Gymraeg hefyd.

Mater i'r Cyngor yw penderfynu pryd y mae'n awyddus i gynnal yr adolygiad ond mae'n rhaid iddo gael ei gynnal unwaith yn ystod cylch etholiadol sy'n golygu y byddwn angen cynnal un cyn Mai 2027.

Mae'r Tîm Rheoli a'r Cabinet eisoes wedi cynnal trafodaethau anffurfiol ar y mater yn ystod yr haf ac yn awgrymu cynnal yr asesiad yn ystod **Hydref 2024** gan gomisiynu CLlLC i gydlynu a hwyluso'r gwaith. Byddwn wedi paratoi 3 neu 4 hunanasesiad erbyn hynny a dylai roi digon o gyfle i ni gynnal yr asesiad ac ymateb i unrhyw argymhellion cyn yr etholiadau llywodraeth leol nesaf.

**3.3 Camau nesaf**

Wedi derbyn cadarnhad ar yr amserlen a phwy ddylai gynnal a chydlynu'r gwaith byddwn yn rhoi trefniadau yn eu lle er mwyn cynnal yr asesiad panel gan lunio rhaglen waith manwl.

## 4. Sylwadau Swyddogion Statudol

**4.1 Prif Swyddog Cyllid**

Gwelir o'r adroddiad gall y gwaith hwn gostio hyd at £25,000 i'r Cyngor a nid wyf yn ymwybodol o unrhyw gyfraniad ariannol uniongyrchol ar ffurf grant fyddai'n ariannu'r gwaith. Fodd bynnag, credaf fod comisiynu'r gwaith gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn debygol o roi mwy o werth am arian i'r Cyngor na cheisio defnyddio adnoddau mewnol i ymgymryd â'r gwaith statudol hwn o ystyried y pwysau gwaith sydd ar

swyddogion, ac sy'n debygol iawn o gynyddu dros y blynyddoedd nesaf.  Nid oes gennyf felly wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir.

**4.2 Swyddog Monitro**

Mae'r adroddiad yma yn cynrychioli y cam ymarferol cyntaf i gynnal yr asesiad perfformiad panel , rhan o'r gyfundrefn newydd ddaeth i rym dan Deddf Lywodraeth Leol ac Etholiadau ( Cymru) 2021. Addaswyd y Cyfansoddiad i briodoli y trefniadau yma i'r Cabinet ac mae'r argymhellion yn caniatáu cychwyn ar y gwaith mewn modd priodol.

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Teitl yr Eitem** | Cynllun Digidol Cyngor Gwynedd, 2023-8. |
| **Aelod Cabinet** | Y Cynghorydd Ioan Ceredig Thomas |
| **Swyddog cyswllt** | Huw Ynyr, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | 7 Tachwedd, 2023 |

**ADRODDIAD I'R CYNGOR**

## 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1. Bod Cabinet y Cyngor yn cymeradwyo'r Cynllun Digidol newydd arfaethedig ar gyfer y cyfnod 2023-28.

## 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1. Nid oes gan y Cyngor gynllun ffurfiol ar gyfer datblygu ei wasanaethau digidol. Daeth cyfnod y "Strategaeth Ddigidol" blaenorol i ben yn 2018, ac er bod Strategaeth Ddigidol Ysgolion Gwynedd wedi'i fabwysiadu'n y cyfamser, nid oes cynllun corfforaethol wedi'i gynhyrchu'n ystod yr un cyfnod.

2.2. Wrth baratoi Cynllun y Cyngor, adnabuwyd yr angen i greu Cynllun Digidol a fyddai'n gosod gweledigaeth ar gyfer ein gwasanaethau digidol, yn ogystal â rhaglen waith gysylltiedig. Mae'r angen i fabwysiadu a gweithredu Cynllun Digidol wedi'i nodi fel blaenoriaeth gwella o fewn y maes "Gwynedd Effeithlon" yng Nghynllun y Cyngor, a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn ar y 7 o Fawrth eleni.

## 3. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae'r Cynllun Digidol yn adnabod rhaglen o brosiectau ar gyfer trawsnewid y gwasanaethau a ddarperir i bobl Gwynedd gan y Cyngor – anelir i'r ddarpariaeth fod yn fwy economaidd, effeithlon ac effeithiol. Rhennir y prosiectau hyn i bum maes datblygu, sef:

- Cyswllt Cwsmer;
- Gwybodaeth a Data;
- Gweinyddiaeth a Systemau Busnes;
- Gweithlu, a;
- Gwydnwch.

3.2. Mae'r trefniadau llywodraethu ar gyfer gwireddu a monitro'r rhaglen waith fel a ganlyn. Yr Adran Technoleg Gwybodaeth a Chyllid sy'n gyfrifol am wireddu'r Cynllun Digidol yng Nghynllun

y Cyngor, a Phennaeth Cynorthwyol yr adran honno yw'r Rheolwr Prosiect. Mae'r Bwrdd Trawsnewid Digidol wedi'i ffurfio i gadw trosolwg ar gynnydd y rhaglen waith a chynnig her a chefnogaeth, a hynny'n ychwanegol i'r trefniadau herio a chefnogi perfformiad arferol – hyn i gydnabod pa mor allweddol yw datblygiad yn y maes digidol i'n gallu fel Cyngor i ddarparu gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.

3.3. Mae cyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu cadeirio gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol, gyda'r Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth a Chyllid hefyd yn bresennol fel y Rheolwr Prosiect. Mae pedwar Is-grŵp wedi'u ffurfio dan arweiniad y swyddogion a nodir isod, ac mae'r swyddogion hyn yn cynrychioli'r is-grwpiau ar y Bwrdd. Mae pumed Is-grŵp eto i'w ffurfio ar gyfer gweithredu ar ddatblygiadau digidol ym maes y gweithlu, ac mae cynrychiolaeth o 'fysg holl adrannau'r Cyngor yn yr is-grwpiau.

- Gwydnwch – Gwyn Jones, Rheolwr Systemau Isadeiledd
- Cyswllt Cwsmer – Steffan Jones, Pennaeth Priffyrdd, Peirianneg a YGC
- Gwybodaeth a Data – Ian Jones, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol
- Gweinyddiaeth a Systemau Busnes – Huw Ynyr, Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth a Chyllid

Ymhellach, mae'r Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Monitro yn aelodau o'r Bwrdd, yn ogystal â'r Pennaeth Addysg (sydd gyda'r swyddogaeth o sicrhau cydlyniad rhwng y Strategaeth Ddigidol ar gyfer Ysgolion â'r hyn sydd ar y gweill ar lefel corfforaethol) a'r Pennaeth Tai ac Eiddo.

3.4. Cyflwynwyd y Cynllun i'w graffu gan y Pwyllgor Addysg ac Economi ar y 14eg o Fedi eleni. Penderfynodd y Pwyllgor i'w dderbyn gan nodi'r sylwadau a welir yng nghofnodion y cyfarfod (Atodiad 4 – Cofnodion).

3.5. O ran cynhwysedd digidol, mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb (Atodiad 2) yn nodi na fydd y datblygiadau i ddarpariaeth ddigidol y Cyngor yn disodli neu'n dod ar draul y cyfryngau hynny mae rhai cwsmeriaid yn ddibynnol arnynt er mwyn cael mynediad at wasanaethau. Mae'n bwysig sicrhau fod gwasanaethau'n hygyrch i bawb, beth bynnag eu llythrennedd digidol neu fynediad at dechnoleg, a bydd cyfryngau cyswllt cwsmer traddodiadol—dros ffôn, wyneb-yn-wyneb, a thrwy ohebiaeth papur—yn parhau i'r sawl sydd eu hangen. Mae'r Cynllun yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor o fod yn sefydliad Oed Gyfeillgar erbyn 2025. Ar ben hyn, mae'r rhaglen waith yn adnabod cyfleoedd i ehangu mynediad at wasanaethau, yn benodol y prosiectau'n y maes datblygu Cyswllt Cwsmer.

3.6. Mae'r Cynllun yn adnabod lle canolog i'r Gymraeg. Lle bo'n bosib, Cymraeg fydd y gosodiad iaith rhagosodedig ar y systemau a ddefnyddir, a bydd yr Asesiad Addasrwydd Digidol yn cael ei wneud yn orfodol ac yn gofyn fod y Gymraeg yn cael ei ystyried cyn y caiff unrhyw system neu wasanaeth digidol newydd ei gaffael.

3.7. Mae'r Cyngor yn ymroddedig i egwyddorion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

2015. Mae rhaglen waith y Cynllun wedi'i gynllunio ar gyfer ehangu a datblygu holl waith y Cyngor, a hynny'n sail ar gyfer gwireddu ein saith amcan llesiant ar gyfer yr un cyfnod dan sylw yng Nghynllun y Cyngor. Mae'r cyflwyniad yn rhan gyntaf y Cynllun Digidol yn nodi sut mae'r Pum Ffordd o Weithio wedi'u cyfarch.

3.8. Mae gan dechnoleg ddigidol ran bwysig i'w chwarae wrth ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd a Natur. Mae gan y rhaglen waith brosiectau sy'n cyfarch materion amgylcheddol a chyffelyb, gan gynnwys lleihau defnydd papur a datblygu Rhyngrwyd y Pethau (IoT).

3.9. Mae gwaith manwl wedi'i wneud yng nghyswllt costau cychwynnol rhoi'r Cynllun ar waith. Mae'r costau adnabuwyd yn gyfuniad o rai cyfalaf a refeniw un-tro, a refeniw parhaol. Mae cronfa benodol wedi'i chlustnodi ers peth amser ar gyfer costau un-tro, a bydd modd gwireddu sawl elfen o'r prosiectau dan sylw trwy ddefnyddio'r adnodd ariannol hwn. Bydd angen, fodd bynnag, rhoi ystyriaeth i'r oblygiadau refeniw parhaol o fewn y drefn bidiau corfforaethol yn flynyddol.

## 4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

4.1. O dderbyn cymeradwyaeth y Cabinet, bydd swyddogion yn datblygu ac yn gweithredu'r elfennau unigol o'r rhaglen waith dros gyfnod y Cynllun ac yn adrodd yn rheolaidd ar gynnydd y rhaglen waith honno.

## 5. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

5.1. Swyddog Monitro

Rwyf yn aelod o'r Bwrdd Trawsnewid Digidol ac wedi cyfrannu at y broses.

5.2. Prif Swyddog Cyllid

Rwyf wedi bod yn rhan o'r drefn o baratoi'r Cynllun Digidol a gallaf gadarnhau cynnwys yr adroddiad. Mae'r Cynllun Digidol drafft sy'n cael ei gyflwyno yma yn ganlyniad ffrwyth llafur manwl dros y misoedd diwethaf ac rwyf yn hyderus ei fod yn adlewyrchiad o'r gofynion digidol fydd ar y Cyngor wrth wynebu heriau'r blynyddoedd nesaf.

Tynnaf sylw aelodau'r Cabinet at gynnwys paragraff 3.8 a gallaf gadarnhau ei fod yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa. Mae pob prosiect unigol yn y Cynllun Digidol wedi cael ei gostio, ac fel nodir mae'r costau hynny yn gyfuniad o refeniw parhaol, refeniw un-tro a chyfalaf. Mae adnoddau un-tro wedi eu clustnodi ar gyfer y Cynllun Digidol ar ffurf cronfa, a gallaf gadarnhau fod bidiau am refeniw parhaol wedi eu cyflwyno yn unol â threfniadau arferol y Cyngor.

Bydd y Cynllun Digidol dan adolygiad parhaus ac rwyf yn fodlon na fyddai mabwysiadu'r Cynllun yn rhagfarnu'r drefn bidio. Petai prinder cyllid yn golygu fod rhai o'r bidiau yn aflwyddiannus

byddwn yn ail-flaenoriaethu cynnwys y Cynllun yn unol â’r angen.

# CYNLLUN DIGIDOL
CYNGOR GWYNEDD

2023-28

GWYNEDDDIGIDOL
Cefnogi pobol Gwynedd mewn byd digidol

# Rhagair



Wrth i dechnolegau newydd barhau i ddatblygu a newid y ffordd rydym yn gweithio gyda'n gilydd a chyda'r byd o'n cwmpas, mae cyhoeddi'r Cynllun Digidol hwn yn adeg dyngedfennol i Gyngor Gwynedd wrth i ni lunio llwybr beiddgar ar ein taith i ddod yn Sir ddigidol.

Byddwn fel Cyngor yn manteisio ar gyfleoedd i arloesi a gwreiddio technoleg ddigidol i wella bywydau ein trigolion, i gydweithio yn well â phartneriaid, a chryfhau a gwella ymatebolrwydd ein gwasanaethau i anghenion a disgwyliadau ein cwsmeriaid.

Mae'r Cynllun Digidol yn gosod gweledigaeth o welliant parhaus i'r modd y gellir cysylltu a'r Cyngor i ymholi neu wneud cais am wasanaeth, i'n gallu i ddefnyddio data yn ystyrlon fel sail penderfyniadau dysg, ac i rymuso ein swyddogion gyda'r sgiliau a'r datrysiadau digidol pwrpasol er mwyn datblygu a chynnal gwasanaethau o'r radd flaenaf, a hynny'n ddiogel a gwydn.

Pum mlynedd yw hyd y Cynllun, ond mae'r weledigaeth o greu Sir ddigidol yn un hirdymor a'r blaenoriaethau gwella sydd wedi eu cynllunio yma yn sylfaen gadarn i gychwyn y daith.

**Cynghorydd Ioan Thomas**
(Aelod Cabinet Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth)



Mae gweledigaeth y Cyngor am y cyfnod 2023-28 yn adnabod yr angen i sefydlu a gweithredu Cynllun Digidol fel un o'r prif amcanion gwella ym maes blaenoriaeth "Gwynedd Effeithlon". Mae'r maes blaenoriaeth hwnnw yn un o'n saith amcan llesiant am y cyfnod dan sylw, ac mae rôl greiddiol gan y Cynllun Digidol er mwyn gosod y seiliau ar gyfer gwireddu pob un o'r chwe amcan arall hefyd.

Mewn cyfnod heriol yn ariannol, bydd ein defnydd o dechnoleg ddigidol a'n gallu i gyflawni prosiectau'r Cynllun hwn yn mynd i chwarae rhan allweddol yn y modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu i bobl Gwynedd yn y dyfodol.

Bydd adolygiad blynyddol cynhwysfawr ynghyd ag adroddiadau cynnydd rheolaidd yn ein galluogi i fonitro cyfraniad y prosiectau unigol i'r weledigaeth ehangach gan dderbyn, o ystyried y datblygiadau cyson mewn technoleg ddigidol, y bydd angen peth addasu ar y blaenoriaethau, hyd yn oed o fewn oes y Cynllun.

Edrychaf ymlaen at weld y Cynllun hwn yn gwireddu ei amcanion a chyflawni'r pwrpas a adnabuwyd ar ei gyfer.

**Geraint Owen**
(Cyfarwyddwr Corfforaethol)

# Cyflwyniad



Ers troad y ddegawd, mae'r defnydd ac amrywiaeth o dechnoleg ddigidol wedi cynyddu'n sylweddol. Daeth technoleg ddigidol yn bwysicach fyth o achos y pandemig Covid-19, ac yn fwy diweddar, mae dyfodiad technolegau fwyfwy soffistigedig - megis deallusrwydd artiffisial - wedi amlygu'r "chwyldro digidol" a'i effaith. Mae'n golygu fod technoleg ddigidol bellach yn rhan cwbl hanfodol o'n bywyd pob dydd ac wedi trawsnewid y modd mae dinasyddion a gwasanaethau cyhoeddus yn ymdrin â'i gilydd.  Rhaid ymateb i'r newidiadau hyn, nid yn unig er mwyn manteisio ar y cyfleoedd sy'n cael eu cynnig gan dechnoleg ddigidol, ond i liniaru rhai o'r heriau posibl hefyd. Gyda thechnoleg, gallwn drawsnewid y Cyngor a'i wasanaethau a sicrhau arbedion ariannol yr un pryd.

**Mae gan**
**95%**
**o oedolion yn y DU ffon symudol clyfar.**

Dyma Gynllun Digidol Cyngor Gwynedd, 2023-2028. Mae hon yn strategaeth uchelgeisiol a phellgyrhaeddol sy'n fyw i ddatblygiadau digidol y dydd ac yn amlinellu'r llwybr mae'r Cyngor am ei ddilyn er mwyn addasu i'r "dyfodol digidol". Mae'n cynrychioli rhaglen o drawsnewid digidol sydd am ddatblygu er gwell y gwasanaethau mae'r Cyngor yn eu rhedeg.

**60%**
**yn teimlo'n fwy hyderus ar ôl Covid-19 i gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus trwy ddulliau digidol.**

Mae'r Cynllun Digidol yn cydredeg gyda Chynllun Cyngor Gwynedd (2023/2028), gan ehangu ar y prosiect digidol a gyfeiriwyd ato yn y pennawd "Prosiectau Gwynedd Effeithlon". Ond nid yw'n cyfyngu ei hun i'r pennawd yma yn unig. Mae'n cyfrannu at drwch y prosiectau yng Nghynllun y Cyngor. Ein gweledigaeth yw gwneud y Cyngor yn **GYNGOR DIGIDOL**, ple bod technoleg yn cael ei ddefnyddio'n ddoeth er mwyn darparu gwasanaethau'n fwy economaidd ac effeithiol, a phle mae'r cwsmer yn fwyfwy canolog ym mhopeth rydym yn ei wneud.

Mae'r weledigaeth hon yn edrych y tu hwnt i gyfnod pum mlynedd y Cynllun. Uchelgais y Cynllun yw datblygu, gwella a gwreiddio meddylfryd a datrysiadau digidol yn naturiol ac effeithiol ym mhob ystod o weithgaredd, cryfhau a gwella ein gwasanaethau, gweinyddu'n fwy effeithlon, a meddu ar y wybodaeth i wneud penderfyniadau dysg ac ystyrlon, a hynny mewn amgylchedd diogel a gwydn. Mae egwyddorion cydraddoldeb a llesiant yn wythiennau cyson oddi fewn y Cynllun, gan gynnwys y Gymraeg ac elfen cynaliadwyedd y Pum Ffordd o Weithio:



## Y Gymraeg

Mae rhan flaenllaw i'r Gymraeg ym mhob datblygiad digidol, gyda phob datblygiad mewnol yn cael ei wneud yn ddwyieithog, heb eithriad, a'r gosodiad diofyn yn y Gymraeg. Mae priod-le i'r Gymraeg ym mhob datblygiad, ac fe adlewyrchir hyn yn yr Asesiad Addasrwydd Digidol fydd yn gam gorfodol cyn bod unrhyw un o adrannau'r Cyngor yn caffael system neu wasanaeth digidol.

## Hirdymor

Mae'r Cynllun yn gosod gweledigaeth hirdymor sy'n wir heibio cyfnod pum blynedd y rhaglen waith, gyda chylch gorchwyl y grwpiau digidol yn gyfrifol am adolygu a diweddaru'r weledigaeth a'r Cynllun yn ôl yr angen .

## Atal

Mae sawl blaenoriaeth gwella wedi'u llunio i osgoi methiant, ac er bod pennawd penodol ar gyfer gwydnwch, mae nifer o'r blaenoriaethau eraill yn cyfrannu at hyn hefyd ac yn gwella gwasanaethau'r Cyngor.

## Integreiddio

Mae gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill yn holl bwysig i gynnal gwasanaethau cyhoeddus effeithiol, ac fe gydnabyddir hyn yn y Cynllun. Rydym am hwyluso'r broses o weithio â phartneriaid allanol, yn ogystal ag integreiddio systemau mewnol y Cyngor.

## Cydweithio

Mae cynnwys y Cynllun wedi'i rannu â grŵp Data, Digidol a Thechnoleg (DDaT) Gogledd Cymru, sy'n grŵp digidol cydweithredol o ochr Awdurdod Lleol ac Iechyd, ac yn ehangach hefyd ar gyfer sylw a chyfleoedd cydweithio drwy law braich ddigidol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

## Cynnwys

Datblygwyd cynnwys, traw a blaenoriaethau'r Cynllun ar sail gydweithredol rhwng 4 is-grŵp Bwrdd Trawsnewid Digidol y Cyngor, ac fe gynhaliwyd sawl cyfarfod i flaenoriaethu'r meysydd craidd, gan bwysleisio ar roi cyfle i bob cynrychiolydd leisio barn.

Mae’n bwysig ein bod yn gynhwysol o bob person a grŵp, beth bynnag fo’u llythrennedd digidiol neu eu mynediad at dechnoleg digidiol. Mae’r Cyngor yn ymrwymedig i gynhwysiant ddigidol fel bod gan bawb fynediad priodol at wasanaethau.


Er mwyn cyflawni’r weledigaeth hon, mae cyfres o brosiectau yma sydd wedi’u rhannu i bum blaenoriaeth ddigidol, sef

## GWYDNWCH

Datblygu isadeiledd ddigidol cadarn er mwyn gwarchod gwasanaethau’r Cyngor.

## CYSWLLT CWSMER

Sicrhau gwasanaeth sy’n gynhwysol a dwyieithog, sy’n rhoi’r cwsmer yn gyntaf ac yn rhedeg mewn lleoliad ac ar amser sy’n gyfleus i’r cwsmer.



## GWEITHLU

Datblygu gweithlu effeithiol a chynhyrchiol, ble mae cymhwysedd digidol yn naturiol i bawb.

## GWYBODAETH A DATA

Defnyddio data a gwybodaeth i wneud penderfyniadau gwell a dysg.

## GWEINYDDIAETH A SYSTEMAU BUSNES

Hwyluso ac awtomeiddio gwaith sy’n rheolaidd ac ailadroddus, a defnyddio technoleg i wella’n gwasanaethau a’r prosesau i’w cynnal.

Mae tri pheth yn cael eu hadnabod ym mhum maes blaenoriaeth y Cynllun:

**Y sefyllfa bresennol**

**Y prosiectau datblygu perthnasol**

**Yr effaith y gobeithir ei gael**

Mae technoleg ddigidol yn chwarae rhan gynyddol bwysig yn y ffordd y mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau. O ganlyniad, nid yw'r strategaeth hon yn sefyll ar ei phen ei hun. Bydd ei gynnwys a'i effaith yn dylanwadu ar bob agwedd o waith y Cyngor; felly mae'n bwysig sicrhau bod y prosiectau'n gydnaws â, ac yn cyfrannu at, y Pum Ffordd o Weithio yn ogystal â Strategaeth Ddigidol Llywodraeth Cymru (2022). Mae matrics yn crynhoi hyn i'w weld ar y diwedd.

Wrth gwrs, mae technolegau'n newid yn barhaus a bydd galluoedd digidol y dyfodol yn llawer ehangach na'r rhai heddiw. O ganlyniad, nid strategaeth statig mo hon. Bydd unrhyw newid yn cael ei ychwanegu at y strategaeth yn ôl yr angen, a bydd adolygiadau'n cael eu gwneud yn flynyddol.



# Cyswllt Cwmser

**‘Sicrhau gwasanaeth sy’n gynhwysol a dwyieithog, sy’n rhoi’r cwsmer yn gyntaf ac yn rhedeg mewn lleoliad ac ar amser sy’n gyfleus i’r cwsmer.’**

Wrth i drigolion Gwynedd a’r Cyngor droi’n gynyddol at dechnoleg ddigidol, mae’r berthynas rhwng gwasanaethau a’r cwsmer wedi agosáu. Mae’n golygu fod ymatebolrwydd y Cyngor i ymholiadau ac anghenion y cwsmer wedi cynyddu, ond mae lle o hyd i ddatblygu hyn ymhellach. Yr eitemau fydd yn derbyn sylw o dan y flaenoriaeth hon yw:

## 1. Ymestyn dulliau cyfathrebu, ymholi a chyflwyno ceisiadau am wasanaeth

Mae gan gwsmeriaid sawl cyfrwng ar gyfer cysylltu â’r Cyngor, boed ar y ffon, gydag e-bost, neu ar y wefan trwy ffurflenni digidol neu Fy Nghyfrif, ond mae’r rhain yn gweithredu’n bennaf ar wahân. Mae’n golygu nad yw’n bosib parhau gyda’r un drafodaeth ar draws mwy nag un cyfrwng neu os yw’r cyfrwng yn newid.

Byddwn yn uno systemau’r cyfryngau uchod ac yn cyflwyno rhai ychwanegol hefyd, megis *WhatsApp, Facebook Messenger* ac *X*. Bydd hyn yn hwyluso’r broses cyswllt cwsmer ac yn caniatáu i gwsmeriaid gyflwyno cais a derbyn ymateb gan y Cyngor trwy un neu fwy o’r cyfryngau uchod. Bydd y gwasanaethau’n atebol am gadw gwybodaeth am y cais, yn ogystal ag adrodd yn ôl i’r cwsmer.



**Ers 2012-3, mae canran y cartrefi yng Nghymru efo mynediad i’r we wedi cynyddu o ychydig dros 70% i oddeutu**

**90%**

**heddiw.**

## 2. Gwelliannau i ddarpariaeth ffôn y Cyngor

Mae cysylltu â’r Cyngor â ffon yn parhau’n ddewis poblogaidd ymhlith cwsmeriaid, ac mae’n bwysig felly ein bod yn datblygu’r cyfrwng cyswllt cwsmer hwn ymhellach. Mae yma ddwy brif ystyriaeth:

- Ymateb i’r defnydd cynyddol o’r llwyfan MS Teams ymhlith staff.
- Cael system sy'n galluogi staff i ymateb i alwadau yn y swyddfa neu wrth weithio o bell.

Byddwn yn cyflwyno darpariaeth teleffon newydd ar gyfer staff a fydd wedi’i hintegreiddio’n llawn ag MS Teams, ac yn weithredol trwy “ap” ffon symudol a chyfrifiadur gwaith yn hytrach na ffôn ar ddesg. Bydd y ddarpariaeth yn caniatáu staff i yrru galwadau cwsmer ymlaen at swyddogion eraill yn hwylus, gan gyflymu’r llif wybodaeth gyda chwsmeriaid.

Cyflwynir adroddiadau cynhwysfawr o’r system ffôn i alluogi Adrannau i adnabod unrhyw wendidau neu gryfderau fel bod modd bod yn rhagweithiol i wella eu darpariaeth i’r cyhoedd.

## 3. Ail ddylunio gwefan gorfforaethol y Cyngor

Wrth i ddisgwyliadau cwsmeriaid o ddefnyddio gwefannau aeddfedu, mae'n bwysig fod gwefan y Cyngor hefyd yn hygyrch, modern a chyfoes. Mewn ymgynghoriad am wefan y Cyngor ac apGwynedd a gynhaliwyd gyda'r cyhoedd yn 2021, amlygwyd bod y tudalennau'n aml yn ddryslyd a'i bod yn anodd chwilio a dod o hyd i wybodaeth berthnasol. Byddwn yn ail-edrych ar ddyluniad y wefan er mwyn ymateb i'r problemau hyn, gan ymgorffori newidiadau ychwanegol hefyd i fanteisio ar dechnoleg newydd nad oedd ar gael pan sefydlwyd y wefan yn 2013, gan gynnwys Deallusrwydd Artiffisial a thechnoleg Web Chat a Chat Bot.

Gyda 60% o ymwelwyr y wefan yn defnyddio ffôn neu gyfrifiadur llechen, byddwn yn sicrhau ei bod wedi'i dylunio ar gyfer pori'n effeithiol drwy ddyfeisiadau symudol.

**Rhwng mis Gorffennaf a Medi 2023, cafwyd**
**756,500**
**o ymweliadau ar wefan y Cyngor.**

**Roedd 53% yn defnyddio ffôn symudol, 44% yn defnyddio cyfrifiadur neu liniadur, a 3% yn defnyddio cyfrifiadur llechen.**

53% 44% 3%

## 4. Datblygu a hyrwyddo apGwynedd

Rhyddhawyd ApGwynedd yn 2018 ac mae'n cynnwys darpariaeth Fy Nghyfrif, gwybodaeth "Lle dwi'n byw", a mynediad at amserlenni bysiau Gwynedd ymhlith adnoddau eraill. Gyda mwyfwy'n defnyddio dyfeisiadau symudol, byddwn yn datblygu ApGwynedd ymhellach.

Byddwn yn ymrwymo i ddatblygu apGwynedd yn mhellach a hynny ar lwyfan Google ac Apple, gydag un o'r datblygiadau yn cynnwys map llwybr byw o bob bws a redir fel gwasanaeth cyhoeddus ar rwydwaith bysus y Sir. Bydd modd adnabod lleoliad cyfredol y bws, mannau'r safleoedd bysus, unrhyw newid i wasanaeth a modd i wneud ymholiadau.

**Mae ApGwynedd wedi'i lawrlwytho**
**10,508**
**gwaith**

## 5. Ciosg fideo Siop Gwynedd.

Darperir tri safle Siop Gwynedd ar draws y Sir: Pencadlys, Caernarfon; Ffordd y Cob, Pwllheli; Penarlâg, Dolgellau. Pwrpas y safleoedd hyn yw darparu mynediad uniongyrchol at wasanaethau'r Cyngor i gwsmeriaid. Byddwn yn datblygu'r gwasanaeth cyswllt cwsmer hon trwy godi ym mhob safle hyd at dri chiosg fideo, fel bod modd i'r cyhoedd siarad yn rhithiol â'r swyddog perthnasol, ble bynnag maen nhw wedi'u lleoli.

## 6. Talu drwy beiriant am wasanaethu

Prin yw'r gwasanaethau ble mae'r Cyngor yn codi incwm ar gyfer eu defnydd, e.e., parcio car, lansio cwch neu brynu tanwydd cwch mewn marina. Er bod peiriannau talu yn y safleoedd hyn, nid ydynt wedi'u safoni ac mae sawl ffordd wahanol ar gyfer talu: weithiau, mae'n rhaid cael newid mân; dro arall, rhaid defnyddio ap neu yrru neges destun er mwyn talu. Er mwyn hwyluso defnydd y cwsmer, byddwn yn cysoni'r dulliau talu ar draws y safleoedd.

# Gwybodaeth a Data

**'Hwyluso mynediad at ddata a gwybodaeth ymysg cwsmeriaid a staff, a gwella safon data.'**

Mae'r oes ddigidol hefyd yn oes gwybodaeth. Wrth i bobl a sefydliadau ledled y byd gael eu cysylltu gan dechnolegau newydd, mae lledaeniad gwybodaeth wedi cyflymu'n sylweddol. Mae gwybodaeth ddigidol bellach yn cyffwrdd ar bawb mewn rhyw ffordd, ac mae'n bwysig bod Cyngor Gwynedd yn gwella mynediad at wybodaeth ac yn gwreiddio tryloywder, i gwsmeriaid a staff. Mae'n rhaid i ni arfogi staff â thystiolaeth ac adnoddau fel y gallent wneud y penderfyniadau gorau posibl i bobl Gwynedd. Mae'r rhaglen i wella safonau ac adrodd yn hyderus ar ein data yn ymrwymiad hirdymor a pharhaus, gyda'r eitemau isod yn dwyn blaenoriaeth:

## 1. Adnabod ein data

Mae'r Cyngor yn darparu dros 300 o systemau, gyda phob un yn casglu a chyflwyno data. Mae rhan fwyaf y systemau hyn yn ynysig a heb eu hintegreiddio gyda'r systemau eraill, ac, oherwydd hyn, yn tueddu i ddioddef o anghysondebau yn ffurf a chywirdeb y data.

Mae'n hanfodol ein bod yn adnabod union gynnwys a phwrpas y data a gesglir cyn cychwyn ar unrhyw ymarferiad o wella. Byddwn yn creu cofrestr a mapiau data ar gyfer pob system, ac yn nodi sut mae'r rhain yn cymharu gyda'i gilydd. Bydd y gofrestr hon yn cefnogi ymarferiadau eraill yn y Cynllun, sef "*Siarter Data*" a "*Rhesymoli'r systemau a ddefnyddir*".

**Cynhyrchwyd**

**90%**

**o ddata'r byd rhwng 2019 a heddiw.**



## 2. Siarter data

Fel rhan o *Strategaeth Wybodaeth y Cyngor*, mae gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu Cofrestr Asedau Gwybodaeth, sef cofrestr o wybodaeth bersonol. Ynghyd â mapiau data, bydd y gwaith yma'n llywio ein gwaith o sefydlu "*Siarter Data*" i sicrhau bod y trefniadau sydd gennym ar gyfer cadw data'n briodol. Bydd y Siarter hefyd yn gosod cyfeiriad a phrosesau ar gyfer:

- **Data agored**.
  Bydd hyn yn gwella effeithlonrwydd (drwy leihau nifer ceisiadau rhyddid gwybodaeth, a gallu ateb y ceisiadau hynny sydd yn cyrraedd yn gyflymach), tryloywder a dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd am y Cyngor yn unol â strategaeth cyfranogiad y Cyngor
- **Rhaglen gwella safonau data**.
  Byddwn yn creu safonau ar gyfer gwahanol gategorïau data er mwyn sicrhau gwell cysondeb a chywirdeb yn yr hyn a gesglir a'i hadroddir arno.

- **Hyfforddi perchnogion systemau data o bwysigrwydd cywirdeb data.**
  Er bod y Siarter Data yn berthnasol ar gyfer pob swyddog Cyngor, mae rhai swyddogion mewn rôl "Perchennog System" gyda chyfrifoldeb am ddata'r system maen nhw'n ei reoli. Byddwn yn datblygu hyfforddiant ar eu cyfer fel bod ymwybyddiaeth o'r canllawiau sydd eu hangen i gydymffurfio â'r Siarter.


Bydd y Siarter yn ein helpu i gynnal a chadw ymarferiadau da o gasglu, cadw, rhannu ac adrodd ar ddata, gan wella cywirdeb data a'n grymuso i'w rannu'n ehangach er bydd pawb.

## 3. Creu warws data (*wGwynedd*)

Mae ein systemau wedi eu sefydlu ar wasanaethau neu unedau oddi fewn adrannau penodol, ac mae'r systemau hynny sy'n cael eu defnyddio ar draws y Cyngor yn brin. Mae'n golygu nad ydym yn gallu adrodd ar ddata ar draws mwy nag un system yn hawdd, gan arwain at anghysondebau a diffyg cywirdeb yn ein data.

Rydym am bensaernïo a chreu warws data (wGwynedd) fydd yn dod â data ynghyd o sawl system wahanol. Bydd yr integreiddio hyn yn hwyluso meddwl ar y cyd rhwng y gwasanaethau, ac yn ein cefnogi i ddarogan a mesur y defnydd o wasanaethau sawl cam i'r dyfodol. Bydd y warws wedi'i seilio ar y "Gofrestr Data" a'r "Siarter Data", a bydd prosesau ar gyfer rhesymoli a glanhau ein data i wella cywirdeb a'n galluogi i adrodd yn hyderus ar sail gwirionedd.

Bydd unrhyw adroddiad sydd yn galw ar ddata y tu allan i system benodol y gwasanaeth dan sylw yn dod o'r warws, a bydd data a gyhoeddir yn allanol yn deillio oddi yma hefyd. Mae'n annatod bod diogelwch seibr a diogelwch gwybodaeth yn greiddiol i bensaernïaeth wGwynedd a bydd ystod o reolau mynediad a threfn cofnodi gweithgaredd yn rhan amlwg ohono.



Mae pensaernïaeth data yn faes tu hwnt o arbenigol a bydd angen cymorth allanol i wireddu'r weledigaeth yma. Mae'n debygol o bontio sawl blwyddyn, ond bydd y canlyniad yn bellgyrhaeddol. Bydd y Cyngor yn adrodd ar a defnyddio data yn fwy hyderus, a bydd penderfyniadau dysg ar sail tystiolaeth yn cael eu hwyluso.

## 4. Llwyfan adrodd ar ddata

Defnyddir sawl system i adrodd ar ddata, boed drwy *Excel, PowerBI*, *Grafana* neu *Crystal Reports*. Mae'r rhain yn cynnig gwahanol ffyrdd o ddadansoddi data a'i gyflwyno, ond maent yn lled gymhleth ac angen cefnogaeth, arweiniad a hyfforddiant er mwyn eu defnyddio'n gywir ac effeithlon.

Byddwn yn cynnal ymarferiad i adnabod y llwyfan gorau ar gyfer anghenion y Cyngor. Rhaid ystyried eu galluoedd i adrodd yn gywir, effeithlon ac i'r lle cywir, ac i ddefnyddio'r ffynhonnell data priodol. Byddwn yn ystyried cost, defnyddioldeb y pecynnau, a'r gefnogaeth a gynigir.

Gyda phecyn adrodd o safon, byddwn yn gallu dadansoddi data'n gyson a chywir, a chyflwyno hyn yn glir.

## 5. Hyfforddiant llythrennedd data

Mae'r rhan fwyaf o swyddogion yn y Cyngor yn ymdrin â data mewn rhyw ffordd, boed wrth gasglu, cofnodi ac/neu ddehongli data. Mae gwneud hyn yn ailnatur i lawer ac yn cael ei wneud yn ddi-gwestiwn fel rhan o broses ehangach. Ond wrth i ddefnydd a phwysigrwydd data gynyddu, rhaid sicrhau fod staff y Cyngor yn fyw i botensial data, wedi'u grymuso i'w ddefnyddio'n effeithiol, ac yn deall y risgiau.

Byddwn yn cyflwyno hyfforddiant llythrennedd data i bawb yn y Cyngor. Gall gweithlu sy'n defnyddio data'n ddoeth gyfrannu'n sylweddol at wella ansawdd ein data a chryfhau safon ein gwasanaethau.


**Yn 2018, Cymru oedd y rhan o'r DU gyda'r ganran uchaf o bobl (19%) gyda dim sgiliau digidol.**



## 6. Cyflwyno data perfformiad

Mae'r dulliau o gasglu a chyflwyno gwybodaeth perfformiad (e.e., ar gyfer y drefn herio a chefnogi perfformiad) yn amrywio fesul adran, gan achosi diffyg cysondeb yn y wybodaeth a gyflwynir. Gellir olrhain rhai o'r diffygion hyn i ddiffygion naill yn y ffordd yr adroddir y data neu yng nghywirdeb y data oddi fewn y systemau a ddefnyddir yn yr adrannau.

Bydd ein newidiadau i'n trefniadau o gasglu ac adrodd ar ddata'n cyfarch y ddau ddiffyg hyn, yn ogystal â gwella ein hadroddiadau perfformiad adrannol a mynediad atynt. Er enghraifft, gallwn ddefnyddio dashfyrddau perfformiad digidol i gysoni sut mae'r adrannau'n cyflwyno data a gwneud y broses hon yn awtomatig, yn ogystal â rhannu elfennau o'r rhain ar ein sianeli digidol ar gyfer defnydd y cyhoedd.



# Gweinyddiaeth a Systemau Busnes

**'Hwyluso ac awtomeiddio gwaith sy'n rheolaidd ac yn drafodaethol, a defnyddio technoleg er mwyn ychwanegu gwerth at wasanaethau.'**

Mae gan dechnoleg ddigidol ran bwysig i'w chwarae wrth foderneiddio'r gwasanaethau a ddarperir i bobl Gwynedd. Gallwn droi at atebion arloesol technoleg er mwyn hwyluso rhediad gwasanaethau, cyfoethogi profiad y cwsmer a chodi cynhyrched staff, yn bennaf trwy awtomeiddio gweithgareddau sy'n drafodaethol ac ailadroddus, a chanolbwyntio ar yr hyn sydd wir yn ychwanegu gwerth. Gallwn hybu gweithio doeth ac ystwyth, a chynyddu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y gwasanaethau.

Yr eitemau penodol fydd yn derbyn sylw yn y flaenoriaeth hon yw:

## 1. Cyflwyno Deallusrwydd Artiffisial ar gyfer gweithgareddau trafodaethol a rheolaidd

Er bod sawl gwasanaeth yn defnyddio technoleg ddigidol, mae gweithgaredd â llaw yn parhau. Gallwn gyflwyno technoleg Deallusrwydd Artiffisial (AI) a Gweinydd Prosesau Robotiaid i leihau ar yr elfen ymdrech â llaw mewn gweinyddiaeth, yn enwedig mewn gweithgareddau sy'n drafodaethol a rheolaidd. Byddwn yn creu tîm penodol yn yr Uned Ddatblygu i arbenigo mewn Deallusrwydd Artiffisial ac adnabod cyfleoedd i drawsnewid gwasanaethau.

Bydd y dechnoleg nid yn unig yn fodd o wneud arbedion, ond hefyd yn gyfle i ychwanegu gwerth i wasanaethau a gwella profiad cwsmeriaid. Er y manteision hyn, ni allwn osgoi'r pryderon am Ddeallusrwydd Artiffisial a byddwn yn dilyn camau ymarfer da o law'r Llywodraeth.

## 2. Digideiddio ac awtomeiddio trefniadau anfonebu

Mae'r drefn anfonebu yn rhan annatod o reolaeth ariannol yn y Cyngor. Mae'n parhau i ddilyn trefniadau papur, ac mae'r papurau hyn yn cyfnewid dwylo sawl tro cyn cael eu mewnbynnu i system ariannol y Cyngor. Yn ogystal â bod yn llafurus, mae anfonebu hefyd yn dwyn gorfodaeth i fod yn y swyddfa. Mae'r drefn yma'n cael ei ddefnyddio gan bob adran yn y Cyngor ynghyd â darparwyr allanol, a gellir cyflwyno gwelliannau sylweddol i gyflymu'r broses a'i gwneud yn fwy diogel, cywir ac effeithlon.



Byddwn yn mapio'r broses gwaith presennol, ei ail-ddylunio a chyflwyno proses ddigidol newydd a chyflymach, a bydd hyn yn tynnu'r ddibyniaeth ar leoliad, yn creu safonau rhag twyll ac yn ysgafnhau ar unrhyw ymdrech gweinyddol.

## 3. Lleihau a gwella ein defnydd o bapur

Er bod gohebiaeth ddigidol y Cyngor yn tyfu, mae argraffu dogfennaeth yn parhau. Rhaid cydnabod bod argraffu'n bwysig ar gyfer y cwsmeriaid hynny nad ydynt yn gohebu'n ddigidol ac mae'n anorfod, felly, y bydd gohebiaeth papur yn parhau i ryw raddau, ond byddwn yn rhoi sylw i gynyddu presenoldeb ein gwasanaethau ar-lein i resymoli'r defnydd.

Byddwn yn adnabod trefn ble bo gohebiaeth sy'n cael ei yrru drwy'r post yn cael ei ganoli, gan ryddhau'r ymdrech bresennol o argraffu dogfennaeth, ei blygu, rhoi'r ohebiaeth mewn amlen a'i baratoi ar gyfer ei bostio. Ble daw gohebiaeth yn ôl i'r Cyngor ar bapur, byddem yn integreiddio hyn i'r system ddigidol yn hytrach na mewnbynnu'r wybodaeth â llaw.

Bydd y Cynllun hwn yn lleihau'r amser ar gyfer gyrru gohebiaeth drwy'r post, yn ogystal â'r adnodd ar gyfer gwneud hyn.


Amcangyfrifir bod tua

**1.4 biliwn**

o goed yn mynd i safleoedd tirlenwi bob blwyddyn oherwydd gwastraff papur.



## 4. Rhesymoli'r systemau a ddefnyddir



Defnyddir oddeutu 300 system ddigidol yn y Cyngor, gyda phob un yn dwyn ymdrech neu gost ariannol i'w cynnal, ac yn gymysg o systemau sydd wedi'u datblygu'n fewnol neu wedi'u prynu drwy gwmnïau trydydd parti. Yn aml, dim ond rhan o'r system sy'n cael ei ddefnyddio, gan fod hynny'n ddigonol ar gyfer dibenion y gwasanaeth, ond fe allai'r modiwlau na ddefnyddir fod o werth i wasanaethau eraill a byddwn yn cysidro'r elfen hwn yn yr ymarferiad.

Bydd cymal cyntaf y cynllun yn arwain at gynnal adolygiad llawn a thrylwyr o'n holl systemau, gan weithio â phob adran i greu cofrestr ased cyflawn o'n systemau. Bydd ail ran yr ymarferiad hwn yn rhesymoli'r systemau, drwy naill ai gyfuno defnydd i lai o systemau neu adnabod systemau newydd gall wasanaethu ar draws sawl gwasanaeth.

Canlyniad yr ymarferion hyn fydd ein hamddiffyn rhag gwastraff ble mae darpariaeth eisoes yn bodoli neu ble na fyddai darpariaeth newydd yn briodol. Trwy leihau'r nifer o systemau rydym eu cefnogi, bydd y Cyngor yn gwella cysondeb data, cyflwyno arbedion a lleihau y gofyn ar ein hisadeiledd.

## 5. Adolygiad o systemau rheoli'r sefydliad

"Systemau rheoli'r sefydliad" yw'r term a roddir i'r systemau hynny sy'n cael eu defnyddio i gynllunio a rheoli adnoddau sefydliad, gan gynnwys cynllunio ariannol a'r gweithlu. Mae tair elfen yng Nghyngor Gwynedd:

- System trydydd parti ar gyfer rheolaeth ariannol.
- System trydydd parti i baratoi cyflogau.
- System fewnol ar gyfer cynllunio'r gweithlu.

Gwneir ymdrech i gadw'r wybodaeth a rennir rhwng y systemau uchod yn gyfredol a chywir, ac mae hyn yn gymysg o gamau wedi'u hawtomeiddio yn ogystal â rhai a wneir â llaw. Byddwn yn adolygu ein hanghenion i reoli'r sefydliad, gan gymharu ein darpariaeth gyfredol yn erbyn systemau integredig sy'n rhoi darpariaeth gyflawn yn y meysydd hyn, gan gyflwyno achos busnes i barhau neu newid.

Bydd yr achos busnes yn cyflwyno'r ymdrech a'r costau ynghlwm â pharhau neu newid, yn ogystal ag effaith hynny ar ein gweithlu a'n gwasanaethau.

## 6. Rhyngrwyd y Pethau

Rhyngrwyd y Pethau (IoT) yw gwrthrychau neu "bethau" sydd wedi'u cysylltu â'r rhyngrwyd sy'n synhwyro ar bethau, casglu data gan y synhwyrwyr, a gwneud penderfyniadau ar sail y data. Mae'r Cyngor yn arloesi yn y maes hwn yn barod ac wedi cyflwyno datrysiadau yn y maes amgylcheddol, ond gallwn wneud mwy gyda'r dechnoleg gan gynnwys arbed ynni, monitro'r hinsawdd, rhagweld llifogydd, hwyluso byw'n annibynnol yn y maes gofal, gorfodaeth stryd, gwastraff, a llawer mwy.

Byddwn yn creu Hwb Rhyngrwyd y Pethau, fydd yn cynnwys arbenigedd mewn technolegau Rhyngrwyd y Pethau, y gefnogaeth isadeiledd i'w alluogi, a mynediad at fuddsoddiad i gyflwyno synhwyrwyr i gyflawni amryw brosiectau. Byddwn yn blaenoriaethu prosiectau yn y maes amgylcheddol a gofal, gyda'r maes amgylcheddol yn cynnig cyfleodd i wneud arbedion ariannol drwy resymoli ein defnydd ynni a chael effaith bositif ar ein hôl-troed carbon, yn ogystal â modelu digwyddiadau amgylcheddol megis llifogydd. Yn y maes gofal, gallwn wella ansawdd byw trigolion trwy eu cefnogi i fyw'n annibynnol, megis drwy teleofal.

Mae technoleg Rhyngrwyd y Pethau'n amrywio. Defnyddir y band eang gan rai mathau o'r dechnoleg, signal ffôn symudol gan eraill, ac yn gynyddol, ac yn gost effeithiol, technoleg rwydwaith ardal eang pŵer isel (LP-WAN). Gan fod demograffeg a thirwedd Gwynedd yn amrywio, a chysylltedd yn wan mewn rhai llefydd, rhaid gofyn pa un o'r mathau uchod sydd fwyaf addas i'w ddefnyddio. Mewn rhai amgylchiadau, darpariaeth LP-WAN fydd yr unig opsiwn, ac yn aml iawn, yr opsiwn gorau pam fo cysylltedd eraill ar gael.

Byddwn yn cefnogi Uchelgais Gogledd Cymru i wella cysylltedd band eang (1Gb), rhwydwaith ffôn symudol 4/5G a sefydlu rhwydwaith LP-WAN drwy Ogledd Cymru. Bydd defnydd eang o ryngrwyd y pethau yn cyfrannu i leihau ein haralliadau carbon, arbed costau ynni, galluogi trigolion i fyw'n annibynnol yn hirach, monitro a modelu digwyddiadau amgylcheddol megis llifogydd a chyfrannu at ffyrdd newydd o gyflwyno gwasanaethau'n fwy effeithiol.



## 7. Gwneud y defnydd gorau o'r llwyfan Microsoft365

Fel sefydliadau eraill, mae'r Cyngor yn gwneud defnydd mawr o becynnau Microsoft. Mae'r rhain wedi'u hintegreiddio'n ddwfn yn ein gwasanaethau a'n gweithgareddau, ond gallwn wneud llawer mwy gyda'r hyn rydym yn tanysgrifio amdano.

Er mwyn gwneud llawn ddefnydd o'r pecynnau Microsoft, mae rhai sialensiau'n ein hwynebu. Mae'r llwyfan wedi tyfu'n sylweddol ac yn parhau i dyfu, gyda nifer o'r opsiynau diweddar oddi fewn y cynnyrch wedi eu hanalluogi oherwydd cyfyngder adnoddau, ac mae'r llwyfan yn parhau i dyfu, gyda ffwythiannau newydd parhaus yn cael eu cyflwyno.  Mae nifer wahanol flas i ddulliau trwyddedu cynnyrch Microsoft, gydag un prif ddull yn cael ei wireddu i oll o'n defnyddwyr, ond drwy broffilio a rheolaeth dynn ar bwy sydd angen beth, gallwn resymoli rhywfaint ar gostau'r trwyddedau.

Byddwn yn dwyn mwy o gefnogaeth i'r llwyfan Microsoft365, a hynny ar draws pedwar maes:

- **Technegol**.
  Ymchwilio i'r ffwythiannau diweddaraf a gynigir a galluogi mynediad atynt yn ôl anghenion staff.
- **Digidol**.
  Datblygu pecynnau meddalwedd drwy ddefnyddio llwyfannau datblygu PowerApps a phecynnau Deallusrwydd Artiffisial Copilot.
- **Diogelwch Gwybodaeth.**
  Ymchwilio i effaith defnydd y cynnyrch o bersbectif diogelwch gwybodaeth, gan gynnwys newidiadau sylweddol i rannu gwybodaeth a chyfnodau cadw.
- **Gweinyddol**.
  Rheolaeth dynnach a phroffilio defnyddwyr i resymoli gwariant ar drwyddedau.

Byddwn yn gwneud defnydd mwy effeithiol o'r arlwy sydd ar gael oddi fewn y pecynnau cynhyrchiant, yn gwella gweinyddiaeth fewnol, cyflwyno mwy o ddatrysiadau digidol yn gynt a'u defnyddio mewn modd diogel, ac yn rhesymoli defnydd y trwyddedau.

## 8. Hwyluso cydweithio â phartneriaid

Mae'r Cyngor yn cydweithio'n agos â sawl partner allanol, ond mae trefniadau digidol weithiau'n broblem wrth weithio'n draws-sefydliadol. Yn hanesyddol, mae'r Cyngor wedi bod yn flaenllaw yn hwyluso'r math hyn o gydweithio, boed wrth bensaernïo'r rhwydwaith cydweithio cenedlaethol, Govroam, neu drwy fabwysiadu technoleg SharePoint yn gynt na'r mwyafrif o sefydliadau. Mae'r rhain wedi cyfrannu'n fawr at gyd-weithio rhwng y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd, ond gallwn hwyluso gweithio traws-sefydliadol ymhellach.

Ni all Gyngor Gwynedd alluogi cydweithio hyn ar ei draed ei hun; mae'n rhaid symud gam wrth gam â phartneriaid, boed drwy gyflwyno newidiadau mewnol ar y cyd, neu drwy fuddsoddi mewn llwyfannau amgen. Mae'n annatod bod diogelwch yn flaenllaw mewn unrhyw drefn, a bydd ein gallu i gefnogi hefyd yn ddibynnol ar yr adnoddau sydd ar gael.

Bydd Cyngor Gwynedd yn bartner bodlon a pharod i gefnogi mesurau a mentrau i ddiddymu rhwystrau digidol, a hynny i alluogi cydweithio a phartneriaid strategol.

## 9. Cysylltedd a cynhwysiad digidol.

Mae cyd-destun cysylltedd digidol Gwynedd yn awgrymu bod 94.6% o anheddau'r Sir mewn ardal gall dderbyn cyflenwad band-eang cyflym o 30mbps neu uwch, gyda 2.36% yn derbyn cyflenwad o lai na 10mbps a 0.66% yn derbyn cyflenwad yn is na 2mbps.  Prin yw'r data lleol ar gyfer lefel cynhwysiad, sef y gallu a'r parodrwydd i ddefnyddio cyfryngau digidol, ac mae ymchwiliad diweddar (Mawrth 2023) gan Archwilio Cymru yn awgrymu bod cyfartaledd o 7% o oedolion Cymru wedi eu heithrio'n ddigidol.

Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gyfrifol am isadeiledd cysylltedd digidol yn y DG, ond drwy nawdd, mae prosiectau digidol rhaglen twf Uchelgais Gogledd Cymru wedi eu hadnabod i wella cysylltedd; yn benodol, y prosiectau "Campysau Cysylltiedig", "Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig" a "Yr Ychydig % Olaf".  Bydd Cyngor Gwynedd yn cefnogi Uchelgais Gogledd Cymru i ddatblygu'r prosiectau hyn, gan gynnwys mewnbwn technegol ac ymarferol o ran ysgafnhau ar unrhyw rwystrau, megis polisïau cynllunio neu alluogi i adeiladau cyhoeddus y Cyngor gael eu defnyddio fel rhan o unrhyw ddatrysiad.

Byddwn yn parhau i gefnogi Partneriaeth Sgiliau Rhanbarth Gogledd Cymru i wella sgiliau digidol yn y Sir, yn ogystal â'r rhaglenni gwella sy'n rhan o ymgyrch y rhaglen Gwynedd Ddigidol i gynyddu cynhwysiad digidol.

Wrth ddatblygu'r Cynllun hwn, rydym wedi cysidro'r nodweddion hynny sy'n effeithio ar alluoedd y cyhoedd i ymdrin â thechnoleg ddigidol yn effeithiol, megis oed a thlodi. Rydym wedi gweithio gydag argymhellion CWMPAS o ran cynhwysiant digidol, a bydd y Cynllun yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor o fod yn awdurdod Oed Gyfeillgar erbyn 2025.

## 10.Ysgolion ac Addysg

Bu i Gyngor Gwynedd fabwysiadu Strategaeth Ddigidol Ysgolion Gwynedd ar ddiwedd 2021. Mae hon yn strategaeth gynhwysfawr ac yn arwain ar y cymhelliant o "gefnogi addysgu digidol er mwyn sicrhau'r cyfle gorau i ddisgyblion Gwynedd".  Mae egwyddorion a chynlluniau'r strategaeth ddigidol ar gyfer yr ysgolion yn rhan annatod o drefniadau a chynlluniau digidol y Cyngor, a byddwn yn cadw traw a phwrpas y strategaeth yn gyfredol i adlewyrchu cynlluniau digidol ehangach y Cyngor.



# Gweithlu

**‘Creu gweithlu mwy effeithiol a chynhyrchiol, ble mae galluoedd staff yn cael eu cryfhau a’u gwella gan dechnoleg.’**

Bydd rhediad llyfn a lwyddiannus ein gwasanaethau’n parhau i ddibynnu ar sgil ein staff, ond gallwn fuddsoddi mewn technoleg ddigidol er mwyn eu grymuso a’u cefnogi. Trwy arfogi gweithwyr â sgiliau digidol, eu grymuso i ddefnyddio technoleg yn ddoeth a chreu gofodau gwaith priodol, gall y Cyngor ysgogi arloesedd a chynyddu cynhyrchedd. Rhaid creu diwylliant sy’n annog y defnydd o dechnoleg a sicrhau fod gan bob aelod o staff fynediad ato, yn ogystal â denu a hyfforddi’r sgiliau digidol sydd eu hangen arnom. Mae yma gyfle i wreiddio ystwythder a gweithio doeth yn y sefydliad, a thrwy hyn, moderneiddio’r gwasanaethau a ddarperir er budd pobl Gwynedd.

Er mwyn manteisio ar y cyfleoedd hyn, byddwn yn:

## 1. Cyflwyno cyfrif digidol i bob swyddog

Mae’r Cyngor yn cyflogi oddeutu 7,000 o staff, gydag ychydig o dan hanner ohonynt (40%) yn meddu ar gyfrif corfforaethol, a rheini’n bennaf yn staff ysgolion a swyddfa. Mae’r cyfrifon hyn yn cael eu defnyddio i lwyfannu llu o systemau, gan gynnwys mynediad at e-bost, mewnrwyd y Cyngor a Hunan-Wasanaeth staff. Ceir mynediad i’r cyfrifon hyn gyda chliniaduron sy’n cael eu darparu gan unedau cefnogol y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth.

Nid yw’r un ddarpariaeth yn cael ei gynnig i weddill y gweithlu, ond caniateir mynediad at fodiwlau mewnol megis Hunanwasanaeth staff trwy gyfrifon ac offer personol. Staff o’r gwasanaethau gofal, gweithwyr llaw a staff ategol yn yr ysgolion yw trwch y garfan hon ac rydym am greu cyfrifon corfforaethol ar eu cyfer fel bod gan bawb fynediad teg. Bydd hyn yn cynnwys cyfeiriadau e-bost, ac rydym am baratoi mannau penodol yn y gweithle ble bydd modd i’r staff hyn gael mynediad at lwyfannau digidol. Bydd rhaglen hyfforddiant yn cael ei baratoi er mwyn grymuso staff i ddefnyddio’r ddarpariaeth yn effeithiol.

Drwy symud o Gyngor lled-ddigidol i fod yn Gyngor sy’n galluogi’r gweithlu i gyd i ohebu a gweinyddu’n ddigidol, byddwn yn lleihau ein defnydd o bapur a chostau postio, cyflwyno hyfforddiant yn amserol, newid meddylfryd staff i feddwl yn ddigidol, ac adnabod cyfleoedd gyda’r sgiliau hyn i wella gwasanaethau.

## 2. Cefnogi gweledigaeth y rhaglen “Gweithio i’r Dyfodol”.

Fe newidiodd llawer yn ystod y cyfnod clo, yn enwedig ein ffyrdd o weithio. Bellach, mae staff yn gweithio’n heibrid – yn swyddfeydd y Cyngor ac o bell.



Mae nifer o fanteision ynghlwm â’r ffordd hyn o weithio, gan gynnwys cydbwysedd bywyd a gwaith, morâl staff, a recriwtio a chadw staff. Fodd bynnag, rhaid sicrhau fod darpariaeth yn ei le er mwyn hwyluso’r modd newydd hwn o weithio a chefnogi staff i fod yn effeithiol, ble bynnag eu lleoliad gwaith.

Bydd elfen ddigidol y ddarpariaeth yn canolbwyntio ar gyflwyno offer ar ddesgiau'r swyddfeydd, cysylltiadau i'r rhwydwaith, darpariaeth cyfarfodydd heibrid yn yr ystafelloedd cyfarfod, a system i neilltuo gofod yn y swyddfa i weithio. Byddwn hefyd yn hwyluso symud llyfn o weithio yn y swyddfa i fan arall. Mae'r trefniadau "Gweithio i'r Dyfodol" yn gyfle i resymoli ein stad swyddfeydd, a bydd rhestr gynhwysfawr o ystadegau'n cael eu darparu i fesur y defnydd o swyddfeydd a modelu tueddiadau i'r dyfodol.

## 3. Hyfforddiant, sgiliau a meddwl yn ddigidol

Mae canran sylweddol o weithlu'r Cyngor yn defnyddio technoleg ddigidol yn eu gwaith mewn rhyw fodd, ond rhagdybir bod sgiliau TG ac ymwybyddiaeth ddigidol yn amrywio. Mae sgiliau TG yn cynnwys y gallu i wneud defnydd effeithiol o systemau ac offer digidol, ac ymwybyddiaeth ddigidol ydi'r gallu i adnabod y cyfrwng gorau ar gyfer dibenion y gwaith. Byddwn yn cynnal ymarferiad er mwyn:

- Proffilio swyddi ac adnabod y lefel o sgiliau digidol sydd eu hangen i ddiwallu dyletswyddau'r swydd.
- Cynnal asesiad o sgiliau digidol y gweithlu a chymharu'r rhain gyda disgwyliadau'r swydd.
- Creu rhaglen o hyfforddiant sgiliau digidol, yn ogystal â gweithdai newid meddylfryd er mwyn:
  - Sicrhau bod staff a swyddogion gyda'r sgiliau a gwybodaeth briodol.
  - Datblygu a meithrin diwylliant i weithio'n ddigidol.
  - Dilyn egwyddorion Rheoli Newid i gefnogi unigolion i ymdopi ac addasu eu ffordd o feddwl.

Mae'n hanfodol ein bod yn cyfathrebu'r rheswm am y newidiadau hyn yn glir, gan arddangos sut mae sgiliau technegol digidol yn cyfrannu at wella gwasanaethau a hwyluso tasgau gwaith. Bydd yr ymgyrch hon yn wir ar draws y Cyngor ac yn gofyn am arweinyddiaeth glir a chadarn.



# 4. Hyrwyddo Cyngor Gwynedd fel cyflogwr digidol

Mae'r maes cyflogaeth ddigidol yn gystadleuol dros ben, ac mae'r gallu bellach i weithio o bell i gwmnïau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol wedi cynyddu'r gystadleuaeth. Mae'n golygu fod y Cyngor yn cystadlu gyda sefydliadau ledled y byd am dalent ddigidol, ac mae recriwtio a chadw staff yn parhau'n sialens. Un sialens yw'r diffyg ymwybyddiaeth fod y Cyngor ymysg y cyflogwyr digidol mwyaf yn yr ardal, gan olygu nad yw llawer yn cysidro'r Cyngor wrth chwilio am swyddi.

Mae meysydd eraill hefyd yn wynebu heriau recriwtio, megis y maes gofal. Rydym felly wedi cyflwyno gwelliannau sylweddol i'r drefn recriwtio, gan gynnwys rhyddhau tudalen swyddi newydd ar wefan y Cyngor sy'n llawer cliriach a haws ei defnyddio.

**Ers 2019, mae'r Cyngor wedi recriwtio**

**5**

**Prentis Gradd mewn Peirianneg Meddalwedd, a**


**1**

**Prentis Gradd mewn Seibr ddiogelwch.**

Mae'r Cyngor yn cydweithio'n agos gyda Phartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru, yn mynychu digwyddiadau ac yn cyfrannu i'r agenda o uwch-sgilio a denu gwaed newydd i'r maes digidol, ac yn rhan allweddol o'r grŵp sgiliau digidol sydd wedi ei sefydlu drwy'r Bartneriaeth. Mae'n amlwg na fydd y sefyllfa'n gwella oni bai ein bod yn cymryd mesurau i wneud rhywbeth gwahanol i'r hyn 'da ni'n ei wneud heddiw, a gan fod cystadleuaeth chwyrn am adnoddau prin, mae'n ofynnol i ni wneud yn glir bod Cyngor Gwynedd yn le atyniadol i feithrin gyrfa yn y maes digidol. Byddwn yn cynnal sawl ymarferiad i geisio codi ymwybyddiaeth o Gyngor Gwynedd fel cyflogwr digidol a gwneud ein swyddi digidol yn fwy atyniadol drwy:

- Cydweithio ag ysgolion trwy gynnal gweithgareddau a gweithdai digidol er mwyn dangos fod y Cyngor yn cynnig gyrfaoedd cyffrous yn y maes digidol.
- Diwygio teitlau swyddi a swydd ddisgrifiadau, gan eu hasio'n agosach â'r fframwaith DDaT (Digidol, Data a Thechnoleg).
- Creu mwy o brentisiaethau.
- Parhau i gefnogi a chyfrannu at waith Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru.

Byddwn yn codi proffil Cyngor Gwynedd fel cyflogwr yn y maes digidol, creu cyfleoedd i ddenu mwy o brentisiaid, diwygio swydd ddisgrifiadau i fod yn fwy atyniadol, a chreu amgylchedd lle bo modd dilyn gyrfa hir a lwyddiannus yn y Cyngor.



# Gwydnwch

**‘Datblygu isadeiledd digidol cadarn er mwyn amddiffyn gwasanaethau’r Cyngor.’**

Mae technoleg ddigidol yn cynnig atebion arloesol a chyfleoedd lu, ond mae’n peri heriau i gynnal llwyfan sy’n wydn.  Wrth inni ddod yn fwyfwy ddibynnol ar dechnoleg, mae’r risgiau sy’n deillio o fethiant yn ein hisadeiledd yn cynyddu, boed hynny drwy ddigwyddiad megis llifogydd a thân, neu drwy ymosodiadau seibir a thor diogelwch data.  Rhaid sicrhau fod isadeiledd digidol y Cyngor yn parhau’n wydn gyda’r gallu i ymateb ac adfer yn llawn o unrhyw golled yn deillio o ddigwyddiad.

Er mwyn manteisio ar y cyfleoedd hyn, byddwn yn:

## 1. Uwchraddio llinellau analog i ddigidol

O 2025, bydd llinellau ffôn ISDN (rhwydwaith digidol gwasanaethau integredig) a PSTN (rhwydwaith cyfnewidfeydd ffôn cyhoeddus) yn cael eu diffodd yn barhaol.  Mae’r cysylltiadau hyn yn cynnwys llinellau ffôn a chysylltiadau data, a hynny ar draws nifer o wasanaethau – larymau byrgleriaeth, larymau mewn lifft, croesfannau, aros fannau tywydd, a llinellau ffôn traddodiadol.  Mae’n hanfodol felly ein bod yn adnabod pwrpas ein defnydd cyfredol o linellau analog, gan ddarganfod datrysiad amgen i’r gwasanaethau sydd angen parhau.

Byddwn yn rhannu’r prosiect i ddau gymal, gyda’r cymal cyntaf yn adnabod ein defnydd presennol o linellau analog. Disgwylir i’r cymal hwn amlygu os oes angen darpariaeth amgen, gan nodi ei bod yn debygol y bydd rhai gwasanaethau wedi dyddio a bellach ddim eu hangen. Gellir gwneud arbedion ar y cysylltiadau fydd yn cael eu diffodd, ond fe all y ddarpariaeth amgen sydd angen ei gyflwyno olygu costau uwchlaw'r ddarpariaeth bresennol. Mae'r ail gymal yn cyflwyno’r dechnoleg amgen. Byddwn yn penodi adnodd yn fewnol i arwain ar y cymalau hyn, ond fe ddisgwylir comisiynu arbenigedd allanol i ymchwilio i rai cysylltiadau ble na ellir eu holrhain.

Canlyniad yr ymarferiad fydd rhesymoli’r nifer o gysylltiadau, a rhoi darpariaeth gadarn a gwydn i’r gwasanaethau hynny sydd angen parhau.

## 2. Parhad gwasanaeth

Mae parhad gwasanaeth yn cynnwys sawl elfen o’n darpariaeth ddigidol, a sut y gall ddarparu a chynnal llwyfan gwydn i gefnogi ein gwasanaethau, beth bynnag fo’r amgylchiadau. Byddai colli ein systemau digidol yn peri problemau i’r gwasanaethau a ddarperir, yn ogystal ag i bobl Gwynedd.

**Mae ychydig llai na hanner (48%) o sefydliadau’r DU yn nodi mai “ymosodiad seiber trychinebus” yw’r senario risg uchaf.**



Er bod ein darpariaeth isadeiledd yn gadarn, gellir cyflwyno gwelliannau o ran ein gallu i ymateb i ddigwyddiadau, boed hynny yn ddigwyddiad sy'n gwreiddio o ymosodiad seibr neu drwy drychineb arall megis tân neu lifogydd. Mae'r risgiau'n bodoli o hyd, a rhaid bod yn fyw iddyn nhw - mae'n faes sy'n datblygu ar garlam ac angen buddsoddiad parhaus i gadw ar flaen y gad.

Gyda chyfleoedd digidol newydd yn ein cyrraedd yn barhaus a swyddogion yn awyddus i wneud defnydd llawn o'r dechnoleg sydd ar gael, bydd seibr ddiogelwch yn dod yn gynyddol bwysig. Gweler yr angen i gael trefn, strwythur a pholisïau o'r newydd i gyfarch y risg, ynghyd â systemau i ddiogelu staff a phobl Gwynedd rhag ymosodiadau seibr a'r gallu i adfer o ddigwyddiad yn effeithiol.


Byddwn yn buddsoddi mewn adnoddau, meddalwedd a gweithdrefnau i gryfhau ein hamddiffynfeydd yn erbyn ymosodiadau seibr, rhoi mwy o ryddid i rannu gwybodaeth a chael mynediad at systemau, a chreu darpariaeth i allu ymateb i ddigwyddiadau oddi allan i oriau craidd y Cyngor.

## 3. Uwchraddio darpariaeth darlledu yn Siambrau'r Cyngor

Mae'r Cyngor yn cynnal cyfarfodydd y Cyngor Llawn a'r pwyllgorau democrataidd yn Siambr Dafydd Orwig a Siambr Hywel Dda. Dim ond cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb a gynhaliwyd yma'n draddodiadol, ond yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae'n ofynnol ar y Cyngor i ganiatáu cynghorwyr i allu ymuno â chyfarfodydd yn rhithiol. Rydym wedi adnabod pedwar math o gyfarfodydd ble bydd modd i gynghorwyr ymuno o bell. Bydd gwe-ddarllediadau'n parhau, a bydd y ddarpariaeth yn gweithio'n hwylus yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae'r ddarpariaeth yn ei le bellach, ond yn cynnwys amryw o dechnolegau gwahanol. Mae'n golygu fod y drefn o weinyddu a chefnogi'r ddarpariaeth yn gymhleth, gyda gwahanol elfennau yn gofyn am gefnogaeth arbenigol. Nid yw ychwaith yn adlewyrchu'r ddarpariaeth ddiweddaraf sydd ar gael yn y farchnad.

Byddwn yn adolygu'r trefniadau cyfredol gyda'r bwriad o gyflwyno darpariaeth newydd sydd wedi'i bensaernïol ar gyfer cynnal cyfarfodydd aml-leoliad a dwyieithog, a ble gellir eu darlledu'n fyw. Bydd angen sicrhau fod y ddarpariaeth yn syml ac yn hawdd ei ddefnyddio, gwydn, ac yn trawsnewid y siambrau fel y gellir eu defnyddio ar gyfer pob math o gyfarfodydd.



Cyfraniad at y 5 Ffordd o Weithio a 6 cenhadaeth Strategaeth Ddigidol Llywodraeth Cymru (2022).

| Blaenoriaeth Ddigidol | Prosiect datblygu | 5 ffordd o weithio | | | | | Strategaeth Ddigidol Llywodraeth Cymru (2022) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Hirdymor | Atal | Integreiddio | Cydweithio | Cynnwys | Gwasanaethau Digidol | Cynhwysiant Digidol | Sgiliau Digidol | Yr Economi Ddigidol | Cysylltedd Ddigidol | Data a Chydweithredu |
| Cyswllt Cwsmer | Ymestyn dulliau cyfathrebu, ymholi a cyflwyno ceisiadau am wasanaeth | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | | | ✓ | | |
| | Gwelliannau i ddarpariaeth ffôn y Cyngor | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | |
| | Ail ddylunio gwefan gorfforaethol y Cyngor | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | | | ✓ | | |
| | Datblygu a hyrwyddo apGwynedd | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | | | | | |
| | Ciosg fideo Siop Gwynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | | | ✓ | |
| | Peiriannau talu am wasanaeth | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | |
| Gwybodaeth a Data | Adnabod ein data | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | | | ✓ |
| | Siarter data | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | | | | ✓ |
| | Creu warws data (*wGwynedd*) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | | | ✓ |
| | Llwyfan adrodd ar ddata | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | | ✓ |
| | Hyfforddiant llythrennedd data | ✓ | ✓ | | | | | | ✓ | | | ✓ |
| | Adrodd ar berfformiad | ✓ | | ✓ | | ✓ | | | | | | ✓ |
| Gweinyddiaeth a Systemau Busnes | Cyflwyno Deallusrwydd Artiffisial ar gyfer gweithgareddau trafodaethol a rheolaidd | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | | | | | |
| | Digideiddio ac awtomeiddio trefniadau anfonebu | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | | | | | |
| | Lleihau a gwella ein defnydd o bapur | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | | | | | |
| | Rhesymoli'r systemau a ddefnyddir | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | | | | | ✓ |
| | Adolygiad o systemau rheoli'r sefydliad | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | | | | ✓ |
| | Rhyngrwyd y Pethau | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | | ✓ |
| | Gwneud y defnydd gorau o'r llwyfan Microsoft365 | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | | | | | |
| | Hwyluso cydweithio â phartneriaid | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | | ✓ |
| | Cysylltedd digidol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | |
| | Ysgolion ac addysg | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gweithlu | Cyflwyno cyfrif digidol i bob swyddog | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | | | |
| | Cefnogi gweledigaeth y rhaglen "Gweithio i'r Dyfodol" | ✓ | | | | | | | | | | |
| | Hyfforddiant, sgiliau a meddwl yn ddigidol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | | ✓ | | | |
| | Hyrwyddo Cyngor Gwynedd fel cyflogwr digidol | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | | |
| Gwydnwch | Uwchraddio llinellau analog i digidol | ✓ | ✓ | | | | ✓ | | | | | |
| | Parhad gwasanaeth | ✓ | ✓ | | | | ✓ | | | | | |
| | Uwchraddio darpariaeth darlledu yn Siambrau'r Cygnor | ✓ | | | | ✓ | ✓ | ✓ | | | | |

# Trefniadau Llywodraethiant

Bydd datblygiadau'r Cynllun hwn yn cael eu gyrru a'u cefnogi gan Fwrdd Trawsnewid Digidol y Cyngor dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol, a chyda cefnogaeth yr Aelod Cabinet dros Gyllid a Thechnoleg Gwybodaeth, y Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Technoleg Gwybodaeth a Chyllid, a Phenaethiaid Adran. Mae'r Bwrdd wedi sefydlu rhwydwaith o is-grwpiau digidol i gyfarch rhanddeiliaid ar draws gwasanaethau'r Cyngor.

Bydd y Bwrdd yn perchnogi'r uchelgais a gyflwynir yn y Cynllun Digidol ac yn gyfrifol am:

- Flaenoriaethu a chydgordio'r prosiectau blaenoriaeth gwella.
- Dynodi adnoddau digonol i ymgymryd yn effeithiol â thasgau i wireddu'r prosiectau.
- Sicrhau bod aelodaeth y Bwrdd a'r is-grwpiau yn gynrychiadol ac yn meddu'r sgiliau a'r awdurdod i weithredu
- Cadw'r Cynllun yn gyfredol drwy gyflwyno newidiadau yn ôl gofynion y Cyngor a'i gwasanaethau, ac/neu newid mewn technoleg.

Yr Adran Gyllid a Thechnoleg Gwybodaeth fydd yn adrodd ar gynnydd y Cynllun, a hynny'n dilyn trefniadau'r cyfarfodydd herio a chefnogi perfformiad corfforaethol tra bydd y Bwrdd Trawsnewid Digidol yn cyflwyno adroddiad blynyddol ar yr hyn a gyflawnir.



GWYNEDDIGIDOL

Cefnogi pobol Gwynedd mewn byd digidol

# Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af, 2021, ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

## 1) Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

| |
|---|
| Cynllun Digidol Cyngor Gwynedd, 2023-28 |

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

| |
|---|
| Mae Strategaeth Technoleg Gwybodaeth Cyngor Gwynedd wedi dirwyn i ben, ac mae Cynllun Digidol newydd yn cael ei gyflwyno ar gyfer y 5 mlynedd nesaf (2023/28) ac yn cyd-redeg â Chynllun y Cyngor. Bwriad y Cynllun Digidol yw cyflwyno gweledigaeth a rhestr o brosiectau i gryfhau a gwella darpariaethau digidol y Cyngor, gan gynnwys Cyswllt Cwsmer, Gwybodaeth a Data, Gweinyddiaeth a Systemau Busnes, Gweithlu a Gwytnwch. |

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

| |
|---|
| Huw Ynyr, Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth |

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

| |
|---|
| Awst, 2023. Fersiwn 1af. |

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Swyddogion y Cyngor, cyhoedd, ymwelwyr, busnesau a phartneriaid.

### 2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?

Mae Bwrdd Digidol wedi ei sefydlu yng nghyd a 4 is-fwrdd digidol i warantu cynrychiolaeth draws adrannol. Rydym hefyd yn casglu adborth gan ddefnyddwyr ein gwefan drwy law holiaduron barn, ac mae cwmni allanol yn profi hygyrchedd ein gwefan.

### 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Mae'r adborth a dderbyniwyd o holiadur y wefan a'r adroddiadau hygyrchedd yn bwydo i raglen waith gwella'r wefan. Pwrpas y Bwrdd Digidol a'r is-fyrddau yw casglu syniadau o welliannau y gellir eu cyflwyno i wella darpariaeth ddigidol ar hyd ystod ein gwasanaethau, gyda'r cytundeb na fydd cyflwyno darpariaeth ddigidol yn llesteirio ar ein gallu i gynnal llwyfannau amgen sy'n bodoli'n barod.

### 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

- Tueddiadau technegol gan gynnwys cyfleon (technoleg newydd) a bygythiadau e.e. cynnydd mewn ymosodiadau seibr.
- Newidiadau i wasanaethau'r Cyngor.
- Strategaethau a deddfwriaeth genedlaethol:
    - Strategaeth Ddigidol Llywodraeth Cymru.
    - Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol.
    - Cynllun gweithredu Cymru wrth-hiliol.

### 2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

N/A

## 3) Adnabod yr Effaith

**3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.**

| Nodweddion | Sut fath o effaith? * | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Positif | Prosiect ail ddylunio'r wefan i gysidro "Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol" ar gyfer hygyrchedd gwefannau mewn ieithoedd y tu hwnt i'r Gymraeg a'r Saesneg. |
| **Anabledd** | Positif | Mae ymrwymiad i gyrraedd isafswm o lefel hygyrchedd AA (WCAG 2.1) ar gyfer unrhyw system, mewnol ac allanol |
| **Rhyw** | Dim | Dim effaith wedi ei adnabod |
| **Oedran** | Dim | Dim effaith wedi ei adnabod. Bwriad y Cynllun Digidol ydi ychwanegu at y sianeli o gael mynediad at wasanaethau sy'n bodoli'n barod. |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | Dim | Dim effaith wedi ei adnabod |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Dim | Dim effaith wedi ei adnabod |
| **Ailbennu rhywedd** | Dim | Dim effaith wedi ei adnabod |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Dim | Dim effaith wedi ei adnabod |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Dim | Dim effaith wedi ei adnabod |
| **Yr iaith Gymraeg** | Positif | Mae'r Cynllun yn ymrwymo i gynnal gwasanaethau digidol yn ddwyieithog, gyda phob datblygiad mewnol wedi ei greu a'i |

| | | |
|---|---|---|
| | | alluogi'n ddwyieithog a'r dewis diofyn wedi ei sefydlu ar y Gymraeg. Mae asesiad addasrwydd digidol i'w gynnal ar gyfer pob system neu wasanaeth digidol sy'n cael ei ddarparu, gan gynnwys caffael systemau newydd, gyda'r asesiad yn cynnwys cymal penodol ar gyfer asesu addasrwydd y systemau i gwrdd â'n gofynion ieithyddol. |
| **Anfantais Economaidd-Gymdeithasol** | Positif | Mae tlodi digidol, boed ar sail anfantais economaidd-gymdeithasol, daearyddiaeth a diffyg cysylltedd neu oherwydd nad ydi'r unigolyn yn gallu defnyddio cyfryngau digidol penodol, yn cael ei gwrdd oddi fewn y Cynllun.<br><br>Ni fydd unrhyw garfan o'n cymdeithas yn dioddef cam o wella ein darpariaeth ddigidol, a byddwn yn parhau i gynnal mynediad at ein gwasanaethau drwy'r dulliau traddodiadol. |

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb | A yw'n cael effaith?* | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Nac ydi | Ni fydd y datblygiadau digidol a restrir yn y Cynllun yn cael eu cyflwyno ar draul mynediad di-ddigidol at wasanaethau, e.e. byddwn yn parhau i ohebu ar bapur a trwy'r post pe na fyddai gan unigolion fynediad neu'r modd i ddefnyddio gwasanaethau digidol. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Ydi | Byddwn. Ni fydd gwahaniaeth i'r gwasanaethau a gynigir ar sail y gallu neu'r modd i ddefnyddio technoleg e.e. byddwn yn parhau i dderbyn arian parod fel cyfrwng i dalu am wasanaethau parcio, ond byddwn hefyd yn derbyn taliadau electroneg. |
| **Meithrin perthnasau da** | Ydi | Gwella cynhwysedd a chysylltedd digidol yn ei gwneud yn haws i unigolion a grwpiau wneud a chadw mewn cyswllt. |

**3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

| |
|---|
| Mae rhan flaenllaw i'r Gymraeg ym mhob datblygiad digidol, gyda phob datblygiad mewnol yn cael ei wneud yn ddwyieithog, heb eithriad, a'r gosodiad diofyn yn y Gymraeg. Mae priod-le i'r Gymraeg ym mhob datblygiad, ac fe adlewyrchir hyn yn yr Asesiad Addasrwydd Digidol fydd yn gam gorfodol cyn bod unrhyw un o adrannau'r Cyngor yn caffael system neu wasanaeth digidol. |

**3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

| |
|---|
| Byddwn yn parhau i ddilyn yr argymhellion o ymarfer da i ddatblygu meddalwedd dwyieithog yn mhecyn "Helo Blod" sydd wedi ei baratoi gan Llywodraeth Cymru. |

**3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).**

| |
|---|
| Mae trawsnewid digidol yn her fawr i'n cymdeithas heddiw. Mae amrywiaeth o bobl, gan gynnwys plant, pobl hŷn, a'r rheini sydd mewn cymunedau gwledig, yn wynebu diffyg mynediad at y byd digidol. Mae'r sefyllfa hon yn creu 'tlodi digidol', lle mae'r rhai sy'n methu cyrraedd y rhwydwaith cymdeithasol a gwasanaethau ar-lein yn colli allan ar gyfleoedd i ddysgu, cyfathrebu, a chael gafael ar swyddi. Er mwyn ateb y broblem hon, mae angen creu adnoddau a chyfleoedd addas i sicrhau bod pawb yn cael cyfle cyfartal i gymryd rhan yn y byd digidol. Rhaid i ni barhau i ymchwilio a datblygu atebion i hyn, gan ei fod yn hollbwysig sicrhau bod y boblogaeth gyfan yn elwa o'r cyfleoedd a ddaw o ddatblygu technolegol.<br><br>Mae prosiect penodol yn y Cynllun ar gyfer gwella cysylltedd a chymhwysedd digidol. |

**3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?**

| |
|---|
| Dim byd pellach |

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

### 4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

| |
|---|
| Positif fydd effaith cyflwyno'r Cynllun Digidol, gwella safonau ein darpariaeth ar gyfer anabledd, pwyslais pellach ar ddwyieithrwydd ar gyfer darpariaeth fewnol, a chydweithio a chyrff allanol i wella tlodi digidol. |

### 4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

| |
|---|
| Nac ydi. Ni fydd cyflwyno'r ddarpariaeth ddigidol yn cael ei wneud ar draul darpariaeth bresennol. |

### 4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | ✓ |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |
| Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth | |

### 4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

| |
|---|
| Er nad ydym yn gweld unrhyw effaith negyddol, byddem yn monitro ac yn gweithredu yn ôl y galw. |

## 5) Monitro

### 5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

| |
|---|
| Bydd monitro rheolaidd o'r Cynllun Digidol yn cael ei gynnal yn unol â'r drefn llywodraethu sydd wedi ei nodi yn y cynllun, gan gynnwys effaith cydraddoldeb a'i aliniad â'r Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol a Strategaeth Ddigidol Llywodraeth Cymru. |

# 1. CYFLWYNIAD

Rydym fel Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau Gwynedd. Gweledigaeth y Cyngor yw:

*Ein gweledigaeth fel Cyngor yw cefnogi holl bobl Gwynedd i ffynnu ac i fyw bywyd cyflawn yn eu cymuned mewn sir sy'n un o'r siroedd gorau i fyw ynddi.*

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu amcanion llesiant sydd yn ategu'r nodau llesiant cenedlaethol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir.

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r cyswllt rhwng ein hamcanion llesiant a'r nodau llesiant cenedlaethol.

| **Byddwn yn sicrhau bod trigolion Gwynedd yn:** | **Llewyrchus** | **Cydnerth** | **Iachach** | **Cyfartal** | **Cymunedau Cydlynus** | **Diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu** | **Yn gyfrifol ar lefel byd-eang** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel | | | ■ | | ■ | | |
| Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau | | ■ | ■ | | ■ | | ■ |
| Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd | ■ | | | ■ | ■ | | |
| Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud | ■ | ■ | | ■ | | ■ | |
| Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl | ■ | | ■ | ■ | ■ | | |
| Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg | | | | | ■ | ■ | |
| Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir. | ■ | ■ | | | | | ■ |

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y bydd yn gwella yn "Cynllun Gwynedd 2023/2028".

## 2. CYD-DESTUN CYNLLUN DIGIDOL CYNGOR GWYNEDD (2023/28)

Bwriad y Cynllun yw rhoi'r ddarpariaeth ddigidol orau i gryfhau a gwella gwasanaethau'r Cyngor mewn amgylchedd gwydn a chefnogi'n swyddogion i ddefnyddio data a chyfryngau digidol i'w llawn botensial.

## 3. SUT MAE'R CYNNIG YN CWRDD AG AMCANION LLES CYNGOR GWYNEDD?

Ystyriwyd amcanion llesiant Cyngor Gwynedd wrth lunio'r Cynllun.

| Amcanion | Manylion: |
|---|---|
| **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel** | Effaith ymylol |
| **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau** | Effaith gadarnhaol |
| **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd** | Dim effaith |
| **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud** | Mae Strategaeth Ddigidol Ysgolion Gwynedd wedi ei wreiddio'n barod a bydd cynnydd y Strategaeth yn cael ei fesur fel rhan o gylch gorchwyl y Cynllun Digidol |
| **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl** | Effaith gadarnhaol |
| **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg** | Effaith gadarnhaol |
| **Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir** | Dim effaith. |

## 4. A YW'R CYNNIG YN CWRDD Â NODAU LLESIANT Y DDEDDF?

| Nod | A yw'r cynnig yn cyfrannu at y nod yma? | Mesurau lliniaru effeithiau negyddol ar y nod yma: |
|---|---|---|
| **Cymru lewyrchus**<br>Cymdeithas arloesol sy'n defnyddio adnoddau'n ddarbodus, sydd â phobl addysgedig, ac sy'n creu cyfoeth a gwaith. | Mae'r Cynllun Digidol yn uchelgeisiol ac yn heriol, ond drwy hynny yn dwyn cynigion lu i arloesi ar gyfer cryfhau ein gwasanaethau, bod yn fwy effeithiol gyda'n gweinyddiaeth, defnyddio'n gwybodaeth a data i wneud penderfyniadau dysg a modelu'n gwasanaethau i gyfarch newidiadau'n ein demograffeg. | Dim effaith |
| **Cymru gydnerth**<br>Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau iach sy'n cefnogi gwydnwch a gyda'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). | Mae'r cynlluniau ar gyfer rhyngrwyd y pethau'n cryfhau ein gallu i resymoli ein defnydd o ynni, mesur newidiadau hinsawdd ac ymateb iddyn nhw, a rheoli ac atal llifogydd. | Dim effaith |
| **Cymru iachach**<br>Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl, ac mae pobl yn deall beth sy'n effeithio ar eu hiechyd. | Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn. | Dim effaith |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal**<br>Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial gwaeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). | Bydd cynlluniau ar gyfer gwella cysylltedd a chynhwysiad digidol yn galluogi i garfannau ychwanegol o'n poblogaeth ddefnyddio cyfryngau digidol i godi safon eu bywydau dyddiol. | Ni fyddwn yn esgeuluso mynediad at y cyfryngau traddodiadol, megis wyneb-yn-wyneb, gwasanaethu dros y ffôn a defnydd o bapur. Byddwn yn cryfhau'r sianeli digidol, ond nid ar draul y cyfryngau eraill. |
| **Cymru o gymunedau gydlynus**<br>Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. | Byddwn yn cydweithio â phartneriaid eraill, megis Uchelgais Gogledd Cymru, Cwmpas, Citizens Online a Gwynedd Oed Gyfeillgar i gryfhau cysylltedd digidol drwy'r Sir a gwella | Dim effaith |

| | | |
|---|---|---|
| | cynhwysiad digidol. Mae nifer o brosiectau'n cyfarch anghenion uniongyrchol y cyhoedd, gyda'r datblygiadau hynny yn wedi eu datblygu o amgylch anghenion y dinesydd. | |
| **Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**<br>Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. | Mae defnydd o'r Gymraeg oddi fewn ein darpariaeth ddigidol wedi ei wau drwy'r Cynllun Digidol, gyda'r Gymraeg yn ddewis diofyn ar gyfer ein gweinyddiaeth fewnol a'r Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal a'r Saesneg ar gyfer unrhyw ddefnydd o gyfryngau digidol gyda'r cyhoedd a'n busnesau. | Dim effaith |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.**<br>Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. | Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn. | Dim effaith. |

## 5. PUM FFORDD O WEITHIO

| Egwyddorion Datblygu cynaliadwy | A yw'r Cynllun yn dangos y Ffordd o Weithio |
|---|---|
| **Hirdymor**<br>Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd. | Mae'r Cynllun yn gosod gweledigaeth hirdymor sy'n wir heibio cyfnod pum blynedd y rhaglen waith, gyda chylch gorchwyl y grwpiau digidol yn gyfrifol am adolygu a diweddaru'r weledigaeth a'r Cynllun yn ôl yr angen. |
| **Atal**<br>Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion? | Mae sawl blaenoriaeth gwella wedi'u llunio i osgoi methiant system, ac er bod pennawd penodol ar gyfer gwydnwch, mae nifer o'r blaenoriaethau eraill yn cyfrannu at hyn hefyd ac yn gwella gwasanaethau'r Cyngor. |
| **Integreiddio**<br>Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r Nodau Llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, | Mae gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill yn holl bwysig i gynnal gwasanaethau cyhoeddus effeithiol, ac fe gydnabyddir hyn yn y Cynllun. Rydym am hwyluso'r broses o weithio â phartneriaid allanol, yn ogystal ag integreiddio systemau mewnol y Cyngor. |

| | |
|---|---|
| neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. | |
| **Cydweithio**<br>Gallai cydweithredu ag unrhyw berson neu sefydliad arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) i helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant. | Mae cynnwys y Cynllun wedi'i rannu â grŵp Data, Digidol a Thechnoleg (DDaT) Gogledd Cymru, sy'n grŵp digidol cydweithredol o ochr Awdurdod Lleol ac Iechyd, ac yn ehangach hefyd ar gyfer sylw a chyfleoedd cydweithio drwy law braich ddigidol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. |
| **Cynnwys**<br>Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r Nodau Llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y maent yn gwasanaethu. | Datblygwyd cynnwys a blaenoriaethau'r Cynllun ar sail gydweithredol, gan sefydlu 4 is-grŵp digidol o dan fantell y Bwrdd Trawsnewid Digidol, ac fe gynhaliwyd sawl cyfarfod i flaenoriaethu'r prosiectau, gan bwysleisio ar roi cyfle i bob cynrychiolydd leisio barn. Gwnaethpwyd defnydd hefyd o ymgynghoriad y Cyngor gyda thrigolion Gwynedd wrth lunio Cynllun y Cyngor, yn ogystal ag arolygon eraill megis ar brofiad cwsmeriaid o ddefnyddio gwefan y Cyngor. |

## 6. CASGLIAD

Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y Ddeddf Llesiant, ystyriwyd 7 nod y Ddeddf Llesiant ac Amcanion Llesiant y Cyngor, a deuir i gasgliad fod y Cynllun yn cwrdd â'r gofynion. Bydd y Cynllun hwn yn caniatáu i ni gyflwyno darpariaeth ddigidol fydd yn cyfrannu i drawsnewid ein gwasanaethau, gwneud defnydd dysg o ddata a gwybodaeth, gwella'n gweinyddiaeth mewnol a'u cynnal mewn amgylchedd diogel a gwydn.

**PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI**
**14/09/23**

## 5. CYNLLUN DIGIDOL – 2023-28

Croesawyd yr Aelod Cabinet Cyllid, Y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Y Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid yn cyflwyno'r Cynllun Digidol yn ei ffurf drafft i bwrpas blaen-graffu, ac i dderbyn sylwadau ac adborth ar gynnwys arfaethedig y rhaglen waith.

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun, esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ei rôl fel Cadeirydd y Bwrdd Trawsnewid Digidol a manylodd y Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth ymhellach ar gynnwys y cynllun. Yna rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Nodwyd mai un o argymhellion adroddiad a gyhoeddwyd gan Sefydliad Bevan yn ddiweddar, yn sgil edrych ar y sefyllfa dlodi yn ardal Arfon yn benodol, oedd y dylai Cyngor Gwynedd sicrhau bod yr holl ffurflenni cais am grantiau a lwfansau y mae ganddo bwerau gweinyddol drostynt fod ar gael yn ddigidol. Nodwyd ei bod yn amlwg o'r gwaith ymchwil hwn, a hefyd o siarad â phobl sy'n wynebu tlodi a'r gwahanol gyrff sy'n eu cefnogi, bod hyn yn broblem, a holwyd a oedd yna gynlluniau i fynd i'r afael â'r sefyllfa. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod cynnig mwy o ddarpariaeth ddigidol yn rhan o'r Cynllun, ond nad oedd bwriad i wneud i ffwrdd â'r opsiwn o ddefnyddio ffurflenni papur chwaith.

Mewn ymateb i gwestiwn pellach, cadarnhawyd y byddai'r ffurflenni yn rhai digidol ar-lein, yn hytrach nag yn ddogfennau i'w llawrlwytho.

Gan dderbyn y byddai costau cychwynnol sefydlu'r trefniadau newydd yn uchel, holwyd a oedd yr Adran yn ffyddiog y byddai'r systemau newydd yn arbed arian dros amser. Holwyd hefyd a oedd yr Adran yn fodlon bod pob agwedd o'r digideiddio yn hanfodol, ac nad oedd yna elfennau wedi'u cynnwys am resymau cosmetig. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Na chynhwyswyd unrhyw beth cosmetig ac y canolbwyntiwyd ar y pethau sy'n hanfodol ac a fydd yn gwella'r Cyngor wedi iddynt gael eu gwreiddio.
- Y byddai yna waith sylweddol yn digwydd dros y 6 wythnos nesaf i adnabod, nid yn unig y costau, ond y cyfleoedd i wneud arbedion hefyd.

Cyfeiriwyd at lythyr a anfonwyd allan gan y Cyngor yn ddiweddar oedd yn cynnig i bobl ymateb drwy fynd ar y wefan, ffonio neu decstio, a mynegwyd pryder bod yr ychydig bobl hynny sydd heb gyfrifiadur na ffôn yn cael eu gadael ar ôl. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y swyddogion angen gwybod am yr enghreifftiau hynny, ond nad oedd y dechnoleg ddigidol yn cael ei chyflwyno ar draul y sianelau eraill, a'r bwriad oedd peidio gadael neb ar ôl.
- Ei bod yn bwysig cydnabod bod yna bobl sydd angen y sgwrs wyneb yn wyneb o hyd, ac er bod y Cyngor yn dymuno i gymaint â phosib' o bobl ddefnyddio'r

dulliau digidol, nid oedd wedi cau'r elfen bapur, na'r elfen wyneb yn wyneb, i ffwrdd yn llwyr.

Awgrymwyd bod technoleg ddigidol yn cynyddu'r pellter rhwng y ddau berson sy'n cyfathrebu â'i gilydd. Roedd peryg' o golli golwg ar bethau cig a gwaed wrth i'r datblygiadau yma fynd rhagddynt, ac roedd modd i ddiffyg cydymdeimlad a diffyg dealltwriaeth ffynnu oherwydd y pellter yma. Mewn ymateb, nodwyd y cydnabyddid y sylw a bod hyn yn rhywbeth i'w ystyried.

Nodwyd bod yr aelodau'n colli'r cyswllt wyneb yn wyneb â staff y Cyngor ers y cyfnod Cofid, ac o fynd ymhellach i lawr y ffordd honno, roedd peryg' y byddai atebolrwydd y Cyngor i'r aelodau, ac yn y pen draw i'w hetholwyr, yn mynd ymhellach i ffwrdd hefyd. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y bwriedid cyflwyno adroddiad i'r Cabinet ar 19 Medi ar sefydlu Cynllun Gweithio'n Hybrid hirdymor i staff y Cyngor fyddai'n golygu y byddai disgwyl i bob swyddog sy'n gallu gweithio'n hybrid bresenoli eu hunain yn y swyddfa hefo'u cydweithwyr am o leiaf 2 ddiwrnod yr wythnos, bob wythnos waith.
- Y dymunid pwysleisio mai lleiafswm o 2 ddiwrnod oedd hyn, ac na olygai na fyddai pobl ond yn y swyddfa am 2 ddiwrnod yn unig.
- Y byddai hyn yn fodd o barhau i gefnogi a chael y gorau o'r staff er mwyn rhoi'r gwasanaethau gorau bosib' i bobl Gwynedd.

Nodwyd, petai bwriad gan y Cyngor i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial, ei bod yn bwysig bod yr aelodau yn derbyn hyfforddiant yn egluro beth yn union ydyw, a sut y byddai'n cael ei ddefnyddio. Mewn ymateb, nodwyd bod lle i addysgu pobl am hyn, ond na fyddai'r Cyngor yn rhuthro i mewn i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial, ac y byddai unrhyw ddefnydd o'r dechnoleg yn cael ei wneud mewn ffordd gyfrifol.

Nododd cynrychiolydd yr undebau athrawon fod Cyngres yr Undebau Llafur wedi trafod deallusrwydd artiffisial yn y gweithle yn ddiweddar ac y gallai rannu'r dogfennau perthnasol, sy'n cynnwys safiad yr undebau llafur ar hyn, gyda'r Cyngor. Mewn ymateb, nodwyd y byddai'r swyddogion yn croesawu'r wybodaeth ac y byddai'n gyfraniad pwysig i unrhyw drafodaeth i'r dyfodol.

Croesawyd y bwriad i greu systemau o'r newydd, yn hytrach na cheisio adeiladu ar systemau sy'n bodoli eisoes, ond, er sicrhau cydweithio effeithiol, pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau bod systemau'r Cyngor yn gallu gweithio gyda'r systemau a ddefnyddir gan gyrff eraill megis y Bwrdd Iechyd, yr Awdurdod Tân ac Achub a'r cynghorau sir eraill. Mewn ymateb, nodwyd na allai Cyngor Gwynedd wneud hyn ar ei ben ei hun, ac fel y nodir yn y Cynllun, bydd y Cyngor yn bartner bodlon a pharod i gefnogi mesurau a mentrau i ddiddymu rhwystrau digidol i alluogi cydweithio â phartneriaid strategol, fydd yn cynnwys y Bwrdd Iechyd, cynghorau cyfagos a'r trydydd sector, ayb.

Holwyd a oedd gan y Cyngor raglen i hyfforddi pobl ar ddefnyddio cyfrifiaduron a thabledi. Mewn ymateb, nodwyd bod paragraff 9 o dan maes blaenoriaeth 'Gweinyddiaeth a Systemau Busnes' yn nodi y byddai'r Cyngor yn parhau i gefnogi Partneriaeth Sgiliau Rhanbarth Gogledd Cymru i wella sgiliau digidol yn y Sir, yn ogystal â'r rhaglenni gwella sy'n rhan o ymgyrch y rhaglen Gwynedd Ddigidol i gynyddu cynhwysiad digidol. Fodd bynnag, efallai bod angen rhoi mwy o bwyslais ar y ffaith bod

y rhaglen Gwynedd Ddigidol yn mynd allan i'r gymuned i gyflwyno hyfforddiant i ddefnyddwyr.

Holwyd a fyddai'r Cyngor mewn sefyllfa i ymateb yn ddigon cyflym petai yna ddatblygiadau newydd yn dod ar y farchnad dros gyfnod y Cynllun Digidol. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y llwyr gytunid bod angen bod yn effro i ddatblygiadau newydd yn y maes digidol, gan hyd yn oed ail-ymweld â'r blaenoriaethau o fewn oes y Cynllun.
- Bod bwriad hefyd i wneud gwaith o ran gwella'r ffordd mae pobl yn meddwl yn ddigidol, sy'n golygu bod modd gwreiddio datblygiadau digidol ynghynt yn y Cyngor nag sy'n bosib' ar hyn o bryd.
- Y bydd y Cyngor mewn sefyllfa lle bydd modd addasu i ba bynnag gyfrwng cymdeithasol fydd mewn lle yn y dyfodol.

Dymunwyd y gorau i'r Bwrdd Trawsnewid Digidol yn ei waith a chroesawyd y nod o '*lunio llwybr beiddgar ar ein taith i ddod yn Sir ddigidol*' a '*manteisio ar gyfleoedd i arloesi ac i wreiddio technoleg ddigidol i wella safon byw ein trigolion, cydweithio yn well a phartneriaid a chryfhau a gwella ymatebolrwydd ein gwasanaethau i anghenion a disgwyliadau ein cwsmeriaid''.* Cyfeiriwyd at y rhestr yn yr adroddiad o benawdau allweddol wrth anelu at gyngor digidol, a nodwyd mai'r cyntaf a'r pwysicaf oll oedd '*Mae rhan flaenllaw i'r Gymraeg ym mhob datblygiad digidol*'. Nodwyd ymhellach bod yr adroddiad yn cydnabod bod cysylltu â'r Cyngor â ffôn yn parhau'n ddewis poblogaidd ymysg cwsmeriaid, a chanmolwyd y Cyngor yn gyffredinol am ymateb i alwadau ffôn. Nodwyd bod yr Adran TG eu hunain yn arwain o ran hynny a bod eu dull hynod o effeithiol ac effeithlon o weithredu yn batrwm i weddill yr adrannau.

Diolchwyd i'r aelod am ei eiriau caredig, a nodwyd y byddai'r genadwri yn mynd yn ôl at staff y Gwasanaeth.

Holwyd beth oedd yr amserlen o ran sefydlu is-grŵp i weithredu ar ddatblygiadau digidol yn y maes gweithlu. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Er nad oedd yr is-grŵp wedi'i sefydlu eto, bod y gwaith o gynllunio ar gyfer yr hyn y byddai angen i'r is-grŵp arwain arno maes o law yn mynd rhagddo'n barod.
- Bod y Rheolwr Dysgu a Datblygu'r Sefydliad yn rhan allweddol o hynny, a byddai angen cyfraniadau gan bobl eraill hefyd, oedd wedi'u hadnabod eisoes.
- Er nad oedd y grŵp wedi'i sefydlu eto, byddai hynny'n digwydd o fewn y mis neu ddau nesaf yn sicr.

Mewn ymateb i gais am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r bwriad i greu warws data, nodwyd:-

- Bod gan y Cyngor tua 300 o systemau ar hyn o bryd, sy'n casglu pob math o wahanol wybodaeth.
- Bod mwyafrif y systemau yn cyfarch rhai pethau sy'n gyffredin ar draws bob dim, megis enwau a chyfeiriadau, a po fwyaf o systemau sydd gennym, pellach mae cywirdeb y data yn gallu mynd.
- Y byddai'r warws data yn gyfrwng, nid yn unig i fedru adrodd ohono, ond hefyd yn gyfrwng i lanhau a bod yn fwy cywir o ran y data hefyd.

- Y byddai'r adnodd hefyd yn rhoi mwy o drosolwg ar draws gwasanaethau'r Cyngor, felly yn hytrach na chael adroddiad unllygeidiog o un system, byddai'n galluogi edrych ar ystod o wasanaethau a thueddiadau o ran defnyddwyr y gwasanaeth ar draws nifer o wasanaethau.
- Y byddai hynny'n gosod y Cyngor mewn lle i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth a medru darogan sut orau i siapio'r gwasanaethau i'r dyfodol.

Croesawyd y bwriad i gael system lle bydd modd i gwsmer godi ymholiad a derbyn diweddariadau cyson ar lle mae'r Cyngor arni o ran ymdrin â'r ymholiad hwnnw, a nodwyd y mawr obeithid y byddai'r un system dracio ymholiadau ar gael ar gyfer cynghorwyr hefyd.  Mewn ymateb, nodwyd y derbynnid y sylw'n llwyr ac y byddai'r swyddogion yn gwneud nodyn ohono.

Ar ddiwedd y drafodaeth, pwysleisiodd yr Aelod Cabinet na fyddai'r Cynllun Digidol yn ddogfen sy'n sefyll yn ei hunfan, ac y byddai'n cael ei hadolygu'n barhaus.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.**

# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | **Caffael Gwerth Cymdeithasol** |
| **Aelod Cabinet:** | **Cyng. Menna Trenholme** |
| **Swyddog perthnasol:** | **Arwel Evans, Rheolwr Caffael** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **7fed o Dachwedd 2023** |

## 1. Penderfyniad a Geisir:

Cymeradwyo a chefnogi'r cynnig i ychwanegu at ein Polisi Caffael Cynaliadwy a chynnwys y mesurau gwerth cymdeithasol fel rhan o'n trefniadau asesu contractau.

## 2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:

Bydd angen addasu ein Polisïau Caffael i adlewyrchu'r datblygiad hwn gan ychwanegu at y meini prawf arferol o asesu cytundebau ar sail pris ac ansawdd i gynnwys mesurau gwerth cymdeithasol.

## 3. Cyflwyniad a Rhesymeg

### 3.1 Cefndir/ Cyflwyniad

Yn unol a'r cynllun blaenoriaeth 'Cadw'r Budd yn Lleol' rydym yn gwneud pob ymdrech i gefnogi busnesau lleol i ennill cytundebau'r Cyngor er budd trigolion y Sir.

Mae'r Cyngor yn caffael oddeutu £150m o wariant refeniw ar nwyddau a gwasanaethau pob blwyddyn. Rydym yn ceisio sicrhau bod ein trefniadau caffael yn rhoi'r gwerth gorau am arian i'r Cyngor ac i gadw'r budd yn lleol i Wynedd.

I geisio sicrhau ein bod yn cyflawni'r amcanion hyn rydym wedi treialu methodoleg caffael gwerth cymdeithasol newydd.  Yr enw a rhoddwyd i'r drefn yma yw 'Mesurau Gwerth Cymdeithasol'.

### 3.2 Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

Rydym wedi treialu drefn o asesu mesurau cymdeithasol drwy gynnal cynlluniau peilot ar draws sawl maes o fewn y Cyngor. Mae'r tendrau peilot wedi ein galluogi ni ddeall y drefn yn well ac asesu gallu'r farchnad leol i ymateb i'r gofynion.  Bu hefyd yn gyfle i ni

baratoi'r Cyngor a'r farchnad i'r anghenion a ddaw o ganlyniad i weithredu'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (2023) o Ebrill, 2024 ymlaen.

**Canlyniadau'r Peilot ac Asesiad o'r drefn newydd**

Wrth ddefnyddio'r dull newydd o gaffael, mi ddaru ni lwyddo ennill y buddion canlynol:

***Peilot Cytundeb Taliadau Uniongyrchol***
*Mae'r cwmni buddugol fel rhan o gytundeb gwerth £181k wedi cynnwys pecyn cymdeithasol cyfwerth a £105k. Mae'r cynnig yn cynnwys:*

- *Cyflogi 3 swyddog sy'n byw yng Ngwynedd,*
- *Cynnal 4 sesiwn hyfforddiant i fyfyrwyr gofal cymdeithasol,*
- *4 wythnos o brofiad gwaith i 2 myfyriwr,*
- *20 awr o amser gwirfoddol i gefnogi elusennau lleol*
- *2.5 awr yr wythnos i ddatblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu ymhellach.*

***Peilot Cynnal System Trin Aer (Air Conditioning)***
*Ni ddaru'r cwmni buddugol gyflwyno cynnig gwerth cymdeithasol, ond yn y cyfamser wedi cynnig rhodd o £1,000 yw rhannu rhwng dau Banc Bwyd yn y Sir*

***Peilot Cynnal a Chadw Boeleri.***
*Mae'r cwmni buddugol fel rhan o gytundeb gwerth £358,155 wedi cynnwys pecyn cymdeithasol cyfwerth a £87,416. Mae'r cynnig yn cynnwys:*

*Cyfwerth a 3 swydd llawn amser yn Ngwynedd (ar draws 5 rôl)*
- *3 wythnos o Prentisiaeth a Hyfforddiant mewn blwyddyn*
- *£4,000 yw wario yn y gadwyn gyflenwi leol*
- *£900 i glwb cymunedol tuag at cit chwaraeon*

O ganlyniad i gynnal y peilot, gallem gadarnhau bod y drefn arfaethedig yn ein cefnogi gyda'r nod o brynu'n lleol drwy:

- Cynnig ffordd dryloyw a meintiol i asesu gwerth cymdeithasol fel sail gwobrwyo cytundebau.
- Dewis o gyfres o fesurau cymdeithasol lleol fesul cytundeb.
- Adrodd yn erbyn y cynnydd o wireddu cynigion gwerth cymdeithasol.

*Gweler Atodiad 1 y cyfres o Fesurau Caffael Cymdeithasol Gwynedd.*

Serch hyn, mae yna gyfyngiadau o safbwynt:

- Nid yw defnyddio mesurau lleol yn gyfreithiol bosib ar gyfer pob cytundeb ac felly, mae hyn yn amharu ar ein gallu i'w ddefnyddio ym mhob achos. Rydym wedi derbyn barn gyfreithiol arbenigol ar yr agwedd yma er mwyn cael diffiniad clir ac fel nad oes unrhyw gamddealltwriaeth. Mae'r barn hynny sydd wedi cadarnhau bod angen i'r mesurau buddion cymdeithasol a ddewisir fod yn gysylltiedig â phwnc y contract ac yn gymesur â'r gofyniad dan sylw.
- I sicrhau gwerth am arian mae'n anorfod bod pris ac ansawdd yn parhau i fod yn elfen o'r meini prawf asesu cytundebau.

O ganlyniad felly, ar y cyfan rydym wedi gweld bod y drefn o asesu gan ddefnyddio mesurau cymdeithasol wedi ein galluogi i adnabod buddion cymdeithasol i Wynedd. Fodd bynnag, nid yw o reidrwydd yn golygu bod pob cytundeb yn cael ei wobrwyo i gwmnïau o Wynedd.

**Gwerthuso**

Bydd tendrau perthnasol i'r dyfodol yn cynnwys meini prawf nid yn unig ar sail pris ac ansawdd ond hefyd gwerth cymdeithasol i Wynedd. Fel man cychwyn rydym yn argymell a dylai fod cyfystyr a deg y cant o'r meini prawf.

**Risgiau a Rhwystrau**

Mae yna nifer o Gynghorau Cymru yn defnyddio neu yn treialu'r fethodoleg ar hyn o bryd. Serch hyn, nid oes arweiniad na phenderfyniad cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru o'r dull delfrydol o gaffael gwerth cymdeithasol. Mae'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Fory a'r Llywodraeth yn dymuno bod Cynghorau lleol yn cyfarch amcanion y Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol ond nid oes cyfarwyddyd neu awgrymu o ymarfer orau ar hyn o bryd.

Er bod modd i ni ddefnyddio'r drefn yn lleol, buasai arweiniad cenedlaethol yn golygu gwell cysondeb yn y ffordd mae'r sector gyhoeddus yn caffael. O ganlyniad, mae peth rhwystredigaeth ar hyn o bryd nad yw'r dull yma o gaffael yn addas ar gyfer eu defnyddio mewn fframweithiau rhanbarthol a cenedlaethol.

Mae angen hefyd i becyn cefnogi'r farchnad a ddarperir gan Llywodraeth Cymru gael ei addasu a'i ddatblygu er mwyn cyfarch y gofyn newydd yma mewn cyfleon tendro. Ar hyn o bryd felly, nid yw cytundeb gwasanaeth Busnes Cymru yn cynnwys unrhyw gymorth

penodol i fusnesau lleol gyflwyno cynigion gwerth cymdeithasol yn eu dogfennau tendro.

***Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015***

Hirdymor – Mae'r drefn yn ein galluogi i weithredu gyda cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.

Atal - Credir bod y trefniadau yn helpu at anghydraddoldeb yn ein cymunedau drwy annog busnesau i feddwl am eu ffyrdd o weithio a chynnig buddion ehangach i'r hyn sydd yn cael ei gyflawni drwy cytundeb hanesyddol.

Integreiddio – Mae'r mesurau y Ddeddf llesiant yn ganolig i drefn gwerthuso ac yn rhoi cyfle i gwmnïau gyfarch amryw o fesurau. Mae ein pwyslais ni ar greu cyflogaeth a hybu'r economi leol drwy'r drefn ond mae hefyd fesurau amgylcheddol, cymunedol ayb ar gael.

Cydweithio - Rydym yn cydweithio a rhannu profiadau drwy Grŵp Caffael Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Grŵpiau Cymunedol sydd yn edrych i elwa o'r drefn hon.

Cynnwys – Mae'r Peilot wedi gynnal gan swyddogion y Timau Categori a Chaffael sy'n allweddol i lwyddiant unrhyw drefniadau caffael newydd. Maent hefyd wedi ymgynghori gyda busnesau lleol wrth gynnal y peilot ac wedi bwydo hynny i'r gwersi a ddysgwyd fel rhan o'r cynllun peilot.

Mae'r fethodoleg ar gael yn gwbl ddwyieithog ac nid oes ffafriaeth wrth werthuso ceisiadau Cymraeg neu Saesneg yn unol â'r trefniadau gwerthuso arferol.

Nid ydym yn rhagweld cost ychwanegol o weithredu'r drefn.

**Asesiad Effaith Cydraddoldeb**

Nid oes materion i gyflwyno o ganlyniad o gwblhau'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb.

**3.3 Camau nesaf**

Adolygu ac addasu ein Polisi Caffael Cynaliadwy gan gyflwyno Polisi Caffael newydd. Bydd angen adolygiad pellach o'r polisi pan ddaw goblygiadau gweithredu'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn glir .

Defnyddio'r mesurau gwerth cymdeithasol wrth asesu tendrau sy'n berthnasol i'r gytundeb cyflenwi bwyd nesaf (Ysgolion a Chartrefi Preswyl Oedolion) fydd yn cael eu hysbysebu ym mis Tachwedd, 2023. Rhain i gynnwys mesurau i ddangos y defnydd o gynnyrch lleol a chyflogaeth o fewn Gwynedd gan gyflenwyr.

**4. Sylwadau Swyddogion Statudol**

**4.1 Prif Swyddog Cyllid**

*Mae caffael ar sail cyfuniad o ansawdd a phris wedi ei sefydlu ers sawl blwyddyn a prin yw'r cytundebau sy'n mynd allan i dendr sy'n cael eu gosod ar sail pris isaf yn unig. Byddai ychwanegu'r mesurau gwerth cymdeithasol i'r Polisi Caffael Cynaliadwy yn cryfhau ymhellach y broses o adnabod y contractwr mwyaf addas ar gyfer cytundeb, ac o osod trefniadau tryloyw yn eu lle nid oes gennyf wrthwynebiad i hyn o safbwynt priodoldeb ariannol.*

**4.2 Swyddog Monitro**

*Rwy'n fodlon gyda priodoldeb yr hyn sydd yn cael ei argymell. Mae'n adeiladau a chryfhau y modd yr ymdrinnir elfennau budd cymunedol allbynnau prosesau caffael. Yn amlwg pan ddaw prif ddarpariaethau Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 i rym bydd angen adolygu ystor o drefniadau o amgylch y broses gaffael ac hefyd manylebau contractau i gyfarch y gofynion.*

**Rhestr Atodiadau:**

*Atodiad 1 – Mesurau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd*

*Atodiad 2 - Asesiad Effaith Cydraddoldeb*

***Rhestr Dogfennau Cefndir:***

*Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)*

*Polisi Caffael Cynailadwy Cyngor Gwynedd [Polisiau caffael (llyw.cymru)]*

# Mesurau Gwerth Cymdeithasol Gwynedd

| Thema | Canlyniad | FG# | Cyfeirnod NTW | Mesur | Uned | Procsi | Cyfraniad i Gynllun y Cyngor | Mapio Gwynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru Ffyniannus**<br><br>Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cydnabod terfynau'r amgylchedd byd-eang, ac felly'n defnyddio adnoddau yn effeithlon ac yn gymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd cyflogaeth, gan alluogi pobl i fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir trwy sicrhau gwaith addas. | **Rhagor o bobl mewn cyflogaeth** | 21 | NTW1 | Nifer y gweithwyr uniongyrchol (cyfwerth â llawn amser) a gafodd eu cyflogi neu eu cadw (ar gyfer contractau a gafodd eu hail-dendro) ar gontract am flwyddyn neu gyfnod llawn y contract, pa un bynnag yw'r byrraf | Nifer y bobl gyfwerth â llawn amser | £27,500.00 | Gwynedd Lewyrchus | Ennill cyflog digonol i allu eu cynnal eu hunain a'u teuluoedd |
| | **Sgiliau gwell ar gyfer pobl** | 8 | NTW8 | Nifer yr wythnosau o brentisiaethau ar y contract sydd naill ai wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, neu'n derbyn cefnogaeth gan y sefydliad i'w cwblhau yn y blynyddoedd nesaf – Lefel 2, 3 neu 4+ | Nifer yr wythnosau | £231.45 | Gwynedd Yfory | Derbyn addysg o'r ansawdd uchaf a fydd yn eu galluogi i wneud yr hyn y maent eisiau ei wneud |
| | | 8 | NTW9 | Nifer y blynyddoedd o uwchsgilio staff (cyfwerth â llawn amser) a gaiff eu darparu ar gontract fel rhan o raglenni cyfleoedd hyfforddiant ac uwchsgilio cynhwysol – dim ond i gyfleoedd hyfforddiant ar y contract (BTEC, City & Guilds, NVQ, Tystysgrif Genedlaethol Uwch, RQF) sydd naill ai wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, neu'n derbyn cefnogaeth i'w cwblhau yn y blynyddoedd nesaf – Lefel 2, 3 neu 4 y mae hyn yn berthnasol. | Nifer yr wythnosau | £15.62 | Gwynedd Yfory | Derbyn addysg o'r ansawdd uchaf a fydd yn eu galluogi i wneud yr hyn y maent eisiau ei wneud |
| | **Mwy o gyfleoedd i fusnesau lleol a Mentrau Bach Iawn, Bach a Chanolig** | 9 | NTW14 | Cyfanswm (£) a wariwyd ar gadwyn gyflenwi lleol drwy'r contract | £ | £0.59 | Gwynedd Lewyrchus | Ennill cyflog digonol i allu eu cynnal eu hunain a'u teuluoedd |
| | **Arloesi i gefnogi Cymru sy'n fwy ffyniannus** | | NTW20 | Mesurau arloesol mewn perthynas â 'Chymru Ffyniannus' i'w darparu ar y contract – mae modd e.e. cydlynu'r rhain â budd-ddeiliaid neu gymunedau, neu anelu at ddarparu buddion gan leihau ôl troed carbon o fentrau, ac ati | £ a fuddsoddwyd, gan gynnwys amser staff | £1.00 | Gwynedd Lewyrchus | Ennill cyflog digonol i allu eu cynnal eu hunain a'u teuluoedd |
| **Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang** | **Lleihau Allyriadau Carbon** | 14 | NTW21 | Arbedion mewn allyriadau $CO_2$ ar gontract nad ydynt yn deillio o gludiant (nodwch sut fydd y rhain yn cael eu cyflawni). | Tunelli $CO_2$e | £69.35 | Gwynedd Werdd | Manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir |
| | **Arloesi i gefnogi Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang** | | NTW27 | Mesurau arloesol yn ymwneud â 'Chymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang' i'w darparu ar y contract – mae modd e.e. cydlynu'r rhain â budd-ddeiliaid neu gymunedau, neu anelu at ddarparu buddion gan leihau ôl troed carbon o fentrau, ac ati | £ a fuddsoddwyd, gan gynnwys amser staff | £1.00 | Gwynedd Lewyrchus | Manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir |
| **Cymru gydnerth**<br><br>Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd bioamrywiol naturiol gydag ecosystemau iach sy'n cefnogi gwytnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid. | **Arloesi i gefnogi Cymru sy'n fwy cydnerth** | | NTW39 | Mesurau arloesol yn ymwneud â 'Chymru sy'n Fwy Cydnerth' i'w darparu ar y contract – mae modd e.e. cydlynu'r rhain â budd-ddeiliaid neu gymunedau, neu anelu at ddarparu buddion gan leihau ôl troed carbon o fentrau, ac ati | £ a fuddsoddwyd, gan gynnwys amser staff | £1.00 | Gwynedd Lewyrchus | Manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir |
| **Cymru Iachach**<br><br>Cymdeithas lle gwneir y mwyaf o les corfforol a meddyliol pobl a lle mae dewisiadau ac ymddygiad sydd o fudd i iechyd | **Creu cymuned iachach** | 34 | NTW40 | Mentrau i fynd i'r afael â digartrefedd (cefnogi cynlluniau tai dros dro, ac ati) | £ a fuddsoddwyd, gan gynnwys amser staff | £1.00 | Gwynedd Glyd | |
| | | 3&5 | NTW41 | Mentrau a weithredwyd neu a gefnogwyd i annog pobl i ymgysylltu ag ymyraethau iechyd (e.e. atal ysmygu, gordewdra, alcoholiaeth, cyffuriau ac ati) neu fentrau lles yn y gymuned, gan gynnwys gweithgareddau corfforol i oedolion a phlant. | £ a fuddsoddwyd, gan gynnwys amser staff | £1.00 | Gwynedd Glyd | |
| | **Lleihau llygredd aer** | 4 | NTW43 | Nifer y cerbydau dim allyriadau neu allyriadau isel i staff sydd wedi'u cynnwys ar y prosiect o ganlyniad i raglen cludiant gwyrdd (milltiroedd a deithiwyd) | Milltiroedd a deithiwyd | £0.02 | Gwynedd Glyd | Manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir |
| | **ArloesI i gefnogi Cymru iachach** | | NTW49 | Darparu mesurau arloesol mewn perthynas â 'Chymru Iachach' i'w darparu ar y contract – mae modd e.e. cydlynu'r rhain â budd-ddeiliaid neu gymunedau, neu anelu at ddarparu buddion gan leihau ôl troed carbon o fentrau, ac ati | £ a fuddsoddwyd, gan gynnwys amser staff | £1.00 | Gwynedd Glyd | Byw bywyd iach a diogel |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal**<br><br>Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol) | **Rhagor o gyfleoedd i bobl ddiamddiffyn** | 19 | NTW50a | Nifer y gweithwyr (cyfwerth â llawn amser) a gyflogwyd ar y contract o ganlyniad i raglen recriwtio, sydd wedi bod yn ddi-waith yn hirdymor am o leiaf 12 mis ac uchafswm o 24 mis | Nifer y bobl gyfwerth â llawn amser | £18,146.00 | Gwynedd Yfory | Ennill cyflog digonol i allu eu cynnal eu hunain a'u teuluoedd |
| | | 22 | NTW52 | Nifer y gweithwyr (cyfwerth â llawn amser) a gyflogwyd nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant (NEET) | Nifer y bobl gyfwerth â llawn amser | £12,470.00 | Gwynedd Yfory | Ennill cyflog digonol i allu eu cynnal eu hunain a'u teuluoedd |
| | | | NTW53 | Nifer y gweithwyr (cyfwerth â llawn amser) a gyflogwyd sy'n droseddwyr ifanc yn adsefydlu (18-24 oed) | Nifer y bobl gyfwerth â llawn amser | £22,162.00 | Gwynedd Yfory | Ennill cyflog digonol i allu eu cynnal eu hunain a'u teuluoedd |
| | | | NTW54 | Nifer y swyddi (cyfwerth â llawn amser) a grëwyd ar gyfer pobl ag anableddau | Nifer y bobl gyfwerth â llawn amser | £14,980.00 | Gwynedd Yfory | Ennill cyflog digonol i allu eu cynnal eu hunain a'u teuluoedd |
| | | 21 | NTW55 | Nifer yr oriau a ymrwymwyd i gefnogi pobl ddi-waith i ddod o hyd i swyddi drwy ddarparu gwasanaeth mentora gyrfaoedd, gan gynnwys cyfweliadau ffug, cyngor CV a chanllawiau gyrfaoedd (dros 24 oed) | Nifer yr oriau (cyfanswm hyd y sesiynau) *nifer y mynychwyr | £114.33 | Gwynedd Yfory | Ennill cyflog digonol i allu eu cynnal eu hunain a'u teuluoedd |
| | | 10 | NTW56 | Nifer yr oriau a ymrwymwyd i gefnogi pobl ifanc i ddod o hyd i waith (e.e. cyngor CV, cyfweliadau ffug, canllawiau gyrfaoedd) – (dan 24 oed) | Nifer yr oriau (cyfanswm hyd y sesiynau) *nifer y mynychwyr | £114.33 | Gwynedd Lewyrchus | Ennill cyflog digonol i allu eu cynnal eu hunain a'u teuluoedd |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflogadwyedd gwell i bobl ifanc (dan 24 oed) | 10 | NTW57 | Nifer yr wythnosau a dreuliwyd ar leoliadau gwaith neu gwrs cyn-cyflogaeth ystyrlon – 1-6 wythnos o leoliadau myfyrwyr (di-dâl) | Nifer yr wythnosau | £158.23 | Gwynedd Lewyrchus | Ennill cyflog digonol i allu eu cynnal eu hunain a'u teuluoedd |
| | | 10 | NTW58 | Lleoliadau gwaith ystyrlon sy'n talu'r Isafswm Cyflog Byw neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol yn unol â chymhwyster – 6 wythnos neu fwy (interniaethau) | Nifer yr wythnosau | £158.23 | Gwynedd Lewyrchus | Ennill cyflog digonol i allu eu cynnal eu hunain a'u teuluoedd |
| | Arloesi ar gyfer Cymru sy'n fwy cyfartal | | NTW65 | Darparu mesurau arloesol yn ymwneud â 'Chymru sy'n fwy cyfartal' i'w darparu ar y contract - mae modd e.e. cydlynu'r rhain â budd-ddeiliaid neu gymunedau, neu anelu at ddarparu buddion gan leihau ôl troed carbon o fetrau, ac ati | £ a fuddsoddwyd, gan gynnwys amser staff | £1.00 | Gwynedd Lewyrchus | Ennill cyflog digonol i allu eu cynnal eu hunain a'u teuluoedd |
| **Cymru o Gymunedau Cydlynol**<br><br>Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da | Rhagor o gyfleoedd ar gyfer Sefydliadau Trydydd Sector a Chymdeithas Sifil (Mentrau Gwirfoddol, Cymunedol a Chymdeithasol) | | NTW66 | Dyrannu offer neu adnoddau i sefydliadau trydydd sector a chymdeithas sifil (£ gwerth cyfwerth) | £ gwerth | £1.00 | Gwynedd Lewyrchus | Byw bywyd iach a diogel |
| | | | NTW67 | Nifer yr oriau gwirfoddol a dreuliwyd yn cefnogi sefydliadau trydydd sector a chymdeithas sifil (gan eithrio cyngor busnes arbenigol) | Nifer yr oriau gwirfoddol gan staff | £14.63 | Gwynedd Lewyrchus | Byw bywyd iach a diogel |
| | | | NTW68 | Cyfanswm (£) a wariwyd â sefydliadau trydydd sector a chymdeithas sifil o fewn eich cadwyn gyflenwi | £ | £0.12 | Gwynedd Lewyrchus | Byw bywyd iach a diogel |
| | Gweithlu a diwylliant sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth yn y gymuned leol | 23 & 24 & 26 & 27 | NTW70 | Hyfforddiant cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a ddarparwyd i gontractwyr ac isgontractwyr | Nifer yr oriau (cyfanswm hyd y sesiynau) *nifer y mynychwyr | £87.48 | Gwynedd Lewyrchus | Byw bywyd iach a diogel |
| | Lleihau trosedd | 25 | NTW73 | Mentrau wedi'u hanelu at leihau trosedd (e.e. cefnogaeth ar gyfer grwpiau ieuenctid lleol, goleuadau ar gyfer mannau cyhoeddus, ac ati.) | £ a fuddsoddwyd, gan gynnwys amser staff | £1.00 | Gwynedd Lewyrchus | Byw bywyd iach a diogel |
| | Helpu pobl ddiamddiffyn i fyw'n annibynnol | 24 | NTW74 | Mentrau i gefnogi pobl hŷn, anabl a phobl ddiamddiffyn i ddatblygu rhwydweithiau cymunedol cryfach (e.e. cynlluniau cyfeillio, clybiau cynhwysiant digidol) | £ a fuddsoddwyd, gan gynnwys amser staff | £1.00 | Gwynedd Lewyrchus | Byw bywyd iach a diogel |
| | Cefnogaeth ar gyfer pobl ifanc ddifreintiedig a'u teuluoedd | 18a | NTW75 | Mentrau i gynnig cefnogaeth i bobl ifanc ddifreintiedig a'u teuluoedd | £ a fuddsoddwyd, gan gynnwys amser staff | £1.00 | Gwynedd Lewyrchus | Byw bywyd iach a diogel |
| | Gweithio mwy gyda'r gymuned | 26 | NTW76 | Cyfraniadau ariannol neu gyfraniadau o fath arall i brosiectau cymunedol lleol (£ a deunydd) | £ gwerth | £1.00 | Gwynedd Lewyrchus | Byw bywyd iach a diogel |
| | | 28 | NTW77 | Nifer yr oriau gwirfoddol a ddarparwyd i gefnogi prosiectau cymunedol lleol | Nifer yr oriau gwirfoddol gan staff | £14.63 | Gwynedd Lewyrchus | Byw bywyd iach a diogel |
| | Arloesi i gefnogi cymunedau mwy cydlynol yng Nghymru | | NTW79 | Darparu mesurau arloesol yn ymwneud â 'Chymru sy'n fwy Cydlynol' i'w darparu ar y contract - mae modd e.e. cydlynu'r rhain â budd-ddeiliaid neu gymunedau, neu anelu at ddarparu buddion gan leihau ôl troed carbon o fetrau, ac ati | £ a fuddsoddwyd, gan gynnwys amser staff | £1.00 | Gwynedd Lewyrchus | Byw bywyd iach a diogel |
| **Cymru gyda diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** | Hyrwyddo'r Gymraeg | 36 | NTW80 | Cefnogaeth a buddsoddiad a ddarparwyd er mwyn i bobl ddysgu a defnyddio'r Gymraeg (e.e. rhyngweithio ac arwyddion) | £ a fuddsoddwyd, gan gynnwys amser staff | £1.00 | Gwynedd Gymraeg | Byw mewn cymdeithas Gymraeg naturiol |
| | Arloesi i gefnogi diwylliant mwy bywiog | | NTW83 | Mesurau arloesol yn ymwneud â 'Chymru gyda diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' i'w darparu ar y contract – mae modd e.e. cydlynu'r rhain â budd-ddeiliaid neu gymunedau, neu anelu at ddarparu buddion gan leihau ôl troed carbon o fentrau, ac ati | £ a fuddsoddwyd, gan gynnwys amser staff | £1.00 | Gwynedd Gymraeg | Byw mewn cymdeithas Gymraeg naturiol |

# Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar, est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach

## 1 Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

| |
|---|
| Adolygu Polisi Caffael Cynaliadwy |

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Rydym yn ystyried addasu ein Polisi Caffael Cynaliadwy i gynnwys dull newydd o gaffael sydd yn gwerthuso tendrau ar sail gwerth cymdeithasol ac effaith lleol. Fel rhan o'r broses o ddod i gasgliad os yw'r dechneg yma yn ychwanegu gwerth o gymharu â'r trefniadau presennol, rydym wedi cynnal cyfres o gynlluniau peilot gan ddefnyddio'r methodoleg hyn.

Bydd mabwysiadu'r drefn yn golygu adolygu ein polisi caffael cynaliadwy.

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Arwel Evans, Rheolwr Caffael

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Mai 2021, hwn yw'r fersiwn terfynol.

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Nid oedd angen partneriaid ar gyfer yr asesiad effaith cydraddoldeb.

**2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion cydraddoldeb?**

| |
|---|
| Nid yw'r newidiadau yn cael effaith uniongyrchol ar bobl gyda nodweddion cydraddoldeb. Gan mae newid cynnwys ymarferiad penodi a cytundebu rhwng y Cyngor a busnesau yw hyn. |

**2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?**

| |
|---|
| Nid yw'r asesiad wedi adnabod yr angen i gyfarch materion cydraddoldeb. |

**2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?**

| |
|---|
| Mae adolygu ein Polisi Caffael yn gyfle i neud addasiadau fel ein bod yn gallu cydymffurfio a'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru). |

**2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?**

| |
|---|
| Na |

## 3) Adnabod yr Effaith

**3.1 Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau yn y polisi neu wasanaeth yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb? Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb.**

| **Nodweddion** | **Sut fath o effaith?** (dylech ddileu'r rhai amherthnasol) | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedl-igrwydd)** | Positif / negyddol / dim | Ddim yn berthnasol |
| **Yr iaith Gymraeg** | Positif / negyddol / dim | Positif a negyddol<br><br>POSITIF<br>• Mae ddogfennaeth yn ymwneud â'r pwnc ar gael yn Gymraeg a Saesneg.<br>• Mae gan y cyflenwyr yr hawl i ymateb mewn Cymraeg neu Saesneg. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Mae un o'r mesurau y teclyn ynglŷn â hyrwyddo'r Gymraeg, sef :<br><br>*'Cefnogaeth a buddsoddiad a ddarparwyd er mwyn i bobl ddysgu a defnyddio'r Gymraeg (e.e. rhyngweithio ac arwyddion)'*<br><br>NEGYDDOL<br>• Mae mwyafrif o dendrau yn cael ei ymateb yn yr iaith Saesneg ac mae'n bosib fydd cyflenwyr yn parhau i ymateb yn yr un ffordd. |
| **Anabledd** | Positif / negyddol / dim | Ddim yn berthnasol |
| **Rhyw** | Positif / negyddol / dim | Ddim yn berthnasol |
| **Oedran** | Positif / negyddol / dim | Ddim yn berthnasol |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Positif / negyddol / dim | Ddim yn berthnasol |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Positif / negyddol / dim | Ddim yn berthnasol |
| **Ailbennu rhywedd** | Positif / negyddol / dim | Ddim yn berthnasol |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Positif / negyddol / dim | Ddim yn berthnasol |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Positif / negyddol / dim | Ddim yn berthnasol |

**4) Dadansoddi'r canlyniadau**

**4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol a beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Bydd cwestiynau sydd yn ymwneud a cydraddoldeb yn parhau i gael ei gynnwys mewn tendrau. |

**4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol a beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Nid ydym yn rhagweld effaith negyddol ar nodweddion cydraddoldeb gan nid yw'r newid yn amharu ar sut mae gofynion cydraddoldeb yn cael ei asesu mewn tendrau. |

**4.3 Beth ddylid ei wneud?**

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | ✓ |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |

**4.4 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

| |
|---|
| Nid oes angen camau pellach. |

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

| |
|---|
| Nid yw'r adolygiad yn amharu ar nodweddion cydraddoldeb. |

## 5) Monitro

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

| |
|---|
| Bydd sicrhau ymwybyddiaeth a chydymffurfiaeth a'r Polisi Caffael Cynaliadwy yn parhau i fod yn gyfrifoldeb y Gwasanaeth Caffael. |

## CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | **Trosolwg Arbedion:<br>Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid** |
| **Swyddog perthnasol:** | **Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **7 Tachwedd 2023** |

**1. Penderfyniad a geisir**

**1.1** Derbyn y wybodaeth yn yr adroddiad a nodi'r cynnydd tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2023/24 a blynyddoedd blaenorol.

**1.2** Cydnabod fod y sefyllfa bellach wedi newid cymaint fel na ellir cyflawni cynlluniau arbedion hanesyddol gwerth £2,056,430 gan eu dileu o'r gyllideb.

**1.3** Defnyddio'r ddarpariaeth arbedion o £1,956,430 i ariannu dileu cynlluniau arbedion, ynghyd â defnyddio £100,000 o bremiwm treth cyngor ar gyfer y cynllun arbedion yn ymwneud â'r maes Digartrefedd.

**2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad**

**2.1** Mae gwireddu'r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb aelodau perthnasol o'r Cabinet, sy'n herio perfformiad yr adrannau gan gynnwys cynnydd y cynlluniau arbedion. Cyfrifoldeb yr Aelod Cabinet dros Gyllid yw cadw trosolwg o'r darlun cyfan.

**3. Cyflwyniad a Rhesymeg**

**Cefndir / Cyflwyniad**

**3.1** Mae'r adroddiad yma'n rhoi trosolwg o sefyllfa arbedion y Cyngor ar gyfer 2023/24 a blynyddoedd blaenorol yn dilyn adolygiad o'r sefyllfa ar ddiwedd Awst 2023.

**3.2** Yn adroddiad 'Cyllideb 2023/24' i'r Cyngor Llawn 2 Mawrth 2023, adroddwyd fod arbedion gwerth £5,194,220 yn ofynnol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24 er mwyn cau bwlch cyllidol 2023/24. Mae'r arbedion yn gyfuniad o £950,250 oedd wedi eu cymeradwyo mewn blynyddoedd blaenorol, ynghyd ag arbedion newydd o £1,146,600 ar gyfer Ysgolion a £3,097,370 ar gyfer gweddill y Cyngor.

**3.3** Yn ychwanegol, drwy adolygu polisi y Cyngor ar ad-dalu dyled sydd yn ariannu gwariant cyfalaf (Darpariaeth Lleiafswm Refeniw), fel sydd wedi ei nodi yn yr adroddiad i'r Cyngor Llawn 2 Mawrth 2023, ychwanegwyd £2,400,000 pellach at gynlluniau arbedion 2023/24.

**3.4** Felly mae cyfanswm yr holl arbedion ar gyfer 2023/24 yn £7.6m.

## 4. Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

### Ail-asesu arbedion

**4.1** Mae gan y Cyngor drefniadau cynllunio ariannol sydd eisoes wedi adnabod arbedion effeithlonrwydd sylweddol er mwyn isafu toriadau mewn gwasanaeth i drigolion Gwynedd. Er hyn, yn ystod y blynyddoedd diwethaf gwelwyd fod trafferthion gwireddu arbedion mewn rhai meysydd, oedd amlycaf yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ac yn y maes Gwastraff. Yn Gorffennaf 2023, adolygwyd y cynlluniau arbedion gan asesu pa gynlluniau arbedion oedd bellach yn anghyraeddadwy. Lluniwyd rhaglen i ddileu gwerth £2,056,430 o gynlluniau oedd â risgiau sylweddol i gyflawni.

**4.2** Mae **Atodiad 1** yn rhestru'r cynlluniau gwerth £2,056,430 sydd i'w dileu ac mae Tabl 1 isod yn crynhoi'r arbedion fesul Adran.

**Tabl 1: Arbedion i'w Dileu Fesul Adran**

| Adran | Arbedion i'w dileu £ | Nifer cynlluniau |
|---|---:|---:|
| Priffyrdd a Pheirianneg | 133,000 | *1* |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 1,488,430 | *10* |
| Amgylchedd | 335,000 | *4* |
| Tai ac Eiddo | 100,000 | *1* |
| **Cyfanswm** | **2,056,430** | ***16*** |

**4.3** Yn dilyn anallu rhai adrannau i wireddu arbedion mewn rhai meysydd, wrth sefydlu'r gyllideb ac er mwyn ymateb i'r risg o fethiant i gyflawni rhai cynlluniau arbedion, rhoddwyd darpariaeth arbedion corfforaethol gwerth £1,956,430 yn y gyllideb er mwyn galluogi dileu cynlluniau arbedion petai'r angen yn codi. Argymhellir fod y ddarpariaeth i ddileu'r

arbedion yn cael ei defnyddio yn ei chyfanrwydd, ynghyd â defnydd o £100k o bremiwm treth cygor ar ail gartrefi i ddileu y cynllun arbedion perthnasol i'r maes Tai.

**4.4** Bydd yr adroddiad yn adrodd ar sefyllfa'r arbedion yn dilyn dileu y cynlluniau arbedion yn 4.2.

**5. Cynlluniau Arbedion Adrannol Hanesyddol 2015/16 – 2023/24**

**5.1** Mae **Atodiad 2** yn crynhoi cyrhaeddiad pob adran yn seiliedig ar adolygiad Awst 2023, yn erbyn y targed arbedion diwygiedig sydd wedi ei osod iddynt, **yn gyfanswm o dros £34m. Gellir adrodd bod £33.7m, neu 98% o'r cynlluniau yma wedi eu gwireddu**, ond mae'r risg o wireddu'r arbedion ar rai o'r cynlluniau'n parhau.

**5.2** Mae 4 cynllun gwerth cyfanswm o £164k wedi llithro ond nid yw'r Adrannau yn rhagweld problem i'w gwireddu.

**5.3** Mae'r 7 cynllun sy'n weddill gwerth £391k gyda risgiau i gyflawni; 3 cynllun gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant (cyfanswm o £222k), 1 cynllun gan yr Adran Gyllid (£25k), 2 gynllun gan yr Adran Economi a Chymuned (cyfanswm o £130k) ac 1 cynllun gan Cyfreithiol (£14k).

**6. Cynlluniau Arbedion Adrannol Newydd 2023/24**

**6.1** Mae adroddiad Cyngor Llawn 2 Mawrth 2023 yn nodi'r cynlluniau arbedion effeithlonrwydd newydd gwerth £6.7m sydd wedi ariannu'r bwlch cyllidol yn 2023/24.

**6.2** Mae **Atodiad 3** yn crynhoi cyrhaeddiad pob adran yn seiliedig ar adolygiad Awst 2023. **Gellir adrodd fod £5.4m, neu 81% o'r cynlluniau yma eisoes wedi eu gwireddu, gyda £426k, neu 6% pellach ar drac i gyflawni'n llawn ac amserol.**

**6.3** Ar hyn o bryd rhagwelir bod rhai risgiau gwireddu gwerth bron i £134k o gynlluniau, 1 cynllun gan yr Adran Amgylchedd gwerth £70k ac 1 cynllun gan yr Adran Gyllid gwerth £64k.

**6.4** Mae ychydig o oediad i wireddu gwerth £700k o gynlluniau arbedion 2023/24 ond nid yw'r Adrannau yn rhagweld problem i'w gwireddu. Mae mwyafrif o'r swm yma yn cynnwys arbedion o £539k gan ysgolion, sydd yn llithro gan fod ysgolion yn gweithio i flwyddyn academaidd ac felly bydd y gwireddu yn llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf.

**7. Cynlluniau Arbedion Adrannol 2024/25 ymlaen**

**7.1** Yn sgil y rhagolygon o setliad ariannol gwael ac hefyd yr hinsawdd economaidd presennol a'r lefelau chwyddiant uchel, mae'n anorfod y bydd yn rhaid i Awdurdodau Lleol edrych ar arbedion a thoriadau i gynorthwyo'r sefyllfa ariannol. Mae cynlluniau arbedion a thoriadau

ychwanegol ar gyfer 2024/25 eisoes dan ystyriaeth gan Gyngor Gwynedd ac mi fyddant yn destun adroddiad yn fuan.

**7.2** Rhestrir arbedion presennol 2024/25 ymlaen, fesul Adran yn **Atodiad 4**, yr arbedion hanesyddol yn Nhabl 1 a'r arbedion newydd yn Nhabl 2, ond mae'n gynamserol i adrodd ar statws y cynlluniau yma ar hyn o bryd.

**8. Casgliad**

**8.1** Gellir adrodd bod cyfanswm o £39.1 miliwn o arbedion wedi eu gwireddu ers 2015/16, sydd yn 96% o'r £41m gofynnol dros y cyfnod. Mae'n anorfod bod gwireddu'r arbedion wedi bod yn heriol ac rwy'n ddiolchgar i'r holl adrannau a'r Aelodau Cabinet am sicrhau'r llwyddiant yma.

**8.2** Mae'r tabl isod yn crynhoi sefyllfa ddiweddaraf y cynlluniau arbedion ers Ebrill 2015 gyda 96% o'r holl gynlluniau wedi eu gwireddu.

**Tabl 2: Crynodeb o statws yr holl gynlluniau arbedion ers Ebrill 2015**

| **Statws yr Arbediad** | **Porth** | **£m** | ***%*** |
|---|---|---|---|
| Wedi gwireddu | 1 | 39.13 | *95.6* |
| Ar drac i gyflawni'n llawn ac amserol | 2 | 0.43 | *1.0* |
| Oediad, ond yn symud yn ei flaen | 3 | 0.86 | *2.1* |
| Rhai risgiau i gyflawni - yn llithro neu methu | 4 | 0.49 | *1.2* |
| Risgiau sylweddol i gyflawni yn llawn neu yn rhannol | 5 | 0.04 | *0.1* |
| **Cyfanswm arbedion** | | **40.95** | *100* |

**8.3** Felly, gofynnaf i'r Cabinet nodi'r cyrhaeddiad a amlinellir yn yr adroddiad yma tuag at wireddu'r cynlluniau arbedion. Yn ogystal, dileu yr arbedion nad oedd yn cael eu gwireddu fel a nodir yn 1.2 a 1.3 uchod.

**9. Camau nesaf ac amserlen**

**9.1** Gweithredu ar yr argymhellion gerbron a chyflwyno adroddiad dilynol i'r Cabinet 23 Ionawr 2024 yn dilyn adolygiad diwedd Tachwedd.

## 10. Sylwadau Swyddogion Statudol

### 10.1 Prif Swyddog Cyllid

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

### 10.2 Swyddog Monitro

Dim sylwadau i'w hychwanegu os safbwynt priodoldeb.

**Atodiadau:**

Atodiad 1 - Arbedion Hanesyddol i'w Dileu
Atodiad 2 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion Hanesyddol 2015/16 - 2023/24 fesul Adran
Atodiad 3 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion newydd 2023/24 fesul Adran
Atodiad 4 - Tabl 1 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion Hanesyddol 2024/25 ymlaen fesul Adran
- Tabl 2 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion newydd 2024/25 ymlaen fesul Adran

**ATODIAD 1**

## CYNLLUNIAU ARBEDION HANESYDDOL I'W DILEU FESUL ADRAN

| Adran | Cynllun | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | Arbedion i'w dileu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Priffyrdd a Pheirianneg** | Trefniadau Fflyd (Adolygiad Edge) | | 85,000 | 48,000 | | | | | **133,000** |
| **Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Awtomeiddio prosesau cyllidol yr Adran | 64,000 | | | | | | | 64,000 |
| | Integreiddio a thrawsnewid Gwasanaethau Pobl Hŷn | | | 210,000 | | | | 300,000 | 510,000 |
| | Uno Dysgu a Datblygu ac Uned Datblygu Gweithlu | | | 18,000 | | | | | 18,000 |
| | Datblygu 3 prosiect Tai Gofal Ychwanegol arall yng Ngwynedd (ardal Pwllheli, Ffestiniog a De Meirionnydd) | | | | | | 100,000 | | 100,000 |
| | Gwell cydgordio gwasanaeth gyda'r Adran Plant a Theuluoedd ar adeg oed trosglwyddo | | | | 15,000 | 45,000 | | | 60,000 |
| | Adolygu pecynnau gofal anableddau corff gan gwrdd ag amcanion mewn ffordd amgen | | | 25,000 | 75,000 | | | | 100,000 |
| | Adolygiad pecynnau Gofal Iechyd Parhaus | | | | 150,000 | | | | 102,430 * |
| | Ymestyn egwyddorion Cynllun Peilot Alltwen ar draws y gwasanaeth | | | | | | | 534,000 | 534,000 |
| **Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant** | | **64,000** | **-** | **253,000** | **240,000** | **45,000** | **100,000** | **834,000** | **1,488,430** |
| **Amgylchedd** | Newid trefniadau gwaith casglu gwastraff i shifftiau a chylchdeithiau llai (sydd o bosib yn golygu newid diwrnod casglu i drigolion) | | | | | | 150,000 | | 150,000 |
| | Cynyddu ffioedd am gasglu gwastraff gan fusnesau | | | | | 75,000 | | | 75,000 |
| | Gwastraff Gardd: cynhyrchu mwy o incwm neu leihau costau | | | | 20,000 | | | | 20,000 |
| | Canolfannau Ailgylchu - newid trefniadau | | | | 90,000 | | | | 90,000 |
| **Cyfanswm Amgylchedd** | | **-** | **-** | **-** | **110,000** | **75,000** | **150,000** | **-** | **335,000** |
| **Tai ac Eiddo** | Lleihau dibyniaeth ar lety dros dro trwy fuddsoddi mewn llety pwrpasol | | | | 25,000 | 75,000 | | | **100,000** |
| **Cyfanswm Arbedion i'w dileu** | | | | | | | | | **2,056,430** |

** Dileu'n Rhannol*

**ATODIAD 2**

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION HANESYDDOL 2015/16 I 2023/24 FESUL ADRAN

| Adran | Cyfanswm Arbedion 2015/16 i 2023/24 £ | Cynlluniau wedi eu gwireddu £ | Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro £ - *nifer* | | Cynlluniau sydd efo rhai risgiau i gyflawni £ - *nifer* | | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Addysg | 1,659,740 | 1,659,740 | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Ysgolion | 4,331,620 | 4,331,620 | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Amgylchedd | 2,972,463 | 2,922,463 | 50,000 | *1* | - | | Llithriad ar un cynllun sef *Darparu pwyntiau gwefru ceir trydan mewn meysydd parcio (£50k).* |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 2,569,218 | 2,569,218 | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Cyllid | 1,881,636 | 1,856,636 | - | | 25,000 | *1* | Mae risgiau o wireddu arbedion y cynllun *Denu incwm ychwanegol drwy Asiantaeth Casglu Mewnol* (£25k) |
| Economi a Chymuned | 2,981,422 | 2,851,422 | - | | 130,000 | *2* | Mae rhai risgiau o gyflawni arbedion 2 gynllun; *Sefydlu ffioedd parcio ar draeth Dinas Dinlle a chynyddu ffioedd lansio ar draws traethau Gwynedd o £10 i £15 (£45k)* a chynllun yn ymwneud â *Neuadd Dwyfor (£85k).* |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 6,594,981 | 6,293,051 | 79,360 | *2* | 222,570 | *3* | Mae rhai risgiau cyflawni arbedion 3 cynllun sef *Gwella prosesau gwaith drwy gynnal adolygiad Ffordd Gwynedd a defnyddio modiwlau cyllid y system TG newydd o fewn yr Adran Oedolion* (£40k), *Adolygiad pecynnau Gofal Iechyd Parhaus* (£47.57k) ac *Adolygu'r trefniadau gweithredu o fewn yr Adran Oedolion* (£135k). Mae 2 gynllun pellach gwerth cyfanswm o £79k wedi llithro ond mae'r Adran yn rhagweld gwireddu rhain yn ystod 2023/24; *Cynyddu incwm a lleihau costau eraill* sydd gyda balans o £30k sydd eto i'w wireddu ac *Ail strwythuro'r Gwasanaeth Busnes gan leihau cefnogaeth i dimau oddi fewn i'r Adran ac i'r Adran Plant* (£49k). |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 2,318,908 | 2,318,908 | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |

**ATODIAD 2**

**TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION HANESYDDOL 2015/16 I 2023/24 FESUL ADRAN**

| **Adran** | **Cyfanswm Arbedion 2015/16 i 2023/24**<br><br>**£** | **Cynlluniau wedi eu gwireddu**<br><br>**£** | **Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro**<br><br>**£ -** | ***nifer*** | **Cynlluniau sydd efo rhai risgiau i gyflawni**<br><br>**£ -** | ***nifer*** | **Sylwadau'r Pennaeth Cyllid** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Priffyrdd a Pheirianneg | 5,928,910 | 5,893,910 | 35,000 | *1* | - | | Mae'r cynllun *Pont Abermaw – peidio talu Network Rail am yr hawl tramwy dros y bont* (£35k) wedi llithro ond mae'r Adran yn parhau i fod mewn trafodaethau efo Network Rail. |
| Ymgynghoriaeth | 602,670 | 602,670 | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 403,240 | 389,440 | - | | 13,800 | *1* | Mae llithriad ar y cynllun *Arbedion yng nghyllideb y Crwner* gwerth £13.8k gan ei fod yn seiliedig ar ragamcaniad a wnaethpwyd rhai blynyddoedd yn ôl ond sydd eto heb ddigwydd. |
| Tai ac Eiddo | 843,230 | 843,230 | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| **Is-gyfanswm** | **33,088,038** | **32,532,308** | **164,360** | 4 | **391,370** | 7 | |
| Arbedion Rheolaethol | 1,200,360 | 1,200,360 | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| **CYFANSWM** | **34,288,398** | **33,732,668** | **164,360** | *4* | **391,370** | *7* | **Yn nhermau ariannol (£), mae 98% o gynlluniau arbedion 2015/16 - 2023/24 wedi eu gwireddu.** |

**ATODIAD 3**

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION NEWYDD 2023/24 FESUL ADRAN

| Adran | Cyfanswm Arbedion 2023/24<br>£ | nifer | Cynlluniau wedi eu gwireddu<br>£ | nifer | Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol<br>£ | nifer | Cynlluniau sydd yn llithro a gyda rhai risgiau i gyflawni'r arbedion<br>£ | nifer | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Addysg | 852,990 | *18* | 852,990 | *18* | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Ysgolion | 1,146,600 | *1* | 607,698 | *1* | - | | 538,902 | | Bu oediad ar ran o'r cynllun arbedion effeithlonrwdd ysgolion yn bennaf oherwydd fod ysgolion yn gweithio o fewn blwyddyn academaidd ac felly bydd y swm sy'n weddil yn gwireddu yn y flwyddyn ariannol nesaf. |
| Amgylchedd | 319,190 | *12* | 226,320 | *9* | 4,370 | *1* | 88,500 | *2* | Mae un cynllun sef *Gwella effeithlonrwydd defnydd o safleoedd trin/trosglwyddo gwastraff* gwerth £70k gyda rhai risgiau. Bu oediad ar un cynllun *gwerth* £18.5k ond yn symud yn ei flaen. |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 275,250 | *12* | 267,690 | *11* | 7,560 | *1* | - | | Dim problem gwireddu'r un cynllun sydd ar drac i gyflawni'n amserol. |
| Cyllid | 294,060 | *7* | 19,820 | *2* | 138,670 | *3* | 135,570 | *2* | Mae risgiau o gyflawni arbedion y cynllun *Cynyddu targedau incwm Adrannol i fod yn gymesur â'r gwaith,* gwerth £64k. Bu oediad ar un cynllun gwerth £71.5k ond yn symud yn ei flaen. |
| Economi a Chymuned | 310,770 | *21* | 237,250 | *15* | 57,030 | *4* | 16,490 | *2* | Bu oediad ar ddau gynllun ond yn symud yn eu blaen. |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 172,810 | *10* | 82,150 | *5* | 70,540 | *3* | 20,120 | *2* | Bu oediad ar ddau gynllun ond yn symud yn eu blaen. |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 44,010 | *4* | 44,010 | *4* | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth | 215,940 | *6* | 175,940 | *3* | 35,000 | *2* | 5,000 | *1* | Bu oediad ar un cynllun ond yn symud yn ei flaen. |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 131,190 | *7* | 131,190 | *7* | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Tai ac Eiddo | 499,120 | *9* | 356,820 | *3* | 112,800 | *5* | 29,500 | *1* | Bu oediad ar un cynllun ond yn symud yn ei flaen. |
| Arbedion Rheolaethol | 2,400,000 | *1* | 2,400,000 | *1* | - | | - | | Yr un cynllun am y cyfnod wedi gwireddu. |
| **CYFANSWM** | **6,661,930** | ***108*** | **5,401,878** | ***79*** | **425,970** | ***19*** | **834,082** | ***10*** | **Yn nhermau ariannol (£), mae 81% o gynlluniau arbedion newydd 2023/24 eisoes wedi eu gwireddu a 6% pellach ar drac i gyflawni'n amserol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.** |

**TABL 1**

**TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION HANESYDDOL 2024/25 YMLAEN FESUL ADRAN**

| Adran | 2024/25<br>£ | 2025/26<br>£ | Cyfanswm Arbedion 2024/25 a 2025/26<br>£ | - *nifer* |
|---|---|---|---|---|
| Economi a Chymuned | 15,000 | - | 15,000 | *1* |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | - | 200,000 | 200,000 | *1* |
| **CYFANSWM CYNLLUNIAU HANESYDDOL** | **15,000** | **200,000** | **215,000** | ***2*** |

**TABL 2**

**TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION NEWYDD 2024/25 YMLAEN FESUL ADRAN**

| Adran | 2024/25<br>£ | 2025/26<br>£ | Cyfanswm Arbedion 2024/25 a 2025/26<br>£ | - *nifer* |
|---|---|---|---|---|
| Addysg | 931,380 | - | 931,380 | *6* |
| Amgylchedd | 562,870 | 450,000 | 1,012,870 | *14* |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 45,660 | - | 45,660 | *3* |
| Cyllid | 207,720 | - | 207,720 | *6* |
| Economi a Chymuned | 50,660 | - | 50,660 | *6* |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 1,193,040 | - | 1,193,040 | *5* |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 157,960 | - | 157,960 | *2* |
| Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth | 390,000 | - | 390,000 | *5* |
| Tai ac Eiddo | 128,840 | - | 128,840 | *3* |
| **CYFANSWM CYNLLUNIAU NEWYDD** | **3,668,130** | **450,000** | **4,118,130** | ***50*** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **CYFANSWM** | **3,683,130** | **650,000** | **4,333,130** | ***52*** |

**CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Cyllideb Refeniw 2023/24 – Adolygiad Diwedd Awst 2023 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid |
| **Swyddog perthnasol:** | Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol<br>- Cyfrifeg a Phensiynau |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 7 Tachwedd 2023 |

**1. Penderfyniad a geisir**

**1.1** Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst 2023 o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth.

**1.2** Nodi bod rhagolygon gorwariant sylweddol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Addysg, Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC a'r Adran Amgylchedd eleni, ac yn wyneb y rhagolygon gorwariant eithriadol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, cefnogi penderfyniad y Prif Weithredwr sydd eisoes wedi comisiynu gwaith i egluro manylder cymhleth yn y darlun yng ngofal Oedolion, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r materion a rhaglen glir i ymateb. Bydd y gwaith yn cael ei arwain gan Gyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol.

**1.3** Cymeradwyo trosglwyddiad o £3,275k o danwariant ar gyllidebau corfforaethol i Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol y Cyngor.

**2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad**

**2.1** Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

**3. Cyflwyniad a Rhesymeg**

**Cefndir / Cyflwyniad**

**3.1** Cyflwynir yr adroddiad ar yr adolygiad diweddaraf diwedd Awst o gyllideb refeniw'r Cyngor am 2023/24, ac amlinellir grynhoad o'r sefyllfa fesul Adran yn **Atodiad 1**. Mae'r rhagolygon presennol yn awgrymu y bydd naw o'r deg adran yn gorwario erbyn diwedd y flwyddyn.

Rhagwelir gorwariant sylweddol ar gyfer yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Addysg, Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC a'r Adran Amgylchedd.

**3.2** Yn **Atodiad 2,** rhoddir manylion pellach yn ymwneud â'r prif faterion a'r penawdau cyllideb ble rhagwelir gwahaniaethau sylweddol, ynghyd ag argymhellion penodol lle'n briodol.

## 4. Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

### Sefyllfa Arbedion

**4.1** Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi adrodd ar risgiau i gyflawni arbedion, oedd amlycaf yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ac yn y maes Gwastraff. Yn dilyn adolygiad diweddar o'r arbedion nad oedd yn cael eu gwiredd, penderfynwyd dileu gwerth £2 filiwn o gynlluniau arbedion drwy ddefnyddio darpariaeth risg arbedion i'w gyllido. Adroddir yma ar y sefyllfa ariannol yn dilyn dileu yr arbedion.

**4.2** Y sefyllfa ddiweddaraf o ran yr arbedion yw fod £39 miliwn, sef 96% o'r cynlluniau arbedion diwygiedig ers 2015 bellach wedi eu gwireddu.

## 5. Adrannau'r Cyngor

### 5.1 Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Y rhagolygon diweddaraf yn awgrymu £6.6 miliwn o orwariant, sydd yn gyfuniad o nifer o ffactorau gan gynnwys nifer o achosion newydd a chostus llety cefnogol yn y gwasanaeth anabledd dysgu. Yng ngofal cymunedol, costau staffio uwch a chyfraddau oriau di-gyswllt yn uchel ac felly yn cael effaith negyddol ar yr incwm a adenillir. Tra fod ffioedd uwch gan ddarparwyr preifat ond lleihad mewn cyfraniadau preswylwyr yn faterion yng ngwasanaethau pobl hŷn. Mae defnydd cynyddol o staff asiantaeth mewn gwahanol feysydd hefyd yn cyfrannu at y gorwariant a adroddir.

### 5.2 Adran Addysg

Y tueddiad o bwysau cynyddol ar y ar y gyllideb tacsis a bysus ysgolion yn dod yn fwy amlwg eleni, gyda gorwariant o £1.5m yn cael ei ragweld. Mae'r maes cludiant eisoes wedi bod yn destun adolygiad strategol i geisio rheoli'r cynnydd yn y gwariant, awgrymir fod yr angen am waith pellach yn parhau fel bod modd ceisio lleihau y gorwariant a manteisio ar gyfleoedd effeithlonrwydd.

### 5.3 Byw'n Iach

Dros y blynyddoedd diwethaf bu i effaith Covid amharu ar incwm Cwmni Byw'n Iach. Bu i Lywodraeth Cymru eu digolledu am y golled yn 2020/21 a 2021/22 o'u cronfa caledi. Yn

2022/23 rhoddodd y Cyngor £550k o gefnogaeth ariannol i Byw'n Iach i'w galluogi i gynnal eu gwasanaethau. Mae'r gefnogaeth ariannol yn parhau eleni a'r swm gofynnol wedi lleihau i £375k.

**5.4 Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC**

Rhagwelir gorwariant o bron i filiwn gan yr adran, gwelwyd leihad yn y gwaith sydd yn cael ei gomisiynu gan asiantaethau allanol sydd yn cael effaith negyddol ar incwm gwasanaethau priffyrdd. Yn bwrdeistrefol, cyfuniad o ffactorau, gan gynnwys pwysau ychwanegol ar gyllidebau glanhau strydoedd a glanhau toiledau cyhoeddus. Colledion incwm cynnal tiroedd a thoiledau cyhoeddus, ond incwm yn uwch gan y gwasanaethau profedigaeth sydd yn lleihau'r gorwariant a adroddir.

**5.5 Adran Amgylchedd**

Y tueddiad blynyddol o orwariant yn y maes casglu gwastraff ac ailgylchu yn parhau. Cylchdeithiau ychwanegol wedi arwain at orwariant ar gostau cyflogaeth a chostau fflyd. Lefelau salwch a goramser hefyd yn broblemus, tra fod na gostau ychwanegol o ran hurio cerbydau.

**5.6 Tai ac Eiddo**

Y tueddiad o bwysau sylweddol ar wasanaethau llety dros dro digartrefedd yn parhau i fod yn ddwys iawn, eleni dyrannwyd £3m o bremiwm treth cyngor ynghyd â dyraniad un-tro £1.4m o ddarpariaeth covid corfforaethol i gyfarch y costau ychwanegol.

**5.7 Corfforaethol**

Tanwariant ar gorfforaethol o ganlyniad i ragdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2023/24 a lleihad yn y niferoedd sydd wedi hawlio gostyngiad treth cyngor o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Effaith y cynnydd diweddar mewn cyfraddau llog wedi arwain at dderbyniad llog gwerth £1.8 miliwn ychwanegol. Effaith y polisi rheolaeth trysorlys presennol yn golygu fod modd osgoi benthyca yn allanol ac felly'r costau cyfalaf cysylltiedig. Ond tanwariant ar gyllidebau eraill yn cynorthwyo i leddfu'r pwysau ychwanegol a ragwelir o ran y cynnydd cenedlaethol i gyflogau gweithwyr Llywodraeth Leol sydd eto i'w gadarnhau.

**6. Casgliad**

**6.1** Rhagwelir y bydd mwyafrif o'r adrannau yn gorwario erbyn diwedd y flwyddyn gyda gorwariant sylweddol mewn rhai meysydd. Felly, bydd rhaid gwneud defnydd o gronfeydd wrth gefn y Cyngor i gyllido'r blwch ariannol o £5.9m a ragwelir am 2023/24.

**6.2** Er ei bod hi'n gynamserol i drosglwyddo arian o gronfeydd nes bydd y sefyllfa ariannol yn derfynol ar ddiwedd y flwyddyn, argymhellir mai'r drefn bryd hynny o ran defnyddio'r cronfeydd i gyllido'r bwlch ariannol fydd defnyddio:
- yn gyntaf, defnyddio £3,800k o gronfa trefniadau adfer yn sgil Covid
- gyda'r gweddill i'w gyllido o gronfa strategaeth ariannol y Cyngor.

## 7. Camau nesaf ac amserlen

**7.1** Gweithredu ar yr argymhellion gerbron a chyflwyno adroddiad dilynol i'r Cabinet 23 Ionawr 2024 yn dilyn adolygiad diwedd Tachwedd.

## 8. Sylwadau Swyddogion Statudol

**8.1 Prif Swyddog Cyllid**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

**8.2 Swyddog Monitro**

Dim sylwadau i'w hychwanegu os safbwynt priodoldeb.

**Atodiadau:**

Atodiad 1 - Crynhoad o sefyllfa net cyllidebau'r adrannau

Atodiad 2 - Manylion y cyllidebau a'r gwahaniaethau sylweddol

## Cyllideb Refeniw 2023/24 - Crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran

| | Adolygiad Diwedd Awst | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb Arfaethedig 2023/24 £'000 | Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24 £ '000 | Addasiadau a Argymhellir £'000 | Amcan Gor/ (Tan) Wariant Addasedig 2023/24 £ '000 |
| **Oedolion, Iechyd a Llesiant** | 72,503 | 6,578 | 0 | 6,578 |
| **Plant a Theuluoedd** | 21,577 | (35) | 0 | (35) |
| **Addysg** | 108,995 | 757 | 0 | 757 |
| **Economi a Chymuned** | 5,938 | 78 | 0 | 78 |
| **Priffyrdd, Peirianneg ac YGC** | 16,553 | 998 | 0 | 998 |
| **Amgylchedd** | 17,607 | 511 | 0 | 511 |
| **Tai ac Eiddo** | 11,412 | 61 | 0 | 61 |
| **Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol** | 2,688 | 37 | 0 | 37 |
| **Cefnogaeth Gorfforaethol** | 7,635 | 62 | 0 | 62 |
| **Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)** | 7,781 | 102 | 0 | 102 |
| **Cyllidebau Corfforaethol** *(Gwahaniaethau yn unig)* | * | (3,275) | 0 | (3,275) |
| **Cyfansymiau (net)** | 280,470 | 5,874 | 0 | 5,874 |

| **CYLLIDEB REFENIW 2023/24 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Amcan Cyllideb 2023/24 | Amcan Sefyllfa 2023/24 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2023/24** | Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2022/23 |
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | |
| Gwasanaethau Pobl Hŷn | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio - Cartrefi | 21,114 | 22,114 | 1,000 | | 1,000 | 514 |
| Gofal Cartref | 9,020 | 8,776 | (244) | | (244) | (3) |
| Eraill | 856 | 1,548 | 692 | | 692 | 981 |
| | 30,990 | 32,438 | 1,448 | 0 | 1,448 | 1,492 |
| Gwasanaethau Anabledd Corff | 3,174 | 2,834 | (340) | | (340) | (407) |
| Gwasanaethau Anabledd Dysgu | 26,450 | 29,211 | 2,761 | | 2,761 | 1,190 |
| Gwasanaethau Iechyd Meddwl | 4,429 | 4,765 | 336 | | 336 | 193 |
| Gwasanaethau Eraill (Oedolion) | 3,692 | 3,772 | 80 | | 80 | (184) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion** | **68,735** | **73,020** | **4,285** | **0** | **4,285** | **2,284** |
| **Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)** | | | | | | |
| Gofal Preswyl | 0 | 285 | 285 | | 285 | 336 |
| Gofal Dydd | (5) | (118) | (113) | | (113) | (186) |
| Gofal Cymunedol | 138 | 1,817 | 1,679 | | 1,679 | 1,828 |
| Eraill | 0 | 24 | 24 | | 24 | 20 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Darparu** | **133** | **2,008** | **1,875** | **0** | **1,875** | **1,998** |

Atodiad 2

| CYLLIDEB REFENIW 2023/24 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Amcan Cyllideb 2023/24 | Amcan Sefyllfa 2023/24 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2023/24** | Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2022/23 |
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Eraill** | | | | | | |
| Gwasanaethau Canolog Adrannol *(gan gynnwys arbedion yr Adran)* | 3,635 | 4,053 | 418 | | 418 | 123 |
| Defnydd o Gronfeydd wrth gefn | | | 0 | | 0 | (520) |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2022/23 | | | 0 | | 0 | (3,785) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Eraill** | **3,635** | **4,053** | **418** | **0** | **418** | **(4,182)** |
| **Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **72,503** | **79,081** | **6,578** | **0** | **6,578** | **100** |

## Oedolion, Iechyd a Llesiant

**Gwasanaethau Pobl Hŷn** - ym mhreswyl a nyrsio costau ffioedd uwch gan ddarparwyr preifat ynghyd â chyfraniadau is gan breswylwyr yn dilyn newid i drothwyon cyfraniadau am ofal preswyl. Er bod lleihad yn y galw am ofal cartref (£244k) cynnydd anghymesur i'w weld ar daliadau uniongyrchol sydd yn gorwario £732k yn 'Eraill'.

**Gwasanaethau Anabledd Corff** - lleihad yn y galw am ofal cartref ond pwysau cynyddol ar daliadau uniongyrchol.

**Gwasanaethau Anabledd Dysgu -** pwysau cynyddol a nifer o achosion newydd a chostus llety cefnogol yn gyfrifol am £2m o'r gorwariant, ond pwysau hefyd i'w weld ar breswyl a nyrsio, taliadau uniongyrchol a chostau tacsis ar gyfer gwasanaethau dydd.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl** - mwy o alw am lety cefnogol a phwysau cynyddol ar preswyl a nyrsio gyda 4 achos newydd dwys.

**Gwasanaethau Darparu** - defnydd cynyddol o staff asiantaeth yn arwain at orwariant yn ngofal preswyl. Costau staffio uwch a chyfraddau oriau di-gyswllt yn uchel ac felly yn cael effaith negyddol ar yr incwm a adenillir yng ngofal cymunedol. Y ddarpariaeth Gofal Dydd wedi ei effeithio ac wedi ei leihau dros y blynyddoedd diwethaf, felly yn tanwario.

**Gwasanaethau Canolog Adrannol -** swyddi uwchlaw'r strwythur a diffyg gwireddu arbedion.

**Arbedion** - yn dilyn anallu yr adran i wireddu cynlluniau arbedion mae gwerth £1,488k o arbedion wedi eu dileu. Mae'r gorwariant adrannol o £6.6m a ragwelir yn dilyn dileu yr arbedion.

Yn wyneb y rhagolygon gorwariant eithriadol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, nodir fod y Prif Weithredwr eisoes wedi comisiynu gwaith i egluro manylder cymhleth yn y darlun yng ngofal Oedolion, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o’r materion a rhaglen glir i ymateb. Bydd y gwaith yn cael ei arwain gan Gyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol.

**CYLLIDEB REFENIW 2023/24 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Plant a Theuluoedd** | Amcan Cyllideb 2023/24 | Amcan Sefyllfa 2023/24 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2023/24** | Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth Gwasanaeth | 561 | 534 | (27) | | (27) | (105) |
| Gweithredol | 2,562 | 2,974 | 412 | | 412 | 151 |
| Lleoliadau | | | | | | |
| Lleoliadau All-Sirol | 5,536 | 4,781 | (755) | | (755) | 378 |
| Maethu Drwy Asiant | 1,791 | 1,460 | (331) | | (331) | (174) |
| Maethu Mewnol | 2,856 | 2,574 | (282) | | (282) | (361) |
| Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill | 1,905 | 2,052 | 147 | | 147 | 40 |
| | 12,088 | 10,867 | (1,221) | 0 | (1,221) | (117) |
| Ôl-16 | 1,475 | 1,375 | (100) | | (100) | 36 |
| Arbenigol/Derwen | 2,336 | 3,043 | 707 | | 707 | 480 |
| Cyfiawnder Ieuenctid | 274 | 244 | (30) | | (30) | (39) |
| Blynyddoedd Cynnar | 151 | 157 | 6 | | 6 | (82) |
| Uned Datblygu'r Gweithlu | 116 | 116 | 0 | | 0 | (132) |
| Eraill | 2,090 | 2,232 | 142 | | 142 | (19) |
| Cyfraniad i Gronfa Gorwariant yr Adran | (76) | | 76 | | 76 | (97) |
| **Cyfanswm Plant a Theuluoedd** | **21,577** | **21,542** | **(35)** | **0** | **(35)** | **76** |

## Plant a Theuluoedd

**Gweithredol** - pwysau ar gefnogaeth cynlluniau cefnogol ynghyd â staffio uwchlaw y gyllideb gweithwyr maes yn dilyn nifer o gyfnodau mamolaeth.

**Lleoliadau** - lleihad yn y pwysau ar Leoliadau All-Sirol eleni gyda'r nifer cyfartalog yn 24.2, o'i gymharu â 25.7 ar gyfer 2022/23, gyda'r gost oddeutu £219k yr achos. Niferoedd cyfartalog Maethu drwy Asiant a Maethu Mewnol yn gyson efo niferoedd 2022/23 ond gan fod yna nifer o geiswyr lloches heb rieni neu warcheidwaid yn derbyn gwasanaeth, derbyniad incwm gan y Swyddfa Gartref ar eu cyfer yn arwain at danwariant. Pwysau ar y gyllideb gweithwyr cefnogol a'r Tim Lleoliadau.

**Ôl-16** - lleihad yn y pwysau ar y ddarpariaeth yn dilyn i becynnau dwys ddod i ben yn ddiweddar.

**Arbenigol/Derwen** – y tueddiad gorwariant cynyddol yn parhau gan fod cynnydd yn y galw am gynlluniau cefnogol a chefnogaeth arbenigol. Newid yn y pwyslais o ran sut mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu, gyda mwy o bwysau ar daliadau uniongyrchol sydd yn gyfrifol am £108k o'r gorwariant. Rhagwelir gorwariant o £85k ar yr Uned Egwyl Fer oherwydd costau staff a lleihad mewn incwm yn dilyn i Gyngor Môn sefydlu darpariaeth eu hunain yn hytrach na dod i Wynedd am y gwasanaeth.

**Eraill** - cyfuniad o orwariant ar staffio, ffioedd gwasanaethau arbennigol ac ar gyfraniadau gwasanaethau ar y cyd.

Yn dilyn gorwariant o £76k gan yr Adran yn 2022/23, bwriad yr adran yw defnyddio £76k o'r tanwariant a ragwelir eleni i ddileu y gronfa gorwariant.

**CYLLIDEB REFENIW 2023/24 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Addysg** | Amcan Cyllideb 2023/24 | Amcan Sefyllfa 2023/24 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2023/24** | Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ysgolion Datganoledig | 90,242 | 90,242 | 0 | | 0 | 0 |
| Ysgolion Datganoledig - Costau Ychwanegol Chwyddiant Staff a Thrydan Uwchlaw'r Gyllideb | | | 0 | | 0 | 1,304 |
| Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion | (1,391) | (1,592) | (201) | | (201) | (61) |
| Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol | | | | | | |
| Cludiant | 6,286 | 7,746 | 1,460 | | 1,460 | 551 |
| Gwasanaeth Atodol | 1,314 | 1,311 | (3) | | (3) | (200) |
| Eraill | 3,579 | 3,552 | (27) | | (27) | (38) |
| | 11,179 | 12,609 | 1,430 | 0 | 1,430 | 313 |
| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | 2,499 | 2,277 | (222) | | (222) | (259) |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad | 5,241 | 5,265 | 24 | | 24 | (89) |
| Gwasanaeth Ieuenctid | 984 | 951 | (33) | | (33) | |
| Defnydd o Gronfa Tanwariant yr Adran | 241 | | (241) | | (241) | |
| Defnydd o falansau ysgolion | | | | | 0 | (1,304) |
| **Cyfanswm Addysg** | **108,995** | **109,752** | **757** | **0** | **757** | **(96)** |

## Addysg

**Gwasanaeth Ansawdd Ysgolion** - cyfuniad o dderbyniad incwm a chwtogi ar wariant.

**Cludiant** - rhagolygon gorwariant o £626k ar dacsis ysgolion. Yn dilyn ail-dendro cytundebau bysus yn ddiweddar rhagwelir gorwariant o £833k erbyn diwedd y flwyddyn.

Mae'r maes Cludiant wedi bod yn destun adolygiad strategol i geisio rheoli'r cynnydd yn y gwariant, awgrymir fod yr angen am waith pellach gan yr Adran Addysg a'r Adran Amgylchedd yn parhau, fel bod modd ceisio lleihau y gorwariant a manteisio ar gyfleoedd effeithlonrwydd.

**Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Gwasanaeth Atodol** - costau staff uwch a diffyg incwm ar yr elfen gofal o'r clybiau brecwast yn gorwario £116k ond trosiant staff a derbyniad incwm a grant yn arlwyaeth yn diddymu'r gorwariant.

**Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Eraill** - tanwariant ar nifer o gyllidebau amrywiol.

**Arweinyddiaeth a Rheolaeth** - swyddi gwag a thanwariant ar nifer o benawdau'r gyllideb.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad** - darlun cymysg sydd yn gyfuniad o swyddi gwag a thanwariant ar nifer o benawdau amrywiol, tra bod amgylchiadau yn ymwneud ag un ganolfan benodol yn parhau ac yn gyfrifol am orwariant o £126k.

**Gwasanaeth Ieuenctid** - tanwariant ar gostau staff.

Er mwyn lleihau y gorwariant a adroddir bwriad yr adran yw defnyddio eu cronfa tanwariant o £241k yn ei gyfanrwydd eleni.

**CYLLIDEB REFENIW 2023/24 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Economi a Chymuned** | Amcan Cyllideb 2023/24 | Amcan Sefyllfa 2023/24 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2023/24** | Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 450 | 455 | 5 | | 5 | (8) |
| Rhaglenni Adfywio a Chefnogi Cymunedau | 473 | 434 | (39) | | (39) | (40) |
| Morwrol a Pharciau Gwledig | (186) | (213) | (27) | | (27) | 21 |
| Cytundebau Byw'n Iach a Hamdden Eraill | 2,247 | 2,317 | 70 | | 70 | 608 |
| Rhaglenni Datblygu Economaidd | (36) | (36) | 0 | | 0 | 14 |
| Marchnata a Digwyddiadau | 293 | 293 | 0 | | 0 | 3 |
| Llyfrgelloedd Gwynedd | 1,755 | 1,712 | (43) | | (43) | (77) |
| Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd | 942 | 1,054 | 112 | | 112 | 61 |
| Defnydd o Gronfa Tanwariant yr Adran | | | 0 | | 0 | (32) |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2022/23 | | | 0 | | 0 | (550) |
| **Cyfanswm Economi a Chymuned** | **5,938** | **6,016** | **78** | **0** | **78** | **0** |

## Economi a Chymuned

**Rhaglenni Adfywio a Chefnogi Cymunedau** - tanwariant ar gostau staff ac ar amrywiol gyllidebau.

**Morwrol a Pharciau Gwledig** - traethau a Hafan, Pwllheli yn rhagori ar dargedau incwm

**Cytundebau Byw'n Iach a Hamdden Eraill** - trosglwyddwyd y ddarpariaeth hamdden i Gwmni Byw'n Iach yn Ebrill 2019, ond fod cyfrifoldeb am gostau rhedeg yr eiddo yn aros efo'r Cyngor. Dros y blynyddoedd diwethaf bu i effaith Covid amharu ar incwm y cwmni. Bu i Lywodraeth Cymru eu digolledu am y golled yn 2020/21 a 2021/22 o'u cronfa caledi. Yn 2022/23 rhoddodd y Cyngor £550k o gefnogaeth ariannol i Byw'n Iach i'w galluogi i gynnal eu gwasanaethau. Mae'r gefnogaeth ariannol yn parhau eleni a'r swm gofynnol wedi lleihau i £375k.

Ymhellach, gorwariant o £70k ar gostau rhedeg eiddo Byw'n Iach.

**Llyfrgelloedd Gwynedd** - swydd wag a llai o wariant ar nifer o benawdau'r gyllideb.

**Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd** - gorwariant yn bennaf gan fod diffyg incwm yn faterion yn Neuadd Dwyfor ac yn Storiel.

**CYLLIDEB REFENIW 2023/24 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC (yn cynnwys Cefnffyrdd)** | Amcan Cyllideb 2023/24 | Amcan Sefyllfa 2023/24 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2023/24** | Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd) | 11,428 | 11,935 | 507 | | 507 | 954 |
| Gwasanaethau Peirianneg | 397 | 392 | (5) | | (5) | 117 |
| Gwasanaethau Bwrdeistrefol | 5,093 | 5,573 | 480 | | 480 | 426 |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | (365) | (349) | 16 | | 16 | (73) |
| Defnydd o Gronfeydd wrth gefn | | | 0 | | 0 | (300) |
| Cyfraniad gan Ymgynghoriaeth | | | 0 | | 0 | (73) |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2022/23 | | | 0 | | 0 | (2,434) |
| **Cyfanswm Priffyrdd, Peirianneg ac YGC** | **16,553** | **17,551** | **998** | **0** | **998** | **(1,383)** |

## Priffyrdd, Peirianneg ac YGC (gan gynnwys Cefnffyrdd)

**Gwasanaethau Priffyrdd** - llai o waith yn cael ei gomisiynu gan asiantaethau allanol ac felly yn cael effaith negyddol ar incwm.

**Gwasanaethau Peirianneg** - tanwariant ar amrywiol benawdau.

**Gwasanaethau Bwrdeistrefol** - darlun cymysg sydd yn gyfuniad o ffactorau, pwysau ychwanegol ar gyllidebau glanhau strydoedd a glanhau toiledau cyhoeddus. Colledion incwm cynnal tiroedd a thoiledau cyhoeddus, ond incwm yn uwch gan y gwasanaethau profedigaeth sydd yn lleihau'r gorwariant a adroddir.

**Ymgynghoriaeth Gwynedd** - rhagolygon o ddiffyg incwm gan sefydliadau allanol megis Cynghorau eraill a Llywodraeth Cymru ar wasanaethau ffyrdd a pheirianneg.

**CYLLIDEB REFENIW 2023/24 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Amgylchedd** | Amcan Cyllideb 2023/24 | Amcan Sefyllfa 2023/24 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2023/24** | Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth yr Adran | 770 | 753 | (17) | | (17) | 58 |
| Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu | 510 | 575 | 65 | | 65 | (128) |
| Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth | | | | | | |
| Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth) | 288 | 28 | (260) | | (260) | (380) |
| Parcio a Gorfodaeth Parcio | (2,043) | (1,901) | 142 | | 142 | 334 |
| Cludiant Integredig | 2,047 | 2,426 | 379 | | 379 | 375 |
| | 292 | 553 | 261 | 0 | 261 | 329 |
| Cefn Gwlad a Mynediad | 671 | 672 | 1 | | 1 | (1) |
| Gwarchod y Cyhoedd | 1,774 | 1,578 | (196) | | (196) | (252) |
| Gwastraff | 13,535 | 13,987 | 452 | | 452 | 1,410 |
| Defnydd o Gronfa Tanwariant yr Adran | 55 | | (55) | | (55) | |
| **Cyfanswm Amgylchedd** | **17,607** | **18,118** | **511** | **0** | **511** | **1,416** |

## Amgylchedd

**Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu -** diffyg incwm yn cael ei leihau gan danwariant ar gostau staff.

**Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth**
**Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth) -** yn rhagori ar yr incwm ffioedd gwaith stryd, ynghyd â swyddi gweigion a thanwariant ar nifer o benawdau'r gyllideb.

**Parcio a Gorfodaeth Parcio -** diffyg incwm parcio o £227k sydd yn cael ei leihau gan danwariant ar gyllidebau eraill.

**Cludiant Integredig -** gorwariant o £485k ar gytundebau bysus cyhoeddus, ond incwm uwch a thanwariant amrywiol yn lleihau'r gorwariant a adroddir. Awgrymir y dylid parhau efo'r adolygiad i'r ddarpariaeth Cludiant.

**Gwarchod y Cyhoedd -** swyddi gwag a llai o wariant ar nifer o benawdau'r gyllideb gan gynnwys samplau bwyd a dŵr, gwasanaethau a chyflenwadau.

**Gwastraff -** nifer o faterion yn gyfrifol am y gorwariant, ond yn bennaf ar gasglu gwastraff ac ailgylchu. Cylchdeithiau ychwanegol wedi arwain at orwariant ar gostau cyflogaeth a chostau fflyd. Lefelau salwch a goramser hefyd yn broblemus, tra fod na gostau ychwanegol o ran hurio cerbydau. Gorwariant ar gostau trin defnyddiau ailgylchu ond yr incwm ar werthiant defnyddiau ailgylchu yn rhagori'r gyllideb. Lleihad mewn gwastraff gweddilliol yn golygu fod y costau cysylltiedig yn is.

Yn dilyn y tueddiad gorwariant cynyddol yn y maes gwastraff dros y blynyddoedd diwethaf, bu i adolygiad allanol gael ei gomisiynu gan WRAP Cymru. Mae'r adroddiad a'r argymhellion ar ffyrdd i wella'r gwasanaeth eisoes dan ystyriaeth gan yr adran gyda chamau i ymateb i'r sefyllfa yn cael eu gweithredu.

Er mwyn lleihau y gorwariant a adroddir bwriad yr adran yw defnyddio eu cronfa tanwariant o £55k eleni.

**CYLLIDEB REFENIW 2023/24 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Tai ac Eiddo** | Amcan Cyllideb 2023/24 | Amcan Sefyllfa 2023/24 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2023/24** | Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 344 | 314 | (30) | | (30) | (32) |
| Gwasanaethau Tai | | | | | | |
| Digartrefedd | 4,968 | 6,523 | 1,555 | | 1,555 | 2,754 |
| Tai Sector Breifat | 387 | 429 | 42 | | 42 | (46) |
| Eraill | 240 | 157 | (83) | | (83) | (237) |
| | 5,595 | 7,109 | 1,514 | 0 | 1,514 | 2,471 |
| Gwasanaethau Eiddo | | | | | | |
| Eiddo | 4,104 | 4,083 | (21) | | (21) | 49 |
| Gofalu, Arlwyo a Glanhau | (31) | (33) | (2) | | (2) | (6) |
| | 4,073 | 4,050 | (23) | 0 | (23) | 43 |
| Darpariaeth Un-tro Covid Corfforaethol | 1,400 | | (1,400) | | (1,400) | |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2022/23 | | | 0 | | 0 | (2,482) |
| **Cyfanswm Tai ac Eiddo** | **11,412** | **11,473** | **61** | **0** | **61** | **0** |

## Tai ac Eiddo

**Digartrefedd** - y tueddiad o bwysau sylweddol ar y gwasanaeth Llety Dros Dro yn parhau i fod yn ddwys iawn gyda chostau cyfartalog uwch gan fod argaeledd llety dros dro yn y sir wedi cyrraedd ei gapasiti. Eleni dyrannwyd cyllideb ychwanegol o £3m o bremiwm treth cyngor i gynorthwyo gyda'r pwysau ychwanegol.

**Tai Sector Breifat** - diffyg yn yr incwm grant cyfleusterau i'r anabl.

**Gwasanaethau Tai, Eraill** - tanwariant ar gostau staff a chwtogi ar wariant.

**Gwasanaethau Eiddo -** swyddi gwag yn Eiddo sydd yn lleddfu'r gorwariant ar wasanaethau a chyflenwadau ac ar gostau cerbydau yn Difa Pla.

**Darpariaeth un-tro Covid Corfforaethol** - dyraniad o £1.4m un-tro i gyfarch y costau ychwanegol yn ymwneud â Digartrefedd.

| CYLLIDEB REFENIW 2023/24 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adrannau Canolog** | Amcan Cyllideb 2023/24 | Amcan Sefyllfa 2023/24 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2023/24** | Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2022/23 |
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 2,688 | 2,725 | 37 | | 37 | (17) |
| Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) | 7,781 | 7,883 | 102 | | 102 | (10) |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 7,635 | 7,697 | 62 | | 62 | (16) |
| **Cyfanswm Adrannau Canolog** | **18,104** | **18,305** | **201** | **0** | **201** | **(43)** |

## Adrannau Canolog

**Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol -** pwysau ychwanegol o £62k ar elfen Gwynedd o gyllideb y Crwner, penodiadau diweddar yn Cyfreithiol wedi arwain at lai o ddefnydd o gyfreithwyr asiantaeth ac felly rhagwelir tanwariant o (£17k).

**Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) -** costau bancio yn gorwario £115k wrth i fwy o daliadau gan gwsmeriaid gael eu gwneud trwy ddefnyddio cardiau ac felly'r ffioedd banc cysylltiedig yn daladwy gan y Cyngor. Costau un-tro pellach o £50k i brynu offer i gydymffurfio â gofynion safonau diolgelwch data y diwydiant cardiau talu ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor. Y gorwariant yn cael ei leihau gan swyddi gwag,

**Cefnogaeth Gorfforaethol -** cyfuniad o resymau yn gyfrifol am y sefyllfa gan gynnwys mân orwariant mewn rhai meysydd, pwysau cynyddol ar y gyllideb cwnsela gyda gorwariant o £36k yn cael ei ragweld. Rhagolygon o ddiffyg incwm o £22k yn yr Argraffdy.

| CYLLIDEB REFENIW 2023/24 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau)** | Amcan Cyllideb 2023/24 | Amcan Sefyllfa 2023/24 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2023/24** | Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2022/23 |
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Treth Cyngor | * | * | (151) | | (151) | 0 |
| Gostyngiadau Treth Cyngor | * | * | (984) | | (984) | 0 |
| Costau Cyfalaf | * | * | (200) | | (200) | 0 |
| Derbyniad Llog | * | * | (1,833) | | (1,833) | 0 |
| Pwysau Chwyddiant Tâl Uwchlaw'r Gyllideb | * | * | 1,495 | | 1,495 | 0 |
| Darpariaeth Arbedion | * | * | 0 | | 0 | 0 |
| Eraill | * | * | (1,602) | | (1,602) | 0 |
| **Cyfanswm Corfforaethol** | * | * | **(3,275)** | **0** | **(3,275)** | **0** |

## Corfforaethol

**Treth Cyngor** - lleihad yn y rhagamcanion yn dilyn i nifer o ail gartrefi premiwm ostwng, gyda 166 yn llai erbyn Awst o'i gymharu â diwedd Mawrth 2023. Ymhellach, bu i Swyddfa'r Prisiwr ganiatau 67 eiddo i drosglwyddo o dreth cyngor i drethi annomestig (452 yn 2022/23, 469 yn 2021/22, 506 yn 2020/21). Yn 2023/24 mae £6m o bremiwm treth cyngor wedi ei neilltuo ar gyfer y Strategaeth Dai a £3m pellach ar gyfer y maes Digartrefedd.

**Gostyngiadau Treth Cyngor** - gosod amcangyfrifon darbodus a lleihad pellach yn y niferoedd sydd yn hawlio'r gostyngiad yng Ngwynedd o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.

**Costau Cyfalaf** - effaith y polisi rheolaeth trysorlys presennol sydd yn golygu fod modd osgoi benthyca yn allanol, felly yn osgoi costau cysylltiedig.

**Derbyniad Llog** - y cynnydd diweddar mewn cyfraddau llog yn golygu fod y rhagolygon derbyniad llog yn rhagori'r gyllideb ddisgwyliedig.

**Pwysau Chwyddiant Tâl Uwchlaw'r Gyllideb** - unwaith eto eleni mae oediad mewn cadarnhau y cynnydd cenedlaethol i gyflogau gweithwyr Llywodraeth Leol. Rhagwelir y bydd y cynnydd uwchlaw'r gyllideb a ystyriwyd i fod yn ddarbodus ar y pryd.

**Darpariaeth Arbedion** - yn dilyn anallu rhai adrannau i wireddu arbedion mewn rhai meysydd, darpariaeth gorfforaethol wedi ei wneud i'r pwrpas sydd wedi ei ddyrannu yn llwyr i ddileu arbedion problemus.

**Eraill -** y pwysau ar rai cyllidebau gan gynnwys y gyllideb trydan ddim cymaint a'r hyn a ddarparwyd.

**Argymhellir** fod y tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol, sef (£3,275k) yn mynd i'r Gronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol i gynorthwyo i gyllido'r bwlch ariannol sydd yn wynebu'r Cyngor.

Er ei bod hi'n gynamserol i drosglwyddo arian o gronfeydd hyd nes bydd y sefyllfa ariannol yn derfynol ar ddiwedd y flwyddyn, **argymhellir** mai'r drefn o ran defnyddio'r cronfeydd i gyllido'r bwlch ariannol bryd hynny fydd defnyddio:
- yn gyntaf, £3,800k o'r gronfa adfer yn sgil Covid a sefydlwyd i gyllido heriau ariannol.
- gyda'r gweddill yn cael ei gyllido o Gronfa Strategaeth Ariannol y Cyngor.

**CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Rhaglen Gyfalaf 2023/24 –<br>Adolygiad Diwedd Awst (sefyllfa 31 Awst 2023) |
| **Aelod Cabinet:** | Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid |
| **Swyddog perthnasol:** | Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 7 Tachwedd 2023 |

1. **Penderfyniad a Geisir:**
   - Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst (sefyllfa 31 Awst 2023) o'r rhaglen gyfalaf.
   - Cymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 3.2.3 o'r adroddiad, sef:
     - defnydd o amryw ffynonellau i ariannu gwir lithriadau gwerth cyfanswm o £17,421,000 o 2022/23
     - lleihad o £1,836,000 mewn defnydd o fenthyca
     - cynnydd o £61,991,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
     - lleihad o £9,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
     - cynnydd o £991,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
     - cynnydd o £194,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.

2. **Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor. Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf. Y Cabinet sydd wedi'u hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3.2.2) a'i ariannu (rhan 3.2.3).

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2023/24 – 2025/26.

3. **Cyflwyniad a Rhesymeg**

**3.1 Cefndir/ Cyflwyniad**

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o'r drefn adolygu cyllideb 2023/24. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhan 3.2.2 a rhan 3.2.3 o'r adroddiad, gyda'r argymhellion yn rhan 1:

- Rhan 3.2.2: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £178.572m am y 3 blynedd 2023/24 – 2025/26.
- Rhan 3.2.3: Ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £78.752m ers y gyllideb agoriadol, gyda £17.421m o'r cynnydd oherwydd llithriadau o 2022/23 (adroddwyd eisoes fel rhan o'r llithriadau yn adolygiad diwedd blwyddyn ar 13 Mehefin 2023).
- Rhan 3.2.4: Manylder grantiau ychwanegol ers sefydlu'r gyllideb wreiddiol.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

**3.2 Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad**

**3.2.1 Prif Gasgliadau**

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw:

• Fod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £107.3m yn 2023/24 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £42.8m (40%) ohono wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.

• Mae effaith heriau ariannol diweddar yn parhau ar y rhaglen gyfalaf ac i'w weld yn y ffigyrau a adroddir yn Atodiad C, gyda £11.5m sef 11% o'r gyllideb wedi ei wario hyd at ddiwedd Awst eleni, o'i gymharu â 11% dros yr un cyfnod flwyddyn yn ôl a 16% ddwy flynedd yn ôl.

• Mae £12.5m ychwanegol o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2023/24 i 2024/25 a 2025/26, ond ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

### 3.2.2 Rhaglen Gyfalaf 2023/24 i 2025/26

Gweler isod y rhaglen gyfalaf arfaethedig ddiwygiedig ar ddiwedd Awst 2023.

| ADRAN | ADOLYGIAD DIWEDD AWST | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS Y GYLLIDEB | ADDASIAD LLITHRIAD | NEWIDIADAU ERAILL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | CYFANSWM | | | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Addysg | 21,167 | 9,593 | 40 | 30,800 | 9,706 | 7,249 | 2,457 |
| Amgylchedd | 7,473 | 3,181 | 775 | 11,429 | 4,200 | 1,235 | 2,965 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | - | - | - | - | - | - | - |
| Cyllid | 2,189 | 618 | 498 | 3,305 | 447 | 197 | 250 |
| Economi a Chymuned | 30,965 | 28,025 | - | 58,990 | 57,606 | 711 | 56,895 |
| Tai ac Eiddo | 25,791 | 10,181 | 7,130 | 43,102 | 979 | 2,961 | (1,982) |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 4,087 | 2,838 | - | 6,925 | 2,601 | 2,578 | 23 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 355 | 200 | - | 555 | 305 | 466 | (161) |
| Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth | 11,659 | 3,587 | 2,011 | 17,257 | 4,850 | 1,901 | 2,949 |
| Corfforaethol | 3,586 | 2,123 | 500 | 6,209 | (1,942) | 123 | (2,065) |
| **CYFANSWM** | **107,272** | **60,346** | **10,954** | **178,572** | **78,752** | **17,421** | **61,331** |

### 3.2.3 Newidiadau i'r Ffynonellau Ariannu

Mae cynnydd o £78.752m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf dair blynedd ers sefyllfa'r gyllideb wreiddiol. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ar gyfer hyn:

| ARIANNU | ADOLYGIAD DIWEDD AWST | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS Y GYLLIDEB | ADDASIAD LLITHRIAD | NEWIDIADAU ERAILL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2023/24 £'000 | 2024/25 £'000 | 2025/26 £'000 | CYFANSWM £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 8,233 | 8,233 | 6,610 | 23,076 | (1,834) | - | (1,834) |
| Benthyca Arall | 10,340 | 3,137 | 2,880 | 16,357 | 198 | 200 | (2) |
| Grantiau a Chyfraniadau | 42,752 | 34,975 | - | 77,727 | 65,274 | 3,283 | 61,991 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 246 | - | - | 246 | 52 | 61 | (9) |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 2,376 | 79 | - | 2,455 | 1,304 | 313 | 991 |
| Cronfa Cyfalaf | 19,116 | 3,793 | 40 | 22,949 | 9,515 | 9,515 | - |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 24,209 | 10,129 | 1,424 | 35,762 | 4,243 | 4,049 | 194 |
| **CYFANSWM** | **107,272** | **60,346** | **10,954** | **178,572** | **78,752** | **17,421** | **61,331** |

### 3.2.4 Grantiau Ychwanegol

Ers sefydlu'r gyllideb wreiddiol, ddiwedd Mawrth, llwyddodd y Cyngor i ddenu grantiau ychwanegol o £62,080k a rhestrir y rhai mwyaf isod. Mae nifer o addasiadau ychwanegol gan gynnwys lleihad ar gynlluniau oedd yn is na'r amcan gwreiddiol yn dod â chyfanswm y symudiad i £61,981k (gweler Atodiad A am fwy o fanylion) :

- £36,888k Grant Cronfa Ffyniant Gyffredin gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i'w ddosrannu ar draws siroedd gogledd Cymru
- £16,725k Grant Cronfa Ffyniant Bro gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i'w ddosrannu ar draws siroedd gogledd Cymru
- £3,004k Grantiau o'r Gronfa Trafnidiaeth Lleol (LTF) a'r Gronfa Teithio Llesol (ATF) gan Lywodraeth Cymru
- £1,260k Grant Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – Defnydd Cymunedol Ysgolion 2023-2025
- £1,136k Grant Llywodraeth Cymru tuag at gynlluniau gwledig
- £894k Grant Cyfalaf Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) 2023-24
- £805k Grant Llywodraeth Cymru tuag at gynlluniau atal llifogydd ac amddiffyn yr arfordir
- £470k Grant Cyfalaf Diogelwch y Ffyrdd – cynlluniau 20 milltir yr awr

- £348k    Amrywiol grantiau tuag at gynlluniau yn y maes Adfywio, Morwrol a Pharciau Gwledig
- £203k    Grant Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – addasu ac ychwanegu amrywiol gynlluniau
- £100k    Grant Her Ysgolion Cynaliadwy – Ysgol Bontnewydd

**3.3 Camau nesaf**

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

## 4. Sylwadau Swyddogion Statudol

**4.1 Prif Swyddog Cyllid**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

**4.2 Swyddog Monitro**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Rhestr Atodiadau:**

Atodiad A - Manylion y Prif Newidiadau

Atodiad B - Manylion Ail-broffilio

Atodiad C - Gwariant 5 mis cyntaf 2023/24

**Rhestr Dogfennau Cefndir:**

Cyllideb 2023-2024 : Cyllidebau Blynyddol (llyw.cymru)

**ATODIAD A**

**Manylion y Prif Newidiadau**

Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynonellau ariannu ers y gyllideb wreiddiol:

| | 2023/24<br>£'000 | 2024/25-2025/26<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Benthyca** | | |
| • Cywiro'r dybiaeth bod arian tuag at Dadgarboneiddio yn rhan o'r setliad *(Corfforaethol).* | (917) | (917) |
| **Grantiau a Chyfraniadau** | | |
| • Grant Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – addasu ac ychwanegu amrywiol gynlluniau e.e. Ysgol Chwilog *(Adran Addysg).* | 203 | |
| • Grant Cyfalaf Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) 2023-2024 *(Adran Addysg).* | 894 | |
| • Grant Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – Defnydd Cymunedol Ysgolion 2023-2025 *(Adran Addysg).* | 455 | 805 |
| • Rhan cychwynnol o'r Grant Her Ysgolion Cynaliadwy tuag at Ysgol Bontnewydd *(Adran Addysg).* | 100 | |
| • Amrywiol grantiau tuag at gynlluniau yn y maes Adfywio, Morwrol a Pharciau Gwledig *(Adran Economi a Chymuned).* | 348 | |
| • Grant Cronfa Ffyniant Bro gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig – telir swm i Gyngor Gwynedd i'w ddosrannu ar draws siroedd gogledd Cymru *(Adran Economi a Chymuned).* | 5,106 | 11,619 |
| • Grant Cronfa Ffyniant Gyffredin gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig – telir swm i Gyngor Gwynedd i'w ddosrannu ar draws siroedd gogledd Cymru *(Adran Economi a Chymuned).* | 20,482 | 16,406 |
| • Grant cyfalaf Dechrau'n Deg a Gofal Plant gan Lywodraeth Cymru *(Adran Plant a Theuluoedd).* | 54 | |

| | | |
|---|---|---|
| • Cronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF) – grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addasiadau sefydliadau a hwyluso gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant).* | 19 | |
| • Grant Llywodraeth Cymru tuag at gynlluniau atal llifogydd ac amddiffyn yr arfordir (*Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth).* | 805 | |
| • Grant Cyfalaf Diogelwch y Ffyrdd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau 20 milltir yr awr *(Adran Amgylchedd).* | 470 | |
| • Grantiau o'r Gronfa Trafnidiaeth Lleol (LTF) a'r Gronfa Teithio Llesol (ATF) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau *(Adran Amgylchedd).* | 3,004 | |
| • Grant Llywodraeth Cymru tuag at gynlluniau gwledig *(Adran Amgylchedd).* | 737 | 399 |
| • Grant Llywodraeth Cymru tuag at gynlluniau gwefru cerbydau trydan *(Adran Amgylchedd).* | 51 | |
| • Grant Llywodraeth Cymru tuag at isadeiledd sbwriel *(Adran Amgylchedd).* | 79 | |
| • Addasu Grant Sipsiwn a Theithwyr gan Lywodraeth Cymru tuag at Safle Sipsiwn Llandygai – y cynllun wedi dod i ben *(Adran Tai ac Eiddo).* | (99) | |
| • Grant Cynllun Lesu Cymru gan Lywodraeth Cymru yn y maes Tai *(Adran Tai ac Eiddo).* | 44 | |
| **Derbyniadau Cyfalaf** | | |
| • Addasu cyfraniadau tuag at amrywiol gynlluniau yr Adran Economi gan gynnwys Ail wynebu Maes Parcio Y Glyn Llanberis a Neuadd Dwyfor *(Adran Economi a Chymuned).* | (8) | |
| **Refeniw Adrannol a Chorfforaethol** | | |
| • Cynyddu'r angen am gyfraniad refeniw'r Adran Tai ac Eiddo tuag at gynlluniau Cynnal a Chadw sydd bellach yn gyfalaf o ran natur *(Adran Tai ac Eiddo).* | 1,000 | |

| | |
|---|---|
| **Cronfa Cyfalaf** | |
| • Trosglwyddo adnoddau cyfalaf glustnodwyd tuag at Ganolfan Integredig Maesgeirchen sydd heb ei ddefnyddio yn ôl - i'w ddyrannu eto yn y man *(Adran Plant a Theuluoedd; Corfforaethol).* | (216)<br>216 |
| **Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill** | |
| • Cyfraniadau cyfatebol/ychwanegol tuag at amrywiol gynlluniau *(Adran Economi a Chymuned).* | 31 |
| • Addasu ariannu cynllun Goleuadau Stryd – cynllun wedi ei gwblhau *(Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth).* | (189) |
| • Adnewyddu Cerbydau ac Offer *(Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth; Adran Amgylchedd).* | 102 |
| • Adnewyddu Offer Technoleg Gwybodaeth *(Adran Cyllid).* | 250 |

----------------------------

**ATODIAD B**

**Manylion Ail-broffilio'r Gyllideb**

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi eu hail-broffilio ers y gyllideb wreiddiol:

| | 2023/24<br>£'000 | 2024/25 - 2025/26<br>£'000 |
|---|---|---|
| Cynlluniau Ysgolion (Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ac Eraill) *(Adran Addysg)* | (5,743) | 5,743 |
| Cynlluniau Hamdden *(Adran Economi a Chymuned)* | 150 | (150) |
| Cynllun Canolfan Integredig Maesgeirchen *(Adran Plant a Theuluoedd)* | (200) | 200 |
| Hwb Iechyd a Gofal Penygroes *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)* | (1,500) | 1,500 |
| Cynlluniau Sefydliadau Preswyl, Gofal Dydd ac eraill yn y maes Oedolion *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)* | (1,338) | 1,338 |
| Rhaglen Atal Dirywiad Ffyrdd *(Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth)* | 1,000 | (1,000) |
| Cynlluniau Atal Llifogydd *(Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth)* | (933) | 933 |
| Cynlluniau Trafnidiaeth, Gwelliannau Trefol a Chynlluniau Gwledig *(Adran Amgylchedd)* | (309) | 309 |
| Meysydd Parcio - Ail wynebu, Pwyntiau Gwefru ayyb *(Adran Amgylchedd)* | (148) | 148 |
| Systemau TG arbenigol Adran Amgylchedd *(Adran Amgylchedd)* | (48) | 48 |
| Cynlluniau Addasiadau i'r Anabl a Swyddfeydd *(Adran Tai ac Eiddo)* | (143) | 143 |
| Cynlluniau Rheoli Carbon a Phaneli Solar y Cyngor *(Adran Tai ac Eiddo)* | (2,750) | 2,750 |
| Cynlluniau Gwaredu Asbestos *(Adran Tai ac Eiddo)* | (580) | 580 |

**Noder:**

Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.

Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau presennol heb eu gwella.

**ATODIAD C**

**Gwariant Cyfalaf 5 Mis Cyntaf 2023/24**

| CRYNODEB | RHAGLEN GYFALAF BLWYDDYN LAWN (adolygwyd Awst) 2023/24 £'000 | GWIR WARIANT 5 MIS HYD AT 31/08/2023 £'000 |
|---|---|---|
| Addysg | 21,167 | 3,694 |
| Amgylchedd | 7,473 | 636 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | - | - |
| Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) | 2,189 | 74 |
| Economi a Chymuned | 30,965 | 2,117 |
| Tai ac Eiddo | 25,791 | 2,987 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 4,087 | 92 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 355 | 63 |
| Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth | 11,659 | 1,794 |
| Corfforaethol | 3,586 | - |
| **CYFANSWM** | **107,272** | **11,457** |

**Noder:**
Mae’r gyfran sydd wedi’i wario eleni (11%) yn debyg i’r sefyllfa adeg yma'r llynedd (gwariant 5 mis 2022/23 yn 11%), ac yn is na dwy flynedd yn ôl (16% yn 2021/22).

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

**Dyddiad y cyfarfod: 7 Tachwedd 2023**

**Aelod Cabinet: Cynghorydd Dyfrig Siencyn a Cynghorydd Nia Jeffreys**

**Swyddog Cyswllt: Sioned Williams**

**Rhif Cyswllt: 01286 679547**

**Pwnc: ADRODDIAD HERIO PERFFORMIAD AELODAU CABINET ECONOMI A CHYMUNED**

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru ein cyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr ydym yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelodau Cabinet Economi a Chymuned. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

**2. PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2023-2028 (Blaenoriaethau Gwella)**

2.1 Mae'r tabl yn ATODIAD 1 yn rhoi diweddariad ar gynnydd tri prosiect blaenoriaeth yr Adran sydd wedi cael eu hadnabod yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 dan adran **Gwynedd Lewyrchus - Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng.**

2.2 O'r wybodaeth yma, fe nodwch fod yr Adran wedi gwneud cynnydd da yn erbyn prif gerrig milltir blwyddyn gyntaf y Cynllun, 2023/24.

**3. PERFFORMIAD GWASANAETHAU'R ADRAN**

3.1 Mae Dashfwrdd Perfformiad yr Adran yn cael ei adolygu yn rheolaidd. Cafwyd cyfle i graffu perfformiad y gwahanol wasanaethau mewn cyfarfod arbennig 27 Medi a hoffem dynnu sylw Aelodau'r Cabinet i'r materion canlynol:

**Gwasanaeth Adnoddau Hamdden**

3.2 Yn ogystal â rheoli parciau gwledig, mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol am reoli a monitro cytundeb Cyngor Gwynedd gyda Cwmni Byw'n Iach i ddarparu gwasanaeth yn ein canolfannau hamdden, hyrwyddo chwaraeon, gweithgareddau actif a byw'n iach. Mae Adroddiad Monitro chwarter 2 Cwmni Byw'n Iach yn dangos fod y perfformiad wedi bod yn gadarnhaol ers dechrau'r flwyddyn ac uwchben yr hyn oedd wedi cael ei ddarlunio fel y scenario gorau yn y Cynllun Busnes gafodd ei gyflwyno i'r Cyngor nol ym mis Chwefror 2023. Fel arwydd cyffredinol, erbyn diwedd chwarter 2 eleni gwelwyd 434,000 o ymweliadau â'r canolfannau, sydd yn gynnydd o 45,000 i gymharu â chwarter 2 llynedd. Rydym bellach yn amcangyfrif diffyg ar ddiwedd y flwyddyn o £346k i gymharu â £551k ar ddiwedd 2022/23. Mae'r diffyg sydd yn cael ei rhagweld tua £90k yn well na'r hyn oedd wedi cynnwys fel y scenario gorau yn y Cynllun Busnes. Mae hyn hefyd yn welliant o £30k i gymharu efo Adroddiad Monitro chwarter 1.

3.3 Mae'r llif incwm wedi ail adeiladu'n gynt mewn rhai meysydd na'i gilydd. Mae nofio'n gyffredinol yn faes sydd wedi gweld adferiad cryf ac mae gwaith wedi cael ei gyflawni ar draws y sir i gynyddu'r lefel incwm o wersi nofio i'w lefel uchaf erioed. Ar hyn o bryd mae nifer y plant sydd yn derbyn gwersi nofio 16% yn uwch na'r lefel cyn Covid. Mae hyn wedi bod yn bosib ar sail y lefel uchel o alw sydd wedi deillio o'r blynyddoedd Covid yn ogystal ag ymdrechion sylweddol gan y cwmni i recriwtio a hyfforddi athrawon nofio newydd.

3.4 Mae incwm ffitrwydd yn parhau i gynyddu o flwyddyn i flwyddyn hefyd ac yn dilyn patrwm tymhorol arferol y sector. Ond mae twf yn y sector yma yn ddibynnol ar fuddsoddiad sylweddol yn yr offer ffitrwydd dros y blynyddoedd nesaf.

3.5 Erbyn hyn mae'r lefel aelodaeth yn 86% o'r lefel cyn Covid (i gymharu â 75% yr amser yma llynedd). Pan gaewyd y canolfannau ym mis Mawrth 2020 roedd lefel yr aelodaeth trwy Ddebyd Uniongyrchol ar ei lefel uchaf erioed ac wedi codi yn sgil buddsoddiad sylweddol mewn offer newydd. Roedd y lefel yna wedi cyrraedd yn sgil twf blynyddol, dros gyfnod o ddegawd. Arweiniodd y pandemig i derfynu'r taliadau rheolaidd a chynnig cyfle i aelodau benderfynu os oedden nhw am barhau'n aelodau'n syth wrth ail agor. Roedd canran o'r boblogaeth yn naturiol yn bryderus ar y pwynt yna ac wedi penderfynu atal eu cytundebau, o leiaf dros dro ac nid oedd yn bosib ail-ennill y cwsmeriaid hyn yn syth. Mae rhagolygon yn dangos bydd nifer cwsmeriaid wedi ei adfer yn 2024/25.

3.6 Mae'r Cwmni'n parhau i weithio'n galed i adfer, ond mae hefyd yn bwysig nodi fod sawl her yn parhau, gan gynnwys yr argyfwng costau byw. Mae hyn yn gwasgu gallu trigolion lleol i wario ar wasanaethau nad ydynt yn angenrheidiol, megis hamdden. Mae'r twf sydd wedi digwydd hyd yma, wedi gwireddu yn ystod cyfnod heriol tu hwnt i aelwydydd ac i'r sector.

3.7 Mae chwyddiant cyflogau yn y sector cyhoeddus a thu hwnt yn her ychwanegol. Yn draddodiadol mae'r gwasanaeth wedi codi ffioedd i gau'r bwlch ar gyfer chwyddiant cyflogau. Ond yn sgil y cynnydd mewn costau byw, mae'r gallu i godi ffioedd heb eithrio carfannau allweddol o gwsmeriaid yn fwy anodd.

**Gwasanaethau Morwrol, Hafan Pwllheli a Doc Fictoria Caernarfon.**

3.8 Mae holiaduron boddhad cwsmer newydd ar gyfer defnyddwyr harbyrau a traethau Gwynedd wedi eu paratoi ac roeddent yn weithredol o fis Gorffennaf 2023. Lleolwyd dros 200 o arwyddion gyda chodau QR ar gyfer mynediad cyflym i'r holiaduron mewn mannau strategol er ceisio annog defnyddwyr i'w cwblhau.

**Harbyrau** - mae nifer o gwsmeriaid gyda chytundeb angorfa yn ein harbyrau eleni 4% yn uwch nac yn 2022, sef cynnydd o 240 i 250 (ddim yn cynnwys Pwllheli a Caernarfon), gyda'r cynnydd mwyaf yn harbwr Abermaw (11+). Roedd 89% o ymatebwyr holiadur boddhad cwsmer harbyrau o'r farn fod eu profiad yn 'Dda Iawn' (56%) neu Dda (33%)gyda mwyafrif yn nodi fod harbyrau yn lan a thaclus a bod y staff yn glên, proffesiynau a gwybodus. Doedd neb o'r farn fod y gwasanaeth yn 'wael' neu'n 'wael iawn', ond cafwyd adborth da ar ddigwyddiadau penodol a gwelliannau sydd ei angen i strwythurau megis cyflwr swyddfa harbwr Aberdyfi.

**Traethau** - roedd 75% o'r ymatebwyr o'r farn fod eu profiad o'r traethau yn 'Dda Iawn' (59%) neu'n 'Dda' (16%), ac o'r 177 ymatebodd, nododd 30% fod wardeiniaid traethau yn gymwynasgar, proffesiynol a gwybodus. Derbyniwyd sylwadau cadarnhaol hefyd am ddiogelwch y traethau, yn benodol rheolaeth effeithiol o fadau pŵer, hygyrchedd, glendid ac ansawdd dwr ymdrochi. Ond nododd rhai fod baw cwn ar draethau yn broblemus, fod diffyg darpariaeth biniau ysbwriel mewn rhai safleoedd a bod angen gwella ansawdd glendid a chyflwr rhai toiledau cyhoeddus. Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn bod y traethau yn 'rhy brysur' gyda nifer yn nodi bod gormod o 'jet sgis' yn ein cyrchfannau (traeth Abersoch yn bennaf). Cofrestrwyd 1509 o fadau dwr gyda'r Cyngor eleni, sydd 129 yn uwch na chyfanswm 2022.

**Hafan Pwllheli a Doc Fictoria** – Mae 100% angorfeydd Hafan Pwllheli a Doc Fictoria yn llawn. Mae werth nodi fod cynnydd mewn costau byw wedi arwain at nifer o gwsmeriaid ym Mhwllheli ganslo eu cytundeb ar gyfer y flwyddyn nesaf gan nodi eu penderfyniad i roi gorau i hwylio. Er bod rhestr aros yn gryf ar hyn o bryd, mae nifer wedi bod yn tynnu eu henwau oddi ar y rhestr wrth gefn a byddwn yn monitro'r sefyllfa yma yn ofalus. Byddwn yn adrodd i'r Cabinet ymhellach dros y misoedd nesaf ar ofynion buddsoddi hirdymor sydd ei angen ar yr Hafan a Doc Fictoria dros y blynyddoedd nesaf i sicrhau diogelwch a hyfywdra'r gwasanaeth.

**Archifau**

3.9 Ar gyfartaledd yn ystod y cyfnod o fis Mehefin i fis Awst roedd 92% o ddefnyddwyr y gwasanaeth yn 'Fodlon Iawn' gyda'r Gwasanaeth, 4% o ddefnyddwyr yn 'Fodlon' a nododd 2% o ddefnyddwyr nad oeddent yn fodlon nac anfodlon, a 2% 'Nad oeddent yn Fodlon'. Roedd y rhesymau yn deillio yn bennaf o'r ffaith fod yr Archifdy wedi bod ar gau am gyfnodau helaeth yn sgil gwaith trydanol a fod gwasanaeth cyfyngedig wedi bod ar gael yn ystod y cyfnod. Ond roedd hefyd faterion yn codi o geisiadau defnyddwyr i dynnu lluniau o ddeunydd archifol a'r oblygiadau hawlfraint – mae'r gwasanaeth wedi ymateb ac yn gobeithio gallu caniatáu hyn cyn diwedd yr Hydref.

**Amgueddfeydd a'r Celfyddydau**

3.10 Bu Amgueddfa Lloyd George ar gau tan ddiwedd Gorffennaf 2023 oherwydd y gwaith trwsio ar ôl y llifogydd. Mae hyn wedi effeithio ar nifer ymweld ac hefyd ar yr adborth o'r gwasanaeth. Mae'r Theatr yn parhau ar gau a ddim ar gael i'w llogi/defnyddio. Mae gwaith buddsoddi pellach yn cael ei baratoi ar gyfer y safle ar gyfer 2024/25.

3.11 Byddwn yn adolygu cynllun busnes Storiel dros y misoedd nesaf ac yn cydweithio yn agos gyda Prifysgol Bangor i weld sut gallwn gryfhau’r berthynas, yn enwedig yn y cynnig bwyd a diod ac wrth farchnata’r adnodd i gynulleidfa newydd.

**Llyfrgelloedd**

3.12 Mae perfformiad benthyciadau Ebrill-Awst eleni yn gyfatebol uwch na ffigyrau llynedd gyda 125,220 o fenthyciadau o'u cymharu â 122,453 yn 22/23. Mae cynnydd hefyd yn ffigyrau defnyddwyr actif yn Awst eleni sef 6481 o'u cymharu â 6015 yn Awst 2022. Mae hyn yn rhannol oherwydd ymdrechion i drefnu cyfres o weithgareddau wedi'u hanelu at blant a theuluoedd yn ystod cyfnod gwyliau'r haf.

3.13 Yn ogystal a rhedeg y Sialens Ddarllen Haf, cynigwyd 68 o weithgareddau am ddim ym mhob un o'r 13 llyfrgell, yn ogystal a darparu 7 o weithgareddau ym mhabell y Cyngor yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan. Rydym hefyd yn dosbarthu nwyddau mislif (gellir eu gail-ddefnyddio) am ddim ac ers Ebrill eleni, rydym wedi dosbarthu 1370 o eitemau i ferched ar draws y sir, gyda'r mwyafrif yn cael eu cludo i'r cartref trwy ein system ddosbarthu uniongyrchol.

3.14 Un peth arwyddocaol rydym wedi sylwi arno yn y misoedd diwethaf (Mai-Awst) yw tri sylw gwahanol yn diolch i'r Gwasanaeth Llyfrgell ac i staff y gwasanaeth yn benodol, sy'n cyfeirio at effaith cadarnhaol mae ymweld a'r llyfrgell a chael y gefnogaeth gan staff, wedi ei wneud i lesiant a iechyd meddwl yr unigolion. Roedd y tri sylw a gaed yn deimladwy, a'r tair wedi bod trwy gyfnodau heriol ac anodd yn eu bywydau.

3.15 Rhwng Ebrill-Gorffennaf, darparwyd 200 o sesiynau Cymorth Digidol 1:1 ar gais trigolion Gwynedd. Rydym yn parhau i aros am benderfyniad ar gais grant Economi Gylchol i ganiatáu i gynllun Petha (Llyfrgell y Pethau) ail-gychwyn yn y Llyfrgelloedd. Nes daw penderfyniad, ni ellir trosglwyddo cyfrifoldeb am endid Petha i Benthyg Cymru, sy'n angenrheidiol o safbwynt ystyriaethau diogelu data ac yswiriant.

3.16 Cynhelir arolygon bodlonrwydd bum gwaith y flwyddyn gan samplo mewn gwahanol lyfrgelloedd. Yn 22/23 roedd 97% o ddefnyddwyr a holwyd yn ‘hollol fodlon’ ar y gwasanaeth roeddynt yn dderbyn. Yn arolwg Mehefin a Medi eleni, cafwyd bod 99% yn ‘hollol fodlon’. Derbyniwyd y sylw isod yn ddiweddar:
*‘I live in Bangor, and have no computer, so the library in Bangor is very important to me. The response from staff is always the same – “leave it with us” and they always get it done. I rely on the book delivery service. I would like you to pass on my comments to everyone – the staff but also Councillors and those high up in the Council. We need more people who enjoy their job and appreciate what they do. Whenever I phone they are always helpful and it’s these small things that make a huge difference. Books have given me so much joy and reading is important to me. Without people like those working in libraries, the whole system [societal] would collapse – it really would.’*

**Neuadd Dwyfor**

3.17 Ers Ebrill eleni, yn ddibynnol ar y sampl a holwyd, mae'r gyfradd bodlonrwydd yn amrywio o 78% (Mai) i'r uchaf 94% (Mehefin ac Awst). Cafwyd cyfradd ymateb ardderchog ym mis Awst gan 160 defnyddiwr a chafwyd wythnos lwyddiannus iawn yn ystod wythnos yr Eisteddfod.

3.18 Mae'r sylwadau canmoliaethus yn nodi fod defnyddwyr at ei gilydd yn hapus gyda'r gofal cwsmer, amrywiaeth o fewn y rhaglen a'r gwelliannau a wnaed i'r adeilad yn gyffredinol. Maent wedi mwynhau'r profiad o ymweld a Neuadd Dwyfor. Ambell waith ceir sylw negyddol am iddynt beidio a mwynhau y sioe neu'r ffilm, ond ni allwn wneud dim am hynny! Fodd bynnag, mae'r sylwadau negyddol at ei gilydd yn cyfeirio at:

- Trafferthion gyda thocynnau neu archebu – byddwn yn edrych ar rhain mewn mwy o fanylder
- Ymddygiad swnllyd neu sy'n tarfu gan ddefnyddwyr eraill
- Seddi anghyfforddus - yn anffodus, roedd hwn yn rhan o waith a wnaed yn ystod y prosiect gwella.

**4. SEFYLLFA ARBEDION**

4.1 Mae gan yr Adran gynllun oedd i fod i greu arbedion o £100,000 rhwng 2022/23 – 2024/25, sef cynllun ail fodelu Neuadd Dwyfor. Bu i'r argyfwng Covid-19 arwain at oediad mewn gwireddu gwaith datblygu yn y Neuadd. Gyda’r gwaith adnewyddu yn parhau, mae’n anodd ar hyn o bryd i weld effaith hir dymor ar niferoedd fydd yn mynychu’r Neuadd. Mae’n amlwg fod yr argyfwng a’r cynnydd mewn costau byw, ynghyd â ffactorau eraill fel effaith ffurf newydd o wylio ffilmiau, gyda nifer fawr o bobl yn disgwyl i ffilmiau gael eu rhyddhau ar y we /teledu, yn codi pryder am ein gallu i weithredu’r arbedion yn llawn.

4.2 Mae un cynllun arbedion yn parhau o flynyddoedd blaenorol (cyfanswm o £45,000), sy’n amodol ar ganiatâd i godi ffioedd fel rhan o adolygiad parcio. Mae’r trefniadau yn ddibynnol ar ddatblygu safle gyda’r gobaith i’r gwaith gychwyn yn yr wythnosau nesaf.

4.3 Gan eithrio arbedion cynlluniau hanesyddol a nodir yn 4.1 a 4.2, mae cynlluniau gwerth £242,180 ar gyfer 2023/24 ac £41,130 ar gyfer 2024/25 wedi eu rhaglennu, ac mae’r cyfan wedi eu gwireddu neu ar drac i’w gyflawni yn amserol.

**5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

5.1 Byddwn yn parhau i fonitro perfformiad y gwahanol wasanaethau yn fisol ac mae cyfarfod arbennig o’r Tim Rheoli Adran wedi cael ei drefnu i wneud hyn ar gyfer 24 Ionawr 2024, gyda cynrychiolwyr o’r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn bresennol.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau i’w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

**Pennaeth Cyllid:**
“Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol yr Adran Economi a Chymuned.”

# ATODIAD 1

**PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2023-2028 (Blaenoriaethau Gwella)**

Mae'r tabl isod yn rhoi diweddariad ar gynnydd tri prosiect blaenoriaeth yr Adran sydd wedi cael eu hadnabod yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 dan adran **Gwynedd Lewyrchus - Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng:**

| Prosiectau | Trosolwg | Beth ydym am ei gyflawni yn ystod y flwyddyn GYNTAF 2023-24 (cerrig milltir): | Diweddariad Medi 2023 |
|---|---|---|---|
| **Hyrwyddo ein diwylliant ac economi ymweld gynaliadwy** | Byddwn yn cymryd cyfres o gamau er mwyn hyrwyddo ein diwylliant a chreu economi ymweld gynaliadwy:<br>• Bydd Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri, a luniwyd ar y cyd gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, yn cael ei lansio yng ngwanwyn 2023. Bydd prif bartneriaid a rhan ddeiliaid yn cydweithio i gyflawni'r hyn fydd yn y Cynllun gan sefydlu Partneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri. | Byddwn yn lansio Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035 | Cynllun wedi' lansio ar 25 Medi 2023 |
| | | Byddwn yn sefydlu Partneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035. | Grŵp Tasg a Gorffen wedi ei sefydlu, cylch gorchwyl drafft wedi ei gytuno, cyfarfod cyntaf i'w gynnal cyn diwedd Hydref 2023. |
| | | Byddwn yn datblygu a gweithredu Cynllun Gweithredu Gwynedd ac Eryri 2035. | Partneriaeth i drafod a sefydlu Cynllun Gweithredu cyn diwedd Mawrth 2024. |
| | | Byddwn yn cymeradwyo Cynllun Gweithredu sy'n adnabod corff arweiniol i gyflawni blaenoriaethau | Yn dilyn y lansiad bydd gwaith yn cychwyn ar ddatblygu'r Cynllun Gweithredu gyda'r Bartneriaeth newydd fel un o'i brif dasgau cychwynnol. |
| | | Byddwn yn datblygu a gwreiddio'r trefniadau cydweithio ffurfiol rhwng y Cyngor a'r Parc Cenedlaethol | Cyfarfodydd ffurfiol yn cael eu cynnal rhwng y Parc a'r Cyngor. Bwrdd Llywio wedi ei sefydlu a strwythur gweithredu i swyddogion mewn lle. |
| | | Byddwn yn mabwysiadu mesuryddion cytbwys a sefydlu trefniadau monitro ffurfiol | Dashfwrdd mesur perfformiad drafft wedi ei drafod yn y Bwrdd Llywio rhwng y Cyngor a'r Parc ar 13-09-23 |
| | | Byddwn yn sefydlu Arweinyddion o fewn i gymunedau Gwynedd ac Eryri | Bydd yr elfen yma'n rhan o'r Cynllun Gweithredu fydd i'w ddatblygu efo'r Bartneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035. |
| | | Byddwn yn gweinyddu cronfeydd ariannu perthnasol yn deillio o Ffyniant Gyffredin neu unrhyw ffynonellau eraill. | Mae Cronfeydd wedi agor a chau ar gyfer y meysydd canlynol:<br>• Diwylliant - 19 cais yn cael eu cefnogi hyd yma, gwerth £261,554.10 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Byddwn yn sicrhau llewyrch o'r dynodiad Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru a sicrhau adnoddau i gyflawni'r Cynllun Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd.<br>• Byddwn yn Rheoli Cartrefi Modur sy'n ymweld â Gwynedd drwy beilota datblygu hyd at 6 safle pwrpasol i gartrefi modur aros dros nos.<br>• Bydd cynnal Eisteddfod Genedlaethol 2023 yng Ngwynedd yn lwyfan i ddathlu ein diwylliant a'n hiaith, y celfyddydau a chwaraeon a sicrhau bod yr Eisteddfod yn gadael gwaddol gadarnhaol ar gymunedau Gwynedd. | | • Digwyddiadau - 8 cais wedi eu cefnogi hyd yma, gwerth £31,000<br>• Byw'n Iach – X cais wedi eu cefnogi hyd yma gwerth £X |
| | | Byddwn yn dechrau ar y gwaith o ymgynghori ar ddatblygu Cynllun Diwylliant i Wynedd | Sgwrs gychwynnol wedi cymryd lle yn ystod yr Eisteddfod fis Awst 2023. Gwaith datblygol pellach i'w gynnal yn ystod 2024. |
| | | Byddwn yn penodi Cydlynydd Treftadaeth Byd Gogledd Orllewin Cymru ar y cyd efo Cadw | Cydlynydd Treftadaeth Byd wedi' benodi ar y cyd a Cadw. |
| | | Byddwn yn gweithredu a  monitro'r Cynllun Rheoli | Y gwaith o fonitro'r Cynllun Rheoli yn digwydd bob chwarter mewn cyfarfodydd o'r Bwrdd Partneriaeth yn ogystal a is-grwpiau Llechi. |
| | | Byddwn yn penodi swyddi i weithredu'r prosiect Ffyniant Bro | Rheolwr Prosiect wedi ei benodi i weithredu'r prosiect. |
| | | Byddwn yn gweithredu prosiect Llewyrch o'r Llechi. | Trefniadau wedi eu sefydlu i weithredu'r prosiect Llewyrch o'r Llechi gan gynnwys cyfarfodydd rheolaidd o'r Bwrdd Prosiect a gyda phartneriaid. |
| | | Byddwn yn datblygu 4-5 safle Aros-fan ar draws Gwynedd yn ddibynnol ar y broses gynllunio. | Gwaith yn mynd rhagddi i osod yr isadeiledd mewn 4 lleoliad ar hyn o bryd. Safle Criccieth i agor ymhen pythefnos. Llanberis wedyn. Oedi wedi bod o ran cyfleustodau. |
| | | Byddwn yn cynnal rhaglen o weithgareddau yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Byddwn yn cefnogi cymunedau, busnesau a sector ddiwylliannol Gwynedd i baratoi ar gyfer yr Eisteddfod | Cynhaliwyd rhaglen lawn o weithgareddau yn ystod wythnos yr Eisteddfod yn Caban Gwynedd. Oherwydd yr amserlen SPF ni fu modd cefnogi gyda grantiau cyn yr eisteddfod ond bwriedir agor cronfa waddol Eisteddfod trwy SPF fis Hydref. |
| | | Byddwn yn datblygu llwyfan a ffenest siop i Wynedd mewn gofod ar Faes y Brifwyl | Llwyddwyd i ddatblygu Caban Gwynedd a gofod ar gyfer busnesau lleol ar y maes. Derbyniwyd ymateb cadarnhaol iawn i bresenoldeb y Cyngor.<br>• Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau yn ystod y brifwyl:<br>• Cyfanswm digwyddiadau y babell – 67<br>• Cyfanswm digwyddiadau a gweithgareddau'r Tipi – 38<br>• Nifer busnesau yn y cabanau – 11 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Byddwn yn cwblhau gwelliannau i Neuadd Dwyfor a'i datblygu fel canolfan ddiwylliannol bwysig i ardal Dwyfor ac yn ehangach | Gwaith gwerth £1.5m ar Neuadd Dwyfor wedi ei gwblhau gan fwyaf ac agoriad swyddogol wedi ei gynnal ar 22 Mehefin 2023 gyda gweithgareddau arbennig a gwesteion. Mae dal elfennau o 'snagio' angen eu cwblhau cyn bod y gwaith wedi ei gwblhau'n llawn. |
| **Adfywio cymunedau a chanol trefi** | Byddwn yn sefydlu Fframwaith Adfywio drwy ddatblygu Cynlluniau Adfywio Lleol ar gyfer 13 dalgylch ar draws y sir ac yn sicrhau trefniadau traws-adrannol o fewn y Cyngor er mwyn sicrhau fod rhaglenni gwaith yn cyd-blethu a rhannu gwybodaeth gyda chymunedau drwy barhau gyda'r gwaith ymgysylltu. Bydd cynlluniau gweithredu ar gyfer Canol Tref/ Dinas yn cael eu paratoi ar gyfer trefi unigol. | Byddwn wedi paratoi Cynlluniau Adfywio Lleol drafft ar gyfer pob un o'r 13 ardal adfywio lleol | Mae templed wedi ei baratoi, a'r cynlluniau lleol yn cael eu paratoi. Bwriedir cyflwyno manylion I'r TA yn ystod mis Tachwedd. |
| | | Byddwn wedi cynnal gweithdai ym mhob ardal adfywio lleol – i drafod ac addasu'r Cynlluniau Adfywio Lleol drafft; ac i ddiweddaru sefydliadau lleol o rhaglenni ariannol newydd | Trefnwyd cyfres o weithdai ym mhob un o'r 13 ardaloedd adfywio yn ystod Mai / Mehefin. Bwriedir cynnal cylch arall o weithdai yn ystod 2023/24. |
| | | Byddwn wedi penodi Rheolwr Prosiect Eiddo Gwag (Hyfforddai Proffesiynol Datblygu'r Economi fel rhan o raglen Cynllun Yfory 2023) | Mae'r penodiad wedi ei wneud, a'r Hyfforddai Proffesiynol wedi cychwyn yn ei swydd fis Medi 2023. |
| | | Byddwn wedi sefydlu Cronfeydd Allweddol ar gyfer cefnogi prosiectau o fewn Cynlluniau Adfywio Lleol | Mae Cronfeydd wedi eu lansio a cheisiadau wedi eu cyflwyno. Bydd proses asesu yn cael ei gwblhau yn ystod mis Medi. |
| | | Byddwn wedi sefydlu trefniadau traws-adrannol o fewn y Cyngor ar gyfer monitro a diweddaru'r Cynlluniau Adfywio Lleol | Gwaith i'w gwblhau yn Ch3 a Ch4. |
| | | Byddwn wedi gorffen paratoi Cynlluniau Canol Tref ar gyfer Bangor a Chaernarfon | Mae gwaith o baratoi Cynllun Canol Dinas Bangor wedi ei gwblhau. Mae Cynllun Canol Tref Caernarfon ar waith. |
| | | Byddwn wedi sefydlu gwaelodlin data eiddo gwag ar gyfer prif drefi unigol, ac adolygu ymyraethau presennol Adrannau'r Cyngor sy'n delio gyda eiddo gwag | Gwaith i'w gwblhau yn Ch3 a Ch4. |
| **Creu'r amgylchiadau gorau posib yng Ngwynedd i fusnesau a** | Byddwn yn cefnogi busnesau a mentrau cymunedol Gwynedd i ffynnu mewn sawl ffordd megis datblygu cynnyrch a chael mynediad i | Byddwn wedi targedu arian o Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth Prydain i gryfhau seiliau economi Gwynedd | Sicrhawyd £1.5 miliwn o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i ddarparu cymorth ariannol ac ymarferol i fusnesau'r sir drwy law Cyngor Gwynedd<br><br>Yn cynnwys yr uchod, ymrwymwyd cyfanswm o £4.8M o ddyraniad Cronfa Ffyniant Gyffredin Gwynedd i gynlluniau o dan y flaenoriaeth Cefnogi Busnesau Lleol; yn cynnwys cyfuniad o arian yn uniongyrchol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith** | farchnadoedd newydd, helpu mentrau i arbed arian drwy leihau gwastraff a defnyddio technoleg yn well, cefnogi busnesau yng Ngwynedd i fasnachu gyda'i gilydd a blaenoriaethu helpu mentrau sydd yn ymrwymo i dalu 'cyflog byw gwirioneddol' i'w gweithwyr. Byddwn yn hybu busnesau i wneud y mwyaf o'r Gymraeg, yn datblygu mwy o unedau busnes i'w gosod ar rent, ac yn ymdrechu i sicrhau fod prosiectau Cynllun Twf Gogledd Cymru yn elwa pobl Gwynedd. Byddwn hefyd yn helpu pobl Gwynedd i gyflawni eu potensial a chefnogi y rhai sydd wedi eu heithrio o'r farchnad lafur i ddychwelyd i waith a gweithio gyda chyflogwyr i'w helpu i sicrhau gweithwyr digonol. | | i fentrau lleol a cyllid i gynlluniau fydd yn darparu cymorth i'n busnesau. |
| | | Byddwn wedi cydweithio gyda partneriaid ar draws Gogledd Cymru i sicrhau budd i Wynedd o Gais Twf Gogledd Cymru | Mae'r Cyngor yn parhau i chwarae rhan blaengar a rhagweithiol yng nghefnogi gwireddu cynlluniau Cais Twf Gogledd Cymru, gan roi sylw arbennig i'r cynlluniau sydd yn cynnig y budd mwyaf i Wynedd. |
| | | Byddwn wedi cadarnhau trefniadau gweithredu Rhaglen Arfor gyda phartneriaid gorllewin Cymru a Llywodraeth Cymru | • Mae trefniadau llywodraethu'r Rhaglen ARFOR wedi eu cadarnhau a'r cynnig cyllidol gan Llywodraeth Cymru wedi ei arwyddo.<br>• Mae cytundebwyr mewn lle i gyflawni'r cynlluniau Llwyddo'n Lleol a Cronfa Her ARFOR ac i werthuso effaith y rhaglen.<br>• Yng Ngwynedd, mae'r Cyngor wedi dyrannu £967k i 18 o fentrau lleol drwy law'r cynllun Cymunedau Mentrus. |
| | | Byddwn wedi adolygu a sefydlu trefniadau newydd i ymgysylltu gyda busnesau a darparu gwybodaeth | • Adolygiad annibynnol o ymgysylltu'r tîm cefnogi busnes gyda mentrau lleol wedi ei gynnal gyda argymhellion i'r dyfodol.<br>• Dulliau ychwanegol o gysylltu gyda'r gwasanaeth drwy'r wefan a WhatsApp wedi eu cyflwyno<br>• Cynllun ehangach o ymgysylltu yn cael ei lunio. |
| | | Byddwn wedi lansio Cronfa Cymorth Busnes | • Cronfeydd cefnogi busnes newydd wedi agor dechrau mis Awst yn dilyn sicrhau'r cyllid (yn bennaf drwy law Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG).<br>• Cyfanswm o £1.7 miliwn ar gael drwy law dwy gronfa.<br>• Mae'r galw am gymorth o'r cronfeydd wedi bod yn eithriadol o uchel ac rydym eisoes wedi gorfod oedi'r drefn ymgeisio ar gyfer symiau llai. |
| | | Byddwn wedi trefnu digwyddiadau i ddathlu llwyddiannau busnes Gwynedd | • Cyfres rheolaidd o ymweliadau i fusnesau amlwg yng Ngwynedd wedi eu rhaglennu ar gyfer Aelodau Cabinet ac 5 eisoes wedi eu cynnal yn 2023/24. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • Diwrnod Busnes@gwynedd.llyw.cymru wedi ei gynnal 22 Mai gyda 35 o fusnesau yn bresennol ac eraill yn ymuno'n rhithiol.<br>• Panel trafod ac arddangosfa o gynnyrch busnesau lleol wedi gynnal yn yr Eisteddfod. |
| | | Byddwn wedi sicrhau caniatâd cynllunio i ddatblygu 10 o unedau gwaith newydd | • Cabinet y Cyngor wedi cadarnhau cyllid i'r cynllun yn Ebrill 2023.<br>• Dyluniadau manwl wedi eu cwblhau a chais cynllunio wedi ei gyflwyno yng Ngorffennaf. |
| | | Byddwn wedi cytundebu gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu rhaglen Cymorth i Waith | • Cynllun Cymunedau i Waith - ariannwyd drwy Ewrop – wedi dod i ben yn unol â'r disgwyl yng Ngorffennaf 2023.<br>• Cytundeb ehangedig i wireddu'r rhaglen Cymunedau i Waith a Mwy wedi ei dderbyn gan Llywodraeth Cymru fydd yn sicrhau £681K yn 2023/24.<br>• £172k yn ychwanegol wedi ei sicrhau o'r Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear, i ymestyn ein darpariaeth i gefnogi trigolion lleol sydd yn edrych i gynyddu eu henillion hyd at Hydref 2025.<br>• £700,000 pellach i gefnogi trigolion Gwynedd i gyflawni i'r gorau o'u gallu ym myd gwaith wedi ei sicrhau o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DG hyd at diwedd 2024. |

# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol a Chyfreithiol |
| **Aelod Cabinet:** | Cynghorydd Menna Trenholme |
| **Swyddog perthnasol:** | Ian Jones, Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 7 Tachwedd 2023 |

**1. Penderfyniad a Geisir**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

**3. Cyflwyniad a Rhesymeg**

**3.1** Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel Aelod Cabinet dros Adrannau Cefnogaeth Gorfforaethol a Chyfreithiol. Bydd yr adroddiad yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd hyd yma yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

**3.2** Hoffwn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod o Dîm Rheoli'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol ar yr 18 o Fedi, 2023, oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi.

**3.3** Rwyf yn fodlon bod y prosiectau sy'n cael eu harwain gan yr Adran, ynghyd a pherfformiad dydd i ddydd, yn cael eu cynnal o fewn y gyllideb. Dymunaf nodi fy ngwerthfawrogiad o waith holl swyddogion yr Adran a chydnabod y cyfraniad allweddol a wneir ganddynt i gefnogi gwaith y Cyngor.

**4. Prosiectau Cynllun y Cyngor Gwynedd 2023-2028 (Meysydd Blaenoriaeth)**

Mae'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol yn arwain ar 6 prosiect o fewn gwahanol feysydd blaenoriaeth Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-2028. Rwy'n crynhoi'r hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yma fel a ganlyn;

**4.1 Cadw'r Budd yn Lleol**

**4.1.1** Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gaffael, neu brynu, nifer o nwyddau a gwasanaethau ac yn awyddus i geisio sicrhau fod busnesau lleol yn gallu cystadlu ac ennill y cytundebau hyn er mwyn sicrhau fod cymaint o wariant y Cyngor ag sy'n bosib yn aros yn lleol.

**4.1.2** Yn ddiweddar cwblhawyd prosiect er mwyn asesu ymarferoldeb cyflwyno methodoleg asesu tendrau newydd ar sail buddion cymdeithasol i Wynedd. Mae adroddiad ar gynnydd y prosiectau peilot wedi ei gwblhau gyda'r gwersi a ddysgwyd a'r rhwystrau wedi eu cofnodi. Bydd adroddiad yn nodi argymhellion yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 7 Tachwedd, 2023.

**4.1.3** Mae grŵp wedi ei sefydlu i edrych ar a thrafod yr heriau ynghlwm ac uchafu'r buddion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ynghlwm â Chytundebau Dosbarthu a Chyflenwi Bwyd yng Ngwynedd. Mae'r grŵp yn cynnwys swyddogion o dimau caffael Cyngor Gwynedd, cwmni allanol 'Social Value Portal', Larder Cymru a darparwyr presennol y gwasanaeth.

**4.1.4** Mae trafodaethau helaeth wedi eu cynnal ynglŷn â'r heriau o dderbyn mwy o gynnyrch Cymreig a mesur y buddion ynghlwm a chyflogaeth leol yn ogystal â lleihau effaith amgylcheddol y gwasanaeth. Mae'r trafodaethau yma wedi arwain i well ddealltwriaeth o'r heriau ac wedi amlygu bydd derbyn mwy o gynnyrch lleol a chynnyrch sy'n llai niweidiol i'r amgylchedd yn cynyddu costau. Bydd y broses dendr ac felly'r darparwyr angen edrych i gael y cydbwysedd cywir rhwng y pris ar werth cymdeithasol.

**4.1.5** I geisio goresgyn y rhwystrau ynghlwm â mesur y buddion o gyflogaeth leol mae darparwyr wedi cwblhau cwestiwn tendr ffug. Mae'r ymarfer wedi amlygu'r cymhlethdod ynghlwm a'i gyfrifo a'r gwahanol fethodoleg a thystiolaeth all gael ei gyflwyno. Mae gwaith yn parhau ar gytuno ar fethodoleg derfynol yn ogystal â chynnal trafodaeth bellach i lunio cwestiynau tendr ac addasu'r manyldeb i leihau'r effaith amgylcheddol o'r gwasanaeth ac annog darparwyr i edrych i hybu ffyniant economaidd lleol a bioamrywiaeth.

**4.1.6** Mae cymalau wedi ei gosod o fewn cytundebau trafnidiaeth a gofal sy'n ei wneud yn ofynnol i ddarparwyr greu cynllun lleihau carbon a dangos cynnydd ar y cynlluniau yma fel rhan o ddangosyddion perfformiad allweddol y cytundeb.

**4.1.7** Mae'r rheoliadau contractau cenedlaethol yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, gyda'r bwriad i gyflwyno'r rheoliadau newydd flwyddyn nesaf. Nid oes modd i osod tendrau i gwmnïau lleol o fewn y rheoliadau cyfredol. Serch hyn, mae'r fethodoleg uchod yn gam tuag at wobrwyo cytundebau i fusnesau sydd yn cyflawni budd lleol, pe bai hyn yn ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol neu economaidd.

**4.2 Merched Mewn Arweinyddiaeth**

**4.2.1** Amcan y prosiect hwn yw hybu'r nifer o ferched sy'n ymgeisio ac yn cyrraedd swyddi uwch o fewn y Cyngor trwy adolygu'r amodau a'r amgylchedd gwaith er mwyn denu mwy o ferched i ymgymryd â'r gwaith i'r dyfodol.

Yng nghyfarfod diweddar o'r Grŵp Prosiect cytunwyd ar Gylch Gorchwyl diwygiedig ar gyfer y cyfnod nesa'. Cytunwyd yn ogystal, yn unol â'n diwylliant a'n ffordd o weithio, i beidio gosod targedau meintiol ond yn hytrach i'r grŵp osod uchelgais i gynyddu'r nifer o ferched sydd yn ymgeisio am swyddi arwain (lefel Rheolwr Gwasanaeth neu uwch), ac mae gwaith yn mynd rhagddo i gasglu'r data hwn ar lefel swyddi Rheolwr Gwasanaeth neu uwch tros y tair blynedd ddiwethaf ers sefydlu'r prosiect, er mwyn cael mesur cynnydd wrth symud ymlaen.

**4.2.2** Daeth y drydedd gyfres o'r Rhaglen Ddatblygol i'w therfyn ar yr 28ain o Fehefin. Tywyswyd 14 o ferched, yn gweithio ar lefelau gwahanol ar draws y Sefydliad a chafwyd adborth hynod bositif. Bydd y bedwaredd gyfres yn dechrau ar y 18fed o Hydref.

**4.2.3** Mae trefniadau wedi eu gwneud i fod yn cynnal cyfres bellach o'r cyfrwng poblogaidd "Sgyrsiau dros Baned" o fis Medi ymlaen, a siaradwyr nodedig o bell ac agos wedi cadarnhau eu mewnbwn

**4.2.4** Ar gais y Grŵp Prosiect, i fod yn ymestyn yr ymwybyddiaeth sydd o waith y prosiect, mae Pecyn Gwybodaeth wedi ei lunio. Cyflwynwyd y Pecyn am y tro cyntaf yng Nghaban y Cyngor ar Faes yr Eisteddfod, yn benodol felly ar y dydd Mercher pan oedd yr Eisteddfod yn rhoi

ffocws yn y pentref gwyddoniaeth ar ferched mewn STEM, a hefyd ar y dydd Iau cyn, ac ar ôl sgwrs '*Merched sy'n ysbrydoli*' a oedd wedi ei threfnu gan y Tîm Iaith. Bydd gwaith pellach i fod yn codi ymwybyddiaeth a rhannu'r Pecyn Gwybodaeth yn cael ei weithredu fel cam pellach.

**4.2.5** Yn ddiweddar cafwyd cyfle i fod yn cydweithio gyda'r Adran Tai ac Eiddo a Phrosiect CANFAS Galeri, Caernarfon i fod yn tynnu sylw at waith y Prosiect wrth gyhoeddi'r bwriad i fod yn gosod y canfas cyntaf o waith Ellen Edwards ar dalcen ein maes parcio staff, yn Noc Fictoria, Caernarfon.

**4.3 Sicrhau Tegwch i Bawb**

**4.3.1** Er mwyn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud rhaid adnabod unrhyw rwystrau sy'n wynebu rhai pobl wrth chwilio am waith, neu dderbyn, gwasanaethau gan y Cyngor.

**4.3.2** Yn sgil sylwadau gan y swyddogion cydraddoldeb mae CLlLC wedi penderfynu newid yr hyfforddiant gwrth-hiliol i Aelodau Etholedig felly nid yw wedi ei gynnig eto. Cynhaliwyd peilot o'r hyfforddiant LHDTC+ yn fewnol a bydd yn cael ei gynnig o'r hydref ymlaen. Mae trefniadau hefyd wedi eu gwneud i gynnig hyfforddiant Iaith Arwyddion Prydeinig a Dealltwriaeth o Fyddardod a bydd peilot yn cael ei gynnal yn fuan.

**4.3.3** Mae'r cyfnod ymgysylltu ar amcanion cydraddoldeb 2024-28 wedi dod i ben. Derbyniwyd bron i 600 o ymatebion i'r holiadur. Bydd gwaith dadansoddi canlyniadau'r ymgysylltiad yn digwydd nawr a bydd yn cael ei ddefnyddio, gyda'r data meintiol, i gytuno amcanion ar gyfer 2024-28

**4.3.4** Mae'r ffurflen Asesu Effaith Cydraddoldeb, y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol a'r Gymraeg electroneg yn cael ei beilota ar hyn o bryd.

**4.4 Cynllunio'r Gweithlu**

**4.4.1** Mae'r gwaith o adnabod bylchau a gweithredu'n rhagweithiol yn flaenoriaeth sydd wedi amlygu'i hun yn fwy nag erioed o'r blaen dros y cyfnod ac mae angen ymateb i'r heriau staffio sy'n wynebu nifer o wasanaethau ar draws y Cyngor. Mae rhaglen waith a cherrig milltir penodol wedi eu llunio i adnabod bylchau tymor byr, tymor canol a'r hir dymor.

**4.4.2** Mae dogfen Cynllun Gweithlu drafft wedi ei pharatoi gyda'r nod o osod cyfeiriad strategol i'r prosiect dros y blynyddoedd nesaf.

**4.4.3** Mae gwefan gyrfaoedd newydd y Cyngor wedi ei lansio ddechrau mis Awst. Mae'r adborth gyffredinol wedi bod yn dda i'r datblygiad ac adnabuwyd cyfleoedd pellach i ddatblygu'r cynnwys.

**4.4.4** Dros yr wythnosau diwethaf mae 14 prentis newydd wedi eu penodi a 6 hyfforddai newydd wedi eu penodi ar y Cynllun Yfory. Mae adborth ardderchog wedi ei dderbyn gan unigolion a fu'n rhan o'r canolfannau recriwtio ac asesu a gynhaliwyd mewn perthynas â'r cynlluniau prentis a hyfforddeion.

**4.4.5** Cafwyd slotiau amrywiol ar faterion recriwtio yn ystod yr Eisteddfod, a oedd yn gyfle i ddenu sylw at y wefan gyrfaoedd a'r cynlluniau prentisiaid a hyfforddeion.

**4.5 Hybu Defnydd o'r Gymraeg gan Drigolion Gwynedd**

**4.5.1** Bydd prosiectau penodol yn cael eu cynnal a fydd yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg ac yn cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. Bydd hyn yn cynnwys cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg wrth ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol.

**4.5.2** Mae Strategaeth Iaith ddrafft ar gyfer 2023-2028 wedi ei llunio a chynhaliwyd cyfnod ymgynghori cyhoeddus yn ystod mis Ebrill a Mai 2023. Cafwyd trawstoriad da o ymatebion ac roedd yr ymateb i gynnwys y strategaeth ddrafft yn dda. Roedd y gyfradd gytuno ar gyfer ffrydiau gwaith pob maes gweithredu yn uchel. Roedd 72.3% o'r ymatebwyr yn cytuno gyda'r bwriad i ganolbwyntio ar gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

**4.5.3** O ran y themâu cyffredin oedd yn codi o'r ymatebion, roedd sicrhau cyfleoedd digonol ac addas i bobl ddysgu Cymraeg ac i fagu hyder wrth siarad Cymraeg yn thema a gododd yn rheolaidd, ac mewn ymateb i sawl cwestiwn. Roedd sylwadau llai cadarnhaol megis na ddylai'r Cyngor ddefnyddio'r Gymraeg fel ffordd o wahaniaethu, ac na ddylid gwastraffu adnoddau prin ar yr iaith hefyd yn themâu a gododd fwy nag unwaith.

**4.5.4** Mae gwaith monitro a chynnal adolygiad llawn o strategaeth bresennol y Cyngor yn mynd rhagddo, gyda bwriad i gyflwyno adroddiad llawn i Bwyllgor iaith y Cyngor fis Hydref cyn cyhoeddi'r strategaeth newydd i'w gymeradwyo gan y Cyngor Llawn ym mis Rhagfyr.

**4.5.5** Ym mis Mehefin cynhaliwyd cyfarfod cyntaf swyddogol Fforwm Iaith Gwynedd. Pwrpas y fforwm yw rhoi gofod i bartneriaid allweddol ddod at ei gilydd i drafod a chynllunio sut i hybu a chynyddu defnydd o'r Gymraeg a rhoi ffocws strategol i ddatblygu'r Gymraeg yng Ngwynedd yn unol â strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Mae'r fforwm ar hyn o bryd yn chwilio am gadeirydd annibynnol.

**4.5.6** Cynhaliwyd lansiad swyddogol Menter Iaith Gwynedd, sef y fenter iaith newydd a fydd yn cymryd yr awenau o ran hybu a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ar lawr gwlad yng nghymunedau Gwynedd yn ystod yr Eisteddfod. Bu Hunaniaith - Menter Iaith Gwynedd yn rhan o Gyngor Gwynedd ers 2009, ond penderfynwyd bod angen menter iaith sydd wedi ei gwreiddio fwy yng nghymunedau Gwynedd a hynny er mwyn cefnogi unigolion, cymdeithasau, mentrau a grwpiau o bob math i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg. Bydd staff yn symud i weithio i'r fenter newydd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**4.5.7** Arweiniwyd ar nifer o ddigwyddiadau amrywiol ym mhabell Cyngor Gwynedd ar y dydd Iau'r Eisteddfod Genedlaethol, gan gynnal diwrnod llwyddiannus iawn dan y thema Gwynedd Gymraeg. Cynhaliwyd sesiwn gwybodaeth am fap gweithgareddau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yng Ngwynedd, sesiwn banel cysylltiad economi'r Gymraeg a'r mentrau cymunedol a gweithdai celf lwyddiannus a diddorol yn y tipi.

**4.6 Adolygiad Strategol ar Reolaeth Iechyd a Diogelwch**

**4.6.1** Mae'r prosiect yn edrych ar reolaeth strategol iechyd a diogelwch o fewn y Cyngor a'r ffordd mae hynny yn clymu i systemau llywodraethu a pherfformiad cyffredinol. Mae'n golygu cynnal adolygiad llawn o'r system reoli yn ei chyfanrwydd.

**4.6.2** Un o'r ffrydiau gwaith allweddol ydi uwchraddio'r system TG Iechyd a Diogelwch. Mae'r gwaith o asesu'r farchnad wedi ei gwblhau erbyn hyn ac yn amlwg mae nifer o fanteision mewn prynu system allanol. Fodd bynnag, gweler hefyd gyfyngiadau a rhwystrau yn y drefn gyfathrebu rhwng system allanol a systemau mewnol eraill y Cyngor. Oherwydd hyn, mae

gwaith mapio sylweddol wedi digwydd ar anghenion y Gwasanaeth, gyda thrafodaethau gyda'r Gwasanaeth TG am y posibilrwydd o ddatblygu system fewnol yn cael eu cynnal.

**4.6.3** Mae adolygiad o hyfforddiant iechyd a diogelwch rheolwyr/arweinyddion tîm wedi ei gynnal mewn cydweithrediad â thimau rheoli, gyda'r penderfyniad i barhau gyda chyrsiau adnewyddu ychwanegol hyd at haf 2024 er mwyn dal fyny â gwaith gafodd ei ohirio dros gyfnod y pandemig.

**4.6.4** Mae adolygiad llawn wedi ei gynnal ar y ddarpariaeth cefnogaeth llesiant i staff. Mae hyn wedi golygu ymchwilio i wahanol fodelau o ddarpariaeth, ynghyd ac ymchwilio i gydweithio gyda sefydliadau a mudiadau eraill. Yn dilyn gwerthuso pob opsiwn, mae'r Gwasanaeth wedi mynd allan i dendr ar y ddau faes cefnogaeth a gynigir yn bresennol, sef cwnsela, a ffisiotherapi. Yn ogystal, mae datblygiadau cenedlaethol yn y maes yma e.e. Gwasanaeth Cwnsela wedi ei lawnsio ar gyfer gweithwyr gofal y gellir cyfeirio staff ato, a bydd hybu pellach ar y math hyn o gynigion cenedlaethol yn digwydd law yn llaw a darparu gwasanaeth mewnol wrth symud ymlaen.

**5. Perfformiad**

**5.1** Nodir isod drosolwg o berfformiad yr Adran yn ystod y flwyddyn ariannol hyd yma. Nid oes cyfeiriad at bob un o'r gwasanaethau ond rwy'n awyddus i gadarnhau fy mod yn fodlon efo perfformiad presennol y gwasanaethau hynny na gyfeirir atynt yma.

**5.2 Adnoddau Dynol**

**5.2.1** Mae lefel absenoldeb salwch y Cyngor yn parhau i fod yn uwch na'r hyn a ddymunir. Mae'r nifer o ddyddiau a gollwyd oherwydd salwch ar draws y Cyngor wedi codi i 10.22 diwrnod y pen yn ystod 2022/23, ac ar wahân i flwyddyn gyntaf y pandemig, mae hynny yn cadw at y patrwm o gynnydd cyson yn y raddfa salwch ers sawl blwyddyn bellach.

**5.2.2** Mae sylw'n cael ei roi i fonitro'r lefelau absenoldeb gyda Grŵp Absenoldebau Salwch wedi ei ffurfio i fonitro'r sefyllfa. Mae'r grŵp yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn rhoi sylw penodol i ddarganfod rhesymau dros absenoldebau a chynnig cefnogaeth i reolwyr o fewn yr adrannau hynny ble mae'r cyfradd absenoldeb ar ei uchaf. Mae linc cryf yma gyda'r rhaglen llesiant i staff ple fo elfen gryf ohoni yn cael ei gyrru gan y data absenoldebau.


**5.2.3** Yn ddiweddar mae cyfarfod wedi ei gynnal gyda Chyngor Dinbych er mwyn rhannu arfer da a dysgu o'u systemau hwy. Mae Cyngor Dinbych â lefelau salwch gyda'r isaf yng Nghymru ers sawl blwyddyn. Nifer o bwyntiau gweithredu i'r Grŵp Absenoldebau Salwch i'w hystyried yn deillio o'r cyfarfod hwnnw a byddwn yn ystyried hynny yn ein cyfarfod nesaf. Un pwynt cyffredinol oedd yn cael ei amlygu oedd yr angen i absenoldeb salwch fod yn fesur y mae pob adran yn unigol, yn ogystal â'r Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol yn ei berchnogi fel rhan o gynllun busnes ac yn adrodd arno fel rhan o drefniadau adrodd perfformiad.

**5.3 Cyswllt Cwsmer a Chofrestru**

**5.3.1** Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer a Chofrestru wedi dygymod yn arbennig o dan amgylchiadau anodd ac mae camau wedi eu cymryd i gryfhau capasiti'r gwasanaeth.


**5.3.2** O ran y nifer o alwadau a atebwyd yn fisol mae 7421 yn llai o alwadau wedi'u hateb eleni i gymharu â'r un cyfnod llynedd, ond fe gollwyd 5322 o alwadau yn llai hefyd, mae hyn yn awgrymu fod mwy o alwadau yn cael eu hateb y tro cyntaf i'r cwsmer gysylltu.

*Nifer Galwadau atebwyd (misol):*




**5.3.3** Penodwyd staff achlysurol ym mis Mai / Mehefin i weithio dros gyfnod yr haf er mwyn galluogi staff i gymryd gwyliau. Gweler lleihad hefyd yn y nifer o alwadau ddaeth i mewn o'i gymharu â'r un cyfnod llynedd, a staff yn dychwelyd yn ôl i'r gwaith yn dilyn cyfnodau salwch yn cyfrannu ar welliant yn y perfformiad cyfartaledd ateb galwadau (misol) y Ganolfan Gyswllt.


*Cyfartaledd ateb Canolfan Gyswllt (misol):*




## 5.4 Dysgu a Datblygu'r Sefydliad

**5.4.1** Mae'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad yn casglu adborth yn gyson ynglŷn ag i ba raddau mae hyfforddiant yn helpu unigolion i gyflawni eu rôl ac mae'r sgôr adborth yn gyson uchel. Mae'r gwasanaeth yn parhau i ddatblygu'r rhaglen ddysgu ac fe'i gwelir yn esblygu i ymateb i ofynion y sefydliad a phobl Gwynedd.

*I ba raddau mae'r hyfforddiant yn eich helpu i gyflawni eich rôl? (sgôr/10):*





## 5.5 Ymchwil a Gwybodaeth

**5.5.1** Mae digwyddiadau o wybodaeth bersonol yn cael ei ddatgelu mewn camgymeriad neu trwy amryfusedd, yn parhau i ddigwydd mewn mannau o fewn y Cyngor**.** Mae'r niferoedd yn amrywiol iawn fesul mis, ond at ei gilydd mae'r nifer digwyddiadau ychydig yn is na llynedd (16 rhwng Ebrill - Awst eleni, o'i gymharu â 20 yr un cyfnod llynedd). Er hyn mae'r ffigyrau yn parhau i fod yn rhy uchel; mae dros eu hanner yn ymwneud ag e-byst anfonwyd i'r derbynnydd anghywir ac mae'r cynllun peilot i gryfhau diogelwch e-byst bellach wedi'i ymestyn i gynnwys yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol gyfan.

**5.5.2** O ran gweddill y digwyddiadau, er nad oes llawer o batrwm amlwg ynddynt mae cyfarfodydd wedi'u trefnu gyda gwasanaethau lle gwelwyd mwy nag un digwyddiad, i edrych ar beth ddigwyddodd a beth ellir ei wneud i gryfhau trefniadau.

*Nifer digwyddiadau gwybodaeth:*




**5.2.3** Mae'r Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth yn monitro ac adrodd yn rheolaidd ar ganran ceisiadau rhyddid gwybodaeth atebwyd o fewn 20 dydd gwaith. Mae perfformiad yn y maes yma yn dal i beri rhywfaint o bryder ac fe rannwyd ystadegau ch.1 fesul Adran / Gwasanaeth gyda Phenaethiaid a siarad hefyd efo rhai rheolwyr i weld sut gellir gwella trefniadau. Mae hyn hefyd yn derbyn sylw yn y Gweithdai Gwybodaeth sydd yn cael eu darparu ar gyfer rheolwyr ac arweinyddion tîm pob Adran ar hyn o bryd.

**6. Sefyllfa Ariannol / Arbedion**

**6.1** Yn dilyn adolygiad o'r Cyllideb Refeniw 2023/24, sefyllfa diwedd Awst 2023, rhagwelir sefyllfa gorwariant o £62k erbyn diwedd y flwyddyn. Ceir cyfuniad o resymau sy'n cyfrannu tuag at y gorwariant – mân orwariant mewn rhai meysydd, pwysau cynyddol ar y gyllideb cwnsela staff, a rhagolygon o ddiffyg incwm ar gyfer yr Argraffdy.

**6.2** Fel rhan o broses sefydlu Cyllideb 2023/24, bu i'r Adran wneud arbedion effeithlonrwydd gwerth £275,250 er mwyn cyfrannu tuag at gau'r bwlch cyllidol yn 2023/24. Mae'r arbedion hynny ar drac i'w gwireddu.

**7. Sylwadau Swyddogion Statudol**

**7.1 Prif Swyddog Cyllid**
Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol.

**7.2 Swyddog Monitro**
Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

# GWASANAETHAU CYFRETIHIOL

## CYFREITHIOL

### Byddwn yn parhau i flaenoriaethu recriwtio y Tim Cyfreithiol.

Mae sefyllfa recriwtio y Tim Cyfreithiol wedi newid yn gadarnhaol. Bellach mae bron pob swydd berthnasol ac eithrio Swydd Cyfreithiwr Tai a Phrosiectau wedi ei llenwi gan gynnwys Rheolwr Cyfreithiol. Rydym yn parhau i ddefnyddio trefniant locum yn y swydd benodol uchod er cynnal a cyfarch y gofynion am wasanaeth. Bwriedir cadw'r sefyllfa yma dan adolygiad.

### Byddwn yn caffael meddalwedd rheoli achos newydd ar gyfer y Gwasanaeth Cyfreithiol ar y cyd a phartneriaid yng Ngogledd Cymru

Ar y cyd gyda 3 Cyngor arall drwy broses gaffael wedi penodi cwmni Civica i ddarparu sustem rheoli achos newydd. Mae'r sustem bresennol sydd yn greiddiol i'r Tim Cyfreithiol wedi cyrraedd diwedd ei hoes o safbwynt cefnogaeth a datblygu. Bydd y sustem yma er yn ychydig yn ddrytach o ran costau blynyddol yn gam sylweddol ymlaen o ran hygyrchedd ar lein, ystwythder a gallu i asio gyda sustemau megis iGwynedd, Microsoft Office a pdf. Bydd hefyd yn agor y drws i ddulliau eraill o weithio e.e i adrannau allu mewngofnodi i gael gwybodaeth uniongyrchol am achosion a'r cynnydd arnynt. Mae'r broses o drosglwyddo data, hyfforddi a dod a'r sustem yn fyw wedi cychwyn. Mae cefnogaeth rheolaeth prosiect yn rhan o'r bartneriaeth. Oherwydd gofynion TG mae'r dyddiad mewnosod a mynd yn fyw wedi ei symud ymlaen i 1 Rhagfyr 2023.

### Byddwn yn adolygu a sicrhau adnoddau digonol ar gyfer cefnogi gofynion ar y Gwasanaeth sydd yn deillio o waith rhanbarthol

Mae datrys ein sefyllfa recriwtio yn golygu fod modd bellach symud ymlaen i gynllunio sut y gellir cyfarch y gofynion rhanbarthol yn well. Wrth i'r Cyd Bwyllgor Corfforedig h y Gogledd symud i fod yn weithredol mae cynnydd ar draws y bwrdd mewn gofyn am adnoddau. Mae hyn yn parhau yn her ond yn fater sydd yn cael ei gydnabod o fewn y prosiect . Byddwn yn gweithio fel rhan o dim rheoli y Cyd Bwyllgor a gyda Gwasanaethau Cefnogaeth Corfforaethol yn benodol i adnabod adnoddau angenrheidiol i gynnal y corff n newydd. Mae risg ynglŷn a sicrhau adnoddau digonol a chreu y capasiti priodol i gynnal y gwaith o sefydlu y Cyd Bwyllgor. Mae'n fwriad fod swyddogaethau y Bwrdd Uchelgais Economaidd yn trosglwyddo i'r Cyd Bwyllgor Corfforedig erbyn 1 Ebrill 2024. Bydd yr adnodd yn cael ei adnabod a datblygu fel rhan o'r prosiect yma.

**PRIODOLDEB**

**Byddwn yn parhau i gefnogi a chynghori ar swyddogaethau y Cyngor o safbwynt sicrhau priodoldeb cyfansoddiadol, cyfreithiol a gweinyddiaeth.**

Mae'r gwaith yma yn barhaol ond yn benodol bwriedir cynnal cyfres o seminarau Penderfyniadau Da" ar gyfer swyddogion . Amcan y cyrsiau yw esbonio hanfodion penderfyniadau mewn cyrff cyhoeddus ynghyd a'r fframwaith gyfansoddiadol a rheoleiddio sydd ynglŷn a'r maes yma. Mae peilot wedi ei gynnal ac ymateb yn gadarnhaol a bydd dyddiadau yn cael eu trefnu erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r gwaith yma yn rhan o drefniadau llywodraethu y Cyngor sydd yn derbyn trosolwg y Grŵp Llywodraethu

**Byddwn yn gweithio gyda'r Pwyllgor Safonau, Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol ac Aelodau ynghyd a swyddogion perthnasol i gynnal a chefnogi safonau uchel o ymddygiad ymysg cynghorwyr.**

Byddwn yn mynd ati yn ystod ail a thrydydd chwarter y flwyddyn i roi ffocws ar sefydlu camau ymarferol i gefnogi y dyletswydd newydd sydd ar Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol ynglŷn ag ymddygiad aelodau. Yn ogystal gan adlewyrchu gofyn a amlygwyd yn sgil sesiynau anwytho bwriedir cynnal cyrsiau Cod Ymddygiad pellach i aelodau'r Cyngor yn ystod chwarter olaf 23/24 ac ynghynt os yw adnoddau yn caniatáu. Mae cyfarfod aelodau y Pwyllgor Safonau ac Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol i sefydlu trefniadau ymarferol ynglŷn a'r dyletswydd ac adrodd yn unol a'r gofynion statudol i'w gynnal ar y 6ed o Dachwedd.

**Byddwn yn cwblhau y prosiect gweithredu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau ( Cymru) 2021 ac yn benodol ystyriaeth ar yr opsiynau sustemau pleidleisio etholiadau lleol.**

Mae prif elfennau y prosiect yma wedi eu cyfarch bellach ac yn weithredol. Adroddwyd yn rheolaidd ar y cynnydd i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mabwysiadwyd yr addasiadau olaf i'r Cyfansoddiad i'r perwyl yma yng Nghyngor Medi. Fodd bynnag mae angen cyfarch y dewis yn y Ddeddf o sustemau pleidleisio ar gyfer etholiadau y cyngor. Cyflwynwyd adroddiad ar y gyfundrefn i'r Grŵp Busnes a bydd trafodaethau ar y llwybr priodol er ystyried y dewis sydd yn y Ddeddf . Mae amserlen statudol yn golygu y byddai rhaid dod i benderfyniad erbyn Tachwedd 2024 os am symud i sustem amgen.

**Byddwn yn ymgymryd ac adolygiad o'r Cyfansoddiad yn ystod y flwyddyn er sicrhau ei fod yn parhau yn gyfredol ac yn addas i bwrpas.**

Mae dwy elfen i hyn , diweddariadau sydd yn deillio o newidiadau statudol a addasiadau sydd yn cyfarch anghenion y Cyngor presennol a gwelliannau posib. Bydd y daith i benderfyniad yn amrywio yn ôl y testun ac mae adroddiad wedi ei chyflwyno i'r Cyngor Llawn ym Medi. Fodd bynnag bydd angen oedi ar yr elfen Pwyllgorau Craffu er cael cyfle i

adolygu ymateb i adroddiad Archwilio Cymru. Rhagwelir y bydd angen adolygu yr Adran Staff ynghyd a diweddariadau i' Cynllun Dirprwyo er cwblhau y gwaith. Er fod cynnal y Cyfansoddiad yn ofyn parhaol rhagwelir cwblhau y gwaith penodol yma yng Nghyngor Mawrth 2024.

## ETHOLIADAU A CHOFRESTRU ETHOLIADOL

### Byddwn yn gweithio i gefnogi y Swyddog Canlyniadau a'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn benodol yn cyfarch:

- **Ymateb i ffiniau newydd etholiadau DU**
- **Deddf Etholiadau 2022**
- **Paratoi ar gyfer newidiadau Etholiadol Senedd Cymru**

Rydym wedi sefydlu trefniadau ar gyfer etholiadau DU gyda Cynghorau Conwy a Dinbych lle mae ffiniau etholaethau yn croesi ffiniau sirol. Mae'r trefniadau ar gyfer cardiau adnabod yn weithredol ac mae'r trefniadau ar gyfer pleidleisio post (DU) yn cael eu sefydlu. Rydym wedi ymateb i bapur Gwyn y Llywodraeth ar drefniadau etholiadol Senedd Cymru ac yn disgwyl ar y camau nesaf. Mae rhaglen waith gynhwysfawr wedi ei chynhyrchu ar draws y meysydd yma ynghyd a threfniadau asesiad risg sydd yn destun monitro cyson. Rydym wedi penodi swyddog llawn amser ychwanegol gan ddefnyddion adnoddau grant i gefnogi y gwaith yma. Rydym hefyd yn dechrau gwaith cychwynnol ar gyfer etholiad(au) 2024 yn benodol ond mae'r rhaglen waith ymestyn ar hyd tymor y Cyngor.

### Byddwn yn dechrau ar y broses o benderfynu ar angen i gynnal Arolwg Cymunedol Statudol gan gasglu data, cynnal ymgysylltiadau cychwynnol

Adolygiad statudol yw hwn o drefniadau Cynghorau Tref a Chymuned y Sir sydd rhaid ei gynnal. Mae'r gwaith cychwynnol o gasglu gwybodaeth ac ymgysylltu wedi ei wneud.
Wedi derbyn y wybodaeth byddwn yn cloriannu yr hyn sydd wedi ei dderbyn gyda'r bwriad o adrodd i'r Pwyllgor Craffu ac yna y Cyngor Llawn ym Mis Mawrth gyda Cylch gorchwyl ar gyfer yr adolygiad. Bwriedir hefyd mynd ati i gynnal adolygiad etholiadol Cynghorau Tref a Chymuned yn gyfochrog a'r broses fydd yn ymestyn i'r flwyddyn ariannol nesaf. Bydd sgôp yr adolygiad yn cael ei ddiffinio fel rhan o'r broses yma. Bwriedir adrodd ar y rhan cyntaf o'r prosiect i'r Cyngor Llawn ym Mis Mawrth 2024 a chychwyn r yr adolygiad ym Mis Mehefin 2024 .

### Byddwn yn cynnal Adolygiad Mannau Pleidleisio.

Adolygiad statudol cyffredinol yw hwn o drefniadau mannau pleidleisio y Sir. Mae hyn yn waith cyson wrth gwrs yn sgil pob etholiad ond mae angen cynnal yr ymarfer penodol yma. Mae gwaith cychwynnol o gasglu gwybodaeth ac ymgysylltu wedi cychwyn, yn cynnwys anfon holiaduron i asesu addasrwydd pob gorsaf bleidleisio. Byddwn yn cloriannu'r

wybodaeth a cheisio cyngor arbenigol drwy'r Swyddog Cydraddoldeb ar hygyrchedd. Bydd y broses ymgynghori statudol yn cychwyn ym mis Mehefin 2024 gydag adroddiad i'r Cyngor Llawn ym mis Rhagfyr 2024 i gymeradwyo canlyniad yr adolygiad.

## CEFNOGAETH CRWNER

### Sefydlu y Swydd Uwch Grwner ar sail barhaol a sicrhau sail cynaliadwy.

Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i ddarparu adnoddau staff a swyddfa ynghyd a lleoliadau ar gyfer y gwasanaeth yma. Cafwyd cadarnhad gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn 2022 nad oedd adolygiad o Ardaloedd Crwneriaid Gogledd Cymru ac o ganlyniad penodwyd Uwch Grwner ar sail barhaol ar gyfer yr Ardal yn Mawrth 2023 . Mae hyn wedi caniatáu cynnal trafodaethau gyda'r Uwch Grwner i adnabod y gofynion a'r ymatebion bosib ar gyfer y swyddogaeth. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o'r drefn cyllido ac yn benodol hefyd costau cwest hir sydd yn gallu bod yn sylweddol. O benodi yn barhaol mae'r Crwner hefyd yn sefydlu gweithdrefnau i'r dyfodol. Bwriedir bod mewn sefyllfa i gwblhau y gwaith yma erbyn 31 Rhagfyr.

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **7 Tachwedd, 2023** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Craig ab Iago** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Carys Fôn Williams** |
| **Eitem:** | **ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET TAI AC EIDDO** |

---

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

---

**Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1. **Pwrpas** yr adroddiad hwn yw diweddaru'r Cabinet ar yr hyn sydd wedi digwydd yn fy meysydd fel Aelod Cabinet dros Dai ac Eiddo. Yn gryno bydd yn cynnwys diweddariad ar brosiectau o fewn Cynllun newydd y Cyngor 2023-2028, lle mae'r mesurau perfformiad arni, a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion ariannol.

1.2. **Yn gyffredinol rwy'n fodlon iawn gyda chynnydd y prosiectau sy'n cael eu harwain gan yr Adran yn unol â Chynllun y Cyngor a'r mesurau perfformiad yr wyf yn gyfrifol amdanynt. Nid oes dwywaith bod heriau digynsail yn ein hwynebu, ond rwy'n hyderus fod gan yr Adran gynlluniau addas i gyfarch y sefyllfa hyd eithaf ei gallu, fel sy'n cael ei egluro yn y fideo yma:** https://www.youtube.com/watch?v=XRQyicIcgvY

1.3. Mae'r sefyllfa ddigartrefedd Gwynedd yn parhau'n heriol wrth i'r mae'r pwysau a'r galw ar ein gwasanaethau barhau'n uchel. Mae 'sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd' yn flaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor 2023-2028, ac mae sawl cynllun, megis llety â chefnogaeth a phecynnau i landlordiaid preifat, ar y gweill ar hyn o bryd er mwyn ceisio lleihau ein dibyniaeth ar lety argyfwng anaddas. Gweler 2.1.1 i weld y cynlluniau hyn.

1.4. Mewn ymgais i gynyddu'r stoc dai sydd ar gael i'r Cyngor symud unigolion o lety dros dro i lety parhaol, mae'r Adran wedi dechrau gweithredu Cynllun Lesu Cymru: Gwynedd. Cynllun yw hwn sy'n annog landlordiaid preifat i lesu eu heiddo i ni am rent gwarantedig am gyfnod o 5-20 mlynedd. Mae hyn yn ei dro yn ein helpu i leihau ein dibyniaeth ar lety dros dro. Mwy am Gynllun Lesu Cymru: Gwynedd yn 2.1.6.

1.5. Mae'r argyfwng tai yn dal yr un mor fyw ag erioed, ac mae'r Adran yn parhau i weithredu'n rhagweithiol i roi cymaint â phosib o gyfleoedd i bobl Gwynedd fyw yn lleol trwy'r Cynllun Gweithredu Tai. Mae cerrig milltir allweddol ac uchafbwyntiau i'w gweld yng ngweddill yr adroddiad, er enghraifft rydym wedi prynu 16 o dai oddi ar y farchnad agored er mwyn eu gosod i bobl leol, ac mae'r Cynllun Prynu Cartref yn gwneud cynnydd da. Mwy am y cynlluniau hyn yn 2.2.9.

1.6. Fel mae pawb yn ymwybodol, mae costau ynni cynyddol yn golygu fod nifer o bobl y sir yn methu fforddio i gadw eu tai yn gynnes, ac o ganlyniad mae perygl gwirioneddol i iechyd rhai o'n trigolion. Dw i'n falch iawn felly bod staff yr Adran ar flaen y gad yn helpu pobl Gwynedd i fanteisio ar y cymorth sydd ar gael ar adeg heriol iawn yma. Mwy am hyn yn 2.3.

1.7. Mae'r holl faterion a nodir yma yn cael eu trafod yn gyson, ac wedi'u craffu gennyf ar y cyd â'r Prif Weithredwr, Pennaeth a Rheolwyr Gwasanaeth yr Adran ynghyd â chynrychiolwyr o'r Pwyllgor Craffu Gofal hefyd.

## 2. PROSIECTAU BLAENORIAETH CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2023-2028

**MAES BLAENORIAETH: GWYNEDD GLYD**

2.1. **Sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd**

2.1.1. Ar hyn o bryd mae 677 o unigolion yn ddigartref yng Ngwynedd, ac mae'n parhau'n destun pryder bod cymaint o bobl Gwynedd yn wynebu sefyllfa mor heriol. Mae nifer yr unigolion a theuluoedd mewn llety argyfwng hefyd yn parhau i fod yn uchel, gyda 237 o aelwydydd wedi eu lleoli mewn gwahanol safleoedd ar draws y Sir.

2.1.2. Mae'r Adran yn gwneud popeth o fewn ei gallu i gynnig datrysiadau i'r sefyllfa hon, a hefyd i godi ymwybyddiaeth o'r maes ymysg pobl Gwynedd. Er enghraifft, cafodd fideo ei ryddhau'n ddiweddar yn cynnwys un o swyddogion y Gwasanaeth Digartrefedd yn chwalu rhai o'r mythau mwyaf cyffredin am ddigartrefedd. Gellir gweld y fideo yma: https://youtu.be/pUjaVSeTe90%20

2.1.3. Dyma fanylu ar ambell brosiect a ffrwd waith sydd gan yr Adran ar y gweill:

2.1.4. **Atal Digartrefedd:** Mae rhai unigolion a theuluoedd yn cysylltu gyda'r Gwasanaeth Digartrefedd yn datgan eu bod mewn perygl o fod yn ddigartref, e.e. pan mae landlord yn rhoi rhybudd i ddod â thenantiaeth i ben. Ar gyfartaledd, mae swyddogion ar hyn o bryd yn llwyddo i atal tua 34% o bob achos o ddigartrefedd o fewn yr amser a ganiateir yn statudol.

2.1.5. Er nad ydym yn hoffi gweld pobl yn dod atom yn y sefyllfa yma, rydw i'n annog unrhyw un sydd mewn sefyllfa debyg neu'n adnabod rhywun yn y sefyllfa yma i gysylltu â ni cyn gynted â phosib er mwyn rhoi cyfle i swyddogion helpu i atal yr unigolion rhag bod yn ddigartref yn y lle cyntaf.

2.1.6. **Pecynnau cefnogaeth i landlordiaid preifat:** Mae'r Cynllun yma yn ei le ers blwyddyn erbyn hyn, a'i bwrpas ydi ceisio annog a chymell landlordiaid preifat i lesu eu heiddo i ni am gyfnod rhwng 5 a 25 mlynedd tra'n gwarantu rhent iddynt am y cyfnod. Mae'r Adran wedi llwyddo i ddenu grant o dros £2.7m i ddatblygu'r pecynnau hyn, ac rydym yn anelu at ddod â 100 o dai ar y Cynllun yn y deng mlynedd nesaf. Bydd hynny'n golygu bod gan y Cyngor ragor o dai rhent sector preifat mewn defnydd er mwyn ymdopi â'r galw cynyddol. Rydym bellach wedi llwyddo i ddenu 18 eiddo i'r Cynllun, ac mae gwaith uwchraddio ar y gweill mewn 4 ohonynt.

2.1.7. Rydw i'n falch iawn o ddweud bod y tenantiaid cyntaf wedi symud i mewn i 4 eiddo, sy'n golygu ein bod wedi helpu 14 o bobl sicrhau to uwch eu pennau. Mae swyddogion yn parhau i asesu 4 eiddo arall ac yn parhau i ymateb i fynegiannau o ddiddordeb.

2.1.8. **Cefnogaeth Iechyd Meddwl arbenigol:** Ffordd arall mae'r Gwasanaeth yn atal digartrefedd yw rhoi cefnogaeth i unigolion gyda phroblemau iechyd meddwl er mwyn osgoi sefyllfa ble mae'r unigolion bregus hyn yn colli eu tenantiaeth. Ers Medi 2022, mae dau swyddog penodol ar gyfer cefnogaeth iechyd meddwl wedi'u penodi sy'n cynyddu capasiti'r Gwasanaeth yn y maes yma ac yn atgyfnerthu'r cysylltiad a'r cydweithio rhwng y Bwrdd Iechyd a ninnau.

2.1.9. Mae'r swyddogion hyn eisoes wedi llwyddo i helpu 4 o bobl Gwynedd ac yn cydweithio gyda thros 40 arall ar hyn o bryd.

2.1.10. **Datblygiadau llety â chefnogaeth:** Mae Cynllun 1a y Cynllun Gweithredu Tai yn anelu i godi o leiaf 38 o unedau llety â chefnogaeth i unigolion digartref mewn lleoliadau ar draws y sir. Mae'r cyntaf o'r rhain wedi cwblhau ers i mi adrodd ddiwethaf, sef Caertref – podiau arloesol i'r digartref yng Nghaernarfon, ac mae 4 unigolyn yn eu galw'n gartref ar hyn o bryd. Cafodd y datblygiad hwn ei enwebu ar gyfer Gwobr '*Best supported housing development - rural/suburban'* yng Ngwobrau Inside Housing yn ddiweddar.

2.1.11. Rhai o'r cynlluniau eraill sydd ar y gweill yw:

| Datblygiad | Unedau | Diweddariad |
|---|---|---|
| 35 Ffordd y Coleg, Bangor | 3 | • Prif waith adnewyddu wedi gorffen gyda manion ar ôl gan gynnwys gosod cyflenwadau trydan<br>• Trafodaethau ar y gweill i sefydlu trefniadau rheoli safle<br>• Disgwyl cwblhau erbyn Tachwedd 2023 |
| Safle hen Ysgol Glan Wnion, Dolgellau | 5 | • Gwaith adeiladu wedi cwblhau, snagio a gwaith allanol e.e. canllawiau, gosod CCTV a chyflenwad trydan ar y gweill<br>• Disgwyl cwblhau erbyn Tachwedd 2023 |
| 137 Stryd Fawr, Bangor | 12 | • Adra wedi dechrau adeiladu<br>• Trafodaethau yn parhau i drafod les a threfniadau cefnogaeth<br>• Rhagdybir cwblhau'r gwaith erbyn Mawrth 2024 |
| Llety ym Mhwllheli | 2 | • Prif waith uwchraddio wedi cwblhau<br>• Materion ynni wedi'n dal yn ôl ond cyflenwadau'n mynd i mewn ganol Hydref<br>• Disgwyl cwblhau erbyn Tachwedd 2023 |
| Lle Da (adeilad NatWest/Gisda | 4 | • Prif waith ar yr unedau wedi cwblhau<br>• Manion i'w cwblhau e.e. cyflenwad trydan<br>• Gwaith yn parhau ar agweddau ychwanegol sy'n rhan o'r cynllun |

## 2.2. Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol

2.2.1. Rydw i'n cymryd pob cyfle i ategu'r neges bod Gwynedd mewn argyfwng tai. Mae'r galw yn llawer uwch na'r cyflenwad o dai addas sydd yn y sir i gartrefu ein pobl, a dyna pam mae'r flaenoriaeth hon wedi'i chynnwys fel blaenoriaeth benodol yng Nghynllun newydd y Cyngor. Nod y flaenoriaeth ydi cynyddu'r cyfleoedd i drigolion Gwynedd allu sicrhau cartref fforddiadwy, addas, ac sy'n gwella ansawdd eu bywyd.

2.2.2. **Rhaglen Ddatblygu Tai Cymdeithasol Gwynedd (PDP):** Fel rhan o brosiect 2a o'r Cynllun Gweithredu Tai, rydym yn cydweithio gyda'r Cymdeithasau Tai lleol i adeiladu mwy o dai cymdeithasol trwy gyflymu'r rhaglen adeiladu ac anelu i godi 700 o dai newydd dros oes y Cynllun.

2.2.3. Mae 179 o dai eisoes wedi'u codi sydd wedi cynnig cyfle i dros 300 o bobl Gwynedd gael tenantiaeth gymdeithasol yn eu sir. Mae hefyd 150 o unedau ar y gweill fydd yn dod ymlaen dros y flwyddyn nesaf.

2.2.4. **Tŷ Gwynedd / Prynu tir:** Mae Cynllun 3a: *Datblygu ein tai ein hunain er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i drigolion Gwynedd gystadlu yn y farchnad dai* yn gynllun cyffrous sy'n anelu i godi tai arloesol ar draws Gwynedd a fydd ar gael i'w prynu neu eu rhentu ar rent canolraddol. Bydd pob tŷ yn cael ei adeiladu yn seiliedig ar egwyddorion 'Tŷ Gwynedd', gan sicrhau eu bod yn hyblyg, yn wyrdd, yn ynni-effeithiol, ac wedi'u hadeiladu yn gynaliadwy.

2.2.5. Ers i mi adrodd ddiwethaf, mae dau gynllun wedi gwneud cynnydd nodedig, sef safle hen Lyfrgell Llanberis (3 thŷ), a Maes Twnti, Morfa Nefyn (9 tŷ). Derbyniodd safle Llanberis ganiatâd cynllunio fis Medi 2023, ac mae penseiri wedi'u penodi i ddatblygu cynlluniau ar gyfer safle Maes Twnti dros yr haf. Efallai i rai o'm cyd-aelodau gael cyfle i ymweld â phabell y Cyngor ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan, lle roedd cyfle i "gerdded" yn rhithiol trwy'r tai sydd wedi'u cymeradwyo yn Llanberis trwy ddefnyddio set Realiti Rhithiol (VR).


2.2.6. Gwaetha'r modd, mae gwaith ar ddatblygiad hen safle Ysgol Coed Mawr, Bangor (10 o dai) wedi oedi ar hyn o bryd oherwydd materion lefelau a draenio cynaliadwy ond mae'r Adran yn gweithio o gwmpas y cyfyngiadau a'r rhwystrau ar hyn o bryd.

2.2.7. Yn ddiweddar, prynwyd tir ym Mynytho a fydd, yn ddarostyngedig i dderbyn caniatâd cynllunio, yn cael ei ddefnyddio ar gyfer datblygiad Tŷ Gwynedd ac wedi cwblhau pryniannau tir yn Llanystumdwy a Chaernarfon.

2.2.8. Mae swyddogion yn parhau i chwilio ac asesu tiroedd addas ar gyfer adeiladu yn y dyfodol.

2.2.9. **Prynu i Osod:** Hoffwn atgoffa fy nghyd-aelodau o'r gwaith dygn sydd wedi, ac yn parhau i ddigwydd ar y cynlluniau hyn ac sy'n aml yn gorfod digwydd y tu ôl i'r llenni oherwydd ei natur sensitif a chyfrinachol.

2.2.10. Rydw i'n falch iawn o adrodd bod 16 tŷ wedi'i brynu fel y dangosa'r map isod, gyda 5 arall naill ai'n agos i gwblhau neu â chytundeb i brynu ac yn nwylo'r cyfreithwyr. Ein bwriad yw gosod y tai ar rent fforddiadwy i berson â chysylltiad lleol ac sydd mewn angen am dŷ o'r fath.





2.2.11. Er bod arwyddion bod y farchnad dai yn dechrau arafu, rydym yn dal i weld cystadleuaeth gref ar rai eiddo, a hoffwn sicrhau fy nghyd-aelodau nad ydym yn cystadlu gyda phobl Gwynedd am y tai hyn ac mae swyddogion wedi tynnu'n ôl rhag prynu 7 eiddo er mwyn osgoi sefyllfa o'r fath yn ddiweddar.

2.2.12. **Prynu Cartref:** Mae'r Cynllun hwn – cynllun i brynwyr tro cyntaf, neu i unigolion a theuluoedd sy'n cael trafferth fforddio prynu cartref addas ar y farchnad agored – yn gallu cynnig benthyciad di-log i gau'r bwlch rhwng pris eiddo a'r hyn y gall unigolion ei gynnig ar ffurf morgais a blaendal. Y nod trwy hyn yw gwneud tai yn fforddiadwy i drigolion sy'n cael trafferth cael morgais digonol i brynu tŷ ar y farchnad agored yn eu hardal leol. Ariennir y cynllun trwy gyfuniad o gyllid o Gronfa Premiwm Treth Cyngor Gwynedd, a chyllid gan y Llywodraeth fel rhan o Beilot Ail Gartrefi Dwyfor.

2.2.13. Ers ei lansio ar 13 Medi, 2022, mae 31 o dai wedi'u cymeradwyo ar draws Gwynedd, 15 arall wedi'i gymeradwyo ac yn chwilio am eiddo addas, a 7 o geisiadau yn y broses ymgeisio.

2.2.14. Yn ddiweddar mae swyddogion yr Adran ar y cyd â phartneriaid o Tai Teg a Pheilot Dwyfor, wedi cynyddu'r ymdrechion i gyfathrebu mwy am y cyfleoedd sydd ar gael trwy'r Cynllun yma, er enghraifft, fideo yn egluro beth ydi'r cynllun, ac maent wrthi'n gweithio ar greu astudiaeth achos fydd, gobeithio, yn rhoi blas i ddarpar ymgeiswyr addas o'r broses a'r buddion sy'n dod ohoni.

2.2.15. **Grantiau Prynwyr Tro Cyntaf i adnewyddu tai gwag:** Rhan arall o ymdrechion yr adran i fynd i'r afael â'r argyfwng tai yw cynnig cymorth i bobl leol adnewyddu tai gweigion, a hynny trwy roi grant i brynwyr tro cyntaf ddod â thŷ a fu'n arfer bod yn wag yn ôl i safon byw derbyniol. Mae'r map ar y chwith yn dangos y lleoliadau ble mae unigolion neu deuluoedd wedi derbyn grant gennym a'r tabl isod yn dangos y rhaniad yn ôl statws cwblhau ar gyfer Arfon, Dwyfor a Meirionnydd.



| | Wedi cwblhau | Ar y gweill | Gwariant hyd yma |
|---|---|---|---|
| **Arfon** | 25 | 7 | £313,620 |
| **Dwyfor** | 9 | 2 | £124,883 |
| **Meirionnydd** | 16 | 7 | £194,495 |

2.2.16. Fel y gwelir, mae'r ffigyrau yn iach iawn ar y cyfan, er ychydig yn isel yn Nwyfor, a byddwn yn annog unrhyw un sydd â thŷ gwag sydd angen gwaith arno i'w uwchraddio i safon byw derbyniol i gysylltu efo'r tîm Tai Gwag i gael sgwrs bellach.

2.2.17. Fel pob cynllun sydd ar waith gan yr Adran, mae swyddogion yn ceisio bod yn fyw i unrhyw newidiadau neu anghenion ychwanegol all godi wrth i amser fynd ymlaen. Enghraifft o hyn ydi i'r Adran gyhoeddi addasiad i'r cynllun hwn yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan eleni, sy'n golygu bod tai a fu'n arfer bod yn ail gartrefi gweigion bellach yn gymwys i dderbyn y grant hefyd. Mae 3 pherson na fyddent wedi derbyn y grant cyn hyn, bellach wedi derbyn ein cefnogaeth yn sgil y newid yma. Mae stori un ohonynt i'w gweld yma: https://youtu.be/NciWCH5Wrkg

## 2.3. Ymdrin efo'r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd

2.3.1. Mae costau ynni cynyddol yn golygu fod nifer o bobl y sir yn methu fforddio cadw eu tai yn gynnes, ac o ganlyniad mae perygl gwirioneddol i iechyd rhai o'n trigolion. Mae'n bleser gen i felly ddweud bod yr Adran wedi sefydlu Gwasanaeth Ynni newydd sy'n cydweithio gyda'n partneriaid i hyrwyddo a hwyluso cynlluniau arbed ynni, grantiau, a budd-daliadau er mwyn sicrhau fod cymaint o bobl â phosib yn manteisio ar y cymorth sydd ar gael ar adeg heriol iawn.

2.3.2. Mae'r ddwy brif ffrwd (sef Datgarboneiddio Tai, ac Ymgynghori gyda'r cyhoedd ar Dlodi Tanwydd) yn gwneud cynnydd da ac mae'r cynadleddau tlodi tanwydd sydd wedi'u cynnal mewn nifer o gymunedau ar draws Gwynedd wedi rhoi help llaw a chyngor ymarferol i bobl gyda'u sefyllfa.

2.3.3. Er enghraifft, ers dechrau'r cynllun mae 2603 taleb ynni wedi'i ddosbarthu, sy'n gyfwerth â chyfanswm o £95,867 – arian sydd wedi mynd yn uniongyrchol i helpu pobl Gwynedd.

2.3.4. Mae'r Adran hefyd yn ymwneud â Chynllun ECO 4 a Chynllun Nyth – cynlluniau sy'n darparu cymorth i wella effeithlonrwydd ynni tai. Mae 236 o geisiadau ECO wedi'u cymeradwyo rhwng Mawrth ac Awst eleni, ac oddeutu 57 o dai bellach wedi cwblhau ac wedi gweld gwelliant yn eu Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC). Mae 248 o gyfeiriadau wedi'u cyflwyno i Nyth ers Mehefin 2023, a 67 o dai wedi derbyn mesurau i wella effeithlonrwydd ynni, megis bwyleri newydd.

2.3.5. Mae prosiect arloesol ar y gweill i sefydlu rhwydwaith gwres yn Nhanygrisiau hefyd, ac rydym wedi bod yn llwyddiannus yng ngham cyntaf y broses o ymgeisio am gyllid cyfalaf ar gyfer gwireddu'r cynllun yma trwy Innovate UK. Bydd y cynllun yn edrych i ddarparu gwres rhatach i drigolion drwy ddefnyddio ffynonellau adnewyddol lleol. Byddwn yn cael gwybod yn yr wythnosau nesaf a fyddwn yn llwyddiannus ai peidio.

**<u>MAES BLAENORIAETH: GWYNEDD EFFEITHLON</u>**

2.4. **Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo er mwyn sicrhau bod ein hystâd yn addas i bwrpas ar gyfer gweithio yn y dyfodol**

2.4.1. Mae bwriad i fabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo o'r newydd a fydd yn amlinellu cynllun y Cyngor o ran defnyddio'i adeiladau i ddarparu gwasanaethau. Mabwysiadwyd y Cynllun Rheoli Asedau Eiddo diwethaf yn 2016, ac mae newid sylweddol wedi bod mewn trefniadau gweithio a darpariaeth gwasanaeth ers hynny.

2.4.2. Mae'r Adran wedi dechrau ar drafodaethau rheolaidd i edrych ar reolaeth a rhesymoli'r ystâd yn unol â blaenoriaethau'r Cyngor ac anghenion y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer trigolion Gwynedd.

2.4.3. Mae'r Adran hefyd yn rhan allweddol o drafodaethau i wneud unrhyw addasiadau angenrheidiol i'n swyddfeydd er mwyn eu bod yn addas ar gyfer ffyrdd newydd o weithio i'r dyfodol.

3. **Risgiau eraill**

Mae ambell risg i'r Adran sydd angen i mi eu hamlygu ar hyn o bryd.

3.1. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r pwysau a'r galw ar y **Gwasanaeth Digartrefedd** yn parhau yn uchel ac mae'r costau sydd ynghlwm â'n dibyniaeth ar lety argyfwng yn destun pryder i mi a'r Adran, yn enwedig tra mae ffynonellau ariannol gan y Llywodraeth wedi dod i ben.

3.1.1. Fel sydd eisoes wedi'i nodi, mae cynlluniau ar y gweill i geisio lleihau ein defnydd o lety argyfwng anaddas, a'r costau sydd ynghlwm â hynny, a thrwy hynny gynyddu ein hopsiynau i ddarparu llety addas i'r rhai sy'n ddigartref yng Ngwynedd. Bydd hyn yn ei dro hefyd yn cyfarch y costau uchel sydd ynghlwm â lletyai o'r fath.

3.1.2. Mae'r **Uned Ailsefydlu Ffoaduriaid** wedi bod ar flaen y gad yn cefnogi ffoaduriaid sy'n cyrraedd Gwynedd o Wcrain, a bu'r Uned yn rhedeg y Ganolfan Groeso ym Mangor ar y cyd â phartneriaid tan i'r Llywodraeth eu cau ym mis Mehefin. Ers hynny, mae nifer o ffoaduriaid wedi ailsefydlu gyda noddwyr ar draws y Sir trwy'r Cynllun Noddwyr, dan nawdd Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, tra mae'r rhan fwyaf o'r noddwyr yn derbyn Taliadau Diolch bob mis (£500), pe na bai'r cynllun yn cael ei ymestyn neu ei ddisodli gan rywbeth tebyg, mae risg i ddigartrefedd gynyddu eto.


3.1.3. Rhagwelir bydd **costau ynni'r Cyngor** yn parhau yn ansefydlog ac mae perygl o gael effaith Ariannol sylweddol ar y Cyngor. O safbwynt nwy, mae'r fframwaith yn dod i ben ym mis Ebrill 2024 ac mae'r rhagolygon yn darogan cynnydd o oddeutu 125% ar gost yr uned.

3.1.4. Wrth symud ymlaen ac er mwyn lleddfu'r ergyd ariannol, mae'r Adran yn pwysleisio'r angen i ddefnyddwyr adeiladau'r Cyngor (boed yn swyddfeydd, ysgolion ac eraill) i fanteisio ar bob cyfle i wneud y defnydd mwyaf synhwyrol o'u hynni, er enghraifft, sicrhau eu bod yn diffodd goleuadau pan nad oes defnydd o ystafell a thros nos. I'r perwyl hwn, mae'r Adran wedi ymgynghori gyda'r Adran Addysg i hysbysu penaethiaid ysgolion o'r arferion da hyn a bydd y Gwasanaeth Ynni yn parhau i fonitro defnydd ynni ar draws ein safleoedd er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r ynni.


## 4. PERFFORMIAD

4.1. Dyma amlinellu rhai o'r prif faterion sy'n deillio o'r adroddiad perfformiad diwethaf a gyflwynwyd gan yr Adran ar berfformiad mis Awst 2023. Nid yw'r wybodaeth yn cyfeirio at bob gwasanaeth yn yr adran, dim ond y rhai hynny y teimlwn fod angen tynnu eich sylw atynt. Hoffwn ddweud fy mod yn fodlon gyda pherfformiad yr Adran mewn cyfnod mor heriol.

4.2. Mae allyriadau carbon y Cyngor, dan oruchwyliaeth y **Gwasanaeth Cadwraeth Ynni**, wedi bod yn gyson o dan 18%**,** gyda chwymp graddol pellach yn ystod 2023. Roedd yr allyriadau carbon rhwng Ionawr ac Awst eleni 1 miliwn tunnell yn llai na'r un cyfnod yn 2019, sy'n gyfatebol i 24% yn llai. Nid ydym erioed wedi gweld cymaint o ostyngiad mewn lefelau nwy dros yr un haf o'r blaen, sydd o ganlyniad i waith dygn y swyddogion ynni.





4.3. Mae'r nifer o **dai gwag sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd** yn sgil cefnogaeth gan y Cyngor wedi cynyddu i 179, o gymharu â 104 pan adroddwyd y tro diwethaf. Mae hyn trwy gyfuniad o nifer o gynlluniau sydd ar gael gennym i gynorthwyo pobl Gwynedd i drosi tŷ segur yn gartref, a'r mwyaf poblogaidd yw grantiau prynwyr tro cyntaf i adnewyddu tai gwag, gydag 11 yn cael ei ddyrannu ym mis Awst eleni. Fel y dangosa'r graff isod hefyd, rydym ar y blaen i'r uchelgais blynyddol a nodwyd fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Tai.





4.4. Mae'r Adran yn mesur y **nifer o bobl sydd wedi derbyn cymorth i fyw mewn tŷ yn lleol** trwy gymorth y Cynllun Gweithredu Tai. Mae'r ffigwr hwn yn galonogol iawn, gyda 3843 o gyfleoedd wedi'u creu trwy nifer o gynlluniau megis Prynu i Osod, Prynu Cartref, codi Tai Cymdeithasol trwy'r PDP, rhoi eithriad Treth Cyngor ychwanegol i unigolion sy'n berchen ac


yn adnewyddu tai gweigion, benthyciadau di-log i wella cyflwr tai a grantiau i wneud tai yn gartrefi addas i unigolion ag anableddau.





4.5. Fel y gwelir uchod, mae cynyddu'r cyfleoedd sydd gan bobl leol i fyw yn lleol yn un o flaenoriaethau'r Adran. Ffordd arall o wneud hyn yw cydweithio gyda'r Cymdeithasau Tai ar y Rhaglen Ddatblygu Tai Cymdeithasol trwy ddarparu cyllid i'r cymdeithasau adeiladu unedau preswyl ar draws y sir yn unol ag anghenion lleol. Ers dechrau'r cynllun mae 179 o dai fforddiadwy wedi'u codi yma yng Ngwynedd. Bydd £12,304,577 o arian Grant Tai Cymdeithasol sydd wedi ei ddenu ar gyfer 22/23 yn darparu 123 o dai cymdeithasol a 21 o dai canolraddol.




4.6. Mae'r **nifer o ddyddiau ar gyfartaledd mewn llety argyfwng anaddas** wedi sefydlogi ers mis Mai, gyda chyfartaledd o **182 diwrnod** dros y pedwar mis diwethaf, a'r **nifer o ddyddiau ar gyfartaledd mewn llety dros dro** (tai preifat sy'n cael eu prydlesu gennym) yn **332** diwrnod (gostyngiad bychan ers y tro diwethaf i mi adrodd). Er nad oes datrysiad hawdd a chyflym i'r broblem hon, mae'r pecyn o gynlluniau sydd yn y Cynllun Gweithredu Tai ac ymdrechion swyddogion y Gwasanaeth Digartrefedd i atal digartrefedd, yn ceisio mynd i'r afael â'r sefyllfa. Mae hyn yn ogystal â'r cynlluniau sydd gennym i ostwng ein gwariant a'n dibyniaeth ar lety dros dro.




## 5. SEFYLLFA ARIANNOL/ARBEDION

5.1. Yn dilyn adolygiad diweddar o sefyllfa'r adran, rhagwelir £61k o orwariant eleni – mae hyn yn dilyn dyraniad o £1.4m o arian Covid Corfforaethol un tro, yn ogystal â dyraniad o £3.1m o'r Premiwm Treth Cyngor yn sgil y cynnydd rhwng 100% a 150%. Yn ogystal, mae'r adran ar drac i wireddu arbedion o £499k.

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

**Pennaeth Cyllid:**

Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol yr Adran Tai ac Eiddo.

---